



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# **BIL SENEDD CYMRU (AELODAU AC ETHOLIADAU)**

**Memorandwm Esboniadol**  
yn ymgorffori'r  
Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r  
Nodiadau Esboniadol

**Ebrill 2024**

# **Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)**

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad Llywodraeth Cymru, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru.

Cafodd ei baratoi a'i osod yn wreiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 ym mis Medi 2023, a gosodir yn awr Femorandwm diwygiedig yn unol â Rheol Sefydlog 26.28.

### **Datganiad yr Aelod**

Yn fy marn i byddai darpariaethau Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a gyflwynir gennyf i ar 18 Medi 2023, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

### ***Mick Antoniw AS***

Y Cwnsler Cyffredinol  
Yr Aelod o'r Senedd sy'n gyfrifol am y Bil

23 Ebrill 2024

# Tudalen gynnwys



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL.....	4
Pennod 1:    Disgrifiad.....	4
Pennod 2:    Cymhwysedd Deddfwriaethol .....	9
Pennod 3:    Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael .....	10
Cyd-destun y Bil a'r angen amdano .....	10
Yr effaith y bwriedir ei chael: yr hyn a wna'r Bil.....	57
Pennod 4:    Ymgynghori .....	88
Y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Comisiwn Richard), 2004.....	91
Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk), 2014.....	94
Creu Senedd i Gymru: ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Gomisiwn y Senedd, 2018 .....	99
Ddiwygio'r Senedd: Y camau nesaf – Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd (Medi 2020) .....	107
Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 2022 .....	112
Ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Bwyllgor Busnes y Senedd, 2022....	113
Pennod 5:    Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth .....	118
Rhan 2 – ASESAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL .....	122
Pennod 6:    Crynodeb o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol.....	122
Costau gweinyddu .....	122
Costau cydymffurfio .....	124
Costau eraill.....	124
Costau ac anfanteision heb eu meintoli .....	124
Manteision .....	125
Tystiolaeth, rhagdybiaethau ac ansicrwydd allweddol .....	125
Pennod 7:    Yr opsiynau.....	126
Pennod 8:    Costau a manteision .....	127
Opsiwn 1. Busnes fel arfer.....	127
Opsiwn 2. Rhoi Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ar waith ...	129

Rhan 3 – ASESIADAU EFFAITH.....	188
Pennod 9:    Asesiad Effaith Integredig.....	188
Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig.....	189
Crynodeb o'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb.....	197
Crynodeb o'r Asesiad Effaith ar Hawliau Plant .....	197
Crynodeb o'r Asesiad Effaith ar Breifatrwydd .....	204
Crynodeb o'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg.....	204
Crynodeb o'r Asesiad Effaith ar Fioamrywiaeth .....	206
Asesiad Effaith ar Gyfiawnder.....	207
Pennod 10:    Asesiad Fforddiadwyedd .....	211
Dull .....	211
Cyrff .....	212
Crynodeb Cyffredinol .....	221
Pennod 11:    Adolygu ar ôl Gweithredu .....	224
Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol .....	225
Atodiad 2: Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog .....	246
Atodiad 3: Atodlen o ddiwygiadau .....	253
Atodiad 4: Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar briodoldeb darpariaethau i godi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer tâl Dirprwy Lywydd ychwanegol 361	
Atodiad 5 – Rhagdybiaethau Cyffredin Comisiwn y Senedd .....	362
Rhagdybiaethau deddfwriaethol .....	362
Rhagdybiaethau'n gysylltiedig â busnes.....	362
Y ddwy senario .....	363
Lwfansau'r Aelodau .....	363
Deiliaid swyddi.....	364
Staffio .....	364
Llety .....	364

# RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

## Pennod 1: Disgrifiad

1. Mae rôl a chyfrifoldebau Senedd Cymru, neu'r Senedd fel y'i gelwir fel arfer, wedi cynyddu'n sylweddol ers iddi gael ei sefydlu yn 1999. Bryd hynny nid oedd gan y corff unrhyw bwerau deddfu sylfaenol, nid oedd wedi'i wahanu'n ffurfiol oddi wrth Lywodraeth Cymru, a'i enw oedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Erbyn hyn mae'r corff hwn a etholir yn ddemocrataidd yn gwneud cyfreithiau, yn gosod trethi ac yn dal Llywodraeth Cymru i gyfrif mewn rhai o'r meysydd sy'n cael yr effaith fwyaf ar fywyd pobl. Mae'n cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl ac yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar fywydau pawb yng Nghymru.
2. Mae'r Senedd bellach yn gweithredu ar sail model cadw pwerau, yn dilyn y diwygiadau a wnaed i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gan Ddeddf Cymru 2017. Mae'n gyfrifol am drethi Cymru, gan gynnwys pwerau amrywio treth incwm. Yn ogystal ag ystyried deddfau a roddir gerbron gan Lywodraeth Cymru,<sup>1</sup> mae hefyd yn penderfynu a yw am gydsynio i ddeddfwriaeth y DU sy'n ymwneud â chymhwysedd datganoledig Cymru.
3. Dros y ddau ddegawd diwethaf mae cyfres o adroddiadau wedi cynnig diwygiadau i'w gwneud i'r Senedd, gyda'r bwriad o sicrhau bod ganddi'r capasiti i gyflawni ei chyfrifoldebau'n effeithiol. Efen allweddol sydd wedi cael ei nodi'n gyson ar gyfer mynd i'r afael â chapasiti'r Senedd yw cyfanswm nifer yr Aelodau (sy'n effeithio ar allu Aelodau unigol i wneud gwaith craffu).
4. Yn 2004, argymhellodd Comisiwn Richard y dylid, o ganlyniad i ddatganoli pwerau deddfwriaethol sylfaenol:

---

<sup>1</sup> Ynghyd â deddfwriaeth a gyflwynir gan Aelodau unigol o'r Senedd, Pwyllgorau'r Senedd a Chomisiwn y Senedd.

*“cynyddu gallu ymarferol y Cynulliad, trwy gyfuniad o adolygu ei ddulliau gweithio a chynyddu ei Aelodaeth o 60 i 80 – gyda goblygiadau i'r dull ethol;”<sup>2</sup>*

5. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, yn 2014, argymhellodd Comisiwn Silk y dylid cynyddu maint y Senedd er mwyn iddi allu cyflawni ei rôl graffu yn well. Wrth ddod i'r casgliad hwn, dywedodd:

*“Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn fach o'i gymharu â Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon a'r cyrff rhyngwladol cymharol. Rydym i gyd yn glir bod hyn yn achosi problemau o ran llywodraethu effeithiol. Mae'r hyn a oedd o bosibl yn briodol cyn rhoi rôl deddfu lawn i'r Cynulliad Cenedlaethol (er bod amheuon yn ei gylch hyd yn oed bryd hynny) yn sicr yn llai priodol yn awr. Nid oes digon o gryfder mewn dyfnder, ac ystyried nifer yr Aelodau sy'n gwasanaethu ar fwy nag un pwyllgor. Mae'n anodd arbenigo ac nid yw mor rhwydd iddynt graffu mewn ffordd sy'n cadw llywodraethau ar flaen eu traed. Bydd y broblem hon yn tyfu'n sylweddol pan fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn dechrau craffu ar deddfwriaeth ym maes trethu, a bydd yn cynyddu eto fyth os bydd y cyfrifoldebau ychwanegol pwysig yr ydym yn eu hargymell yn yr adroddiad hwn yn cael eu rhoi i'r Cynulliad Cenedlaethol.”<sup>3</sup>*

6. Roedd Comisiwn Silk yn cydnabod y byddai'r cynnydd hwn yn golygu costau ariannol. Fodd bynnag, ym marn y Comisiwn, “Rhaid wrth graffu da i gael deddfwriaeth dda, ac mae deddfwriaeth dda yn talu amdani ei hun.”<sup>4</sup>

7. Yn 2015, datganodd Comisiwn trawsbleidiol y Cynulliad<sup>5</sup> y farn unfrydol ganlynol:

*“Gyda dim ond 60 o Aelodau, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn fach yn ôl unrhyw gymhariaeth genedlaethol neu ryngwladol wrthrychol. Does dim digon o Aelodau'r Cynulliad, yn enwedig o ran eu gwaith pwyllgor, a bydd y pwysau hyn yn dwysáu wrth i'n cyfrifoldebau deddfwriaethol a chyllidol gynyddu... Barn Comisiwn y Cynulliad yw bod angen rhwng 80 a 100 o Aelodau ar y Cynulliad os yw am ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn briodol neu graffu*

---

<sup>2</sup> Adroddiad Comisiwn Richard: Y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pennod 13, Paragraff (para) 33

<sup>3</sup> Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru, Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, Mawrth 2014, [nationalarchives.gov.uk](http://nationalarchives.gov.uk), Para 13.3.4

<sup>4</sup> Ibid, para 13.3.6

<sup>5</sup> Mae Comisiwn y Senedd yn cynnwys Llywydd y Senedd a phedwar Aelod o'r Senedd. Mae'n gyfrifol am sicrhau bod eiddo, staff a gwasanaethau'n cael eu darparu ar gyfer y Senedd.

*ar y nifer cynyddol o bolisiau a deddfwriaethau y mae'r sefydliad yn gyfrifol amdanynt;*"<sup>6</sup>

8. Roedd Deddf Cymru 2017 yn datganoli pwerau i'r Senedd mewn perthynas â'i maint a'i threfniadau etholiadol. Ym mis Chwefror 2017, wrth rag-weld y byddai pwerau o'r fath yn dod i rym, sefydlodd Comisiwn y Senedd y Panel Arbenigol ar Ddiwygio'r Cynulliad.
9. Gwnaeth adroddiad y Panel Arbenigol, *Senedd sy'n gweithio i Gymru*, argymhellion ar faint y Senedd, ei system etholiadol a'i ffiniau, ac ar amrywiaeth yn y Senedd.<sup>7</sup> Yn benodol, argymhellodd y dylid cynyddu maint y sefydliad i "o leiaf 80 Aelod, a gorau oll pe byddai'n nes at 90 Aelod."<sup>8</sup> Wrth ystyried gwahanol systemau etholiadol, defnyddiodd y Panel Arbenigol yr egwyddor hon: "ni ddylai'r system gael cynrychiolaeth sy'n llai cyfrannol na threfniadau etholiadol presennol y Cynulliad, a dylai, o ddewis, fod yn fwy cyfrannol."<sup>9</sup>
10. Yn dilyn hynny, cafodd nifer o argymhellion y Panel Arbenigol ynghylch etholfraint y Senedd sylw yn Neddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, gan gynnwys gostwng yr oedran pleidleisio yn etholiadau'r Senedd i 16. Roedd Memorandwm Esboniadol y Ddeddf honno yn rhag-weld y byddai rhagor o ddiwygiadau'n dilyn, ac yn disgrifio'r ddeddfwriaeth fel y:

*"cam cyntaf mewn strategaeth ddeddfwriaethol i ddatblygu'r diwygiadau... Rhagwelir y bydd ail gam y strategaeth ddeddfwriaethol yn ymgorffori'r system etholiadol a maint y Cynulliad."*<sup>10</sup>

11. Yn 2018 cafodd argymhellion y Panel Arbenigol eu cynnwys yn ymgynghoriad cyhoeddus Comisiwn y Senedd, *Creu Senedd i Gymru*, a dderbyniodd dros 3,200 o ymatebion.<sup>11</sup> Yn drawiadol, o blith y

---

<sup>6</sup> Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Dyfodol y Cynulliad: sicrhau capasiti i gyflawni ar gyfer Cymru, Ionawr 2015; Tudalennau 7 ac 13 [Dyfodol y Cynulliad-W.pdf \(senedd.cymru\)](#).

<sup>7</sup> Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, [Senedd sy'n gweithio i Gymru](#), Tachwedd 2017.

<sup>8</sup> Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, [Senedd sy'n gweithio i Gymru](#), Tachwedd 2017, Argymhelliad 1

<sup>9</sup> Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, [Senedd sy'n gweithio i Gymru](#), Tachwedd 2017, Para 10.02

<sup>10</sup> Comisiwn y Senedd, [Deddf Senedd ac Etholiadau \(Cymru\) – Memorandwm Esboniadol](#), Chwefror 2019, para 6

<sup>11</sup> Comisiwn y Senedd, [Creu Senedd i Gymru: Adroddiad ar yr ymgynghoriad](#), Hydref 2018, tudalen 6

1,800 o ymatebion i gwestiynau am faint y Senedd, roedd y mwyafrif o'r farn fod angen mwy o Aelodau ar y sefydliad er mwyn iddo gyflawni ei rôl yn effeithiol.

12. Yn 2019, sefydlwyd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd i ystyried argymhellion y Panel Arbenigol. Cyhoeddodd ei adroddiad, *Diwygio'r Senedd: Y camau nesaf*, ym mis Medi 2020, gan gytuno y dylid cynyddu maint y Senedd. Dywedodd fod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a glywodd:

*“yn mynegi pryder ynghylch a oes gan Senedd â 60 Aelod ddigon o gapasiti i gyflawni ei chyfrifoldebau'n effeithiol.”<sup>12</sup>*

13. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd y dylai'r Aelodau gael eu hethol drwy system Pleidlais Sengl Dros-glwyddadwy ('STV'). Dywedodd fod pandemig Covid-19 wedi cyfyngu ar ei waith yn archwilio'r trefniadau adolygu ffiniau, ac nad oedd felly wedi dod i gasgliadau pendant ar y mater hwnnw. Fodd bynnag, dywedodd “ei fod yn anghyson ac yn anghynaliadwy” nad oes mecanwaith deddfwriaethol ar waith ar gyfer adolygu ffiniau'r Senedd. Ar y sail hon, argymhellodd y dylid cyflwyno cynigion deddfwriaethol i sefydlu trefniadau adolygu ac mai corff annibynnol ar gyfer adolygu ffiniau ddylai fod yn gyfrifol am adolygiad o'r fath.

14. Ym mis Rhagfyr 2021 ymrwymwyd yn Rhaglen Lywodraethu ddiwygiedig Llywodraeth Cymru,<sup>13</sup> a oedd yn cynnwys y Cytundeb Cydweithio (a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021), i gyflwyno deddfwriaeth i ddiwygio'r Senedd i un sy'n seiliedig ar 80 i 100 o Aelodau, ar sail system bleidleisio sydd yr un mor gyfrannol â'r un bresennol neu'n fwy cyfrannol, ac i gyflwyno cwotâu rhywedd wedi'u pennu mewn cyfraith.

15. Cafodd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd hefyd ei sefydlu yn 2021, gyda chylch gwaith i ystyried y casgliadau a wnaed yn flaenorol gan y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, ac i

---

<sup>12</sup> Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, *Diwygio'r Senedd: Y camau nesaf*, Medi 2020, para 22.

<sup>13</sup> Llywodraeth Cymru, [Y Rhaglen Lywodraethu](#), Mehefin 2021.



wneud argymhellion ar gyfarwyddiadau polisi ar gyfer Bil Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio'r Senedd. Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor, *Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru*, yn 2022<sup>14</sup>, a oedd yn cynnwys argymhellion ar gyfarwyddiadau polisi ar gyfer deddfwriaeth ar Ddiwygio'r Senedd erbyn etholiad nesaf y Senedd yn 2026.

16. Ym mis Mehefin 2022, pleidleisiodd y Senedd o blaid cymeradwyo adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig. Ym mis Gorffennaf 2022, ymatebodd Llywodraeth Cymru yn ffurfiol<sup>15</sup> i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig, gan ddatgan y byddai'n llunio ac yn cyflwyno deddfwriaeth ar Ddiwygio'r Senedd er mwyn bwrw ymlaen ag argymhellion y Pwyllgor. Nodwyd yn yr ymateb y byddai dadansoddiad polisi a chyfreithiol pellach yn cael ei gynnal lle y bo'n briodol er mwyn pennu'r manylion sydd eu hangen i weithredu'r argymhellion, yn enwedig mewn perthynas ag argymhellion lefel uwch y Pwyllgor.
17. O ganlyniad, mae Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) wedi cael ei lunio er mwyn cyflawni argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd.
18. Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi cael ei lunio a'i osod yn unol â Rheol Sefydlog 26.6.<sup>16</sup>
19. Mae'n egluro cefndir darpariaethau a chwmpas y Bil, ac yn cynnwys asesiad o oblygiadau ariannol y Bil, ac amryw o asesiadau effaith.

---

<sup>14</sup> Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, *Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru*, Mai 2022.

<sup>15</sup> Llywodraeth Cymru, Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Gorffennaf 2022, [gen-ld15253-w.pdf \(senedd.cymru\)](#).

<sup>16</sup> Mae Atodiad 2 – Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog yn nodi ble mae pob un o ofynion Rheol Sefydlog 26.6 yn cael eu bodloni yn y Memorandwm Esboniadol hwn.

## Pennod 2: Cymhwysedd Deddfwriaethol

20. Mae gan Senedd Cymru ("y Senedd") y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (Cymru) yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

## Pennod 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

21. Mae'r bennod hon yn cynnwys:

- Cyd-destun Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a'r angen amdano (is-bennod 3.1); ac
- Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth eich chael (is-bennod 3.2).

### **Cyd-destun y Bil a'r angen amdano**

22. Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig, diben cyffredinol y Bil yw gwneud y Senedd yn ddeddfwrfa fwy effeithiol ar gyfer, ac ar ran, pobl Cymru. Mae'r diben hwn yn adlewyrchu bwriad y Pwyllgor Diben Arbennig, a nodwyd yn ei adroddiad, i sicrhau "senedd gryfach i gynrychioli pobl Cymru."<sup>17</sup>

23. Mae darpariaethau'r Bil yn darparu ar gyfer:

- cynyddu maint y Senedd i 96 o Aelodau;
- cynyddu'r terfyn deddfwriaethol ar Weinidogion Llywodraeth Cymru i 17 (yn ychwanegol at y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol), gyda'r pŵer i gynyddu'r terfyn hwn ymhellach i 18 neu 19<sup>18</sup>;
- cynyddu'r nifer mwyaf o Ddirprwy Lywyddion y gellir eu hethol o'r tu mewn i'r Senedd i ddau;
- newid system etholiadol y Senedd fel bod yr holl Aelodau'n cael eu hethol drwy system rhestr gyfrannol gaeedig, gyda'r pleidleisiau'n cael eu trosi i seddi drwy fformiwla D'Hondt;
- addasu ac ailenwi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, gan gynnwys:

---

<sup>17</sup> Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Mai 2022, Rhagair y Cadeirydd, Tudalen 7

<sup>18</sup> Ni chaniateir gwneud offeryn statudol o dan y pŵer hwn oni bai bod penderfyniad wedi'i wneud yn gyntaf gan y Senedd yn cymeradwyo'r offeryn drafft, a bod nifer yr Aelodau sy'n pleidleisio o blaid y penderfyniad hwnnw'n cyfateb i o leiaf ddwy ran o dair o gyfanswm seddi'r Senedd (h.y. mewn Senedd 96 sedd, bydd angen i o leiaf 64 Aelod gymeradwyo'r penderfyniad).

- rhoi i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, o dan ei enw newydd, y swyddogaethau angenrheidiol er mwyn iddo allu sefydlu etholaethau Senedd newydd a chynnal adolygiadau parhaus o ffiniau etholaethau'r Senedd;
- rhoi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn eu dilyn wrth gynnal adolygiadau o ffiniau:
  - newid y cyfnod arferol rhwng etholiadau cyffredinol cyffredin y Senedd yn ôl i bedair blynedd;
  - ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr i'r Senedd ac Aelodau ohoni breswyllo yng Nghymru;
  - pŵer i ddiweddarau terfynau gwariant ymgyrchoedd etholiadol i adlewyrchu'r newid i 16 o etholaethau'r Senedd ar sail rhestr sy'n dychwelyd 6 Aelod yr un, a mesurau diogelu cysylltiedig;
  - adolygu gweithrediad ac effaith y darpariaethau deddfwriaethol newydd yn dilyn etholiad 2026; a
  - mecanwaith i'r Senedd allu ystyried rhannu swyddi mewn swyddi sy'n ymwneud â'r Senedd, yn y Seithfed Senedd.

24. Mae cyd-destun y darpariaethau penodol hyn, a'r rhesymeg drostynt, wedi'u nodi isod. Mae effaith y darpariaethau hyn yn cael ei hegluro yn yr is-bennod a ganlyn.

### ***Y rhesymeg dros gynyddu maint y Senedd***

25. Diben cyffredinol y Bil yw gwneud y Senedd yn ddeddfwrfa fwy effeithiol ar gyfer pobl Cymru ac ar eu rhan. Mae cynyddu maint – a thrwy hynny gapasiti – y Senedd yn elfen allweddol o'r diben cyffredinol hwn.

26. Mae maint senedd yn cael dylanwad allweddol ar allu ei Haelodau i ddal gweithrediaeth i gyfrif. Mae'n effeithio ar ei gallu i graffu ar bolisiau, deddfwriaeth, gwariant a threthiant ac i'w goruchwyllo a'u gwella, er mwyn gwasanaethu ac ymgysylltu â'r bobl mae'n eu cynrychioli. Mae perthynas rhwng hynny a gallu Aelod unigol i baratoi ar gyfer gwaith craffu, i wneud gwaith ymchwil cefndirol, i ymgysylltu

â'r bobl mae'n eu cynrychioli ac i godi pryderon etholwyr fel rhan o'u cyfrifoldebau seneddol. Os yw Aelod yn eistedd ar fwy nag un Pwyllgor, mae'n gorfod rhannu ei amser wrth baratoi ar gyfer y gwaith craffu. Mae unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol sydd gan yr Aelod (fel bod yn Arweinydd Plaid, Rheolwr Busnes, ac ati) yn effeithio ymhellach ar ei gapasiti personol. Mae'r gwrthdaro rhwng y galwadau a'r cyfrifoldebau hyn yn effeithio ar ei allu i arbenigo mewn maes craffu ar bolisi a deddfwriaeth, ac i feithrin arbenigedd a dealltwriaeth well wrth ddal y weithrediaeth i gyfrif.

27. Nid yw hyn yn golygu bod angen cynyddu maint pob deddfwrfa. Mewn cyflwyniad ysgrifenedig i'r Panel Arbenigol ar Ddiwygio'r Cynulliad, dywedodd Canolfan Syr Bernard Crick ar gyfer Dealltwriaeth y Cyhoedd o Wleidyddiaeth, Prifysgol Sheffield:

*"There is a fairly clear ratio within comparative politics in relation to parliaments and legislatures where the executive is derived from the legislature. Too few members and the need to appoint an executive essentially hollows-out the capacity of the legislature and leaves the executive possibly over-dominant; too many members and the legislature risks becoming bloated and inefficient with few opportunities for career progression for individual members."*<sup>19</sup>

28. Fodd bynnag, mae cyfres o adroddiadau wedi barnu eisoes fod y Senedd yn ddeddfwrfa rhy fach. Er enghraifft, roedd y Panel Arbenigol ar Ddiwygio'r Cynulliad o'r farn fod angen ei gwneud yn fwy:

*"i sicrhau bod gan y senedd... ddigon o gapasiti i gyflawni ei chyfrifoldebau o ran craffu ar bolisi, deddfwriaeth a chyllid, ac y gall yr Aelodau hefyd gyflawni eu rolau fel cynrychiolwyr, ymgrychwr, gwleidyddion, a rolau eraill."*<sup>20</sup>

29. Yn yr un modd, roedd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd o'r farn y gallai:

---

<sup>19</sup> Dyfyniad a briodolwyd gan y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, yn [Senedd sy'n gweithio i Gymru](#), Tachwedd 2017, i Ganolfan Syr Bernard Crick ar gyfer Dealltwriaeth y Cyhoedd o Wleidyddiaeth, Prifysgol Sheffield.

<sup>20</sup> Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, yn [Senedd sy'n gweithio i Gymru](#), Tachwedd 2017, tudalen 28.

*“Cynyddu nifer yr Aelodau... [olygu ei bod] yn fwy posibl ymgysylltu â phobl a rhanddeiliaid ar draws Cymru, gallai fod mwy o gyfle i'r Aelodau arbenigo a meithrin arbenigedd, gallai fod mwy o gyfleoedd ar gyfer meddwl yn greadigol ac yn strategol, gellid cael system bwyllgorau fwy cydnerth, a gellid cynnig cyfle i ddatblygu system fwy cadarnhaol a diwylliant gwleidyddol adeiladol sy'n hwyluso mwy o waith trawsbleidiol a chydweithredol. Gallai gwelliannau o'r fath gyfrannu at well deddfwriaeth, penderfyniadau polisi a gwariant mwy effeithiol, gwell gwerth am arian ac, yn bwysicaf oll, well canlyniadau i bobl a chymunedau Cymru.”<sup>21</sup>*

30. Yn yr un modd, dywedodd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd yn 2022:

*“y bydd cynnydd yn rhoi mwy o gyfle i Aelodau unigol baratoi ar gyfer gwaith craffu, cynnal gwaith ymchwil cefndirol ac ymgysylltu â phobl Cymru i gynrychioli eu pryderon yn well.”<sup>22</sup>*

31. Yn wir, er ei chyfrifoldebau, y Senedd yw'r lleiaf o holl ddeddfwrfeydd datganoledig y DU, ac mae wedi aros yr un maint ers iddi gael ei sefydlu yn 1999. Mae gan Senedd yr Alban 129 o Aelodau, ac mae gan Gynulliad Gogledd Iwerddon 90 o Aelodau.

32. Ar y sail hon, roedd y Pwyllgor Diben Arbennig yn argymhell “bod gan y Senedd 96 o Aelodau.”<sup>23</sup>

33. Wrth wneud yr argymhelliad hwn, dywedodd y Pwyllgor y byddai 96 o Aelodau yn dal yn golygu bod y Senedd yn llai na llawer o'i chymaryddion rhyngwladol. Yn eu hadroddiad yn 2013, Mae Maint yn Cyfrif, roedd Prosiect DG: Undeb sy'n Newid a Chymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru wedi gwneud gwaith manwl blaenorol ar faint y Senedd mewn cyd-destun rhyngwladol. Canfu mai'r nifer cyfartalog o Aelodau ar gyfer deddfwrfa gyfatebol, ar draws yr UE, fyddai “tua 140 o Aelodau”.<sup>24</sup>

---

<sup>21</sup> Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, Diwygio'r Senedd: Y camau nesaf, Medi 2020, Para 43

<sup>22</sup> Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Mai 2022, paragraff 27.

<sup>23</sup> Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Mai 2022, Argymhelliad 2, Tudalen 22

<sup>24</sup> DG: Undeb sy'n Newid a Chymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru, Mae Maint yn Cyfrif: gwneud y Cynulliad Cenedlaethol yn fwy effeithiol, 2013

34. Dywedodd y Pwyllgor hefyd y byddai Senedd â 96 o Aelodau yn golygu y byddai yna un Aelod fesul 33,021 o bobl yng Nghymru.<sup>25</sup> I gymharu, yn eu hadroddiad, Mae Maint yn Cyfrif – a gyhoeddwyd yn 2013 – dywedodd prosiect DG: Undeb sy'n Newid a Chymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru:

*“Ar gyfer gwledydd o hyd at 10 miliwn [o bobl], un [Aelod] fesul 22,122 o bobl yw'r gymhareb [ar gyfartaledd] ac, yn achos gwledydd â phoblogaeth rhwng 1 a 6 miliwn, un [Aelod] fesul 23,566 o bobl yw'r gymhareb.”<sup>26</sup>*

### **Risgiau sy'n gysylltiedig â maint presennol y Senedd**

35. Mae'r gwahanol adroddiadau sy'n cynnig diwygiadau i'r Senedd wedi nodi amrywiaeth o risgiau a phroblemau sy'n gysylltiedig â maint presennol y Senedd, ac maent yn cael eu hystyried isod.

#### *Gallu'r Senedd i graffu'n effeithiol*

36. Un pryder cyson sydd wedi codi yn y gwahanol adroddiadau yw bod maint y Senedd yn effeithio ar ei gallu cyfunol i ddal Llywodraeth Cymru i gyfrif yn effeithiol, gan gynnwys craffu ar bolisïau a deddfwriaeth.

37. Deddfwrfa un siambr yw'r Senedd. Mae hyn yn golygu nad oes cyfle i ail siambr, ddiwygiol, ddal unrhyw broblemau y gallai Aelodau eu methu wrth graffu, na chywiro unrhyw broblemau a ddaw i'r amlwg.

38. Mae risg y gallai gwaith craffu aneffeithiol, yn ei dro, arwain at golli cyfleoedd, deddfwriaeth ddiffygiol neu ganlyniadau gwannach. Mae hefyd yn cyfyngu ar y graddau y gall y Senedd gynrychioli'n llawn fuddiannau'r bobl y mae'n eu gwasanaethu.

---

<sup>25</sup> Amcangyfrifwyd mai 3,170,000 oedd poblogaeth Cymru. Amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer y DU, Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

<sup>26</sup> DG: Undeb sy'n Newid a Chymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru, Mae Maint yn Cyfrif: gwneud y Cynulliad Cenedlaethol yn fwy effeithiol, 2013

39. Yn benodol, mae diffyg capasiti yn cyfyngu ar allu Aelodau o'r Senedd i arbenigo, fel a fyddai'n digwydd mewn seneddau eraill. Yn ddelfrydol, mae Aelodau'n arbenigwyr mewn maes craffu penodol, ac yn defnyddio cyfarfodydd pwyllgor i ddal Llywodraeth Cymru i gyfrif – nid dim ond ar sail briffiau cefndirol gan y staff, ond ar sail eu hymchwil a'u hymgysylltiad eu hunain.
40. Nododd y Pwyllgor Diben Arbennig mai anaml iawn y bydd Aelodau mewn seneddau eraill yn eistedd ar fwy nag un Pwyllgor, ond bod hyn yn arfer cyffredin yn y Senedd,<sup>27</sup> sy'n atal Aelodau rhag cael cyfle i arbenigo. Dywedodd y Pwyllgor hefyd:

*“Ar hyn o bryd, mae'n gyffredin i Aelodau eistedd ar sawl Pwyllgor, gyda chyfrifoldebau craffu ar bolisi a deddfwriaeth. Mae gan lawer gyfrifoldebau ychwanegol hefyd: o'r 60 o Aelodau o'r Senedd, ar hyn o bryd dim ond 26 sydd ddim yn Weinidog; Llywydd; Dirprwy Lywydd; Arweinydd Plaid; Rheolwr Busnes; Comisiynydd y Senedd neu Gadeirydd Pwyllgor.”<sup>28</sup>*

41. Daeth y Pwyllgor Diben Arbennig i'r casgliad y byddai mwy o Aelodau'n golygu gwell llywodraethu, polisiau mwy effeithiol, gwariant mwy effeithlon, a gwell deddfwriaeth.

### *Ymgysylltu*

42. Thema arall a ddaw i'r amlwg yn yr adroddiadau yw bod y Senedd wedi ymgysylltu â'r cyhoedd mewn nifer o ffyrdd arloesol, ond bod ei maint yn cyfyngu ar weithgarwch o'r fath. Er enghraifft, dywedodd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd fod maint y Senedd yn:

*“Cyfyngu ar yr amser sydd ar gael i'r Aelodau ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd mewn modd anffurfiol neu arloesol, sy'n golygu y bydd gweithgarwch ymgysylltu'n aneffeithiol neu dan arweiniad swyddog.”<sup>29</sup>*

---

<sup>27</sup> Yn ôl yr adroddiad, ar 16 Mai 2022 – hyd yn oed wrth eithrio aelodau'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd a'r Pwyllgor Busnes – roedd 18 o Aelodau yn eistedd ar 2 bwyllgor; a 3 Aelod yn eistedd ar 3 phwyllgor.

<sup>28</sup> Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Mai 2022, paragraff 27.

<sup>29</sup> Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, Diwygio'r Senedd: Y camau nesaf, Medi 2020, Tudalen 26



43. Dywedodd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd fod maint y Senedd yn gwaethygu'r broblem hon drwy gyfyngu hefyd ar:

*“amser a chyfleoedd i'r Senedd neu'r Aelodau weithredu y tu hwnt i Fae Caerdydd, gan beryglu'r canfyddiad o'r Senedd fel sefydliad gwirioneddol genedlaethol.”<sup>30</sup>*

44. Mae risg y gallai'r cyfyngiad hwn ar allu'r Senedd i hwyluso gwaith ymgysylltu gael effaith niweidiol ar gyfranogiad democrataidd, gan gyfyngu ar amrywiaeth y lleisiau sy'n cael eu hadlewyrchu yng ngwaith y Senedd, ac arwain at golli cyfleoedd o bosibl i weld beth sy'n gweithio, neu ddim yn gweithio, yng nghymunedau Cymru.

*Cyfyngu ar benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch datganoli pwerau*

45. Fel y nodwyd eisoes, mae rôl a chyfrifoldebau'r Senedd wedi cynyddu'n sylweddol ers iddi gael ei sefydlu'n wreiddiol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Fodd bynnag, mae amryw o adroddiadau wedi dweud bod maint y Senedd bellach yn cyfyngu o bosibl ar ddatganoli rhagor o bwerau.

46. Er enghraifft, dywedodd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru yn 2019 y byddai'n:

*“anodd i ni weld sut y gellid craffu ar Adran Gyfiawnder neu Filiau'n briodol mewn perthynas â chyfiawnder heb gynyddu maint y Cynulliad.”<sup>31</sup>*

47. Wrth benderfynu ai'r Senedd ynteu San Steffan a ddylai ysgwyddo cyfrifoldebau deddfwriaethol, dylid gwneud y penderfyniad ar sail pa ddull sy'n diwallu anghenion pobl Cymru orau, yn hytrach nag ar y sail a oes gan y Senedd y capasiti i ffurfio pwyllgorau craffu ychwanegol.

48. Yn unol â hynny, roedd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd o'r farn y bydd:

---

<sup>30</sup> Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, Diwygio'r Senedd: Y camau nesaf, Medi 2020, Tudalen 26

<sup>31</sup> Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru, Hydref 2019, paragraff 12.83

*“cynyddu capasiti’r Senedd i 96 yn diogelu at y dyfodol ac yn lliniaru yn erbyn cyfyngiadau o ran capasiti’r Senedd yn cwtdogi ar ddadleuon ynghylch datganoli pwerau’n briodol.”<sup>32</sup>*

*Cyfyngu ar allu’r Senedd i ystyried fframweithiau a deddfwriaeth sydd ar waith ar draws y DU*

49. Mae gan y Senedd rôl gynyddol hefyd yn monitro ac yn craffu ar fframweithiau cyffredin sydd ar waith ar draws y DU, ynghyd â chytundebau rhyngwladol (ee, cytundebau masnach) a deddfwriaeth y DU sy’n effeithio ar fuddiannau Cymru.
50. Yn dilyn ymadawriad y DU â'r UE, sefydlwyd 26 o Fframweithiau Cyffredin gan y DU a llywodraethau datganoledig i reoli gwahaniaethau mewn rhai o'r meysydd polisi a oedd yn arfer cael eu cyd-drefnu ar lefel yr UE (fel ansawdd aer, diogelwch bwyd a bygythiadau trawsffiniol i iechyd). Roedd y Fframweithiau'n egluro sut roedd y pedair llywodraeth yn bwriadu gweithio gyda'i gilydd a phenderfynu pryd i ddilyn yr un rheolau, a phryd i ddilyn trywydd gwahanol. Mae'r Senedd wedi chwarae rôl gynyddol yn y gwaith o fonitro a chraffu ar fframweithiau o'r fath, gyda'i phwyllgorau'n cynnal cyfres o ymchwiliadau i'w datblygiad.<sup>33</sup>
51. Mae gan y Senedd rôl allweddol hefyd yn y gwaith o ddatblygu deddfwriaeth y DU. Pan fydd Senedd y DU yn dymuno deddfu ar fater sydd wedi'i ddatganoli i'r Senedd ni fydd, fel arfer<sup>34</sup>, yn gwneud hynny heb geisio cydsyniad y Senedd. Mae Llywodraeth Cymru yn dilyn yr egwyddor mai'r Senedd ddylai gyhoeddi deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd datganoledig, ond bod amgylchiadau lle mae'n synhwyrol ac yn fanteisiol mynd ati drwy Filiau Senedd y DU, gyda chydsyniad y Senedd, i geisio darpariaethau ar gyfer Cymru a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

---

<sup>32</sup> Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Mai 2022, para 30

<sup>33</sup> Fframweithiau cyffredin – Y Chweched Senedd, <https://busnes.senedd.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?IId=38285>

<sup>34</sup> A.107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

52. Fodd bynnag, gyda deddfwriaeth o'r fath, mae gofyn bod gan y Senedd ddigon o gapasiti i graffu arni'n effeithiol.
53. Yn unol â hynny, daeth y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd i'r casgliad y byddai cynyddu nifer yr Aelodau o'r Senedd i 96 yn cydnabod:

*“rôl gynyddol y Senedd yn monitro ac yn craffu ar fframweithiau cyffredin y DU gyfan, cytundebau rhyngwladol (gan gynnwys cytundebau masnach) a deddfwriaeth y DU sy'n effeithio ar fuddiannau Cymru.”<sup>35</sup>*

### **Dulliau eraill o gynyddu capasiti'r Senedd**

54. Roedd llawer o'r adroddiadau a nodwyd uchod hefyd yn ystyried a fyddai modd gwella capasiti'r Senedd drwy ffyrdd eraill ar wahân i gynyddu ei maint.
55. Er enghraifft, roedd y Panel Arbenigol wedi ystyried amrywiaeth o ddulliau yr oedd Comisiwn y Senedd a'r Bwrdd Taliadau Annibynnol wedi'u defnyddio o'r blaen i wella a chynyddu capasiti. Roedd y dulliau hyn yn cynnwys y canlynol, ymysg eraill:
- newidiadau i weithdrefnau ac arferion gwaith;
  - strwythur wythnos waith y Senedd;
  - nifer yr wythnosau eistedd bob blwyddyn;
  - cynefino, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol;
  - cynnwys arbenigwyr, y cyhoedd a rhanddeiliaid mewn gwaith craffu;
  - yr adnoddau sydd ar gael i bwyllgorau;
  - cyfluniad y system bwyllgorau; ac
  - y gefnogaeth a'r adnoddau sydd ar gael i Aelodau.

56. Fodd bynnag, daeth y Panel i'r casgliad bod y dulliau hyn wedi gwella capasiti'r sefydliad ond nad oeddent ac nad oedd modd iddynt, yn y bôn, fynd i'r afael â'r ffactor cyfyngu sylfaenol: sef y

---

<sup>35</sup> Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Mai 2022, Paragraff 28

diffyg amser sydd ar gael i Senedd â 60 Aelod etholedig i gyflawni ei chyfrifoldebau.

57. At hynny, byddai nifer o'r dulliau posibl hyn yn arwain at gymhlethdodau ynddynt eu hunain. Er enghraifft, gallai Pwyllgor Busnes y Senedd gynnig newidiadau i wythnos waith y Senedd yn y dyfodol, er mwyn ailstrwythuro trefniadau diwrnodau busnes y Senedd, neu roi pwyslais ar oriau hirach. Ond, byddai unrhyw gynnydd yn amser busnes y Senedd yn siŵr o gael effaith niweidiol ar yr amser sydd ar gael ar gyfer busnes etholaethol (a, thrwy hynny, y cyfle i Aelodau ymwneud a delio â phryderon yr etholwyr y maent yn eu gwasanaethu), a'r amser sydd ar gael i Aelodau wneud gwaith ymchwil a pharatoi ar gyfer craffu. Byddai amrywio nifer yr wythnosau eistedd bob blwyddyn hefyd yn cael effaith niweidiol ar yr amser sydd ar gael ar gyfer busnes etholaethol.
58. Mae Rheol Sefydlog 11.10 y Senedd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod amserlen y Senedd yn ystyried cyfrifoldebau teuluol ac etholaethol yr Aelodau. Bydd y cysyniad o oriau sy'n ystyriol o deuluoedd yn golygu rhywbeth gwahanol i wahanol Aelodau, a bydd lleoliad daearyddol yr Aelod a'i ddewisiadau gweithio yn dylanwadu ar hynny. Serch hynny, gellir tybio'n rhesymol bod pwyslais ar oriau hirach yn debygol o effeithio ar ba mor ddeniadol yw'r rôl i ddarpar ymgeiswyr, a allai arwain at Senedd lai amrywiol. Byddai oriau hirach hefyd yn arwain at gostau uwch wrth i staff Comisiwn y Senedd gynorthwyo'r Aelodau.
59. Gellid dadlau y byddai modd gwella capasiti'r Senedd drwy gynyddu'r capasiti staffio a'r cymorth sydd ar gael i Aelodau. Fodd bynnag, byddai hynny ynddo'i hun yn arwain at oblygiadau o ran costau, ac mae'n bosibl y teimlir bod y manteision yn arafu ar ôl rhyw bwynt: mae Llywydd y Senedd wedi dweud o'r blaen:

*“there's only so much you can squeeze into somebody's head on a Sunday night when they're reading their committee papers.”<sup>36</sup>*

60. At hynny, gellid ystyried ei bod yn amhriodol bod gan swyddogion sydd heb eu hethol ddylanwad gormodol o ran eu cyfrifoldeb. Rhybuddiodd cyn-Glerc Tŷ'r Cyffredin, yr Arglwydd Lisvane, y byddai gwneud hynny'n arwain at y canlynol:

*“you risk the political process being staff-driven, rather than Member-driven. That means in turn that non-elected staff have inappropriate political power, and that does not (or should not) play well with the public.”<sup>37</sup>*

61. Yn yr un modd, mae Pwyllgor Busnes y Senedd wedi ystyried yn y gorffennol faint priodol pwyllgorau'r Senedd, gan leihau eu maint er mwyn lleihau nifer y pwyllgorau y mae Aelod unigol yn eistedd arnynt. Mewn theori, gallai'r Pwyllgor Busnes leihau maint pwyllgorau'r Senedd ymhellach. Ond, byddai hyn yn ei gwneud yn anoddach i aelodaeth pleidiau gwleidyddol o bwyllgorau adlewyrchu cydbwysedd cyffredinol grwpiau gwleidyddol y Senedd. Gallai lleihau maint pwyllgorau hefyd leihau'r amrywiaeth o safbwyntiau ac onglau craffu y byddai pwyllgor yn eu defnyddio, a byddai'n rhoi cyfrifoldeb trymach fyth ar ysgwyddau Aelodau unigol o ran paratoi ar gyfer gwaith craffu a mynd ati i graffu. Pe bai Aelod yn absennol o'r pwyllgor, byddai mwy o risgiau hefyd o beidio â chael cwrwm mewn pwyllgor, neu o anghysonderau yng ngwaith craffu'r Pwyllgor.

62. Ers adroddiad y Panel Arbenigol, mae'r Senedd wedi defnyddio llawer mwy ar dechnoleg i helpu Aelodau i fynychu pwyllgorau a'r cyfarfodydd llawn dros y we, neu mewn fformat hybrid. I rai Aelodau, mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol drwy leihau'r amser roeddent yn arfer ei dreulio yn teithio o'u hetholaethau i'r Senedd, sydd wedi cynyddu capasiti rhai Aelodau unigol. Fodd bynnag, nid yw'r

---

<sup>36</sup> Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, 2 Rhagfyr 2019, [Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd](#)

<sup>37</sup> Dyfyniad a briodolwyd gan y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, yn [Senedd sy'n gweithio i Gymru](#), Tachwedd 2017, i EP03, Cyflwyniad Ysgrifenedig i'r Panel Arbenigol, yr Arglwydd Lisvane.

manteision hyn wedi datrys y problemau sylfaenol sy'n ymwneud â chapasiti digonol yn y Senedd.

### **Y rhesymeg dros gael 96 o Aelodau**

63. Roedd y Pwyllgor Diben Arbennig o'r farn y dylid cynyddu maint y Senedd i 96 o Aelodau. Mae hyn ychydig yn fwy na'r ystod o 80–90 a argymhellwyd yn flaenorol gan y Panel Arbenigol yn 2017 a'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd yn 2020.
64. Roedd y Pwyllgor Diben Arbennig o'r farn fod y cynnydd hwn yn addasiad cymesur, yn sgil yr amrywiaeth eang o newidiadau a welwyd yng nghyd-destun gwleidyddol Cymru ers adroddiad y Panel Arbenigol. Dywedodd y Pwyllgor, er enghraifft, fod cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a'r Senedd wedi cynyddu ers adroddiad y panel, yn bennaf o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE. Hefyd, o ganlyniad i bandemig Covid-19, credid bod ymwybyddiaeth y cyhoedd o gyfrifoldebau'r Senedd a Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'n sylweddol, sy'n rhoi cyfleoedd i ymgysylltu mwy â'r cyhoedd.<sup>38</sup>
65. Nododd y Pwyllgor hefyd fod pandemig Covid-19 wedi arwain at nifer o newidiadau i ffyrdd y Senedd o weithio, a oedd wedi lleihau rhai o'r costau ariannol a oedd yn arfer bod yn gysylltiedig â chynyddu nifer yr Aelodau o'r Senedd. Er enghraifft, gan fod staff Comisiwn y Senedd yn gweithio gartref fwy, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y Memorandwm Esboniadol hwn yn tybio y bydd digon o le yn Nhŷ Hywel i'r Aelodau ychwanegol a'u staff, yn hytrach na bod angen rhentu neu brynu lle ychwanegol.
66. Nododd y Pwyllgor hefyd y cafwyd cadarnhad, ers adroddiad y Panel Arbenigol, y byddai nifer yr Aelodau Seneddol o Gymru yn gostwng o 40 i 32.

---

<sup>38</sup> Gweler er enghraifft Wales Online, Covid, Wales and devolution: How 12 months of a pandemic changed what we know about how we're governed, Mawrth 2021  
<https://www.walesonline.co.uk/news/politics/covid-wales-devolution-how-12-19942938>

67. Mae 96 o Aelodau hefyd yn gallu cael ei rannu'n fathemategol mewn ffordd sy'n golygu bod pob un o'r 16 etholaeth newydd a fydd yn cael eu sefydlu yn cael eu cynrychioli gan yr un nifer o gynrychiolwyr. Fel y nodir isod ym Mharagraff 172, mae "paru" 32 etholaeth Seneddol newydd y DU yng Nghymru yn arwain at 16 etholaeth amlaelod newydd ar gyfer y Senedd.

### ***Y rhesymeg dros gynyddu'r terfyn deddfwriaethol ar Weinidogion Cymru***

68. Ym marn y Pwyllgor Diben Arbennig, rhaid i brif ddiben cynyddu maint y Senedd ymwneud â galluogi lefel well o gynrychiolaeth seneddol, deddfwriaeth a chraffu ar waith y llywodraeth. Ond, roedd y Pwyllgor hefyd yn rhag-weld y gallai ei argymhellion ar gynyddu maint y Senedd arwain at ystyried a ddylid cael newid cysylltiedig ym maint Llywodraeth Cymru. Argymhellodd fod Pwyllgor Busnes y Senedd a Llywodraeth Cymru yn ystyried sut gellid hwyluso ystyriaeth drawsbleidiol o'r cwestiwn ynghylch a fyddai unrhyw gynnydd ym maint Llywodraeth Cymru yn briodol, wrth ystyried yr angen am fwy o waith craffu.

69. Prif Weinidog Cymru sy'n penodi Gweinidogion Cymru, gyda sêl bendith y Brenin, o dan adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Gan eithrio'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol, ar hyn o bryd ni all nifer Gweinidogion Cymru a Dirprwy Weinidogion Cymru fod yn fwy na 12 ar unrhyw adeg (adran 51(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

70. Fodd bynnag, ers pasio Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae cyfrifoldebau a phwerau gweithredol Gweinidogion Cymru wedi cynyddu'n sylweddol. Er enghraifft, ers pasio Deddf Cymru 2017, mae Gweinidogion Cymru yn gallu cyflawni swyddogaethau gweinidogol gweithredol yn rhinwedd trosglwyddo swyddogaethau o dan adran 58A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

71. Mae cyfrifoldebau a phwerau gweithredol Gweinidogion Cymru hefyd wedi cynyddu o ganlyniad i ymadawriad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd (yn enwedig ym meysydd yr amgylchedd a materion gwledig a materion economaidd).

72. Mae'r terfyn presennol hefyd yn golygu bod rhaid i rai Gweinidogion gael portffolios eang dros ben. Yn nhrefodaethau'r Pwyllgor Busnes ar y mater hwn, dywedodd Darren Millar AS:

*“we have some enormous portfolios. If you look at [the Minister for Climate Change’s] portfolio, for example, it’s just, frankly, ridiculous for one Minister to be able to be on top of a brief of that size, and indeed for Members of the Senedd to effectively hold a single Minister to account when they’ve got such a wide brief.”<sup>39</sup>*

73. Mae gan Weinidogion Cymru hefyd lawer mwy o rôl mewn cysylltiadau rhynglywodraethol, gyda chyfarfodydd rhyngweinidogol i gyd-drefnu polisiau a rhaglenni, a gweithredu'r fframweithiau rhynglywodraethol.

74. Mae pryderon hefyd wedi cael eu mynegi yn y gorffennol ynghylch y posibilrwydd y gallai'r terfyn presennol gael effaith niweidiol ar hyblygrwydd Llywodraeth Cymru i ymateb i ddigwyddiadau. Ym mis Chwefror 2020, dywedwyd y canlynol mewn gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ar y pryd:

*“Roedd modd i Lywodraeth yr Alban benodi Gweinidog Cabinet ychwanegol i fod yn gyfrifol am reoli'r materion polisi a rhynglywodraethol newydd helaeth iawn a oedd yn codi [yn sgil Brexit]... ar y llaw arall, gan fod ganddi set lawn o Weinidogion eisoes yn ei lle yn unol â'r terfyn statudol, yr unig ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi gallu rheoli'r cyfrifoldebau ychwanegol hyn yw drwy ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol eu hysgwyddo, ar ben ei gyfrifoldebau eraill fel Swyddog y Gyfraith y Llywodraeth.”<sup>40</sup>*

75. Gellir nodi nad oes unrhyw derfyn deddfwriaethol ar nifer y Gweinidogion yn yr Alban. Mae gan Lywodraeth y DU derfyn ar nifer

---

<sup>39</sup> Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Busnes, 15 Tachwedd 2022.

<sup>40</sup> Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad: ymchwiliad i gapasiti'r Cynulliad, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 10 Chwefror 2020, <https://busnes.senedd.cymru/documents/s98990/CAERS5-20%20Paper%20to%20note%205.pdf>



y swyddi Gweinidogol am dâl, ond nid ar swyddi Gweinidogol di-dâl (ac felly nid oes ganddi derfyn cyffredinol ar gyfanswm y Gweinidogion sy'n derbyn tâl a'r Gweinidogion di-dâl). Fodd bynnag, gallai dileu terfyn deddfwriaethol ar nifer y Gweinidogion yng Nghymru beryglu capasiti ychwanegol y Senedd a sicrhawyd drwy gynyddu ei maint.

76. Wrth roi sylw i ystyriaeth y Pwyllgor Busnes o'r mater hwn, roedd Llywodraeth Cymru o'r farn nad oedd 'ffigur perffaith' a oedd yn cydbwysu'n llwyr y dadleuon cyferbyniol ynghylch maint cynnydd. Fodd bynnag, yn y pen draw, daeth Llywodraeth Cymru i'r casgliad y byddai cynyddu'r terfyn o 12 i 17 (yn ogystal â'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol) yn benderfyniad synhwyrol priodol, ac yn cydbwysu'r dadleuon dros:

- fynd i'r afael â'r pwysau presennol ar gapasiti Gweinidogion;
- rhoi digon o hyblygrwydd i ymateb i ddigwyddiadau; ac
- adlewyrchu'r ffaith mai prif fwriad argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig oedd cynyddu capasiti craffu'r Senedd.

77. Mewn termau cymesur, mae Llywodraeth Cymru (12 Gweinidog ynghyd â'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol) yn gyfystyr â 23.3% o'r 60 Aelod sydd yn y Senedd ar hyn o bryd. Mewn Senedd fwy, byddai Llywodraeth Cymru a fyddai'n cynnwys 17 o Weinidogion, ynghyd â'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol, yn gyfystyr â 19.8% o'r 96 Aelod yn y Senedd.

78. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar y mater hwn (mae'r manylion i'w gweld ym Mhennod 4), daeth Pwyllgor Busnes y Senedd i'r casgliad, ar sail pleidlais<sup>41</sup> y mwyafrif:

---

<sup>41</sup> Mae'r adroddiad yn nodi bod Darren Millar AS, ar ran y Ceidwadwyr Cymreig, a'r Llywydd yn anghytuno â'r farn fwyafrifol hon, ac i'r ddau fynegi'r farn y dylid pennu uchafswm o 16 ar gyfer nifer Gweinidogion Cymru. Y Pwyllgor Busnes, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd – Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Rhagfyr 2022, para 15.

*“... y byddai'n rhesymol i gynnydd yn aelodaeth y Senedd, o 60 i 96, gael ei ategu gan gynnydd yn uchafswm y nifer o Weinidogion Cymru y gellir eu penodi, o 12 i 17.”<sup>42</sup>*

79. Hefyd, mae'n bosibl y bydd amgylchiadau yn y dyfodol lle ystyrir bod angen cynyddu nifer y Gweinidogion y tu hwnt i 17 – yn sgil datganoli rhagor o bwerau o bosibl, neu amgylchiadau lle mae gwerth mewn cynyddu'r nifer.

80. O'r herwydd, daeth y Pwyllgor Busnes hefyd i'r casgliad y byddai'n:

*“rhesymol i'r ddeddfwriaeth gynnwys mecanwaith a fyddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i gynnig cynyddu'r terfyn hwn ymhellach i uchafswm o 19 drwy is-ddeddfwriaeth, er mwyn diogelu'r ddeddfwriaeth ar gyfer datganoli rhagor o bwerau yn y dyfodol, neu amgylchiadau eraill lle'r ystyrir bod cynnydd yn deilwng. Dylai cynnydd o'r fath fod yn destun pleidlais gadarnhaol (mwyafrif) yn y Senedd.”<sup>43</sup>*

81. O dan y cynnig hwn, byddai angen i Lywodraeth Cymru ar y pryd gyfiawnhau'n gyhoeddus pam y mae'r amgylchiadau'n galw am gynyddu nifer y Gweinidogion y tu hwnt i 17. Yn benodol, pe bai'r terfyn ar Weinidogion yn cynyddu i 19 yn y dyfodol, byddai hyn gyfwerth â'r cynnydd cyffredinol ym maint y Senedd (o 60%).

82. Fel y nodir uchod, mewn termau cymesur, mae Llywodraeth Cymru (12 Gweinidog ynghyd â'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol) yn gyfystyr â 23.3% o'r 60 Aelod sydd gan y Senedd ar hyn o bryd. Mewn Senedd fwy, byddai Llywodraeth Cymru a fyddai'n cynnwys 19 o Weinidogion, ynghyd â'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol, yn gyfystyr â 21.9% o'r 96 Aelod yn y Senedd. Byddai hyn felly yn dal i gynrychioli cyfran lai o gapasiti cyffredinol y Senedd nag sy'n wir ar hyn o bryd.

---

<sup>42</sup> Y Pwyllgor Busnes, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd – Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Rhagfyr 2022, tudalen 3.

<sup>43</sup> Y Pwyllgor Busnes, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd – Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Rhagfyr 2022, tudalen 7

## ***Y rhesymeg dros gynyddu'r nifer uchaf o Ddirprwy Lywyddion y gellir eu hethol o blith Aelodau o'r Senedd***

83. Ar hyn o bryd, mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn datgan y canlynol:

**“25 Presiding Officer etc.**

*(1) The Senedd must, at its first meeting following a general election, elect from among the Members of the Senedd —*

*(a) a presiding officer (referred to in this Act as “the Presiding Officer”), and*

*(b) a deputy presiding officer (referred to in this Act as “the Deputy Presiding Officer”).”<sup>44</sup>*

84. Mae'r darpariaethau presennol felly'n gwneud darpariaeth i'r Senedd ethol dim ond un Dirprwy Lywydd, sy'n dirprwyo yn ôl yr angen ar ran y Llywydd.

85. Gallai Senedd fwy o faint benderfynu cwrdd yn fwy rheolaidd neu am fwy o amser. Ystyriwyd felly a fyddai'n fuddiol i'r Senedd gael yr hyblygrwydd i ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol i helpu'r Llywydd i reoli busnes, ac yn benodol i gyflawni rhai o ddyletswyddau ehangach y Llywydd, fel cynrychioli'r Senedd ac ati. Mae'n rhesymol disgwyl y bydd rheoli busnes y Senedd yn effeithiol yn cael effaith gadarnhaol ar allu'r Senedd i gyflawni ei rôl o ddal Llywodraeth Cymru i gyfrif.

86. Rôl y Llywydd yw cadeirio'r Cyfarfod Llawn, cadw trefn a diogelu hawliau'r Aelodau o'r Senedd. Y Llywydd sy'n gyfrifol am sicrhau bod busnes yn cael sylw ar sail cydraddoldeb ac amhleidioldeb. Hwyl sy'n gyfrifol am y Rheolau Sefydlog ac sydd â'r awdurdod terfynol dros eu dehongli. Mae gan y Llywydd hefyd rôl weithredol yn cynrychioli'r Senedd a buddiannau Cymru ar lwyfan cenedlaethol, y DU a rhyngwladol. Mae Rheolau Sefydlog y Senedd yn diffinio swyddogaethau'r Llywydd fel a ganlyn:

*“cadeirio cyfarfodydd llawn; penderfynu ar gwestiynau ynglŷn â dehongli'r Rheolau Sefydlog neu sut i'w cymhwysu; cynrychioli'r*

---

<sup>44</sup> Adran 25, Deddf Llywodraeth Cymru 2006

*Senedd mewn trafodaethau ag unrhyw gyrff eraill, boed y tu mewn neu'r tu allan i'r Deyrnas Unedig, mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar y Senedd; ac unrhyw swyddogaethau eraill a roddir gan unrhyw ddeddfiad, gan y Senedd neu gan y Rheolau Sefydlog hyn.*<sup>45</sup>

87. Mae gan y Senedd y gallu eisoes i bennu Cadeirydd Dros Dro ar gyfer Cyfarfodydd Llawn (Rheolau Sefydlog 6.22–6.23) a Chadeirydd Gweithredol Cyfarfodydd Llawn (Rheolau Sefydlog 26.23A–26.23D). Ond, mae cyfyngiadau ar y rolau hyn. Dim ond ar gais y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd y caiff Cadeirydd Dros Dro Cyfarfodydd Llawn gadeirio dros dro, ac mae cyfyngiadau penodol ar ei allu i arfer pwerau'r Llywydd. Yn yr un modd, mae Cadeirydd Gweithredol Cyfarfodydd Llawn wedi'i gyfyngu i gyflawni dim ond swyddogaethau'r Llywydd mewn perthynas â busnes y cyfarfod llawn. Mae hyn yn golygu na allai Cadeirydd Dros Dro na Chadeirydd Gweithredol – yn wahanol i Ddirprwy Lywydd – ymgymryd â swyddogaethau a chyfrifoldebau ehangach y Llywydd. Er enghraifft, ni allent benderfynu a yw deddfwriaeth o fewn cymhwysedd y Senedd; cynrychioli'r Senedd i roi tystiolaeth i gyrff seneddol eraill; na chadeirio Pwyllgor y Llywydd.

88. Yn ei adroddiad, dywedodd y Pwyllgor Diben Arbennig, wrth gyfeirio at gynyddu maint cyffredinol y Senedd:

*“Gellid dadlau y dylai'r Senedd fod â hyblygrwydd drwy ei Rheolau Sefydlog i ethol mwy o Ddirprwy Lywyddion os yw am wneud hynny (ac unrhyw feini prawf sy'n ymwneud â'r blaid y gallai ddod ohoni).”<sup>46</sup>*

89. Ond, roedd y Panel Arbenigol wedi datgan yn y gorffennol bod angen gofal wrth benodi swydd-ddeiliaid, gan ddweud:

*“Rhaid i'r Cynulliad ffrwyno'i hun yn y ffordd y mae'n gwneud defnydd o unrhyw gynnydd ym maint y sefydliad—er enghraifft mewn perthynas â nifer a maint y pwyllgorau, penodi deiliaid swyddi, ac uchafswm maint Llywodraeth Cymru—i sicrhau bod y manteision posibl ar gyfer ansawdd a swm y gwaith craffu yn cael*

<sup>45</sup> Senedd Cymru, Busnes y Senedd, Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Rheol Sefydlog 6.15, Gorffennaf 2023.

<sup>46</sup> Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Mai 2022, Paragraff 46

*eu gwireddu a bod costau ychwanegol yn cael eu cadw i'r lleiafswm eithaf."*

90. Gellid ystyried bod Dirprwy Lywydd ychwanegol yn lleihau capasiti'r Senedd i graffu, sef y prif ddiben a oedd wrth wraidd argymhelliad y Pwyllgor Diben Arbennig i gynyddu maint y Senedd. Ond, yn wahanol i Weinidogion, nid oes unrhyw gyfyngiadau ar allu Dirprwy Lywyddion i gymryd rhan mewn gwaith craffu. Er enghraifft, adeg cyflwyno Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) roedd y Dirprwy Lywydd presennol yn cadeirio'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, Pwyllgor y Llywydd a Phwyllgor y Bil Diwygio.

91. O ganlyniad, argymhellodd y Pwyllgor Diben Arbennig:

*"...y dylid ystyried y cwestiwn ynghylch a ddylai'r Senedd gael hyblygrwydd drwy ei Rheolau Sefydlog i ethol mwy o Ddirprwy Lywyddion pe bai am wneud hynny. Yna dylai'r ystyriaeth hon lywio'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth i ddarparu ar gyfer Senedd â 96 o Aelodau." (Argymhelliad 5)*

92. Ystyriodd Pwyllgor Busnes y Senedd y mater hwn mewn cyfres o gyfarfodydd yn ystod hydref 2022. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfod cyhoeddus ar 15 Tachwedd 2022. Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus hefyd ar faterion yn ymwneud â diwygio'r Senedd, a daeth 14 ymateb i law. Ceir rhagor o wybodaeth am ymgynghoriad y Pwyllgor Busnes ym mhennod 4.

93. Dyma rai o ddadleuon yr ymgynghoreion a oedd o blaid cynyddu maint y Senedd:

- mae'n fwy cymhleth delio â busnes y Senedd gan fod y pwerau deddfu a'r pwerau trethu wedi cynyddu; ac
- efallai y byddai angen i Senedd fwy gwrdd yn amlach a/neu y byddai angen i'r Cyfarfodydd Llawn bara'n hirach, a fyddai'n cynyddu'r galwadau ar amser y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd.

94. Roedd dadleuon yr ymgynghoreion a oedd yn gwrthwynebu cynyddu maint y Senedd yn cynnwys nad oes rhaid cael Dirprwy

Lywyddion ychwanegol er mwyn cyflawni amcanion dilys ac amlwg cynyddu maint y Senedd. Awgrymwyd hefyd y dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried pwerau presennol y Senedd i ethol cadeiryddion gweithredol cyfarfodydd llawn, a chadw mewn cof y berthynas rhwng nifer y Dirprwy Lywyddion a nifer y meincwyr cefn sydd ar gael i sicrhau mwy o gapasiti i graffu yn y Senedd nesaf.

95. Yn y pen draw, daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad y dylid cynyddu "y nifer uchaf a ganiateir o Ddirprwy Lywyddion, o 1 i 2."<sup>47</sup> Wrth ddod i'r casgliad hwn, dywedodd y gallai Dirprwy Lywydd ychwanegol gyflawni swyddogaethau'r Llywydd na allai Cadeirydd gweithredol eu cyflawni.
96. Mae Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn rhoi'r casgliad hwn ar waith.
97. Gellir nodi bod cynsail seneddol ar gyfer y dull hwn. Mae'n ofynnol i Dŷ'r Cyffredin gael Llefarydd a thri dirprwy. Mae'n ofynnol i Senedd yr Alban ethol dau ddirprwy o fewn 14 diwrnod i etholiad ac yna gall ethol un neu ragor o ddirprwyon ychwanegol ar unrhyw adeg.
98. Bydd y dull hwn hefyd yn rhoi hyblygrwydd i Seneddau<sup>48</sup> yn y dyfodol benderfynu a yw'n well i'r Senedd, o safbwynt capasiti, gael un ynteu ddau Ddirprwy Lywydd.
99. Wrth ddod i'w gasgliad, nododd y Pwyllgor Busnes rai cyfyngiadau ar gymhwystra ymgeiswyr i'w hethol i fod yn Ddirprwy Lywydd ychwanegol. Yn benodol, roedd o'r farn:

*"a) pan fo hynny'n ymarferol, ni ddylai'r Dirprwy Lywydd ychwanegol berthyn i'r un grŵp gwleidyddol â naill ai'r Dirprwy Lywydd arall neu'r Llywydd; a*

---

<sup>47</sup> Y Pwyllgor Busnes, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd – Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Casgliad 2, Tudalen 9

<sup>48</sup> Defnyddir y term 'Seneddau' drwy'r Memorandwm Esboniadol hwn i gyd i gyfeirio at gyfnodau o fwy nag un tymor Senedd.

b) nad yw pob Llywydd yn aelodau o grŵp gwleidyddol sydd â rôl weithredol/rôl anweithredol.”<sup>49</sup>

100. Wrth ddod i'r casgliad hwn, dywedodd y Pwyllgor:

*“Mae adran 25(9) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu y gall mwyafrif o ddau draean o'r Senedd benderfynu datgymhwyso'r gofyniad na ddylai'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd berthyn i'r un grŵp gwleidyddol, ac na ddylai'r ddau berthyn i grŵp gwleidyddol sydd â rôl weithredol. Credwn y dylid cynnal y ddarpariaeth hon ar gyfer unrhyw ddarpariaethau newydd sy'n ymwneud â chydbwysedd gwleidyddol swyddi'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd.”*<sup>50</sup>

101. Wrth ddatblygu'r deddfwriaeth i weithredu casgliadau'r Pwyllgor Busnes, ystyriwyd yn arbennig yr hyn sydd ymhlyg yn ei awgrym mai dim ond “pan fo hynny'n ymarferol” y dylai'r cyfyngiadau a nodwyd ar ddethol Dirprwy Lywydd ychwanegol gael eu gweithredu.

102. Mae'r hyn sydd ymhlyg yn “pan fo hynny'n ymarferol” yn dangos bod y cyfyngiadau a nodwyd gan y Pwyllgor Busnes yn fwy cyfyngol na'r rheini a roddir ar y broses o ddethol dirprwyon mewn seneddau eraill. Yn yr Alban, er enghraifft, nid oes unrhyw gyfyngiadau deddfwriaethol ar ddethol Llefarydd na'i ddirprwyon. Yn wir, yr unig ofyniad yn Rheolau Sefydlog Senedd yr Alban yw na all y Llywyddion a'r Dirprwyon i gyd ddod o'r un blaid.

103. Mae gwaith dadansoddi wedi'i wneud ar gyfansoddiad grwpiau ac Aelodau'r chwe Senedd hyd yma. Pe bai'r newidiadau deddfwriaethol a gynigiwyd gan y Pwyllgor Busnes wedi bod mewn grym yn unrhyw un o'r Seneddau blaenorol hyn, byddai wedi bod yn bosibl ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol ym mhob un ohonynt, heb fod angen technegol i ddatgymhwyso gofynion y Pwyllgor Busnes.

---

<sup>49</sup> Y Pwyllgor Busnes, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd – Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Casgliad 2, Tudalen 10

<sup>50</sup> Y Pwyllgor Busnes, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd – Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Casgliad 2, Tudalen 10

104. Mae dwy senario wedi'u nodi lle na allai'r Senedd ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol heb ddatgymhwyso'r cyfyngiadau a nodwyd gan y Pwyllgor Busnes, sef:

- pe bai gan y Senedd ddim ond un neu ddau grŵp, ac nad oedd ganddo unrhyw Aelodau nad oeddent yn perthyn i grŵp; neu
- pe bai'r holl Aelodau yn perthyn i grwpiau gweithrediaeth (hynny yw, dau neu fwy o grwpiau mewn llywodraeth glymblaid, a dim grwpiau nad ydynt yn grwpiau gweithrediaeth).

105. Yn y naill senario neu'r llall, ni fyddai'n ymarferol i'r Senedd ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol heb fynd ati'n gyntaf i ddatgymhwyso'r cyfyngiadau a nodwyd gan y Pwyllgor Busnes. Mae'r tebygolrwydd y bydd y naill senario neu'r llall yn digwydd yn ymddangos yn isel iawn ar hyn o bryd, ond mae'n amhosibl rhag-weld sut gallai cyd-destun gwleidyddol Cymru newid dros amser. Fodd bynnag, pe bai'r naill sefyllfa neu'r llall yn digwydd, byddai'r Senedd mewn sefyllfa dda i ddatgymhwyso'r cyfyngiadau a nodwyd gan y Pwyllgor Busnes drwy bleidlais dwy ran o dair.

106. Mae senarios ychwanegol wedi cael eu nodi hefyd lle gallai'r Senedd, yn dechnegol, ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol heb ddatgymhwyso'r cyfyngiadau a nodwyd gan y Pwyllgor Busnes, ond mae'n bosibl y byddai hynny'n cael ei ystyried yn rhywbeth anymarferol. Er enghraifft, gallai Senedd yn y dyfodol gynnwys dau grŵp mawr yn bennaf, a thrydydd grŵp llawer llai. Gallai aelodau'r trydydd grŵp, llawer llai, ystyried ei bod yn anymarferol i un o'u plith ysgwyddo cyfrifoldebau Dirprwy Lywydd. Fodd bynnag, yn y senario hon (ac ym mhob senario arall o'r fath a nodwyd), byddai'r Senedd mewn sefyllfa dda eto i ddatgymhwyso'r cyfyngiadau a nodwyd gan y Pwyllgor Busnes drwy bleidlais dwy ran o dair.

107. Ystyriwyd nodi mewn deddfwriaeth yr amgylchiadau hynny lle na ddylai cyfyngiadau'r Pwyllgor Busnes fod yn berthnasol, ar y sail nad



ydynt yn ymarferol. Ond, mae penderfynu beth sy'n 'ymarferol' yn fater o farn, ac mae'n anodd dynodi sefyllfaoedd o'r fath ymlaen llaw a darparu mecanweithiau i'w datrys mewn deddfwriaeth.

108. O ganlyniad, ystyrir mai pleidlais dwy ran o dair gan y Senedd i ddatgymhwyso'r cyfyngiad fyddai'r mecanwaith mwyaf hyblyg i ddelio ag amgylchiadau lle'r oedd un o gyfyngiadau'r Pwyllgor Busnes, neu'r ddau gyfyngiad, yn cael eu hystyried yn anymarferol.

109. O'r herwydd, barnwyd mai gwneud darpariaeth i'r Senedd ddileu'r cyfyngiadau a nodwyd gan y Pwyllgor Busnes, drwy bleidlais dwy ran o dair, fyddai'r mecanwaith mwyaf effeithiol i'r Senedd ddelio ag amgylchiadau lle nad yw'r cyfyngiadau'n ymarferol. I bob pwrpas, mae'r bwriad y tu cefn i gyfyngiadau'r Pwyllgor Busnes, a fydd ond yn cael effaith "pan fo hynny'n ymarferol", yn cael sylw drwy roi'r cyfle i bleidleisio drwy fwyafrif dwy ran o dair i ddatgymhwyso cyfyngiadau o'r fath, gan gynnwys mewn amgylchiadau lle nad yw'r cyfyngiad "yn ymarferol."

***Y rhesymeg dros newid y system etholiadol fel bod yr holl Aelodau'n cael eu hethol drwy system rhestr gyfrannol gaeedig, gyda'r pleidleisiau'n cael eu trosi i seddi drwy fformiwla D'Hondt***

***Y rhesymeg dros newid y system etholiadol***

110. Daeth y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd i gasgliad unfrydol y byddai'n ddymunol newid system etholiadol bresennol y Senedd: System Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg (MMP).

111. Roedd y Pwyllgor o'r farn na fyddai MMP yn system hyfyw ar gyfer Senedd sy'n cynnwys mwy nag 80 o Aelodau, a fyddai'n golygu naill ai gynyddu nifer yr etholaethau neu gael mwy o Aelodau rhanbarthol nag Aelodau etholaethol (ar hyn o bryd, mae gan y Senedd 40 o Aelodau etholaethol a 20 o Aelodau rhanbarthol). Nid oedd y Pwyllgor o'r farn fod unrhyw un o'r posibilïadau hyn yn ddymunol. Dywedodd y Pwyllgor hefyd fod:

*“Aelodau rhanbarthol yn cwmpasu ardaloedd daearyddol mawr iawn, tra bod Aelodau etholaethol yn cael cyfran anghymesur o waith achos etholaeth.”<sup>51</sup>*

112. Ystyriodd y Pwyllgor nifer o opsiynau gwahanol ar gyfer newid y system etholiadol, gan gynnwys y system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy a'r system Rhestr Gyfrannol Hyblyg.

113. Yn ôl adroddiad y Pwyllgor:

*“Roedd mwyafrif yr Aelodau ar ein Pwyllgor, a oedd yn cynrychioli uwchfwyafrif deddfwriaethol yn y Senedd gyfan, o blaid cyflwyno system rhestr gyfrannol. Nodwyd y byddai'r system hon yn darparu un llwybr i etholiad ar gyfer pob Aelod ac y byddai'n galluogi etholiad cymesur o Aelodau.*

*Roedd hyn yn ein gadael â phenderfyniad ynghylch a fyddem yn argymhell system rhestr gaeedig neu hyblyg.*

*Roedd lleiafrif yn ein Pwyllgor (Jane Dodds AS) o'r farn na ddylid mabwysiadu rhestrau caeedig, gan gredu y byddent yn lleihau'r dewis i bleidleiswyr ac yn rhoi gormod o bŵer yn nwylo peiriannau pleidiau, ac, yn benodol, yn credu y byddai mabwysiadu rhestrau caeedig yn gwanhau llinellau atebolrwydd rhwng Aelod unigol a'i etholaeth. Roedd y lleiafrif hwn yn derbyn bod perygl damcaniaethol y gallai peidio â defnyddio rhestrau caeedig wanhau effaith cwotâu rhywedd, ond credai'n ymarferol y byddai'r effaith yn cael ei gwrthbwysio gan y dewis gwell y byddai system agored yn ei gynnig, a fyddai hefyd yn caniatáu i bleidleiswyr sydd am fynegi ffafriaeth dros ymgeiswyr sydd â nodweddion gwarchoddedig wneud hynny.*

*Roedd ail leiafrif yn ein Pwyllgor (Siân Gwenllian AS) yn ffafrio system gyfrannol rhestr agored neu hyblyg. Nododd y byddai'r systemau hyn yn galluogi ethol Aelodau gyda mandad unigol, ond yn darparu ar yr un pryd i blaid ddylanwadu ar ddethol ei hymgeiswyr. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cyfres wedi'i negodi o ganlyniadau ar yr uwchfwyafrif sydd ei angen i ddiwygio'r Senedd, roedd o'r farn y byddai system gyfrannol rhestr gaeedig yn dderbyniol. Roedd hefyd o'r farn y byddai system o'r fath yn hwyluso cyflwyno cwotâu rhywedd integredig statudol.*

*O ganlyniad i hyn, roedd mwyafrif ar ein Pwyllgor, a oedd yn cynrychioli uwchfwyafrif deddfwriaethol yn y Senedd, yn ffafrio system gyfrannol rhestr gaeedig. Roedd y mwyafrif hwn o'r farn y byddai pleidleisiau a ddefnyddir o dan system gyfrannol rhestr gaeedig eisoes yn gyfarwydd iawn i bleidleiswyr (yn debyg i'r rhai*

---

<sup>51</sup> Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Para 58

*a ddefnyddir ar hyn o bryd i ethol Aelodau Rhanbarthol) ac y byddent yn hwyluso pleidiau gwleidyddol cryf, cydlynol. Nodwyd hefyd y byddai'r system hon yn integreiddio'n rhwydd â chyflwyno cwotâu rhywedd deddfwriaethol, ac yn hwyluso pleidiau'n cyflwyno rhestr fwy amrywiol o ymgeiswyr ar sail ehangach.*

*Mae'r mwyafrif hwn yn cydnabod na fydd y system hon yn caniatáu i'r cyhoedd ethol Aelodau unigol yn uniongyrchol. Fodd bynnag, ystyrir y byddai Aelodau yn y pen draw yn dal i fod yn atebol i'r etholwyr, oherwydd bydd eu perfformiad fel Aelodau unigol yn effeithio ar y pleidleisiau a fwriwyd dros eu pleidiau, a fydd yn ei dro yn pennu'r tebygolrwydd o gael eu hethol.”<sup>52</sup>*

114. Yn ogystal, nododd Adroddiad y Pwyllgor amrywiaeth o gryfderau sy'n gysylltiedig â system rhestr gyfrannol gaeedig, gan gynnwys:

- pa mor gyfarwydd yw'r system i bleidleiswyr, gan ei bod yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd yn etholiadau rhanbarthol y Senedd.
- un system ethol ar gyfer holl seddi'r Senedd
- mwy cyfrannol na system y cyntaf i'r felin sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd yn etholiadau etholaethol y Senedd.
- hwyluso pleidiau gwleidyddol cryf a chydlynus; a
- galluogi pleidiau i sicrhau mwy o amrywiaeth ymysg ymgeiswyr, gan gynnwys drwy ddefnyddio trefn rhestr plaid.

115. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi cyfyngiadau system rhestr gyfrannol gaeedig:

- ni chaiff etholwyr ddewis rhwng ymgeiswyr unigol; ac
- ni fyddai Aelodau unigol yn uniongyrchol atebol i etholwyr.

116. Fel y nodwyd uchod, roedd y Pwyllgor yn ymwybodol na fyddai system rhestr gyfrannol gaeedig yn caniatáu i'r cyhoedd ethol ymgeiswyr penodol yn uniongyrchol, a gellid ystyried bod hynny'n effeithio ar atebolrwydd unigol Aelodau. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai Aelodau yn atebol i'r etholwyr yn y pen draw, gan y byddai eu hymddygiad fel unigolion yn effeithio ar y

---

<sup>52</sup> Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Paragraffau 73-78

pleidleisiau sy'n cael eu bwrw dros eu pleidiau, a fyddai, yn ei dro, yn pennu a ydynt yn ennill, yn cadw neu'n colli seddi yn y Senedd.

117. Er bod gwahanol fathau o system rhestr gyfrannol gaeedig yn bosibl mewn theori, wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y byddai etholwyr yn dymuno gwybod pa ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholaeth benodol, a'u cysylltiad â phleidiau penodol. Mae'r Bil, yn dilyn gwelliant yng Nghyfnod 2, yn ei gwneud yn ofynnol i'r is-ddeddfwriaeth ar gynnal etholiadau'r Senedd ei gwneud yn ofynnol bod enwau'r ymgeiswyr ar restrau pleidiau yn cael eu cynnwys ar y papur pleidleisio.
118. Daeth yr adroddiad i'r casgliad mai system rhestr gyfrannol gaeedig ar gyfer etholiadau'r Senedd oedd yr opsiwn gorau ar gyfer gweithredu newid etholiadol, gan gynnwys hwyluso pleidiau gwleidyddol cryf a chydlynus.
119. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r ddeddfwriaeth hon er mwyn gweithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd y system rhestr gyfrannol gaeedig y mae'r ddeddfwriaeth hon yn darparu ar ei chyfer yn hwyluso mwy o gyfranoldeb na'r system Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg bresennol. Mae hyn yn adlewyrchu'r ymrwymiad yn y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru y dylai'r system fod yr un mor gyfrannol - neu'n fwy cyfrannol - na'r system bresennol.
120. Mae systemau Rhestr Gyfrannol yn fwy cyfrannol, ar y cyfan, na systemau lluosogrwydd neu systemau cymysg (er bod ffynonellau anghyfranoldeb - dosbarthiad pleidleisiau a maint yr ardal - yn golygu na fydd hyn bob amser yn wir).
121. Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer symud o system lle mae traean yn unig o'r aelodau yn cael eu hethol drwy restrau cyfrannol, i system lle mae pob aelod yn cael ei ethol drwy restrau cyfrannol.

122. Mae'n symud i ffwrdd o ardaloedd un aelod (y cyntaf i'r felin), sy'n gorgynrychioli'r gyfran fwyaf o'r bleidlais yn yr etholaeth honno.
123. Po fwyaf yw'r maint ardal (nifer y cynrychiolwyr fesul dosbarth etholiadol) yr isaf yw'r trothwy pleidleisio effeithiol sydd ei angen i ennill sedd, sy'n golygu mwy o botensial ar gyfer cyfranoldeb. Ystyrir bod maint ardal o chwech yn sicrhau lefel briodol o gyfranoldeb, sy'n amddiffyn rhag hypergyfranoldeb.<sup>53</sup>
124. Bellach bydd angen i bleidiau gyrraedd y trothwy effeithiol mewn etholaeth amlaelod lai, nid rhanbarth etholiadol mwy, er mwyn sicrhau sedd.

### **Y rhesymeg dros ddefnyddio system D'Hondt**

125. Argymhellodd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd y dylid defnyddio fformiwla D'Hondt i drosi pleidleisiau yn seddi. Dywedodd y Pwyllgor fod y system hon eisoes yn gyfarwydd i bleidleiswyr gan ei bod yn cael ei defnyddio yn etholiadau rhanbarthol y Senedd. Mae hefyd yn gyfarwydd i Swyddogion Canlyniadau a swyddogion eraill sy'n gyfrifol am weinyddu etholiadau yng Nghymru.
126. O dan ddull D'Hondt, ar gyfer pob rownd o gyfrifo pleidleisiau (lle caiff sedd ei dyrannu i'r plaid sydd â'r nifer mwyaf o bleidleisiau), mae cyfanswm y pleidleisiau a gafodd bob plaid yn cael ei rannu â nifer y seddi y maent eisoes wedi'u hennill, ynghyd ag un arall. Felly, unwaith y bydd plaid wedi ennill un sedd, caiff cyfanswm ei chyfran o bleidleisiau ei rannu â dau ar gyfer y rowndiau pleidleisio nesaf (un sedd, ynghyd ag un arall). Unwaith y bydd plaid wedi ennill dwy sedd, caiff cyfanswm ei chyfran o bleidleisiau ei rannu â thri (dwy sedd, ynghyd ag un arall), ac yn y blaen. Os bydd y niferoedd yn gyfartal ar ôl cyfrifo'r pleidleisiau, lle bo un sedd yn unig ar gael, gellir tynnu lotiau i bennu'r ymgeisydd buddugol (gan osgoi unrhyw angen i

---

<sup>53</sup> Mae'r cysyniad o hypergyfranoldeb yn cyfeirio at amgylchiad lle mae plaid a enillodd lefel isel iawn o gefnogaeth gyhoeddus wedi sicrhau seddi serch hynny (ac o bosibl mewn sawl etholaeth) oherwydd cyfranoldeb system benodol.

ailgynnal etholiad). Dyma'r system sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd yn etholiadau'r Senedd, ac felly mae'n gyfarwydd i swyddogion canlyniadau.

127. Cafodd fformiwla Sainte-Laguë ei hystyried hefyd gan y Pwyllgor, ond ni chafodd ei hargymell. Mae dull Sainte-Laguë yn gweithio mewn ffordd debyg iawn i ddull D'Hondt; yr unig wahaniaeth yw y defnyddir fformiwla wahanol i rannu cyfanswm pleidleisiau'r blaid ar gyfer pob rownd. Mae fformiwla Sainte-Laguë yn rhannu'r pleidleisiau â dwywaith nifer y seddi sydd eisoes wedi'u hennill, ynghyd ag un arall. Mae hyn yn golygu mai 1, 2, 3 ac ati yw rhanyddion dull D'Hondt, ac mai 1, 3, 5, ac ati yw rhanyddion dull Sainte-Laguë.

128. Mewn rhai gwledydd, mae dull Sainte-Laguë wedi cael ei addasu i leihau'r risg o ymrannu gwleidyddol, a allai ddigwydd wrth i bleidlau llai elwa o'r dull. Mewn rhai amgylchiadau, mae risgiau o hypergyfranoldeb, lle gallai plaid a gafodd lefel fach iawn o gefnogaeth gan y cyhoedd ennill seddi (mewn nifer o etholaethau o bosibl). Gallai hypergyfranoldeb, yn ei dro, arwain at amgylchiadau lle mae gan bleidiau llai lais anghymesur, ac felly ddylanwad ar bolisiau a ffurf y llywodraeth.

129. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn gan y Pwyllgor, ac mae Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn rhoi hynny ar waith.

### **Y rhesymeg dros gynllun rhestr**

130. Bydd y cynllun rhestr a gynigir drwy Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn cadw'r rhan fwyaf o elfennau'r system bresennol o ethol Aelodau Rhanbarthol (a nodwyd yn adran 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), Bydd pleidiau gwleidyddol yn pennu trefn yr ymgeiswyr ar eu rhestr adeg eu henwebu, a bydd seddi'n cael eu dyrannu ar sail hynny.

131. O dan y system hon, bydd pleidiau gwleidyddol cofrestredig yn gallu cyflwyno rhestr o hyd at 8 ymgeisydd mewn unrhyw etholaeth. Mae hyn yn cydnabod y bydd 6 Aelod o'r Senedd yn cael eu hethol yn yr etholaethau newydd, ac yn darparu ar gyfer ymgeiswyr yn tynnu'n ôl cyn yr etholiad, ac ar gyfer Aelodau eraill yn cymryd lle Aelodau a allai farw neu roi'r gorau iddi ar ôl cael eu hethol, gan greu sedd sy'n digwydd bod yn wag. Mae hyn yn cael gwared â'r angen i gynnal is-etholiad os bydd Aelod yn ymddiswyddo ar ôl cael ei ethol neu os caiff ei ddatgymhwyso'n ddiweddarach, ac yn sicrhau bod pleidleisiau etholwyr mewn etholiad yn cael eu cynrychioli. Bydd hyn yn sicrhau bod cyfansoddiad y Senedd yn dal mor gyflawn â phosibl.
132. Y prif nod wrth ganiatáu rhestrau estynedig yw sicrhau bod cyfansoddiad y Senedd yn dal mor gyflawn â phosibl. Yn hynny o beth, mae galluogi pleidiau gwleidyddol i gynnwys ymgeiswyr 'wrth gefn' ar eu rhestrau yn gyson â'r dadleuon ehangach a wnaed ynghylch cynyddu nifer yr Aelodau o'r Senedd (h.y. cynnal capasiti'r Senedd). Dim ond pan fydd sedd wag rhwng etholiadau'r Senedd y bydd yr ymgeiswyr 'wrth gefn' hyn yn cael eu galw (yn nhrefn yr ymgeiswyr heb eu hethol ar y rhestr).
133. Y bwriad cyffredinol yw bod y cynllun rhestr yn gyfarwydd i bleidleiswyr a swyddogion canlyniadau fel ei gilydd, gan y bydd yn debyg i'r hyn a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer etholiadau rhanbarthol. Bydd enwau ymgeiswyr plaid yn cael eu cynnwys ar y papur pleidleisio, er mwyn i ddarpar ymgeiswyr fod yn fwy atebol na phe bai dim ond enw'r blaid yn ymddangos, gan y bydd etholwyr yn gallu bwrw eu pleidlais gan wybod yn iawn pwy ar restr plaid a allai lenwi'r seddi.

### **Y rhesymeg dros lenwi seddi gwag**

134. Roedd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd yn argymhell bod:

*“Ileoedd gwag sy’n codi rhwng etholiadau o dan y system rhestr gyfrannol gaeedig yn cael eu llenwi gan yr ymgeisydd nesaf ar restr plaid.”<sup>54</sup>*

135. Nid oedd y Pwyllgor Diben Arbennig yn gweld fawr o werth mewn cynnal is-etholiadau i lenwi seddi gwag, gan fod modd fel arfer i seddi gael eu llenwi o restr plaid.
136. O dan y system etholiadol y mae Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn darparu ar ei chyfer, pan fydd sedd wag yn codi, bydd y sedd yn cael ei llenwi gan y person nesaf ar y rhestr a gyflwynwyd gan y blaid gofrestredig.
137. Mae llenwi seddi gwag yn sicrhau bod cyfansoddiad y Senedd yn dal mor gyflawn â phosibl. Mae hyn yn diogelu gallu’r Senedd i gyflawni ei swyddogaethau, gan gynnwys gwneud deddfwriaeth a ffurfio pwyllgorau.
138. Bydd Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn sefydlu system etholiadol newydd sy’n cael gwared ar yr angen i gynnal is-etholiadau pan ddaw sedd yn wag, a all gyflymu’r broses o lenwi seddi gwag. Bydd cael gwared ar etholiadau y cyntaf i’r felin hefyd yn arbed arian gan na fydd angen ailgynnal etholiadau.

### **Y rhesymeg dros ganiatáu i seddi aros yn wag**

139. O dan y system etholiadol bresennol, mae rhai amgylchiadau lle na fydd sedd ranbarthol yn cael ei llenwi os daw'n wag yn ystod tymor y Senedd. Nid yw amgylchiad o'r fath wedi digwydd eto yn hanes y Senedd ond gallai ddigwydd pe bai'r sedd yn nwylo aelod unigol (a elwir weithiau'n ymgeisydd annibynnol) a'r aelod hwnnw'n ymddiswyddo neu'n rhoi'r gorau i'r sedd, neu pe na bai gan blaid unigolion cymwys ar eu rhestr i gymryd lle'r aelod.
140. Yn dilyn Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), bydd y posibilrwydd hwn yn berthnasol ar gyfer holl seddi'r Senedd, gan y

---

<sup>54</sup> Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Argyhmelliad 9



bydd pob sedd yn cael ei llenwi drwy restr, neu gan ymgeisydd unigol.

141. Mae caniatáu i seddi gwag fodoli o dan yr amgylchiadau hyn yn golygu bod risg o leihau lefel y gynrychiolaeth ar gyfer etholwyr. Fodd bynnag, wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon, mae nifer o opsiynau ar gyfer lliniaru'r wedi cael eu hystyried a'u diystyru. Gallai is-etholiad i lenwi sedd wag, a gynhelid ar sail y cyntaf i'r felin, effeithio'n negyddol ar gyfranoldeb cyffredinol y Senedd. Gallai is-etholiad yn seiliedig ar system rhestr gyfrannol gaeedig gan ddefnyddio dull D'hondt (h.y. ystyried y seddi sydd gan bleidiau ar hyn o bryd) arwain at blaid a gafodd lai o bleidleisiau na phleidiau eraill yn 'ennill' yr is-etholiad, a allai effeithio'n sylweddol ar y nifer sy'n pleidleisio ac ar gyfreithlondeb canfyddedig yr etholiad. Gallai hefyd gael ei ystyried yn ddefnydd gwael o arian cyhoeddus.

142. Yn yr un modd, byddai caniatáu i blaid drosglwyddo sedd i unigolyn o'i dewis, nad oedd wedi'i gynnwys ar restr yn wreiddiol, yn golygu na fyddai gan yr unigolyn hwnnw fandad democrataidd. Gallai caniatáu i sedd wag gael ei llenwi trwy ddull "ailgyfrif" (h.y. dyrannu'r sedd i'r blaid uchaf nesaf yn ôl y cyfrifiad pleidleisiau) gael ei weld fel rhywbeth sy'n newid canlyniad yr etholiad diwethaf yn sylweddol, oherwydd yn ogystal â phlaid yn colli sedd, byddai plaid arall yn cael sedd ychwanegol na chafodd ei hethol iddi yn y pleidlais wreiddiol. I'r gwrthwyneb, bydd caniatáu i sedd aros yn wag yn galluogi i ganlyniad yr etholiad gael ei gadw'r fath cyn belled ag y bo modd.

143. Nodir hefyd, gan y bydd mwy nag un aelod ym mhob etholaeth, hyd yn oed os bydd un sedd wag mewn etholaeth, y bydd pleidleiswyr yn yr etholaeth honno'n dal i gael eu cynrychioli yn y Senedd tan etholiad cyffredinol nesaf y Senedd. Mae'r siawns y bydd etholaeth heb gynrychiolaeth o gwbl yn cael ei hystyried yn isel iawn: er enghraifft, hyd yn oed pe bai un blaid yn ennill pob un o'r chwe sedd mewn etholaeth, byddai angen i bob un o'r chwe aelod yn yr etholaeth honno (a'r ddau aelod ychwanegol posibl ar restr y blaid)

dynnu'n ôl, ymddiswyddo neu adael eu sedd mewn ffordd arall yn ystod un tymor yn y Senedd er mwyn i'r amgylchiadau hyn godi.

144. Yn hynny o beth, mae'r ddeddfwriaeth yn parhau i ganiatáu i seddi aros yn wag mewn rhai amgylchiadau.

**Y rhesymeg dros drefn lle mae Swyddogion Canlyniadau yn troi at restrau disbyddol wrth i sedd ddod yn wag**

145. O dan system etholiadol bresennol y Senedd, a'r system y mae Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn darparu ar ei chyfer, mae dyletswydd ar swyddogion canlyniadau i gysylltu â phobl heb eu hethol ar restr y blaidd berthnasol i ganfod a ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer llenwi sedd wag, ac a ydynt yn dymuno gwneud hynny. Gwneir hyn nes bydd person wedi'i enwebu i gymryd lle'r aelod blaenorol, neu nes bydd y rhestr wedi'i disbyddu, ac ar yr adeg honno bydd y sedd wag yn aros yn wag.

146. Ond, pan fydd sedd wag yn codi, rhaid i swyddogion canlyniadau ddychwelyd at restr ddisbyddol (oni bai fod pob person ar y rhestr eisoes yn eistedd fel Aelodau o'r Senedd) wrth i bob sedd wag ddilynol godi, ac ailadrodd y broses. Y rhesymeg dros hyn yw y gall person ar restr ddisbyddol (a oedd, o bosibl, wedi gwrthod cael ei enwebu yn lle aelod arall) fod yn gymwys yn nes ymlaen.

147. Mae'r ddarpariaeth hon yn helpu i sicrhau bod cyfansoddiad y Senedd yn dal mor gyflawn â phosibl. Ni fydd Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn gwneud unrhyw newid i'r trefniant hwn.

***Y rhesymeg dros addasu Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, a'i alluogi i adolygu ffiniau'r Senedd ac adrodd arnynt***

**Adolygu ffiniau etholaethau'r Senedd**

148. Mae Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn gwneud darpariaeth i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gael y swyddogaethau perthnasol i adolygu ffiniau'r Senedd.

149. Ar draws y DU, mae trefniadau adolygu ffiniau wedi'u pennu mewn deddfwriaeth sylfaenol sy'n gwneud darpariaeth i adolygiadau gael eu cynnal gan gomisiynau annibynnol adolygu ffiniau. Er enghraifft, darpariaethau i adolygu'r canlynol:

- Mae etholaethau Seneddol y DU wedi'u pennu yn Neddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd),
- Mae etholaethau Senedd yr Alban wedi'u pennu yn Neddf yr Alban 1998 (fel y'i diwygiwyd),
- Mae ffiniau llywodraeth leol yng Nghymru wedi'u pennu yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

150. Cyn 2011, roedd ffiniau'r Senedd yn gysylltiedig yn awtomatig â ffiniau Seneddol y DU, gydag unrhyw newidiadau i'r ffiniau hyn yn cael eu hatgynhyrchu yn ffiniau'r Senedd.

151. Fodd bynnag, torrodd Deddf System Bleidleisio ac Etholaethau Seneddol y DU 2011 y cysylltiad hwn. O ganlyniad i hyn, nid oes darpariaethau na mecanweithiau deddfwriaethol ar waith ar hyn o bryd i adolygu ffiniau'r Senedd na dosraniad seddi i etholaethau a rhanbarthau'r Senedd.

152. Rhaid gwneud darpariaeth i adolygu ffiniau'r Senedd er mwyn galluogi'r pecyn ehangach ar gyfer diwygio'r Senedd, gan gynnwys sefydlu system bleidleisio newydd.

153. Roedd y Pwyllgor Diben Arbennig o'r farn y byddai'n briodol i gorff annibynnol – fel Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru – gael y swyddogaethau i adolygu ffiniau'r Senedd, gan ei fod yn cael gwared ar unrhyw ganfyddiad y gallai Aelodau etholedig geisio dylanwadu ar faterion etholiadol y byddai'n fwy priodol eu gadael i gorff annibynnol. Yn yr un modd, dywedodd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd yn ei adroddiad fod cael comisiynau ffiniau annibynnol yn cyfyngu ar “y graddau y gall pleidiau gwleidyddol

ddylanwadu'n uniongyrchol ar yr argymhellion sy'n deillio o hynny, neu y canfyddir eu bod yn dylanwadu arnynt.”<sup>55</sup>

154. Mae cael corff annibynnol yn adolygu ffiniau hefyd yn adlewyrchu trefniadau adolygu ffiniau a welir mewn rhannau eraill o'r DU. Er enghraifft, mae adolygiadau o etholaethau Seneddol y DU yng Nghymru yn cael eu cynnal gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Mae etholaethau Seneddol y DU yn yr Alban yn cael eu hadolygu gan Boundary Commission for Scotland. Boundaries Scotland sy'n cynnal adolygiadau Senedd yr Alban.

### **Y rhesymeg dros roi'r swyddogaethau perthnasol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru**

155. Yn hytrach na rhoi swyddogaethau i gorff sydd eisoes yn bodoli, byddai'n dechnegol bosibl sefydlu corff newydd i gyflawni'r rôl o adolygu ffiniau'r Senedd.

156. Fodd bynnag, gallai hyn gymryd cryn dipyn o amser, a byddai'n effeithio ar ba bryd y gellid cychwyn ar unrhyw adolygiad (gan na fyddai modd cychwyn ar rai o'r camau angenrheidiol i sefydlu corff newydd - ee, penodi staff, trefniadau staffio, cadarnhau enw a statws y corff, polisiau a gweithdrefnau mewnol - na'u cadarnhau nes byddai'r ddeddfwriaeth wedi cael y Cydsyniad Brenhinol). Felly, byddai creu corff cwbl newydd yn arwain at oblygiadau sylweddol o ran y gallu i gyflawni'r gwaith cyn etholiad y Senedd yn 2026.

157. O ran y cyrff sydd eisoes yn bodoli, y rhai a fyddai'n cael eu hystyried fwyaf priodol i ymgymryd â phrosesau adolygu etholaethau'r Senedd fyddai naill ai'r Comisiwn Ffiniau i Gymru neu Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Ond, gan fod y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn awdurdod a gedwir yn ôl, byddai'n rhaid cael cydsyniad Gweinidogion Llywodraeth y DU i roi'r swyddogaethau perthnasol iddo. Nid yw hyn yn ystyriaeth yn achos Comisiwn Ffiniau

---

<sup>55</sup> Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, Diwygio'r Senedd: Y camau nesaf, Medi 2020, [Diwygio'r Senedd: y camau nesaf](#), para 138

a Democratiaeth Leol Cymru, gan ei fod yn Awdurdod Cymreig datganoledig.

158. Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn gorff annibynnol a noddir gan Lywodraeth Cymru, sydd â chylch gwaith ar hyn o bryd i gyhoeddi rhaglen waith sy'n adolygu'n barhaus y trefniadau etholiadol ar gyfer y 22 prif gyngor. Felly, mae ganddo brofiad o adolygu trefniadau etholiadol ac arbenigedd ar hynny, sy'n golygu ei fod mewn sefyllfa dda i adolygu ffiniau'r Senedd.

159. Mae hefyd yn werth nodi bod gan Boundaries Scotland gyfrifoldeb yn yr Alban dros adolygu wardiau etholiadol ar gyfer awdurdodau lleol, yn ogystal ag etholaethau a rhanbarthau Senedd yr Alban.

160. Oherwydd y rhesymau a nodir uchod, ystyrid felly mai rhoi'r swyddogaethau i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yw'r opsiwn mwyaf priodol. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd ag argymhelliad 20 y Pwyllgor Diben Arbennig:

*“Rydym yn argymhell y dylid rhoi'r pŵer i adolygu ffiniau'r Senedd, gan gynnwys y pŵer i ddiffinio etholaethau aml-Aelod ar gyfer etholiad 2026 i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.”<sup>56</sup>*

### **Ailenwi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru**

161. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth i ailenwi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn 'Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru'.

162. Ystyrid ei bod yn briodol ailenwi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru er mwyn adlewyrchu'r newid arfaethedig sylweddol i'w swyddogaethau. Bydd hyn yn gwneud ei swyddogaethau diwygiedig yn eglur ac yn dryloyw. Gan y bydd ei gylch gwaith yn ehangach na chynnal adolygiadau sy'n ymwneud â llywodraeth leol, mae'n briodol bod ei enw'n adlewyrchu newid hwn.

---

<sup>56</sup> Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Argymhelliad 20

163. Mae'r argymhelliad hwn hefyd yn cyd-fynd ag argymhelliad 21 y Pwyllgor Diben Arbennig i ailenwi'r corff:

*“Rydym yn argymhell y dylai deddfwriaeth Diwygio'r Senedd gymryd camau i ailgyfansoddi ac ailenwi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i adlewyrchu ei swyddogaethau newydd. Dylai hyn gynnwys unrhyw addasiadau priodol i'w gyfluniad, ei llywodraethiant, ei drefniadau staffio a'i adnoddau ariannol.”<sup>57</sup>*

164. Mae ailenwi'r Comisiwn hefyd yn paratoi ar gyfer cynigion deddfwriaethol yn y dyfodol, a fydd yn cael eu cynnwys yn y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), gan gynnwys y Comisiwn yn ysgwyddo swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol. Bydd hyn yn golygu newidiadau ehangach yng nghyfrifoldebau'r corff, ond mae'r newid arfaethedig i'r enw yn paratoi ar gyfer y newid hwn.

### **Aelodaeth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru**

165. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth hefyd i gynyddu'r nifer mwyaf o Gomisiynwyr Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru a ganiateir, o bump i naw. Nid oes gofyniad yn y Bil bod rhaid cael y nifer mwyaf o Gomisiynwyr, ar yr amod bod cworwm o dri. Gellir nodi y gwneir darpariaeth hefyd ar gyfer pŵer gwneud rheoliadau i ddiwygio'r ffigur cworwm yn nes ymlaen (mae rhagor o fanylion ar gael yn is-adran ddiweddarach y bennod hon).

166. Mae'r cynnydd yn nifer y Comisiynwyr yn ystyried y cynnydd a ddisgwyllir yn llwyth gwaith y Comisiwn mewn perthynas â gwaith adolygu ffiniau'r Senedd, yn ogystal â'r llwyth gwaith a ragwelir wrth i swyddogaethau'r Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol gael eu trosglwyddo (drwy'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) arfaethedig).

167. Oherwydd arbedion maint, a fydd yn deillio o gynnwys swyddogaethau'r Panel yn rhan o'r Comisiwn, bydd cyfanswm nifer y

---

<sup>57</sup> Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Argymhelliad 21

Comisiynwyr a'r Aelodau a ganiateir yn lleihau. Y rheswm am hyn yw mai pump yw'r nifer uchaf o Gomisiynwyr ar hyn o bryd a saith yw'r nifer uchaf o aelodau'r Panel – cyfanswm o 12. Felly, rhagwelir mai effaith net Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn y pen draw fydd gostyngiad o dri yng nghyfanswm nifer y Comisiynwyr. Fodd bynnag, gan yr ymdrinnir â throsglwyddo swyddogaethau'r Panel drwy ddeddfwriaeth ar wahân, nid yw'r arbediad hwn yn rhan o Aseiad Effaith Rheoleiddiol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

168. Mae cadw odrif o Gomisiynwyr yn cael ei ystyried yn bwysig hefyd er mwyn lleihau'r posibilrwydd fod y Comisiwn yn methu â dod i gytundeb ar benderfyniadau.

169. Cynigir newidiadau pellach hefyd ynghylch aelodaeth Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, sy'n cael sylw mewn is-adran ddiweddarach yn y Memorandwm Esboniadol.

## ***Y rhesymeg dros ddiwygio ffiniau***

### ***Pam y mae angen diwygio ffiniau cyn etholiad y Senedd yn 2026***

170. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer maint cyffredinol y Senedd, a newid y system bleidleisio ar gyfer etholiad 2026 (a thu hwnt), sy'n golygu y bydd angen i etholaethau a rhanbarthau presennol y Senedd newid hefyd, er mwyn i'r system etholiadol newydd allu gweithredu ar sail 16 etholaeth amlaelod.

171. O ystyried y cyfyngiadau amser i gynnal adolygiad ffiniau llawn cyn etholiad 2026, bydd angen cynnal yr adolygiad ar sail symlach (ni fydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn cael ei bwerau statudol i gychwyn yr adolygiad nes bydd y Bil wedi cael y Cydsyniad Brenhinol yn ystod haf 2024, a bydd angen iddo wneud ei adroddiad terfynol cyn 1 Ebrill 2025).

172. Am y rheswm hwn, sail yr adolygiad cyn etholiad 2026 fydd paru 32 etholaeth Seneddol newydd y DU yng Nghymru i greu 16

etholaeth ar gyfer y Senedd. Mae manylion yr adolygiad hwn wedi'u nodi mewn adran ddiweddarach yn y Memorandwm Esboniadol hwn.

173. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd ag argymhelliad 31 y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd:

*“Rydym yn argymhell bod deddfwriaeth diwygio'r Senedd yn cynnwys darpariaethau i alluogi proses symlach ar gyfer adolygu ffiniau, at ddiben diffinio'r 16 o etholaethau aml-Aelod arfaethedig. Dylid cwblhau hyn mewn digon o amser i allu gweithredu'r argymhellion, ac er mwyn i weinyddwyr etholiadol a phleidiau gwleidyddol wneud paratodau angenrheidiol cyn etholiad 2026.”<sup>58</sup>*

### **Pam y mae angen diwygio'r ffiniau ymhellach yn dilyn etholiad y Senedd yn 2026**

174. Fel y nodwyd uchod, dim ond adolygiad 'paru' yw'r adolygiad ffiniau a gynhelir cyn etholiad 2026, yn yr ystyr y bydd yn paru 32 etholaeth Seneddol newydd y DU i ffurfio 16 etholaeth newydd ar gyfer y Senedd. Mae hyn yn golygu na fydd yr etholfraint ar gyfer etholiadau'r Senedd yn cael ei hystyried fel rhan o'r adolygiad 'paru'. Yn benodol, mae etholaethau Seneddol y DU yn seiliedig ar etholfraint Senedd y DU, nad yw'n cynnwys pleidleiswyr 16 ac 17 oed, na gwladolion tramor cymwys.

175. Bydd adolygiad 'llawn' cyn etholiad 2030 yn ei gwneud yn bosibl i'r etholfraint ar gyfer etholiadau datganoledig yng Nghymru gael ei chynnwys yn yr adolygiad hwnnw o'r ffiniau.

176. Roedd gan Ynys Môn statws gwarchodedig o fewn yr adolygiad o ffiniau etholaethau Seneddol y DU (ac felly roedd wedi'i heithrio o'r cwota etholiadol a osodwyd fel rhan o'r adolygiad hwnnw). Mae hynny'n golygu y bydd yr etholaeth sy'n cynnwys Ynys Môn ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026 yn llai o lawer o ran nifer yr etholwyr na'r etholaethau eraill. Mae cynnal adolygiad 'llawn' o ffiniau'r Senedd

---

<sup>58</sup> Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Argymhelliad 31



cyn etholiad 2030 felly'n rhoi cyfle i sicrhau cynrychiolaeth fwy cyfartal ledled Cymru.

177. Gellir nodi na fu adolygiad 'llawn' o etholaethau'r Senedd ers yr adolygiad a gynhaliwyd cyn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (fel yr oedd yn cael ei alw ar y pryd) yn 2007. Mae hyn yn golygu bod 16 mlynedd wedi mynd heibio ers yr adolygiad 'llawn' diwethaf o'r ffiniau, a disgwylir y bu newidiadau i ddsbarthiad y boblogaeth yng Nghymru dros y cyfnod hwnnw.

### **Diwygio'r ffiniau yn dilyn etholiad 2030**

178. Gwneir darpariaeth hefyd yn y Bil ynghylch trefniadau i gynnal adolygiadau 'llawn' cyfnodol o'r ffiniau ar ôl etholiad y Senedd yn 2030.

179. Bydd adolygiadau rheolaidd o'r ffiniau yn golygu y bydd etholaethau'n parhau i adlewyrchu cymunedau yng Nghymru, o ran maint yr etholyddiaeth. Bydd hefyd yn golygu na fydd newidiadau demograffig a newidiadau i'r boblogaeth yn effeithio'n ormodol ar etholaethau.

180. Roedd adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig yn dweud yn glir hefyd fod angen i ddeddfwriaeth diwygio'r Senedd gynnwys "gofyniad i gynnal adolygiadau llawn o'r ffiniau yn gyfnodol".<sup>59</sup>

### ***Y rhesymeg dros Ofyniad Preswyllo***

181. Wrth ddatblygu a llunio deddfwriaeth diwygio'r Senedd, mae Llywodraeth Cymru, a'i phartneriaid yn y Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru, wedi ystyried nifer o bolisïau cysylltiedig nad oeddent yn rhan o argymhellion gwreiddiol y Pwyllgor Diben Arbennig.

182. Yn benodol, ystyrir ei bod yn briodol y dylai ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad i fod yn Aelod o'r Senedd fod yn ddarostyngedig i'r un gofynion preswyllo ag unigolyn sy'n dymuno pleidleisio yn yr etholiad hwnnw. Ystyriwyd datblygu diffiniad pwrpasol o breswyllo

---

<sup>59</sup> Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Argymhelliad 23

er mwyn rhoi effaith i'r polisi hwn. Fodd bynnag, mae'r diffiniad o breswyllo - er ei fod yn rhoi cryn benrhyddid o ran ei ddehongli - wedi hen ennill ei blwyf mewn cyfraith etholiadol, ac felly mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol defnyddio'r diffiniad presennol hwn cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol.

183. Bydd y newid i system etholiadol rhestr gaeedig yn ei gwneud yn anghydnaws i etholwr wneud y ddau beth canlynol ar yr un pryd:

- cefnogi plaid benodol; a
- gwrthod pleidleisio dros ymgeisydd penodol o'r plaid honno (e.e. am nad yw'n preswyllo yng Nghymru).

184. Os yw etholwr yn cefnogi rhestr plaid ac eithrio ymgeisydd y mae'n credu nad yw'n preswyllo yng Nghymru, rhaid iddo naill ai beidio â phleidleisio dros y plaid honno neu beidio â bod â'r gallu i fynegi ei wrthwynebiad.

185. Er mwyn pleidleisio yn un o etholaethau penodol y Senedd mewn Etholiad Senedd, rhaid i unigolyn fod wedi'i gofrestru ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol mewn cyfeiriad o fewn yr etholaeth.

186. Un o'r gofynion ar gyfer cofrestru yw bod unigolyn yn preswyllo yn yr ardal honno.

187. Ystyr "preswyllo" yw'r diffiniad a roddir yn adrannau 5-7 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

188. Mae Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn darparu bod unigolyn nad yw wedi'i gofrestru ar gofrestr etholwyr llywodraeth leol mewn cyfeiriad yng Nghymru) yn cael ei anghymhwyso rhag bod yn ymgeisydd i'w ethol i'r Senedd

189. Felly, er mwyn cael ei enwebu'n ddilys i fod yn ymgeisydd mewn etholiad cyffredinol i'r Senedd, rhaid i berson fod wedi bodloni'r un meini prawf preswyllo ag y mae angen iddo fod wedi'u bodloni er mwyn pleidleisio mewn etholiad cyffredinol i'r Senedd (a rhaid iddo fod wedi'i gofrestru felly).

190. Ystyrir ei bod yn briodol hefyd fod aelodau sy'n eistedd yn y Senedd, ac sydd felly'n creu cyfreithiau ar gyfer Cymru, yn ddarostyngedig i'r cyfreithiau hynny, ac y dylent felly fod yn preswyllo yng Nghymru. Felly, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i anghymhwyso unrhyw un nad yw wedi'i gofrestru ar gofrestr etholwyr llywodraeth leol mewn cyfeiriad yng Nghymru rhag bod yn Aelod o'r Senedd.
191. Er yr ystyrir mai bod yn gymwys i gofrestru i bleidleisio ar sail preswyllo yw'r maen prawf y gellid ei ddefnyddio i ddiffinio gofyniad preswyllo, mae Llywodraeth Cymru o'r farn fod defnyddio "wedi'i gofrestru i bleidleisio", yn rhoi elfen o eglurder i ddarpar ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol, gweinyddwyr etholiadol ac – yn y pen draw – i lys sy'n ystyried mater o'r fath.
192. Nid yw'r diffiniad o breswyllo a nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn darparu rheol bendant ynghylch a yw rhywun yn preswyllo mewn cyfeiriad ai peidio. Mae clymu'r gofyniad preswyllo wrth gofrestru yn golygu bod y cwestiwn a yw unigolyn yn bodloni'r gofyniad hwnnw'n hawdd ei ateb – mae naill ai wedi'i gofrestru ar gofrestr o etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru, neu nid ydyw.

### ***Y rhesymeg dros leihau hyd tymor y Senedd o bum mlynedd i bedair blynedd***

193. Cafodd y newid i dymor Senedd o bum mlynedd ei wneud mewn ymateb i'r newid a wnaed i etholiadau Senedd y DU drwy Ddeddf Seneddau Tymor Penodol 2011. Ers i'r newid hwnnw gael ei wrthdroi yn 2022, mae'r sefyllfa o ran etholiadau Senedd y DU yr un fath i bob pwrpas ag yr oedd cyn 2011. Mae'n ymddangos yn rhesymegol y dylai etholiadau'r Senedd bellach hefyd ddychwelyd i'r sefyllfa fel yr oedd cyn 2011.
194. Mewn termau mwy cyffredinol, yn unol â'r nod cyffredinol o ddiwygio'r Senedd i wneud Cymru'n wlad fwy democrataidd, bydd symud yn ôl i dymor pedair blynedd yn caniatáu i bleidleiswyr fynegi eu barn ar berfformiad llywodraethau yn amlach a rhoi mwy o

gyfreithlondeb i lywodraethiant Cymru o safbwynt y boblogaeth. Mae lleihau hyd tymhorau o safbwynt democrataidd hefyd yn gwrthbwysu cael gwared ar is-etholiadau. Mae'r Bil felly'n rhoi cyfle i wneud y newid hwn.

195. Er ei bod yn anodd dod i gasgliad pendant ynghylch ai tymor o bedair blynedd neu bum mlynedd sydd fwyaf priodol, y ffactorau allweddol i'w pwysu a'u mesur yw adnewyddiad democrataidd, blinder pleidleiswyr a rhoi digon o amser i weinyddiaeth weithredu ei hagenda. Fodd bynnag, ystyrir bod tymhorau pedair blynedd yn cydbwysu'r ystyriaethau hyn yn ddigonol ac mewn gwirionedd dyna oedd y "norm" yn nemocratiaeth Cymru ar adeg datganoli ac fe barhaodd felly tan yn gymharol ddiweddar.

196. Y rhesymeg dros newid hyd tymor y Senedd o bedair blynedd i bum mlynedd oedd atal gwrthdaro ag etholiadau Senedd y DU. Pe bai tymor y Senedd wedi aros yn un pedair blynedd, gydag etholiadau penodedig i Senedd y DU bob pum mlynedd, byddai gwrthdaro rhwng etholiadau bob ugain mlynedd. Fodd bynnag, o ystyried nad yw etholiadau Senedd y DU wedi'u pennu erbyn hyn, nid yw'r rhesymeg hon bellach yn berthnasol.

197. Oherwydd hyblygrwydd y pwerau uchelfreiniol i alw Etholiad Cyffredinol y DU, gallai fod gwrthdaro o hyd rhwng etholiadau'r Senedd ac etholiadau Senedd y DU. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn wir boed tymor y Senedd yn aros ar bum mlynedd neu'n dychwelyd i fod yn bedair blynedd.

### ***Y rhesymeg dros bŵer i osod terfynau gwariant ymgyrchoedd etholiadol y Senedd***

198. Wrth newid y system etholiadol i un lle mae pleidiau gwleidyddol yn cyflwyno rhestrau o ymgeiswyr, a lle mae aelodau annibynnol yn sefyll fel ymgeiswyr unigol yn rhinwedd eu hawl eu hunain, mae angen adolygu a diweddarau'r system bresennol o wariant ar ymgyrchoedd etholiadol, sydd ar hyn o bryd yn adlewyrchu system aelodau cymysg.

199. Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yn etholiadau rhanbarthol y Senedd, byddai'r gwariant yr eir iddo mewn cysylltiad ag ymgeiswyr ar restr etholaeth plaid o dan y system newydd yn cael ei drin fel gwariant yr eir iddo gan y blaid. Rheoleiddir y gwariant yr eir iddo gan bleidiau ar ymgyrchoedd gan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

200. Felly, mae angen newidiadau i adlewyrchu hyn, a'r gwariant y bydd ymgeiswyr ar restrau pleidiau yn ei golli. Bydd gwneud hynny drwy reoliadau – yn amodol ar gydsyniad y Comisiwn Etholiadol, ac yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd – yn caniatáu ar gyfer yr ymgysylltiad y bydd ei angen cyn etholiad 2026, yn ogystal ag adolygiadau yn y dyfodol. Cytunwyd ar welliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu pŵer o'r fath i Weinidogion Cymru. Wrth ymateb i'r ddadl ar y grŵp cysylltiedig o welliannau, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol:

*“...I think the amendments in this group are really there to ensure the system of campaign expenditure for Senedd elections just reflects the new electoral arrangements that are provided for by the Bill.”<sup>60</sup>*

201. Bydd gwariant ymgeiswyr unigol yn parhau i gael ei reoleiddio drwy'r 'Gorchymyn Cynnal Etholiadau' perthnasol – Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ar hyn o bryd, a fydd yn cael ei ddiweddarau cyn etholiad 2026.

### ***Y rhesymeg dros weithredu mecanwaith adolygu***

202. Mae'r cynigion i diwygio'r Senedd wedi deillio'n wreiddiol o'r Senedd ei hun, drwy'r Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, ac yn ddiweddarach y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd.

203. Er mai Bil gan Lywodraeth Cymru yw hwn, ei brif ddiben yw rhoi effaith ddeddfwriaethol i argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar

---

<sup>60</sup> Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor o'r Senedd Gyfan, 6 Mawrth 2024.

Ddiwygio'r Senedd, y cafodd ei argymhellion eu cymeradwyo gan y Senedd.

204. Felly, er yr ystyriwyd gosod dyletswydd adrodd ar Weinidogion Cymru, penderfynodd Llywodraeth Cymru ei bod yn briodol i'r Senedd hefyd gynnal unrhyw adolygiad o weithrediad ac effaith y Ddeddf, yn ogystal ag adolygiad o elfennau democratiaeth iach. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgor y Senedd Iunio a chyhoeddi adroddiad ar weithrediad ac effeithiau'r Ddeddf, gan ystyried materion megis:

- Effeithiau'r system bleidleisio newydd ar gyfranoldeb;
- Cyflwyno etholaethau amlaelod; a
- Y profiad o restrau caeedig.

205. Bydd hefyd yn gallu ystyried unrhyw fater arall o ran diwygio'r Senedd y mae'n ystyried ei fod yn berthnasol yng nghyd-destun cynnal adolygiad o'r graddau y mae elfennau democratiaeth iach yn bodoli yng Nghymru, a gallai ystyried:

- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o lywodraeth ac etholiadau datganoledig Cymru;
- Asesiad o lefelau pleidleisio ac archwiliad o gynigion ar gyfer sut y gellir cynyddu hyn;
- Cymorth i aelodau a phleidiau i ymgymryd â'u rolau yn y Senedd; ac
- Y seilwaith sydd ar waith i gefnogi democratiaeth gref yng Nghymru.

### ***Y rhesymeg dros ddarpariaethau Rhannu Swyddi***

206. Mae sawl sefydliad a sawl adroddiad yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi nodi bod rhannu swyddi yn fesur ymarferol a allai helpu i wneud yr amodau'n fwy gwastad o ran mynediad at swydd etholedig, gan ddileu rhwystrau a bod o fudd, o bosibl, i rai grwpiau

mewn cymdeithas gan gynnwys menywod, pobl hŷn, pobl anabl a gofalwyr.

207. Mewn cyd-destun seneddol, gallai rhannu swyddi ddigwydd ar sawl ffurf wahanol. Er enghraifft, gallai olygu:

- dau Aelod o'r Senedd yn rhannu swydd weithredol neu rôl yn y Senedd (megis Cadeirydd Pwyllgor);
- dau berson yn sefyll mewn etholiad Senedd fel un ymgeisydd i'w ddychwelyd fel un Aelod, a'r ddau berson hynny yn ymgymryd â rôl Aelod ar yr un pryd; a/neu
- 'AS locwm' yn gweithredu yn lle AS nad yw'n gallu gweithredu am gyfnod estynedig o amser (e.e. oherwydd absenoldeb rhiant) neu AS yn dal rôl weithredol neu rôl yn y Senedd dros dro os nad yw'r person a benodir yn gallu gweithredu am gyfnod estynedig.

208. Daeth argymhelliad 13 o adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig i'r casgliad canlynol:

*“Rydym yn argymhell y dylid rhoi ystyriaeth bellach, ar sail drawsbleidiol, i archwilio dichonoldeb a heriau deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â galluogi etholiad ar sail rhannu swydd.”<sup>61</sup>*

209. Bwriad y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â rhannu swyddi yw sbarduno camau gweithredu gan y Senedd (ac ymateb dilynol gan Weinidogion Cymru) mewn perthynas â'r maes gwaith pwysig hwn sydd â'r potensial i wneud swydd etholedig yn fwy hygyrch i ystod ehangach o bobl a chynyddu amrywiaeth a chynhwysiant yn y Senedd. Mae'r darpariaethau yn y Bil yn cynnig llwybr ar gyfer ystyried ymhellach oblygiadau ymarferol a deddfwriaethol rhannu swyddi i ymgeiswyr sy'n sefyll yn etholiadau Senedd Cymru o ran cael eu hethol yn Aelodau o'r Senedd sy'n rhannu swydd; rhannu rolau mewn gweithrediaeth a rolau yn y Senedd a nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, a threfniadau ar gyfer gwneud swydd dros

---

<sup>61</sup> Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Diwygio ein Senedd, Llais Cryfach i Bobl Cymru, argymhelliad 13

dro tra nad yw'r person hwnnw ar gael. Pe cytunid ar y cynnig a bod pwyllgor yn cael ei sefydlu, byddai'r cynnig yn nodi y dylai'r pwyllgor lunio adroddiad, gydag argymhellion, yn dilyn ei adolygiad. Fel rhan o'i waith, mae'n bosibl y gallai'r Pwyllgor (pe câi ei sefydlu) ystyried hefyd y trefniadau rhannu swyddi y darperir ar eu cyfer yn Neddf Llywodraeth Leol 2021, a'r defnydd o rannu swyddi mewn llywodraeth leol yng Nghymru. Os bydd y Pwyllgor yn cytuno i osod adroddiad gerbron y Senedd yn dilyn ei adolygiad, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru osod datganiad sy'n nodi eu hymateb i'r adroddiad ac unrhyw gamau y maent yn bwriadu eu cymryd mewn perthynas â'r argymhellion (gan gynnwys unrhyw gamau i'w cymryd drwy raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru<sup>62</sup>).

210. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r Senedd ei hun a ddylai arwain unrhyw adolygiad o rannu swyddi, gan sicrhau bod mecanwaith effeithiol i Lywodraeth Cymru chwarae ei rhan wrth ymateb i unrhyw argymhellion ac wrth amlinellu'r camau nesaf. Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi effaith, cyn belled ag y bo modd, i'r egwyddor a sefydlwyd gan y Pwyllgor Diben Arbennig sef:

*“y dylid rhoi ystyriaeth bellach, ar sail drawsbleidiol, i archwilio dichonoldeb a heriau deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â galluogi etholiad ar sail rhannu swydd.”<sup>63</sup>*

211. Wrth ddatblygu'r darpariaethau hyn, ystyriodd Llywodraeth Cymru ddull amgen o fframio ystyriaeth Pwyllgor o rannu swyddi yng nghyd-destun y mecanwaith adolygu (y manylir arno uchod). Fodd bynnag, roedd Lywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r adolygiad rhannu swyddi fod yn adran annibynnol o'r Bil, gan roi mwy o gyfle i nodi'n glir beth fyddai cwmpas yr adolygiad a'r camau a ddylai fod yn rhan ohono.

---

<sup>62</sup> O ystyried y byddai rhai mathau o rannu swyddi yn gofyn am newidiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol, ystyrir ei bod yn briodol cyflawni hyn drwy ddeddfwriaeth sylfaenol, yn hytrach nag, er enghraifft, darparu pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i alluogi newidiadau o'r fath.

<sup>63</sup> Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Diwygio ein Senedd, Llais Cryfach i Bobl Cymru, argymhelliad 13



212. Roedd adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig yn argymhell hefyd y dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried y materion ymarferol a gweithdrefnol sy'n gysylltiedig â dau Aelod yn rhannu swydd mewn rôl benodol yn y Senedd. Am y rheswm hwn, nid yw'r darpariaethau yn y ddeddfwriaeth yn cynnwys archwilio materion sy'n ymwneud â rhannu swyddi ar gyfer rolau anstatudol yn y Senedd, sy'n faterion i Gomisiwn y Senedd, y Pwyllgor Busnes a Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd benderfynu arnynt.

### ***Mesurau amrywiaeth***

213. Daeth y Pwyllgor Diben Arbennig i'r casgliad y dylai cwtâu rhywedd deddfwriaethol fod yn rhan o'r system etholiadol newydd, ac y dylai Swyddogion Canlyniadau wrthod rhestrau ymgeiswyr yn gosb am beidio â chydymffurfio â'r cwtâu deddfwriaethol. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad hefyd y byddai'n briodol i ddeddfwriaeth diwygio'r Senedd gynnwys darpariaeth ar gyfer casglu a chyhoeddi data ar amrywiaeth ymgeiswyr. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud darpariaeth ar gyfer cwtâu rhywedd a chyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth mewn perthynas ag ymgeiswyr y Senedd mewn deddfwriaeth sydd i ddod.

214. Daeth y Pwyllgor Diben Arbennig i'r casgliad hefyd y dylai deddfwriaeth diwygio'r Senedd gynnwys darpariaethau sy'n annog pob plaid wleidyddol sy'n cynnig ymgeiswyr mewn etholiad i'r Senedd i gyhoeddi strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant.

215. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ddarparu canllawiau i gynorthwyo pleidiau gwleidyddol i gyhoeddi strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant, gan gyflawni argymhellion mewn adroddiadau a gyhoeddwyd dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig y rhai yn adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad yn 2017; yn adroddiad y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd yn 2020, yn ogystal ag yn adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig yn 2022. Mae'r strategaethau hyn yn bwysig o ran nodi sut y mae pleidiau gwleidyddol yn bwriadu sicrhau, yn y tymor hwy, bod

ymgeiswyr posibl ar gyfer y dyfodol yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru.

## **Yr effaith y bwriedir ei chael: yr hyn a wna'r Bil**

### **Maint y Senedd**

216. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i gynyddu maint y Senedd, o 60 i 96 o Aelodau, drwy:

- Sefydlu 16 etholaeth; a
- Sefydlu 6 Aelod ar gyfer pob etholaeth.

217. Mae'r elfennau hyn yn cael eu hystyried yn fanylach isod.

### **Sefydlu 16 Etholaeth**

218. Ystyriodd y Pwyllgor Diben Arbennig amrywiaeth o opsiynau ar gyfer y nifer priodol o etholaethau.

219. Penderfynodd y dylai ffiniau etholiad 2026 fod yn seiliedig ar y 32 o etholaethau terfynol ar gyfer Senedd y DU a gynigid gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar ôl iddo gwblhau Adolygiad Seneddol 2023, a'r rheini wedi'u paru i greu 16 etholaeth newydd. Roedd ei benderfyniad ar nifer yr etholaethau yn gyd-ddibynnol ar ei benderfyniadau ar faint cyffredinol y Senedd, nifer y seddi fesul etholaeth, a'r 'meini adeiladu' etholiadol yr oedd yn eu ffafrio i bennu ffiniau 2026.

220. Rhesymeg y Pwyllgor dros greu 16 etholaeth newydd oedd:

- y byddai cysondeb cychwynnol ag etholaethau Seneddol y DU yn fanteisiol ar y cychwyn o ran symlrwydd i bleidleiswyr, gweinyddwyr etholiadol a phleidiau gwleidyddol;
- at ddiben etholiad 2026, y byddai'n werth defnyddio'r etholaethau a adolygwyd yn fwyaf diweddar fel set o 'feini

- adeiladu' etholiadol, o ystyried y byddai angen proses gyflym ar gyfer eu paru;
- y byddai'n werth gwneud darpariaeth i etholaethau'r Senedd gynnwys nifer gweddol gyfartal o etholwyr, gyda phob etholaeth yn cael ei chynrychioli gan yr un nifer o seddi – ystyriwyd y byddai hyn yn osgoi unrhyw ganfyddiad bod gan rai rhannau o Gymru lai o gynrychiolaeth nag eraill;
  - y byddai 16 etholaeth yn golygu bod modd cael 6 sedd i gynrychioli pob etholaeth, a bod gan y Senedd gyfanswm o 96 sedd. Ni fyddai etholaeth 6 sedd yn creu'r risgiau a nodwyd yn flaenorol gan y Panel Arbenigol o fod naill ai'n llai cyfrannol na'r system etholiadol bresennol neu'n hypergyfrannol.
  - Gan y byddai'r etholaethau, i gychwyn, yn gyson ag etholaethau San Steffan yn hytrach nag yn gydffiniol â hwy, byddai hyn yn osgoi'r risgiau sy'n gysylltiedig â newidiadau i etholaethau San Steffan yn y dyfodol (megis newid eu niferoedd), nad oes gan y Senedd reolaeth uniongyrchol drostynt.

221. Ystyriodd y Pwyllgor wedyn a ddylai nifer yr etholaethau amrywio mewn etholiadau yn y dyfodol. Ond daeth i'r casgliad bod nifer yr etholaethau, mewn system etholaethau amlaelod, mor hanfodol bwysig wrth weithredu'r system etholiadol a chynrychioli'r etholwyr fel y dylai gael ei bennu mewn deddfwriaeth sylfaenol, ac na ddylai Comisiwn Ffiniau nac is-ddeddfwriaeth allu ei addasu.

222. Felly, argymhellodd y Pwyllgor fod nifer etholaethau'r Senedd yn cael ei bennu'n 16 mewn deddfwriaeth sylfaenol.

### **Sefydlu 6 sedd ar gyfer pob etholaeth**

223. Roedd y Pwyllgor Diben Arbennig o'r farn y byddai dyrannu 6 aelod i bob etholaeth amlaelod yn sicrhau cydbwysedd rhwng caniatáu ar gyfer amrywiaeth well yn y gynrychiolaeth, a lliniaru risgiau hypergyfranoldeb.

224. Wrth wneud yr argymhelliad hwn, dywedodd y Pwyllgor mai barn y Panel Arbenigol oedd na ddylai etholaethau, yn ddelfrydol, ethol mwy na 6 Aelod er mwyn lliniaru'r risg o hypergyfranoldeb.

225. Nododd y Pwyllgor hefyd bryderon a godwyd yn flaenorol gan y Panel Arbenigol y gallai amrywiadau sylweddol yn nifer yr Aelodau a etholir ar gyfer pob etholaeth:

*“arwain at ganfyddiad fod mwy o gynrychiolaeth ar gyfer ardaloedd penodol yng Nghymru, neu fod rhai etholaethau yn fwy tebygol o sicrhau cynrychiolaeth gyfrannol neu amrywiaeth cynrychiolaeth o gymharu ag eraill.”<sup>64</sup>*

226. Felly, roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai'n briodol i bob etholaeth ethol yr un nifer o Aelodau ar gyfer pob etholaeth amlaelod, ac y dylid pennu hyn mewn deddfwriaeth sylfaenol ac na ddylai Comisiwn Ffiniau nac is-ddeddfwriaeth allu ei addasu.

### **Ffurf '96' o Aelodau**

227. Nid yw'r Bil yn datgan yn benodol mai 96 o Aelodau sydd gan y Senedd fwy o faint. Yn hytrach, mae'r ffigur o 96 yn deillio o luosi nifer yr etholaethau â nifer yr Aelodau i bob etholaeth.

228. Mae hyn yn parhau â'r arfer presennol, gan nad yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi bod gan y Senedd “60 i Aelodau”. Yn hytrach, canlyniad nifer o wahanol elfennau gwahanol oedd wrth wraidd y ffigur o “60”. Defnyddir dull tebyg yn Seneddau eraill y DU ar hyn o bryd.

229. Mae'r Bil hefyd yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn cyfeirio at 'Aelodau' yn hytrach nag 'Aelodau rhanbarthol' neu 'Aelodau etholaethol'. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith na fydd angen gwahaniaethu rhwng Aelodau mwyach ar sail y ffordd y cawsant eu hethol. Ystyriwyd cyfeirio at yr holl Aelodau fel 'Aelodau etholaethol', ond y farn oedd y gallai hyn fod wedi creu dryswch (gan fod yr

---

<sup>64</sup> Y Panel Arbenigol, Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, Tachwedd 2017, paragraff 14.22

Aelodau Etholaethol, yn hanesyddol, yn cael eu hethol drwy System y Cyntaf i'r Felin).

### ***Cynyddu'r nifer uchaf o Weinidogion Cymru sy'n bosibl***

230. Ar hyn o bryd, mae nifer y bobl a all ddal swydd Weinidogol ("Welsh Ministerial office") wedi'i gyfyngu i 12 gan adran 51(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

231. Mae'r terfyn hwn yn cynnwys Gweinidogion (a benodir o dan adran 48) a Dirprwy Weinidogion (a benodir o dan adran 50) ond nid yw'n cynnwys swyddi Prif Weinidog Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol, sy'n golygu mai 14 yw'r terfyn gwirioneddol ar faint Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

232. Mae'r Bil yn cynyddu'r terfyn ar nifer y bobl a all ddal swydd Weinidogol o 12 i 17.

233. Mae'r Bil hefyd yn darparu pŵer i Lywodraeth Cymru wneud is-ddeddfwriaeth sy'n gallu diwygio'r terfyn newydd, sef 17, i naill ai 18 neu 19 (naill ai fesul cam neu ar unwaith).

234. Yn dilyn gwelliant yng Nghyfnod 2 y broses graffu ddeddfwriaethol ar y Bil, bydd rhaid cael pleidlais gadarnhaol fwyafrifol o ddwy ran o dair yn y Senedd ar gyfer y pŵer hwn, sy'n adlewyrchu'r ffaith y bydd defnyddio'r pŵer hwnnw yn effeithio ar allu'r Senedd i graffu. Yn ystod y ddadl Cyfnod 2, gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol y sylw canlynol:

*"It is important to state that the application of a supermajority would generally be incompatible with the intention of subordinate legislation to enable a Government to react quickly and flexibly to circumstances. However, I am very mindful that this particular power has a corresponding impact on the capacity of the Senedd. For this reason, framed by the particular nature of this constitutional Bill and the narrow circumstances associated with this power, I am happy to support this amendment."*<sup>65</sup>

---

<sup>65</sup> Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor o'r Senedd Gyfan, 5 Mawrth 2024.

235. Bydd angen i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol, pan fydd yn defnyddio'r pŵer hwnnw, gyfiawnhau'n gyhoeddus pam y mae amgylchiadau'n galw am gynyddu nifer y Gweinidogion y tu hwnt i 17. Byddai effaith is-ddeddfwriaeth o'r fath yn barhaol. Ar ôl arfer y pŵer i gynyddu'r terfyn o fewn yr ystod a ganiateir, dyna fydd terfyn statudol y Senedd honno a phob Senedd yn y dyfodol, oni bai a nes y bydd y pŵer yn cael ei arfer i gynyddu'r terfyn eto, hyd at uchafswm o 19.

236. Bydd y terfyn yn parhau i gynnwys Gweinidogion y ogystal â Dirprwy Weinidogion. Bydd y terfyn hefyd yn parhau i hepgor swyddi'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol. Mae hyn yn golygu y bydd y terfyn gwirioneddol ar gyfanswm maint Llywodraeth Cymru yn cynyddu o 14 i 19 (hynny yw, gan gynnwys y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol). Yn ogystal, gallai arfer y pŵer olygu y gallai'r terfyn godi i 21 yn y dyfodol.

237. Nid yw'r Bil yn gwneud unrhyw newidiadau i rolau na swyddogaethau Gweinidogion na Dirprwy Weinidogion Cymru.

## ***Cynyddu'r nifer uchaf o Ddirprwy Lywyddion sy'n bosibl***

### ***Y cyd-destun deddfwriaethol***

238. Ar hyn o bryd, mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn datgan fel a ganlyn:

*“25 Presiding Officer etc.*

*(1) The Senedd must, at its first meeting following a general election, elect from among the Members of the Senedd —*

*(a) a presiding officer (referred to in this Act as “the Presiding Officer”), and*

*(b) a deputy presiding officer (referred to in this Act as “the Deputy Presiding Officer”).”<sup>66</sup>*

---

<sup>66</sup> Adran 25, Deddf Llywodraeth Cymru 2006

239. Felly, mae'r darpariaethau presennol yn cynnwys gofyniad i ethol un Dirprwy Lywydd.

240. Mae Deddf 2006 hefyd yn datgan:

*“25 (7) Subject to subsection (9), the Presiding Officer and the Deputy Presiding Officer must not belong to—*

*(a) the same political group, or*

*(b) different political groups both of which are political groups with an executive role.*

*(8) For the purposes of this Act a political group is a political group with an executive role if the First Minister or one or more of the Welsh Ministers appointed under section 48 belong to it.*

*(9) The Senedd may resolve that subsection (7) is not to apply for so long as the resolution so provides; but if the motion for the resolution is passed on a vote it is of no effect unless at least two-thirds of the Members of the Senedd voting support it.”<sup>67</sup>*

241. Felly, mae gofyniad ar hyn o bryd bod y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn dod o wahanol grwpiau gwleidyddol, ac nad yw'r ddau unigolyn yn dod o grwpiau sydd â rôl weithredol.

### **Effaith y ddeddfwriaeth – ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol**

242. Mae Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn gwneud darpariaeth i'r Senedd allu (ond heb fod rhaid iddi) ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol o dan ddarpariaeth newydd a fewnosodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006– adran 25(1A).

243. Mae adran 25(1A) newydd yn darparu y ceir ethol unrhyw Ddirprwy Lywydd ychwanegol ar unrhyw adeg yn ystod Senedd. Yn wahanol i'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd a etholir o dan adran 25(1)(b), nid oes angen i'r Dirprwy Lywydd ychwanegol gael ei ethol

---

<sup>67</sup> Adran 25, Deddf Llywodraeth Cymru 2006

yng nghyfarfod cyntaf y Senedd ar ôl etholiad cyffredinol.<sup>68</sup> Diben hynny yw rhoi hyblygrwydd i'r Senedd wrth iddi benderfynu ym mha amgylchiadau y byddai'n briodol ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol, o dan adran 25(1A).

244. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn darparu y caiff y Rheolau Sefydlog wneud darpariaeth i unrhyw Ddirprwy Lywydd ychwanegol, a etholir o dan adran 25(1A), ddal y swydd am gyfnod byrrach na gweddill cyfnod tymor y Senedd y cafodd ei ethol ynddo. Diben hyn yw rhoi hyblygrwydd i'r Senedd wrth iddi bennu hyd penodiadau o'r fath, ac mae'n wahanol i ethol Dirprwy Lywydd o dan adran 25(1)(b).

245. Mae adran 23 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gwneud darpariaeth na chaiff Aelodau o'r Senedd, cyn tyngu llw neu gadarnhau teyrngarwch, wneud dim fel Aelod o'r Senedd, ac eithrio:

- cymryd rhan yn nhrefodion y Senedd lle mae Aelodau o'r Senedd yn tyngu'r llw neu'n gwneud y cadarnhad, neu
- gymryd rhan mewn unrhyw drafodion cynharach ar gyfer ethol y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd.

246. Mae'r ddeddfwriaeth yn gwneud darpariaeth nad yw'r eithriad hwn ar gyfer ethol Dirprwy Lywydd yn cynnwys ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol a etholir o dan adran 25(1A).

247. Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu hefyd:

- na chaiff y Dirprwy Lywydd ychwanegol a etholir o dan 25(1A) fod o'r un grŵp gwleidyddol â naill ai'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd arall,<sup>69</sup> oni bai fod y Senedd yn penderfynu drwy bleidlais dwy ran o dair nad yw'r gofyniad hwn yn berthnasol; ac
- na chaiff y Dirprwy Lywydd ychwanegol, a etholir o dan 25(1A), fod yn Aelod o grŵp nad yw'n grŵp

---

<sup>68</sup> Ac, yn ymarferol, mae'n annhebygol y bydd yn cael ei ethol yn y cyfarfod cyntaf hwn, gan y gallai hyn fod yn anghydnaws â gofynion gweithdrefnol sy'n gysylltiedig â chyflwyno cynnig i sefydlu Dirprwy Lywydd ychwanegol i ddechrau ac yna ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol.

<sup>69</sup> Mae hyn yn golygu y gallai fod yn: Aelod o grŵp gwahanol i naill ai grŵp y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd arall, yn Aelod annibynnol neu'n Aelod nad yw'n rhan o grŵp gwleidyddol.



gweithrediaeth os yw'r Llywydd yn ogystal â'r Dirprwy Lywydd yn Aelodau o grwpiau nad ydynt yn grwpiau gweithrediaeth,<sup>70</sup> oni bai fod y Senedd yn penderfynu drwy bleidlais dwy ran o dair nad yw'r gofyniad hwn yn gymwys.

248. Mae'r darpariaethau hyn yn dilyn casgliadau Pwyllgor Busnes y Senedd.

249. Barnwyd nad oedd angen i'r ddeddfwriaeth ddarparu ar gyfer un agwedd ar gasgliadau'r Pwyllgor Busnes: sef na chaiff unrhyw Ddirprwy Lywydd ychwanegol a etholir o dan 25(1A) fod yn aelod o grŵp gweithrediaeth os yw'r Llywydd yn ogystal â'r Dirprwy Lywydd yn Aelodau o grwpiau gweithrediaeth. Y rheswm am hynny oedd bod adran 25(7)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru eisoes yn sicrhau na all yr amgylchiadau hynny godi. Mae adran 25(7)(b) yn darparu na chaiff y Llywydd yn ogystal â'r Dirprwy Lywydd (a etholir o dan 25(1)(b)) ddod o grŵp gweithrediaeth (oni bai fod y Senedd wedi penderfynu gwneud hynny'n bosibl drwy bleidlais dwy ran o dair).

### **Effaith y ddeddfwriaeth: swyddogaethau'r Dirprwy Lywydd ychwanegol a etholir o dan 25(1A)**

250. Oni nodir yn wahanol, mae'r holl swyddogaethau, dyletswyddau, pwerau a gofynion deddfwriaethol eraill sydd wedi'u datgan ar hyn o bryd yn Neddf Llywodraeth Cymru ar gyfer y Dirprwy Lywydd yn gymwys hefyd i'r Dirprwy Lywydd ychwanegol a etholir o dan 25(1A).

251. Gall y Llywydd awdurdodi'r Dirprwy Lywydd i arfer swyddogaethau'r Llywydd. Os byddai Dirprwy Lywydd ychwanegol yn cael ei ethol o dan adran 25(1A), byddai'r Llywydd yn gallu awdurdodi un o'r Dirprwy Lywyddion, neu'r naill a'r llall, i wneud swyddogaethau penodol.

---

<sup>70</sup> Mae hyn yn golygu y gallai, fod yn: Aelod o grŵp gweithrediaeth, yn Aelod annibynnol neu'n Aelod nad yw'n rhan o grŵp gwleidyddol.

252. Os na fydd y Llywydd yn gallu gweithredu, gellir nodi bod adran 25(10) yn gwneud darpariaeth y caiff y Dirprwy Lywydd arfer swyddogaethau'r Llywydd. Byddai hyn yn gymwys i'r Dirprwy Lywydd ac i unrhyw Ddirprwy Lywydd ychwanegol a etholid o dan adran 25(1A).
253. Wrth ddatblygu'r deddfwriaeth hon, ystyriwyd amgylchiadau pan na fyddai dau Ddirprwy Lywydd yn cytuno sut y dylid arfer swyddogaethau'r Llywydd, ac a ddylai deddfwriaeth gynnig ateb ar gyfer sefyllfa o'r fath (er enghraifft, drwy sefydlu mai gan un o'r Dirprwy Lywyddion y byddai'r awdurdod mewn amgylchiadau o'r fath). Fodd bynnag, byddai hyn yn benderfyniad mympwyol ynghylch hierarchiaeth. At hynny, nid oes unrhyw fecanwaith ar gyfer datrys amgylchiadau o'r fath wedi'i nodi yn y deddfwriaeth sy'n sail i benodi dirprwyon yn Seneddau eraill y DU.
254. Wrth ystyried y gellid, yn ymarferol, ddatrys anghytundeb o'r fath drwy drafodaeth rhwng y ddau Ddirprwy Lywydd (neu drwy fecanwaith a ddarperir drwy Reolau Sefydlog y Senedd), nid ystyriwyd bod angen pennu mecanwaith mewn deddfwriaeth ar gyfer datrys sefyllfa o'r fath.
255. Ar hyn o bryd, mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gwneud darpariaeth bod rhaid i'r Senedd ethol Dirprwy Lywydd newydd o blith yr Aelodau o'r Senedd os bydd Dirprwy Lywydd, a etholwyd o dan 25(1)(b), yn rhoi'r gorau i'r swydd neu'n marw. Bydd y gofyniad hwn yn parhau mewn amgylchiadau lle mae Dirprwy Lywydd ychwanegol eisoes wedi'i ethol o dan adran 25(1A). Ni fydd y Dirprwy Lywydd ychwanegol, a etholwyd o dan 25(1A), yn awtomatig yn cymryd lle nac yn llenwi rôl wag y Dirprwy Lywydd a etholwyd o dan 25(1)(b). Gall y Dirprwy Lywydd ychwanegol a etholwyd o dan 25(1A) sefyll mewn etholiad i gymryd lle'r Dirprwy Lywydd, a etholwyd o dan 25(1)(b), a phe bai'n cael ei ethol byddai'n peidio â bod yn Ddirprwy Lywydd a etholwyd o dan 25(1A).

256. Mae adran 25(12) yn gwneud darpariaeth y caiff y Senedd, yn ei Rheolau Sefydlog, gynnwys darpariaeth i berson arall arfer swyddogaethau'r Llywydd os yw'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd wedi gadael eu swyddi neu os nad ydynt yn gallu gweithredu. Bydd y ddarpariaeth hon yn parhau yn dilyn Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ond bydd yn cael ei diwygio fel nad yw ond yn dod i rym:

- os yw'r Llywydd wedi gadael ei swydd neu'n methu â gweithredu; ac
- os yw swydd y Dirprwy Lywydd yn wag neu, am unrhyw reswm, nad oes unrhyw Ddirprwy Lywydd yn gallu gweithredu.

257. Mae adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i'r Rheolau Sefydlog wneud darpariaeth i'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd gymryd rhan (gan gynnwys pleidleisio) yn nhrefodion y Senedd. Rhagwelir y bydd y Rheolau Sefydlog hefyd yn gwneud darpariaeth i unrhyw Ddirprwy Lywydd ychwanegol, a etholwyd o dan adran 25(1A), gymryd rhan.

### ***Newid yn y system etholiadol***

258. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i etholwyr gael un bleidlais etholaethol drwy restr gyfrannol gaeedig, o dan fformiwla D'Hondt. Rhagwelir y bydd system rhestr gyfrannol gaeedig yn hwyluso'r broses o gyflwyno cwotâu rhywedd integredig statudol. Yn ei ddatganiad fis Mehefin 2023 ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, nododd y Prif Weinidog y bydd Bil arall, yn ogystal â Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), yn cael ei gyflwyno i gyflwyno cwotâu rhywedd ar gyfer ymgeiswyr i'w hethol i'r Senedd, gyda'r nod o wneud y Senedd yn fwy effeithiol drwy fod yn fwy cynrychioliadol o'r bobl y mae'n eu gwasanaethu.

259. Dim ond unwaith y caiff person sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad cyffredinol. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynllun rhestrau, sef yn benodol:

- Dim ond pleidiau gwleidyddol cofrestredig a all gyflwyno rhestrau;
- Ni all rhestr gynnwys person sydd ar unrhyw restr arall (boed yn yr un etholaeth neu mewn un arall);
- Ni all rhestr gynnwys person sy'n sefyll fel ymgeisydd unigol (boed yn yr un etholaeth neu mewn un arall);
- Gall pleidiau gwleidyddol benderfynu ar drefn yr ymgeiswyr mewn rhestr (hynny yw, cyfansoddiad rhestr gaeedig);
- Gall nifer yr ymgeiswyr ar restr fod rhwng 1 ac 8;
- Ni chaiff person fod yn ymgeisydd unigol os yw hefyd yn ymddangos ar unrhyw restr plaid, neu os yw'n ymgeisydd unigol mewn unrhyw etholaeth arall; ac y
- Bydd yr is-ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â chynnal etholiadau'r Senedd yn ei gwneud yn ofynnol bod enwau'r holl ymgeiswyr, gan gynnwys ymgeiswyr unigol ac ymgeiswyr ar restr plaid, yn cael eu cynnwys ar y papur pleidleisio.

### **Fformiwla D'Hondt**

260. Ar gyfer pob rownd bleidleisio (lle caiff sedd ei dyrannu i'r plaid sydd â'r nifer mwyaf o bleidleisiau), o dan ddull D'Hondt mae cyfanswm y pleidleisiau a gafodd pob plaid yn cael ei rannu â nifer y seddi y maent eisoes wedi'u hennill, ynghyd ag un arall. Felly, unwaith y bydd plaid wedi ennill un sedd, caiff cyfanswm ei chyfran o bleidleisiau ei rannu â dau ar gyfer y rowndiau pleidleisio nesaf (un sedd, ynghyd ag un arall). Unwaith y bydd plaid wedi ennill dwy sedd, caiff cyfanswm ei chyfran o bleidleisiau ei rannu â thri (dwy sedd, ynghyd ag un arall), ac yn y blaen.

### **Ethol Senedd mewn etholiad**

261. Ystyriodd y Pwyllgor Diben Arbennig systemau rhestr gyfrannol gaeedig a hyblyg, ac argymhellodd system rhestr gyfrannol gaeedig.

262. Mae rhestr gyfrannol gaeedig yn caniatáu i bleidiau gwleidyddol benderfynu ar drefn ymgeiswyr ar restr etholaeth. Bydd seddi'n cael eu dyfarnu i'r ymgeisydd/plaid â'r nifer mwyaf o bleidleisiau ar ôl pob rownd, gyda fformiwla D'Hondt yn cael ei haddasu a'i defnyddio

ym mhob rownd. Bydd y seddi a enillir gan bleidiau yn cael eu dyrannu yn unol â threfn rhestr y blaid.

263. O dan y system bresennol (hynny yw, yr un a ddefnyddir ar gyfer etholiadau'r Senedd cyn mis Ebrill 2026<sup>71</sup>), mae gan etholwyr ddwy bleidlais: un bleidlais etholaethol ac un bleidlais ranbarthol. Mae'r etholiad etholaethol yn defnyddio system mwyafrif syml (y cyntaf i'r felin), ac mae'r etholiad rhanbarthol yn defnyddio system rhestr gyfrannol, drwy fformiwla D'Hondt.

264. Mae system D'Hondt a fydd yn cael ei defnyddio yn y system etholiadol newydd yn debyg iawn i'r ffordd yr oedd aelodau rhanbarthol yn arfer cael eu hethol i'r Senedd, cyn mis Ebrill 2026, ac felly mae'n gyfarwydd i etholwyr. Mae'r ddeddfwriaeth yn gwneud darpariaeth i'r system newydd fod ar waith ar gyfer etholiadau'r Senedd o fis Ebrill 2026 ymlaen.

265. Bydd seddi yn cael eu dyrannu i bleidiau gwleidyddol neu i ymgeisydd unigol ar ôl pob rownd gyfrifo. Bydd seddi a enillir gan bleidiau gwleidyddol yn cael eu dyfarnu wedyn i ymgeiswyr ar sail trefn y rhestr a gyflwynwyd gan y blaid wleidyddol yn y cam enwebu, ar ôl ystyried unrhyw ymgeiswyr sydd wedi tynnu'n ôl neu wedi marw.

266. Pleidiau gwleidyddol sy'n gyfrifol am drefn ymgeiswyr ar restr gaeedig cyn etholiad, ond ni fyddant yn gallu newid trefn y rhestr ar ôl i'r broses enwebu gau, na hepgor enwau ar ôl yr etholiad.

267. Os bydd y bleidlais yn gyfartal ar ôl i'r pleidleisiau gael eu cyfrifo, ac mai dim ond un sedd sydd ar gael, bydd lotiau'n cael eu tynnu i benderfynu ar yr enillydd.

### **Cynnal Senedd drwy lenwi seddi gwag sy'n codi rhwng etholiadau**

---

<sup>71</sup> Y dyddiad sydd wedi'u bennu ar gyfer etholiad cyffredinol nesaf y Senedd yw mis Mai 2026. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn a'r Bil yn cyfeirio at fis Ebrill 2026, oherwydd bod gan y Llywydd y pŵer i symud dyddiad unrhyw etholiad cyffredinol sydd wedi'i drefnu, hyd at fis.

268. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer llenwi seddi gwag sy'n codi yn y Senedd rhwng etholiadau. Gall sedd ddod yn wag pan fydd Aelod o'r Senedd yn ymddiswyddo, yn marw neu'n cael ei anghymhwysu.
269. Ni chynhelir is-etholiadau pan ddaw sedd yn wag.
270. Nid yw'r Bil yn gwneud darpariaeth i anghymhwysu Aelod o'r Senedd os yw'n newid plaid neu'n gadael plaid er mwyn bod yn Aelod unigol (h.y. ddim yn rhan o blaid wleidyddol gofrestredig), neu os bydd Aelod unigol o'r Senedd (h.y. rhywun nad yw'n aelod o blaid wleidyddol gofrestredig) yn ymuno â phlaidd.
271. Bydd Swyddogion Canlyniadau yn ystyried rhestr y blaid pan fydd sedd wag yn codi, oni bai bod pob ymgeisydd eisoes yn Aelodau o'r Senedd.
272. Pan fydd sedd wag yn codi, bydd yn cael ei llenwi gan yr ymgeisydd nesaf ar restr plaid, yn amodol ar gadarnhad ei fod yn gymwys. Mae'r amodau cymhwysra yn parhau fel y'u disgrifir ar hyn o bryd yn Adran 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
273. Pan fydd rhestr plaid wedi'i disbyddu, neu pan fydd sedd aelod unigol yn dod yn wag, bydd y sedd yn y Senedd yn aros yn wag.

### ***Addasu ac ailenwi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru***

274. Mae'r Bil yn rhoi swyddogaethau i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, a ailenwir yn Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, i adolygu ffiniau'r Senedd (yn unol â'r rheolau perthnasol), ac i adrodd a gwneud argymhellion ar gyfluniad etholaethau'r Senedd.
275. Nid yw'r Bil yn effeithio ar yr adolygiadau y mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru eisoes yn eu cynnal mewn perthynas â ffiniau cymunedol ac etholiadol llywodraeth leol, a bydd Comisiwn

Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn dal gafael ar y swyddogaeth hon (yn amodol ar unrhyw newidiadau a wneir drwy'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) arfaethedig. Fel yr amlinellwyd uchod, bydd hyn yn golygu y bydd gan y Comisiwn swyddogaethau tebyg i Boundaries Scotland, sy'n adolygu ffiniau awdurdodau lleol yn ogystal â ffiniau etholaethau Seneddol yr Alban, ond nid etholaethau Seneddol y DU.

276. Mae'r Bil yn ailenwi'r corff yn 'Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru' / 'Democracy and Boundary Commission Cymru'. Mae hyn yn adlewyrchu swyddogaethau diwygiedig Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (ar gyfer adolygu ffiniau'r Senedd a throsglwyddo swyddogaethau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol) a'i rôl bresennol yn adolygu ffiniau etholiadol llywodraeth leol. Yn dilyn gwelliannau a wnaed yng Nghyfnod 2, mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth sy'n ganlyniadol i'r newid enw, er mwyn sicrhau bod pwerau, hawliau a swyddogaethau presennol y Comisiwn yn parhau i fod yn gymwys iddo o dan ei enw newydd.
277. Mae'r Bil yn cynyddu'r nifer mwyaf o Gomisiynwyr o ddim mwy na phump i ddim mwy na naw er mwyn ymdrin â'r cynnydd yn swyddogaethau'r Comisiwn, gan gynnwys trosglwyddo swyddogaethau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Gan mai drwy benodiadau cyhoeddus y penodir y Comisiynwyr, Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu ar eu nifer o hyd.
278. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru gynyddu cworwm cyfarfodydd y Comisiwn (tri o leiaf ar hyn o bryd) drwy is-ddeddfwriaeth os daw'r Comisiwn i'r casgliad yn nes ymlaen bod angen cworwm ychydig yn uwch, pan fydd wedi penderfynu ar ei fodel gweithredu newydd.
279. Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i Gomisiynwyr Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru benodi Comisiynwyr Cynorthwyol i'w helpu i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas ag adolygu ffiniau'r Senedd, gan ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud

hynny. Mae hyn yn adlewyrchu'r trefniadau presennol ar gyfer adolygiadau llywodraeth leol.

280. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn diweddarau'r rhestr gyfredol o bersonau sydd wedi'u hanghymhwyso rhag cael eu penodi'n un o Gomisiynwyr Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Yn dilyn gwelliannau a wnaed yng Nghyfnod 2, mae'r Bil yn ehangu'r rhestr i gynnwys personau a gontractiwyd gan Aelod o'r Senedd mewn cysylltiad â chyflawni ei swyddogaethau, personau a gontractiwyd gan blaid wleidyddol gofrestredig, a Chynghorwyr Arbennig a benodwyd i Lywodraethau Cymru, yr Alban a'r DU. Mae hyn er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wleidydd na chanfyddiad o wleidyddiaeth mewn penodiadau i'r Comisiwn. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn diweddarau'r rhestr o bersonau sydd wedi'u hanghymhwyso rhag cael eu penodi'n Gomisiynwyr Cynorthwyol ac yn Brif Weithredwr y Comisiwn yn yr un modd. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth i newid enw byr 'Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013' i 'Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013'. Mae hyn er mwyn adlewyrchu'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud iddi gan y ddeddfwriaeth. Yn dilyn gwelliannau a wnaed yng Nghyfnod 2, mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth sy'n ganlyniadol i'r newid hwn, er mwyn sicrhau bod cyfeiriadau at y Ddeddf yn parhau i gael effaith briodol.

## ***Diwygio ffiniau***

### **Adolygiad 2026**

281. Mae darpariaethau'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gynnal adolygiad ffiniau er mwyn 'paru' cyn Etholiad y Senedd yn 2026, ac maent yn nodi'r rheolau y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu dilyn wrth gynnal yr adolygiad.

282. Rhaid i'r Comisiwn gynnig etholaethau newydd ar gyfer y Senedd a fydd wedi'u ffurfio drwy uno dwy o etholaethau Seneddol newydd y DU yng Nghymru, ar ôl i adolygiad 2023 o ffiniau Seneddol y DU



gael ei gwblhau. Rhaid i ddwy etholaeth Seneddol y DU fod yn gyffiniol.

283. Felly, bydd yr adolygiad yn defnyddio 32 etholaeth Seneddol newydd y DU yng Nghymru yn feini adeiladu ar gyfer 16 etholaeth newydd y Senedd.
284. Bydd etholaethau Seneddol y DU a ddefnyddir wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar fel rhan o'r Adolygiad o Ffiniau Seneddol y DU yn 2023 ac maent yn seiliedig ar etholfraint Seneddol y DU.
285. Ar gyfer adolygiadau ffiniau Seneddol y DU, mae Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd) yn nodi yn Atodlen 2 nifer o Reolau ar gyfer datblygu cynigion ar gyfer etholaethau unigol. Mae Rheol 2 yn gwneud darpariaeth, sef – ar wahân i bum eithriad penodol yn y DU, gan gynnwys un yng Nghymru – bod rhaid i bob etholaeth gael etholyddiaeth sy'n ddim llai na 95% ac yn ddim mwy na 105% o gwota etholiadol y DU.
286. Nid yw Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ynddo'i hun yn gosod cwota etholiadol ar baru ffiniau ar gyfer 2026. Fodd bynnag, gan fod rhaid i holl etholaethau Seneddol y DU fod o fewn 5% i gwota etholiadol Seneddol y DU, yn ymarferol bydd etholaethau'r Senedd ar gyfer 2026 yn debyg iawn o ran maint yr etholyddiaeth. Yr eithriad i hyn fydd y pâr etholaethol sy'n cynnwys Ynys Môn, oherwydd bod Ynys Môn wedi cael statws gwarchoddedig yn yr adolygiad o ffiniau Seneddol y DU.
287. Mae'r Bil yn datgan y caiff Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, wrth bennu'r parau, ystyried y canlynol wrth bwysu a mesur y cyfuniadau posibl:
- a. Ffiniau llywodraeth leol sy'n bodoli ar ddyddiad yr adolygiad;
  - b. Ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys maint, siâp a hygyrchedd etholaethau arfaethedig y Senedd;
  - c. Unrhyw glymau lleol a fyddai'n cael eu torri gan y parau arfaethedig.

288. Mae'r ffactorau y caiff y Comisiwn eu hystyried, a restrir uchod, yn debyg i'r rhai ar gyfer adolygiadau ffiniau eraill, megis adolygiadau ffiniau Seneddol y DU. Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys y gofyniad y caiff ystyried ffiniau'r etholaethau presennol (sydd wedi'i gynnwys yn adolygiadau Senedd y DU) oherwydd ei fod wedi'i gynnwys yn benodol yn y rheolau gorfodol ar gyfer y Comisiwn, h.y. bod rhaid iddo ystyried etholaethau Seneddol y DU (ac nad yw'n ystyried 40 etholaeth bresennol y Senedd).

289. Gellir nodi nad oedd Adolygiad Seneddol y DU yn 2023 wedi'i seilio ar ffiniau presennol wardiau llywodraeth leol yng Nghymru. Roedd yr Adolygiad o Ffiniau Senedd y DU wedi'i seilio ar y ffiniau llywodraeth leol a oedd ar waith adeg yr adolygiad hwnnw, ac ers hynny mae newidiadau wedi'u gwneud i ffiniau llywodraeth leol yng Nghymru. Mae hynny'n golygu bod nifer bychan (8) o wardiau wedi'u rhannu rhwng etholaethau Seneddol y DU. O ganlyniad, pan fydd yr etholaethau hynny'n cael eu defnyddio'n sail i'r ymarfer paru, mae'n bosibl y bydd wardiau llywodraeth leol wedi'u rhannu rhwng etholaethau'r Senedd. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw gamau'n cael eu cymryd yn ystod adolygiad 2026 i unioni'r wardiau hyn sydd wedi'u rhannu, oherwydd y gallai hynny ychwanegu cymhlethdod diangen at yr adolygiad a, thrwy hynny, effeithio ar y gallu i gwblhau'r adolygiad mewn pryd erbyn etholiad y Senedd yn 2026. Bydd etholaethau'r Senedd a fydd yn deillio o'r adolygiad hwn ar waith am un cylch yn unig, a rhagwelir y bydd unrhyw wardiau a fydd wedi'u rhannu yn cael eu hunioni fel rhan o'r adolygiad a fydd yn cael ei gynnal cyn yr etholiad dilynol.

290. Fel y nodwyd uchod, roedd Ynys Môn yn etholaeth warchoddedig yn adolygiad Seneddol y DU, ond nid yw'r Bil yn rhoi statws gwarchoddedig iddi yn adolygiad 2026. Bydd gofyn i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru baru Ynys Môn ag un o etholaethau eraill Senedd y DU.

291. Mae'r Bil yn amlinellu sut y mae'n rhaid i'r Comisiwn ddatgan yr enwau at ddibenion adnabod yr etholaethau newydd. Yn dilyn gwelliannau a wnaed i'r Bil yng Nghyfnod 2, mae'r Bil yn darparu bod rhaid i bob etholaeth gael enw unigol at ddibenion adnabod yr etholaeth mewn cyfathrebiad drwy'r Gymraeg a'r Saesneg, oni bai bod y Comisiwn yn ystyried y byddai hyn yn annerbyniol, ac os felly caniateir iddo gynnig enwau gwahanol ar gyfer cyfathrebu drwy'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn yn golygu bod rhagdybiaeth y bydd y Comisiwn yn ceisio rhoi un enw i etholaeth yn y Senedd. Mae'r Bil, fel y'i diwygiwyd, hefyd yn amlinellu sut y mae'n ofynnol i'r Comisiwn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg, ar adegau perthnasol yn ystod yr adolygiad, i geisio barn ar orgraff (y ffordd gydnabyddedig o sillafu ac ysgrifennu geiriau) unrhyw enwau arfaethedig.
292. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth bod rhaid i'r Comisiwn ddatgan ("dynodi") a yw etholaeth newydd naill ai'n etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol mewn adolygiadau eraill o ffiniau, ac mae prif effaith y dynodiad hwn yn gysylltiedig â gwariant rheoledig ymgeiswyr. Nid yw deddfwriaeth diwygio'r Senedd yn cynnwys y ffactorau y dylai'r Comisiwn eu hystyried wrth ddynodi etholaethau newydd y Senedd, ond mae hyn yn ymwneud â natur wledig yr etholaeth fel arfer.
293. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal dau gyfnod ymgynghori fel rhan o'r adolygiad. Bydd y cyfnod ymgynghori cyntaf yn para am bedair wythnos ar ôl cyhoeddi adroddiad cychwynnol, a bydd ail gyfnod ymgynghori hefyd yn para am bedair wythnos ar ôl cyhoeddi ail adroddiad. Er bod y cyfnodau ymgynghori yn fyrrach na'r rhai yn yr adolygiadau 'llawn' o ffiniau Seneddol y DU, ystyrir eu bod yn gymesur o ystyried y pwysau amser, a natur yr adolygiad symlach o'r ffiniau. Felly, nid yw'r ddeddfwriaeth yn nodi ei bod yn orfodol cynnal gwrandawiadau cyhoeddus fel rhan o'r gofynion ymgynghori. Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi'r holl sylwadau y bydd yn eu derbyn yn ystod y ddau gyfnod ymgynghori.

294. Yn dilyn gwelliannau a wnaed yng Nghyfnod 2, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg yn ystod y cyfnodau ymgynghori. Bydd hyn yn rhoi cyfle i Gomisiynydd y Gymraeg rannu sylwadau sy'n ymwneud â phob agwedd ar y cynigion a nodir yn yr adroddiad cychwynol a'r ail adroddiad (a gallent fod yn ehangach nag orgraff enwau arfaethedig). Yn yr un modd â'r holl sylwadau y bydd yn eu derbyn gan eraill, rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi sylwadau y bydd yn eu derbyn gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod y cyfnodau ymgynghori.
295. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi adroddiad terfynol (ac anfon copi at Weinidogion Cymru) cyn 1 Ebrill 2025. Rhaid i Weinidogion Cymru wedyn osod yr adroddiad gerbron y Senedd ar ran y Comisiwn. Mae terfyn amser yn cael ei ystyried yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod gan weinyddwyr etholiadol ddigon o amser i baratoi.
296. Mae'r Bil yn cynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru weithredu, drwy reoliadau, benderfyniadau'r Comisiwn a gynhwysir yn ei adroddiad terfynol. Rhaid i'r rheoliadau gael eu gosod gerbron y Senedd.
297. Mae'r dull hwn – sy'n golygu na all Gweinidogion Cymru na'r Senedd newid penderfyniadau'r Comisiwn na'u hatal rhag dod yn gyfraith – yn cael gwared ar y risg (ymddangosiadol neu wirioneddol) y gall gwleidyddion ddylanwadu ar y broses o gyflwyno ffiniau mewn ffordd a allai fod o fudd i Aelod neu blaid wleidyddol benodol. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd ag argymhelliad 29 y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd:

*“y dylai argymhellion y comisiwn ffiniau gael eu rhoi ar waith heb ofyniad am gymeradwyaeth y Senedd a heb unrhyw bŵer gan weinidogion y llywodraeth i ddiwygio argymhellion o'r fath, ac eithrio pe bai'r comisiwn ffiniau yn gofyn am gael cywiro gwallau.”<sup>72</sup>*

---

<sup>72</sup> Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, argymhelliad 29

298. Mae'r Bil yn nodi sut y mae'n rhaid gwneud y rheoliadau o fewn 14 wythnos ar ôl i adroddiad terfynol y Comisiwn gael ei osod gerbron y Senedd. Mewn amgylchiadau eithriadol, caiff Gweinidogion Cymru wneud y rheoliadau y tu hwnt i'r cyfnod o 14 wythnos, ynghyd â datganiad sy'n egluro natur yr amgylchiadau eithriadol. Yn yr amgylchiadau hyn, rhaid i Weinidogion Cymru wneud datganiad (cyn diwedd y cyfnod o 14 wythnos) i'r Senedd yn egluro'r amgylchiadau eithriadol sy'n achosi'r oedi. Rhaid i Weinidogion Cymru wedyn wneud datganiadau ychwanegol bob pedair wythnos nes gwneir y rheoliadau.

299. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru gywiro gwallau y maent yn cael gwybod amdanynt gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Os daw gwallau i'r amlwg, ar ôl i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi a'i osod gerbron y Senedd, a fyddai'n golygu bod rhaid addasu'r penderfyniadau, rhaid i'r Comisiwn gyflwyno datganiad i Weinidogion Cymru (a'i gyhoeddi wedyn cyn gynted â phosibl) sy'n amlinellu'r addasiadau y mae'r Comisiwn o'r farn y dylid eu gwneud i'r penderfyniadau er mwyn cywiro unrhyw wallau, a'r rhesymau dros yr addasiadau hynny. Ar ôl cael y datganiad gan y Comisiwn, dylai Gweinidogion Cymru ei osod (ar ran y Comisiwn) gerbron y Senedd, fel y cafodd ei gyhoeddi. Rhaid i'r rheoliadau sy'n gweithredu'r penderfyniadau adlewyrchu'r addasiadau a amlinellwyd yn y datganiad hwnnw. Dyma'r unig broses y gellir ei defnyddio i addasu penderfyniadau'r Comisiwn, ac mae'n cyd-fynd â'r trefniadau ar gyfer adolygiadau ffiniau Senedd yr Alban a Senedd y DU.

300. Ni fydd y ffaith fod y rheoliadau'n dod i rym yn effeithio ar ethol Aelod o'r Senedd, nac ar gyfansoddiad y Senedd, hyd nes y diddymir y Senedd mewn cysylltiad â'r etholiad cyffredinol cyntaf i'w gynnal ar ôl 6 Ebrill 2026. Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw etholiad sy'n digwydd ar neu cyn 6 Ebrill 2026 yn cael ei gynnal o dan y system etholiadol a'r ffiniau etholaethau presennol, ond os caiff etholiad cyffredinol cyffredin ei symud ymlaen fis, o ganlyniad i'r Llywydd yn

arfer grym o dan adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, gellid cynnal yr etholiad hwnnw o hyd ar sail y system etholiadol newydd a ffiniau etholaethau'r Senedd.

301. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer hefyd i symud dyddiad etholiad Senedd cyffredin pe bai, fel arall, yn cael ei gynnal ar yr un dyddiad ag etholiad cyffredinol Senedd y DU. Felly, mae'r darpariaethau uchod hefyd yn ymdrin â'r posibilrwydd y bydd etholiad Senedd cyffredin yn cael ei symud gan Weinidogion Cymru i fod fis ynghynt.

### **Adolygiad ffiniau 'llawn' 2031**

302. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gynnal adolygiad ffiniau 'llawn' cyn Etholiad y Senedd yn 2030.

303. Fel rhan o'r adolygiad, bydd angen i'r Comisiwn benderfynu (yn unol â rheolau'r adolygiad) a ddylid newid ffiniau 16 etholaeth dros dro y Senedd (ac, os felly, pa newidiadau y dylid eu gwneud) neu benderfynu nad oes angen gwneud unrhyw newidiadau.

304. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth mai un o reolau'r adolygiad yw bod rhaid i'r Comisiwn gynnig etholaethau sydd rhwng 90% a 110% o'r cwota etholiadol. Y cwota etholiadol yw nifer yr etholwyr cofrestredig sy'n gymwys i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd yng Nghymru, wedi'i rannu â chyfanswm (16) etholaethau'r Senedd.

305. Ystyrir bod amrywiant o 10% yn briodol gan ei fod yn rhoi cydbwysedd a hyblygrwydd i'r Comisiwn ystyried ffactorau ar wahân i'r cwota, gan gynnal hefyd lefel o gynrychiolaeth gyfartal rhwng etholwyr mewn gwahanol etholaethau. Bydd y cwota etholiadol yn seiliedig ar y gofrestr etholiadol llywodraeth leol ddiweddaraf (mae'r un etholfraint etholiadol yn bodoli ar gyfer etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau'r Senedd) fel y mae ar ddyddiad yr adolygiad (h.y. y dyddiad y mae'r adolygiad yn dechrau). Diffinnir y gofrestr ddiweddaraf fel y fersiwn ddiweddaraf a gyhoeddwyd o dan adran 13(1)(a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Cyhoeddir y rhain fel

arfer gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol erbyn 1 Rhagfyr bob blwyddyn yn dilyn y broses canfasio flynyddol.

306. Mae'r Bil hefyd yn darparu, yn ogystal â'r gofyniad cwota etholiadol a nodir uchod, y caiff Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, wrth ystyried a ddylid gwneud newidiadau i etholaethau'r Senedd (ac os felly, beth y dylai'r newidiadau hynny fod), roi sylw i'r pwyntiau canlynol (nad ydynt mewn unrhyw drefn o ran blaenoriaeth):

- Ffiniau presennol neu arfaethedig llywodraeth leol ar ddechrau'r adolygiad;
- Ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol faint, siâp a hygyrchedd etholaeth Senedd arfaethedig neu bresennol; ac
- Unrhyw glymau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau o'r fath.

307. Mae'r ffactorau hyn yn debyg i'r rhai a gynhwyswyd mewn adolygiadau eraill o ffiniau, megis adolygiadau ffiniau Seneddol y DU er enghraifft, ac maent yn adlewyrchu'r ffactorau a gynhwyswyd fel rhan o adolygiad 2026.

308. Wrth ystyried newidiadau a allai gael eu cynnig mewn perthynas â'r ffactorau uchod, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth y bydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn pwysu a mesur ac yn cloriannu manteision unrhyw gynigion o'r fath yn erbyn y gofyniad i geisio cyfyngu ar newidiadau i'r etholaethau Senedd interim a sefydlwyd ar gyfer 2026 a chan roi sylw i'r anghyfleustra a berir drwy wneud newidiadau iddynt.

309. Ystyrir bod osgoi gormod o newid er mwyn newid yn bwysig o safbwynt dealltwriaeth y cyhoedd a phleidleiswyr. Bydd newidiadau sylweddol rhwng ffiniau'r etholaethau presennol a'r rhai a fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer etholiad 2026. Mae'n bosibl hefyd y bydd newid sylweddol pellach cyn etholiad y Senedd yn 2030, felly ystyrir bod lleihau'r potensial am newid yn briodol er mwyn ceisio lleihau

dryswch i bleidleiswyr ac i'r cyhoedd. Mae hyn yn bwysig yn enwedig o ystyried y bydd adolygiad arall o ffiniau Seneddol y DU yn cael ei gynnal tua'r un adeg, gyda dyddiad terfyn o 1 Hydref 2031 ar gyfer adrodd, a allai olygu mwy o newid i ffiniau etholiadol. Ystyrir hefyd ei bod yn bwysig ystyried goblygiadau unrhyw newidiadau sylweddol er mwyn cyfyngu, lle y bo'n briodol, ar y newidiadau sy'n ofynnol gan swyddogion etholiadol ac er mwyn osgoi tarfu'n ormodol ar eu gwaith.

310. Fel yn achos adolygiad 2026, mae'r Bil yn nodi sut mae'n rhaid i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru nodi'r enw a ddefnyddir i adnabod yr etholaethau newydd. Yn dilyn gwelliannau a wnaed yng Nghyfnod 2, mae'r Bil yn darparu bod rhaid i bob etholaeth gael enw unigol at ddibenion adnabod yr etholaeth mewn cyfathrebiad drwy'r Gymraeg a'r Saesneg, oni bai bod y Comisiwn yn ystyried y byddai hyn yn annerbyniol, ac os felly caniateir iddo gynnig enwau gwahanol i'w defnyddio wrth gyfathrebu drwy'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn yn golygu bod rhagdybiaeth y bydd y Comisiwn yn ceisio rhoi un enw i etholaeth yn y Senedd. Bwriad hyn yw hwyluso a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a bwrw ymlaen â pholisïau a dyheadau datganedig Llywodraeth Cymru o ran polisi iaith. Mae'r Bil, fel y'i diwygiwyd, hefyd yn nodi sut y mae'n ofynnol i'r Comisiwn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar adegau perthnasol yn ystod yr adolygiad, i geisio barn ar orgraff (y ffordd gydnabyddedig o sillafu ac ysgrifennu geiriau) unrhyw enwau arfaethedig.

311. Yn yr un modd ag adolygiad 2026, mae'r ddeddfwriaeth yn gwneud darpariaeth bod rhaid i'r Comisiwn ddatgan ("dynodi") a yw etholaeth newydd naill ai'n etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol mewn adolygiadau eraill o ffiniau, ac mae prif effaith y dynodiad hwn yn gysylltiedig â gwariant rheoledig ymgeiswyr. Nid yw'r Bil yn cynnwys y ffactorau y dylai Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru eu hystyried wrth ddynodi etholaethau newydd y Senedd, ond mae hyn yn gysylltiedig â natur wledig yr etholaeth fel arfer.



312. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gynnal tri chyfnod ymgynghori fel rhan o'r adolygiad. Bydd y cyfnod ymgynghori cyntaf yn para am wyth wythnos ar ôl cyhoeddi adroddiad cychwynnol, a bydd ail gyfnod ymgynghori yn dilyn hynny ac yn para am chwe wythnos. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal gwrandawiadau cyhoeddus fel rhan o'r ail gyfnod ymgynghori, a sut dylid eu cynnal (gan adlewyrchu trefniadau adolygiadau o ffiniau etholaethau Seneddol y DU). Ar ôl cyhoeddi ail adroddiad, rhaid cynnal trydydd cyfnod ymgynghori o bedair wythnos. Bydd gofyn i'r Comisiwn gyhoeddi'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnodau ymgynghori, gan gynnwys sylwadau a gafodd eu gwneud mewn gwrandawiadau cyhoeddus.
313. Yn dilyn gwelliannau a wnaed yng Nghyfnod 2, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf a'r cyfnod ymgynghori olaf. Bydd hyn yn rhoi cyfle i Gomisiynydd y Gymraeg rannu sylwadau sy'n ymwneud â phob agwedd ar y cynigion a nodir yn yr adroddiad cychwynnol a'r ail adroddiad (a gallent fod yn ehangach nag orgraff enwau arfaethedig). Yn yr un modd â'r holl sylwadau y bydd yn eu derbyn gan eraill, rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi sylwadau y bydd yn eu derbyn gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod y cyfnodau ymgynghori.
314. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod y Comisiwn yn cyhoeddi adroddiad terfynol (gan anfon copi at Weinidogion Cymru) cyn 1 Rhagfyr 2028. Rhaid i Weinidogion Cymru wedyn osod yr adroddiad gerbron y Senedd ar ran y Comisiwn. O ran adolygiad ffiniau 2026, ystyrir bod terfyn amser yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod digon amser paratoi ar gael i weinyddwyr etholiadol ddod i ddeall y trefniadau etholiadol newydd, cyn i etholiad gael ei gynnal.
315. Fel yn achos trefniadau adolygiad 2026, mae'r Bil yn cynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru weithredu, drwy reoliadau,

benderfyniadau'r Comisiwn a fydd wedi'u cynnwys yn ei adroddiad terfynol. Rhaid i'r rheoliadau gael eu gosod gerbron y Senedd.

316. Fel yr eglurwyd yn yr adran uchod ar adolygiad 2026, mae'r dull hwn - lle na all Gweinidogion Cymru na'r Senedd newid penderfyniadau'r Comisiwn, na'u hatal rhag dod yn gyfraith - yn cael gwared ar y risg (ymddangosiadol neu wirioneddol) y gall gwleidyddion ddylanwadu ar y broses o gyflwyno ffiniau mewn ffordd a allai fod o fudd i Aelod neu blaid wleidyddol benodol. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd ag argymhelliad 29 y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd:

*“y dylai argymhellion y comisiwn ffiniau gael eu rhoi ar waith heb ofyniad am gymeradwyaeth y Senedd a heb unrhyw bŵer gan weinidogion y llywodraeth i ddiwygio argymhellion o'r fath, ac eithrio pe bai'r comisiwn ffiniau yn gofyn am gael cywiro gwallau.”<sup>73</sup>*

317. Mae'r Bil, fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2, hefyd yn nodi sut y mae'n rhaid gwneud y rheoliadau cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl, a sut bynnag o fewn pedwar mis ar ôl i adroddiad terfynol y Comisiwn gael ei osod gerbron y Senedd. Mewn amgylchiadau eithriadol, caiff Gweinidogion Cymru wneud y rheoliadau ar ôl y cyfnod o bedwar mis. Yn yr amgylchiadau hyn, rhaid i Weinidogion Cymru wneud datganiad (cyn diwedd y cyfnod o bedwar mis) i'r Senedd yn egluro'r amgylchiadau eithriadol sy'n achosi'r oedi. Rhaid i Weinidogion Cymru wedyn wneud datganiadau ychwanegol bob pedair wythnos nes gwneir y rheoliadau.

318. Fel yn achos adolygiad 2026, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth hefyd i Weinidogion Cymru gywiro gwallau y maent yn cael gwybod amdanynt gan y Comisiwn. Os daw gwallau i'r amlwg, ar ôl i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi a'i osod gerbron y Senedd, a fyddai'n golygu bod rhaid addasu'r penderfyniadau, rhaid i'r Comisiwn gyflwyno datganiad i Weinidogion Cymru (a'i gyhoeddi wedyn cyn gynted â phosibl) sy'n amlinellu'r addasiadau y mae'r

---

<sup>73</sup> Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, argymhelliad 29.

Comisiwn o'r farn y dylid eu gwneud i'r penderfyniadau er mwyn cywiro unrhyw wallau, a'r rhesymau dros yr addasiadau hynny. Ar ôl cael y datganiad gan y Comisiwn, dylai Gweinidogion Cymru osod (ar ran y Comisiwn) y datganiad gerbron y Senedd, fel y cafodd ei gyhoeddi. Rhaid i'r rheoliadau sy'n gweithredu'r penderfyniadau adlewyrchu'r addasiadau a amlinellwyd yn y datganiad hwnnw. Dyma'r unig broses y gellir ei defnyddio i addasu penderfyniadau'r Comisiwn, ac mae'n cyd-fynd â'r trefniadau ar gyfer adolygiadau ffiniau Senedd yr Alban a Senedd y DU.

319. Mae'r ddeddfwriaeth, yn dilyn gwelliannau a wnaed yng Nghyfnod 2, yn egluro y bydd etholaethau'r Senedd a ddefnyddir ar gyfer etholiad cyntaf y Senedd a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026 yn parhau i fod ar waith hyd nes y bydd y rheoliadau uchod sy'n gweithredu adolygiad ffiniau 'llawn' 2030 yn dod i rym. Mae'r Bil yn datgan na fydd y rheoliadau yn dod i rym hyd nes y diddymir y Senedd mewn cysylltiad â'r etholiad cyffredinol cyffredin nesaf (a drefnwyd ar gyfer 2 Mai 2030) neu etholiad cyffredinol eithriadol a gynhelir ar yr hyn a fyddai wedi bod yr un diwrnod â'r etholiad cyffredin a drefnwyd, neu a gynhelir o fewn y cyfnod blaenorol o fis. Mae hyn yn adlewyrchu bod gan y Llywydd, o dan adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, y pŵer i amrywio dyddiad etholiad cyffredin y Senedd (i'w symud ymlaen neu'n ôl) hyd at fis, ac mae'r darpariaethau felly'n sicrhau, os cynhelir etholiad yn ystod y cyfnod blaenorol hwnnw o fis (h.y. ar ôl 1 Ebrill 2030), y byddai unrhyw ffiniau diwygiedig ar gyfer y Senedd a gynigiwyd ar gyfer etholiad 2030 yn cael eu defnyddio, ni waeth a yw'r etholiad a gynhelir yn etholiad cyffredin neu'n etholiad eithriadol.

320. Pe bai etholiad cyffredinol eithriadol yn cael ei gynnal fwy na mis cyn dyddiad yr etholiad cyffredin a drefnwyd, byddai'r etholiad hwnnw'n cael ei gynnal ar sail ffiniau presennol y Senedd (h.y. y ffiniau a sefydlwyd ar gyfer etholiad Senedd 2026). Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth y diffyg amser fyddai gan weinyddwyr etholiadol i baratoi ar gyfer yr etholiad (egwyddor Gould).

321. Fel y nodwyd eisoes, mae gan Weinidogion Cymru bŵer hefyd i newid dyddiad etholiad cyffredin y Senedd os byddai, fel arall, yn cael ei gynnal ar yr un dyddiad ag etholiad cyffredinol Senedd y DU. Yn y senario hwnnw, ac wrth ystyried y dyddiad ar gyfer etholiad cyffredinol cyffredin wedi'i aildrefnu, byddai angen ystyried yr amser sydd ei angen ar weinyddwyr etholiadol i baratoi ar gyfer yr etholiad.

### **Adolygiadau cyfnodol ar ôl 2030**

322. Dywedodd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd yn glir y dylai deddfwriaeth diwygio'r Senedd hefyd gynnwys gofyniad i gynnal adolygiadau llawn o'r ffiniau yn gyfnodol, ac mae hyn wedi cael ei adlewyrchu yn y Bil.

323. Byddai hyn yn sicrhau na fydd y sefyllfa bresennol, lle nad yw ffiniau etholaethau'r Senedd wedi cael eu hadolygu ers dros 15 mlynedd, yn digwydd eto.

324. Ystyrir bod angen adolygiadau rheolaidd o'r ffiniau er mwyn ystyried newidiadau demograffig a newidiadau i'r boblogaeth dros amser, a chynnal cynrychiolaeth gyfartal ar draws etholaethau.

325. Felly, mae'r Bil yn datgan sut y mae'n rhaid i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru adolygu ffiniau etholaethau'r Senedd drwy gynnal adolygiadau 'llawn' yn rheolaidd bob wyth mlynedd. Mae hyn yn golygu na fydd mwy na dau dymor Senedd rhwng pob adolygiad 'llawn', ac y bydd ffiniau ar waith ar gyfer dau o etholiadau'r Senedd.

326. Bydd darparu amserlen ar gyfer adolygiadau rheolaidd hefyd yn helpu'r Comisiwn â'r broses gynllunio ac i reoli ei waith. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd y bydd etholaethau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

327. Ar gyfer seneddau eraill y DU, mae amserlenni ar gyfer adolygiadau hefyd wedi'u nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol. Bob wyth mlynedd yw'r amserlen sydd wedi'i gosod ar gyfer adolygiadau

o ffiniau Seneddol y DU, ond dim llai nag 8 mlynedd a dim mwy na 12 mlynedd yw'r amserlen sydd wedi'i gosod ar gyfer adolygiadau Senedd yr Alban.

328. Mae'r Bil yn nodi y byd y rheolau a'r prosesau sy'n gysylltiedig â'r adolygiadau rheolaidd yr un fath â'r rhai a ddisgrifir uchod ar gyfer adolygiad 2030, ac mai'r terfyn amser ar gyfer adrodd fydd 1 Rhagfyr ym mhob wythfed flwyddyn ar ôl 1 Rhagfyr 2028.

329. Mae gwelliannau a wnaed yng Nghyfnod 2 yn egluro y bydd ffiniau presennol y Senedd yn parhau i fod ar waith hyd nes y bydd rheoliadau newydd (gweithredu penderfyniadau'r Comisiwn yn dilyn adolygiad) yn dod i rym. Mae'r Bil yn darparu na fydd y rheoliadau, unwaith y cânt eu gwneud, yn dod i rym hyd nes y diddymir y Senedd mewn cysylltiad â'r etholiad cyffredinol cyffredin nesaf neu etholiad cyffredinol eithriadol a gynhelir ar yr hyn a fyddai wedi bod yr un diwrnod â'r etholiad cyffredin a drefnwyd, neu a gynhelir o fewn y cyfnod blaenorol o fis.

### ***Gofyniad Preswyllo***

330. Mae'r Bil yn darparu bod unigolyn nad yw wedi'i gofrestru ar gofrestr etholwyr llywodraeth leol mewn cyfeiriad yng Nghymru yn cael ei anghymhwyso rhag bod yn ymgeisydd ar gyfer etholiad, a rhag bod yn Aelod o'r Senedd.

331. Felly, er mwyn cael ei enwebu'n ddilys fel ymgeisydd mewn etholiad cyffredinol i'r Senedd, ac er mwyn parhau'n Aelod, rhaid i berson fod wedi bodloni'r un meini prawf preswyllo ag y mae angen iddo fod wedi'u bodloni er mwyn pleidleisio mewn etholiad cyffredinol i'r Senedd (a rhaid iddo fod wedi'i gofrestru felly).

332. Ystyr "preswyllo" yw'r diffiniad a roddir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

333. Fodd bynnag, ni fyddai darpariaethau preswyl y Bil ond yn ei gwneud yn ofynnol i unigolyn breswyllo rywle yng Nghymru, nid

mewn etholaeth Senedd benodol. Er enghraifft, byddai modd i berson fod ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol yn Sir Benfro a sefyll etholiad mewn etholaeth yng Nghaerdydd. I'r gwrthwyneb, er mwyn pleidleisio mewn etholaeth benodol, byddai'n rhaid preswyllo yn yr etholaeth honno.

334. Yn yr un modd, rhaid i ymgeiswyr nad ydynt yn cael eu hethol mewn etholiad cyffredinol i'r Senedd, ond sydd mewn sefyllfa yn ddiweddarach i gymryd sedd wag, fod yn preswyllo yng Nghymru pan fyddant yn cymryd y sedd wag ac am gyhyd ag y byddant yn parhau i fod yn aelod o'r Senedd.

### ***Lleihau hyd Tymor y Senedd***

335. Mae'r Bil hwn yn darparu ar gyfer lleihau hyd tymor y Senedd o bum mlynedd i bedair blynedd drwy newid pa mor aml y cynhelir etholiadau cyffredinol cyffredin. Byddai hyn yn golygu, yn dilyn yr etholiad cyffredinol cyffredin ym mis Mai 2026, y byddai'r etholiadau cyffredinol cyffredin dilynol yn cael eu cynnal ar y dydd Iau cyntaf ym mis Mai 2030, yna ym mis Mai 2034, ac yn y blaen.

336. Yn dilyn gwelliant yng Nghyfnod 2, mae'r Bil hefyd yn darparu i'r newid hwn ddod i rym os na chynhelir yr etholiad cyffredinol cyffredin a drefnwyd ar gyfer 2026 oherwydd bod etholiad cyffredinol eithriadol yn cael ei gynnal yn y chwe mis cyn y dyddiad y trefnwyd cynnal yr etholiad cyffredin arno (yn rhinwedd adran 5(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

### ***Pŵer i osod terfynau gwariant ymgyrchoedd etholiadol y Senedd***

337. Yn dilyn gwelliant yng Nghyfnod 2, mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio paragraff 6 o Atodlen 9 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 i osod y terfynau ar wariant ymgyrch yr eir iddo gan neu ar ran pleidiau mewn etholiad cyffredinol.

338. Mae'r pŵer hwn yn amodol ar gydsyniad y Comisiwn Etholiadol ac mae hefyd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd.

339. Mae'n ychwanegu at y pwerau sydd gan Weinidogion Cymru eisoes i ddiwygio terfynau mewn perthynas â newidiadau chwyddiannol.

### ***Mecanwaith Adolygu***

340. Bydd y Bil hwn yn gosod dyletswydd ar y Llywydd i gyflwyno cynnig i sefydlu Pwyllgor Senedd i gynnal adolygiad o'r newidiadau a gyflwynir gan y Ddeddf yn dilyn etholiad 2026.

341. Bydd y cynnig yn ei gwneud yn ofynnol i'r adolygiad ar ôl etholiad Senedd 2026 ystyried:

- gweithrediad ac effaith darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 fel y'u diwygiwyd gan y Bil hwn; ac
- i ba raddau y mae elfennau o ddemocratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru.

342. Mae'n ofynnol i'r Llywydd gyflwyno'r cynnig cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyfarfod cyntaf y Senedd ar ôl etholiad 2026, ond sut bynnag yn ddim hwyrach na 6 mis o'r dyddiad hwnnw.

343. Rhaid cwblhau'r adolygiad o fewn 12 mis i gyfarfod cyntaf y Senedd ar ôl etholiad 2026 (h.y. pe bai'r Llywydd yn cymryd y cyfnod cyfan o 6 mis sydd ar gael i gyflwyno'r cynnig hwnnw ac y cytunid arno, byddai gan y pwyllgor penodedig hawl i 6 mis pellach i gwblhau ei adolygiad).

344. Yn dilyn gwelliant yng Nghyfnod 2, os bydd y Senedd yn cynnal adolygiad o'r fath, ac yn llunio adroddiad ar ôl hynny, byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru osod datganiad yn nodi eu hymateb i'r adroddiad hwnnw.

### ***Rhannu Swyddi***

345. Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar y Llywydd i gyflwyno cynnig yn cynnig bod pwyllgor o'r Senedd yn cynnal adolygiad o'r graddau y

dylai personau allu dal swyddi penodol ar y cyd, neu ddal swyddi dros dro, yn y Senedd a'r Llywodraeth. Bwriad hyn yw rhoi digon o gyfle i'r pwyllgor, os caiff ei sefydlu, adolygu goblygiadau ymarferol a deddfwriaethol rhannu swyddi i ymgeiswyr sy'n sefyll yn etholiadau Senedd Cymru o ran cael eu hethol yn Aelodau o'r Senedd sy'n rhannu swydd; rhannu swyddi gweithrediaeth a rolau yn y Senedd a nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, a threfniadau ar gyfer gwneud swydd dros dro tra nad yw'r person hwnnw ar gael.

346. Rhaid i'r Llywydd gyflwyno'r cynnig cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyfarfod cyntaf y Senedd yn dilyn yr etholiad cyffredinol cyntaf a gynhelir ar ôl 7 Tachwedd 2025 ac yn ddim hwyrach na chwe mis ar ôl cyfarfod cyntaf y Senedd yn dilyn yr etholiad hwnnw.

347. Rhaid i'r cynnig a gyflwynir gan y Llywydd gynnig hefyd y dylai'r pwyllgor a sefydlir i gynnal yr adolygiad lunio adroddiad, yn cynnwys argymhellion, yn dilyn ei adolygiad. Os sefydlir y pwyllgor a'i fod yn cytuno y dylid gosod adroddiad gerbron y Senedd, rhaid i Weinidogion Cymru osod datganiad sy'n ymateb i'r adroddiad, gan nodi pa gamau a gynigir, os o gwbl, mewn ymateb i'r argymhellion. Rhagwelir y bydd adroddiad y pwyllgor a'r ymateb gan Weinidogion Cymru yn ystyried goblygiadau ymarferol a deddfwriaethol galluogi rhannu swyddi.



## Pennod 4: Ymgynghori

348. Gosododd adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig amserlen uchelgeisiol i fynd ati i Ddiwygio'r Senedd mewn pryd ar gyfer etholiad disgwylidig nesaf y Senedd yn 2026. Dywedodd y Pwyllgor na fyddai modd cychwyn adolygu'r ffiniau nes bod deddfwriaeth wedi cael ei phasio i wneud hynny'n bosibl, ac felly y byddai angen cyflwyno deddfwriaeth diwygio'r Senedd ar fyrder er mwyn i'r cynigion gael eu rhoi ar waith mewn pryd ar gyfer etholiad 2026. Hefyd, mae'n gwbl briodol bod gweinyddwyr etholiadol a phleidiau gwleidyddol yn cael cyfnod priodol o amser i baratoi i weithredu newidiadau o'r fath, ar ôl i ddeddfwriaeth berthnasol gael ei gwneud.<sup>74</sup>

349. Yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, sef *Diwygio ein Senedd, Llais Cryfach i Bobl Cymru*, dywedodd Llywodraeth Cymru y gallai'r amserlen dynn hon gyfyngu neu gwtogi ar gyfleoedd i graffu cyn y broses ddeddfu. Felly y bu, ac nid oedd yn bosibl i Lywodraeth Cymru gynnal ei hymgynghoriad cyhoeddus agored ei hun ar gysyniadau cyffredinol diwygio'r Senedd na Bil drafft o fewn yr amserlen a oedd ar gael i ddatblygu'r deddfwriaeth.

350. Yn hytrach na hynny, aeth Llywodraeth Cymru ati i:

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol mewn ffordd wedi'i thargedu, i sicrhau bod swyddogion yn ymwybodol o'u safbwyntiau ar faterion allweddol; ac
- Ymgysylltu'n gynnar ac yn fanwl â'r gymuned gweinyddwyr etholiadol, gan sicrhau y byddai pryderon gweinyddol yn gallu cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio'r deddfwriaeth.

---

<sup>74</sup> Er enghraifft, mae Confensiwn Gould yn gwneud darpariaeth y dylai pob deddfwriaeth sy'n berthnasol i etholiad – gan gynnwys is-ddeddfwriaeth – gael ei gwneud o leiaf chwe mis cyn hysbysiad yr etholiad hwnnw, er mwyn sicrhau bod digon o amser i newidiadau i'r gyfraith etholiadol gael eu rhoi ar waith yn briodol. Mae Confensiwn Gould yn deillio o adroddiad [Scottish Elections 2007: The independent review of the Scottish Parliamentary and local government elections 3 May 2007](#).

351. Er enghraifft, bu cydweithio rheolaidd ag ysgrifenyddiaeth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn ystod y gwaith o ddatblygu'r Bil, er mwyn sicrhau bod modd cyflawni'r cynigion sydd wedi'u cynnwys a'u bod yn adlewyrchu arferion presennol ym maes adolygu ffiniau. Mae cyfarfodydd rheolaidd wedi cael eu cynnal ynghylch y trefniadau arfaethedig a'r effaith bosibl ar y Comisiwn, ochr yn ochr â'r newidiadau sydd i'w gwneud drwy Fil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru).
352. Bu ymgysylltu uniongyrchol â'r Comisiwn Etholiadol hefyd ar yr elfennau diwygio hynny sy'n effeithio'n uniongyrchol arno, ac mae'r Comisiwn Etholiadol wedi hwyluso'r broses o ymgysylltu â nifer o gynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol ar gynigion sy'n effeithio ar bleidiau gwleidyddol.
353. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymgysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar elfennau o'r Bil sy'n ymwneud â phreifatrwydd gwybodaeth pobl.
354. Mae ymgysylltu o'r fath wedi helpu i esblygu a datblygu'r Bil.
355. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar newidiadau i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (y Gorchymyn Cynnal Etholiadau) a'i gydgrynhoi, a fydd yn darparu'r sail statudol ar gyfer etholiad 2026, a bydd yn ymgorffori'r newidiadau a fydd yn deillio o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Bydd hefyd yn cynnwys mesurau ymarferol, megis cynllun y papur pleidleisio.
356. Hefyd, er na fu modd i Lywodraeth Cymru gynnal ei hymgyngoriad cyhoeddus ei hun, aeth ati wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth i ystyried y cyfoeth o wybodaeth sydd ar gael am farn y cyhoedd am ddiwygio'r Senedd, a fynegwyd mewn cyfres o ymgynghoriadau a gynhaliwyd dros yr ugain mlynedd diwethaf. Mae crynodeb o'r ymgynghoriadau hyn i'w weld isod.

357. O ran y newidiadau y mae'r Bil hwn yn eu cyflwyno nad ydynt yn deillio o argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig,<sup>75</sup> mae'r amserlenni hynod gyfyngedig ar gyfer datblygu deddfwriaeth yn golygu nad oes ymgysylltu penodol wedi digwydd ar yr elfennau hyn.

---

<sup>75</sup> Yn benodol, newid y cyfnod arferol rhwng etholiadau cyffredinol cyffredin y Senedd yn ôl i bedair blynedd; ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr i'r Senedd ac Aelodau ohoni breswyllo yng Nghymru; adolygiad o weithrediad ac effaith y darpariaethau deddfwriaethol newydd yn dilyn etholiad 2026; a mecanwaith ar gyfer ystyriaeth y Senedd o rannu swyddi mewn swyddi sy'n ymwneud â'r Senedd, yn y Seithfed Senedd.

## **Y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Comisiwn Richard), 2004**

358. Yn 2002, sefydlodd Llywodraeth Cymru Gomisiwn annibynnol i adolygu pwerau a threfniadau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, er mwyn sicrhau ei fod yn gallu gweithredu er budd pennaf pobl Cymru. Yn ei adroddiad, gwnaeth y Comisiwn argymhellion ynghylch strwythur, aelodaeth a system etholiadol y Cynulliad.

359. Roedd adroddiad Comisiwn Richard yn seiliedig ar farn pobl Cymru, a gasglwyd drwy gyfarfodydd cyhoeddus, ymchwil i arolygon barn y cyhoedd, cyfarfodydd gyda phobl ifanc a chyrrff cynrychioliadol, a dau ymgynghoriad a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2002 a mis Chwefror 2003. Cynhaliodd y Comisiwn 115 o sesiynau tystiolaeth i gyd, a chafodd dros 300 o gyflwyniadau ysgrifenedig.

360. Roedd y Comisiwn yn cydnabod nad oedd ei gyfarfodydd cyhoeddus yn sampl gynrychioliadol o bobl Cymru, gan ddweud:

*“bod y rhai a ddewisodd ddod i’n cyfarfodydd, neu a ymatebodd i’n hymgyngoriad, yn bobl a oedd â diddordeb arbennig yn y Cynulliad a’i ddyfodol. Nid yw’n syndod iddynt fynegi eu barn yn gryf.”<sup>76</sup>*

361. Roedd rhai ymatebwyr i amrywiol ymdrechion y Comisiwn i gydweithio yn cwestiynu (hyd yn oed bryd hynny) sut gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymdopi â dim ond 60 o Aelodau, gydag un ymatebydd yn dweud:

*“Canlyniad anorfod a niweidiol iawn bod â chyn lleied o ACau Cymreig yw Cabinet amhosib o fychan, Gweinidogion yn cael eu gorlwytho’n arw a ... phwyllgorau - pob un gydag aelodaeth llawer rhy fychan i graffu’n agos a chywir ... dylai gwariant blynyddol - £12 biliwn yn fuan - gael ei brofi’n effeithiol, ei arolygu a’i*

---

<sup>76</sup> Adroddiad Comisiwn Richard: Y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pennod 3, Para 4

*fonitro 'n agos. Sut all hyn gael ei wneud yn iawn gan 60 Aelod o'r Cynulliad?"*<sup>77</sup>

362. Dywedodd eraill y dylid cynyddu maint y Cynulliad dim ond os byddai'n cael rhagor o bwerau, gydag un ymatebydd yn dweud:

*"Dim ond petai'r Cynulliad yn cael mwy o bwerau y dylai nifer yr aelodau gynyddu ... Mae manteision i faint bychan y Cynulliad ... mae angen i bob aelod wybod cryn dipyn am yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru."*<sup>78</sup>

363. Yn ôl yr adroddiad, "Teimlai ychydig o'r rhai a ymatebodd fod 60 Aelod yn ormod"<sup>79</sup>, gydag un yn datgan:

*"Nid wyf yn argyhoeddedig bod digon o waith i gadw'r aelodau presennol yn brysur trwy'r amser. Rwy'n cynnig fod yr aelodau ... yn cael eu lleihau i 40."*<sup>80</sup>

364. Yn ôl yr adroddiad, "fe wnaeth bwerau'r Cynulliad ennyn llawer mwy o sylwadau na'r trefniadau etholiadol"<sup>81</sup>. Ac wrth sôn am yr ymatebwyr hynny a oedd wedi canolbwyntio ar drefniadau etholiadol, dywedodd iddynt, "gyflwyno amrywiaeth eang o safbwyntiau o blaid ac yn erbyn y system bleidleisio bresennol."<sup>82</sup> Roedd y rhain yn cynnwys pryderon ynghylch dealltwriaeth y cyhoedd o system rhestr, a chyfranoldeb y system. Un pryder a fynegwyd dro ar ôl tro am system Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg oedd ei bod yn arwain at "(g)wahaniaeth o ran cynrychiolaeth a llwyth gwaith rhwng

---

<sup>77</sup> Adroddiad Comisiwn Richard: Y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ymateb ysgrifenedig i'r ymgynghoriad (ni chafodd yr awdur ei enwi yn adroddiad y Comisiwn)

<sup>78</sup> Adroddiad Comisiwn Richard: Y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ymateb ysgrifenedig i'r ymgynghoriad (ni chafodd yr awdur ei enwi yn adroddiad y Comisiwn)

<sup>79</sup> Adroddiad Comisiwn Richard: Y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pennod 3, Para 38

<sup>80</sup> Adroddiad Comisiwn Richard: Y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ymateb ysgrifenedig i'r ymgynghoriad (ni chafodd yr awdur ei enwi yn adroddiad y Comisiwn)

<sup>81</sup> Adroddiad Comisiwn Richard: Y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pennod 3, Para 39

<sup>82</sup> Adroddiad Comisiwn Richard: Y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pennod 3, Para 40

ACau etholaethol a'r rhai rhanbarthol,"<sup>83</sup> gydag un siaradwr mewn cyfarfod cyhoeddus yn Abertawe yn dweud y canlynol am y system:

*"Mae'n creu dau ddosbarth o ACau ... mae rhai yn credu bod hyn yn rhoi gwahanol lefel o hygredd i wahanol ACau. Nid yw'r etholwyr yn adnabod y seddi rhanbarthol ychwanegol ar y cyfan. Golyga hyn bod gwaith achos lleol yn tueddu i fynd i'r rhai a etholwyd ar sail etholaeth seneddol. Mae hefyd yn golygu ei bod yn haws i ACau a etholwyd ar sail rhanbarth ddewis a dethol y materion y maent yn dymuno ymgyrchu arnynt."*<sup>84</sup>

365. Awgrymwyd Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn aml gan yr ymatebwyr hynny a oedd yn ffafrio newid y system etholiadol, gydag un ymatebydd yn dweud y canlynol:

*"Rwy'n etholwr 75 oed sydd wedi cymryd rhan ym mhob etholiad ers yr oeddwn yn gymwys i wneud hynny yn 21 oed, ac ni wnaeth fy mhleidlais unwaith, yn ystod y 54 mlynedd hynny, gael unrhyw effaith ar y canlyniad o gwbl. I bob pwrpas rwy'n teimlo fy mod wedi fy nifreinio o'r system bresennol. Rwyf eisiau gwneud i fy mhleidlais fod yn effeithiol ac ni allaf weld unrhyw ffordd arall o gyflawni hynny heblaw newid i STV."*<sup>85</sup>

366. Yn ôl yr adroddiad, roedd y bobl hynny a soniodd am ffiniau'r Senedd "ar y cyfan, o blaid cadw'r cyswllt â'r ffiniau Seneddol,"<sup>86</sup> gyda barn ysgrifenedig mewn cyfarfod cyhoeddus yn Llandrindod yn dweud y canlynol, "Mae'n bwysig iawn cadw'r rhain yr un fath ar gyfer etholiadau seneddol a rhai'r Cynulliad. Mae pobl wedi drysu digon fel y mae."<sup>87</sup>

---

<sup>83</sup> Adroddiad Comisiwn Richard: Y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pennod 3, Para 46

<sup>84</sup> Adroddiad Comisiwn Richard: Y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Siaradwr, Cyfarfod Cyhoeddus yn Abertawe (ni chafodd y siaradwr ei enwi yn adroddiad y Comisiwn)

<sup>85</sup> Adroddiad Comisiwn Richard: Y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Barn ysgrifenedig, Cyfarfod cyhoeddus, Caerdydd

<sup>86</sup> Adroddiad Comisiwn Richard: Y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pennod 3, Para 47

<sup>87</sup> Adroddiad Comisiwn Richard: Y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Barn Ysgrifenedig, Cyfarfod Cyhoeddus yn Llandrindod (dienw yn adroddiad y Comisiwn)

## **Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk), 2014**

367. Sefydlwyd *Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru* gan Lywodraeth y DU yn 2011 i adolygu'r trefniadau ariannol a chyfansoddiadol yng Nghymru. Gwnaeth ei waith mewn dwy ran. Yn 2012, cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad ar Ran I, a oedd yn edrych ar bwerau cyllidol. Yn 2014 cyhoeddwyd adroddiad y Comisiwn ar Ran II ei gylch gwaith, sef *Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru*, a oedd yn canolbwyntio ar bwerau ehangach Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ar draws yr adroddiadau hyn, gwnaeth y Comisiwn gyfres o argymhellion a oedd yn ymwneud â'r Cynulliad Cenedlaethol a'i berthynas â Senedd y DU. Roedd yr argymhellion hyn yn cynnwys y dylid cynyddu maint y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn iddo allu cyflawni ei rôl graffu yn well.
368. Roedd ail adroddiad y Comisiwn yn seiliedig ar alwad am dystiolaeth a ddosbarthwyd i bron i 800 o grwpiau a chyrrff â buddiant, a daeth dros 200 o ymatebion i law. Cynhaliodd y Comisiwn gyfres o ddigwyddiadau cyhoeddus ledled y wlad, gyda dros 400 o bobl yn bresennol yn y digwyddiadau hynny. Cafwyd dros 500 o ymatebion i holiadur a ddarparwyd yn y digwyddiadau hyn, ar ffurf copi caled ac ar-lein. Casglodd y Comisiwn hefyd ddata ystadegol ynghylch barn y cyhoedd am ddatganoli yng Nghymru drwy arolwg barn y cyhoedd, a oedd yn cynnwys cyfweiliadau dros y ffôn â sampl gynrychioliadol o 2,009 o aelodau o boblogaeth Cymru a oedd yn 16 oed neu'n hŷn.
369. Cafodd y Comisiwn amrywiaeth o dystiolaeth a oedd yn galw am gynyddu maint y Cynulliad, gyda'r Llywydd ar y pryd yn dweud:

*“Ac ystyried pwysau'r cyfrifoldeb sydd ar y Sefydliad a maint anochel y baich gwaith a wynebir gan yr Aelodau, nid oes gennyf*

*amheuaeth na ddylid cynyddu nifer Aelodau'r Cynulliad o 60 i 80.*"<sup>88</sup>

370. Dywedodd prosiect DG: Undeb sy'n Newid fod "ymchwil yn awgrymu bod y Cynulliad yn llai na'r maint lleiaf a fyddai'n galluogi Aelodau i ymgymryd yn effeithiol â'r holl swyddogaethau angenrheidiol."<sup>89</sup> Wrth i bwerau deddfu sylfaenol gael eu dyfarnu o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, dywedodd:

*"does dim cyfiawnhad posibl i barhau â'r drefn yma. Pe bai'r Cynulliad yn cael rhagor o bwerau, byddai'r ddadl dros helaethu nifer yr Aelodau Cynulliad yn anatebadwy."*<sup>90</sup>

371. Yn ei dystiolaeth, dywedodd yr Athro John Williams, Prifysgol Aberystwyth: "Mae gallu'r Cynulliad i graffu ar ddeddfwriaeth wedi'i gyfyngu gan nifer yr ACau sydd ar gael i gyflawni'r rôl honno'."<sup>91</sup> Gofynnodd:

*"a fyddai corff sefydlog a benodid i graffu ac i gynghori'r Pwyllgor priodol yn y Cynulliad yn darparu'r cymorth ychwanegol angenrheidiol? Ni fyddai hyn yn tanseilio atebolrwydd democrataidd y Cynulliad, ond yn hytrach, byddai'n cryfhau ei allu i sicrhau bod deddfwriaeth yn addas at y diben'."*<sup>92</sup>

372. Argymhellodd y Gymdeithas Diwygio Etholiadol y dylid "cynyddu nifer Aelodau'r Cynulliad" a dywedodd ei bod "yn hanfodol os ydym am sicrhau canlyniadau polisi democrataidd bod gennym ddigon o allu i oruchwylio a chraffu ar y canlyniadau hynny er mwyn iddynt wasanaethu pobl Cymru gystal ag y bo modd".<sup>93</sup> Dywedodd: "Mae'n amlwg bod maint y Cynulliad yn golygu nad oes digon o bobl eisoes i graffu'n ddigonol."<sup>94</sup>

373. Mynegodd yr Eglwys yng Nghymru y pryder canlynol:

*"Mae'n bosibl nad oes digon o graffu trwyadl ar ddeddfwriaeth bwysig oherwydd nad oes digon o ACau ar y meinciau cefn i*

---

<sup>88</sup> Y [Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru – Grymuso a Chyfrifoldeb - Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru](#), Mawrth 2014, Tud. 159

<sup>89</sup> Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru, 2014, Tud. 159

<sup>90</sup> Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru, 2014, Tud. 159

<sup>91</sup> Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru, 2014, Tud. 159

<sup>92</sup> Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru, 2014, Tud. 159

<sup>93</sup> Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru, 2014, Tud. 160

<sup>94</sup> Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru, 2014, Tud. 160



*gyflawni'r holl dasgau. Pan fydd yn rhaid i nifer fawr o ACau fod yn aelodau o'r llywodraeth, mae'n anodd iddynt fod yn ddigon annibynnol.*"<sup>95</sup>

374. Yn yr un modd, dywedodd Unite Cymru:

*"Fel y nodwyd gan Gomisiwn Richard ac eraill o'r blaen, nid yw'r 60 Aelod Cynulliad sydd gennym ar hyn o bryd yn ddigon i graffu'n effeithiol ar waith deddfwriaethol ac adrannol Llywodraeth Cymru."*<sup>96</sup>

375. Roedd Cymdeithas y Cyfreithwyr yn cytuno nad yw'r "nifer bresennol, sef dim ond 60 o Aelodau Cynulliad yn ddigon", a bod y "ffigur hwn yn cymharu'n anffafriol â'r Senedd yn yr Alban sydd â 129 o aelodau a Chynulliad Gogledd Iwerddon sydd â 108."<sup>97</sup> Dywedodd hefyd, "Bydd hyn yn gwaethygu pan gaiff pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu hehangu os nad eir i'r afael â'r mater."<sup>98</sup>

376. Roedd Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru o'r farn "fod yna eisoes achos cryf dros gynyddu'r nifer o Aelodau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru."<sup>99</sup> Ychwanegodd:

*"Bydd unrhyw drosglwyddo cymwyseddau pellach yn gwneud hyn yn angenrheidiol os yw'r corff i ymgymryd â'i ddyletswyddau deddfwriaethol a chraffu yn effeithiol."*<sup>100</sup>

377. Roedd Grŵp Astudio Cymru y Grŵp Astudio Seneddol o'r farn ei bod yn "anodd gwrthbrofi bod cyfyngiadau sylweddol ar allu'n codi yn sgîl cael nifer gymharol fach o ACau."<sup>101</sup> Roedd o'r farn hefyd:

*"Rywbyrd, bydd yn rhaid mynd i'r afael â'r diffyg gallu craidd, neu mae'n anochel y bydd hyn yn dal i amharu ar broffil, effeithiolrwydd a dilysrwydd y Cynulliad."*<sup>102</sup>

378. Daeth y Comisiwn i'r casgliad canlynol:

<sup>95</sup> Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru, 2014, Tud. 160

<sup>96</sup> Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru, 2014, Tud. 160

<sup>97</sup> Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru, 2014, Tud. 160

<sup>98</sup> Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru, 2014, Tud. 160

<sup>99</sup> Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru, 2014, Tud. 160

<sup>100</sup> Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru, 2014, Tud. 160

<sup>101</sup> Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru, 2014, Tud. 160

<sup>102</sup> Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru, 2014, Tud. 160

*“Awgrymwyd nifer o atebion posibl i ddatrys y bwlch hwn o ran gallu. Un yw ychwanegu aelodau anetholedig heb bleidlais at y pwyllgorau, neu greu ail Siambr. Mae'r rhain yn codi problemau o ran democratiaeth ac nid ydym yn eu hargymell. Atebion eraill a awgrymwyd oedd cael mwy o hyblygrwydd o ran nifer a maint y pwyllgorau; cynyddu gallu'r staff ymchwil; a defnyddio amser Aelodau'r Cynulliad yn well - “gweithio'n glyfrach”. Fe allai pob un o'r rhain liniaru pethau, ac rydym yn gobeithio y gwnai'ff y Cynulliad Cenedlaethol a'i Bwyllgor Busnes eu hystyried. Serch hynny, ni allant sicrhau'r ateb tymor hir sydd ei angen. Yn hytrach, rydym yn argyhoeddedig bod angen mwy o aelodau mainc cefn ar y Cynulliad Cenedlaethol a fydd yn gallu craffu ar ddeddfwriaeth a pholisïau Llywodraeth Cymru yn fwy trwyadl.”<sup>103</sup>*

## **Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, 2017**

379. Penodwyd y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad gan y Llywydd a Chomisiwn y Cynulliad ym mis Chwefror 2017, a chafodd y dasg o wneud argymhellion ar nifer yr Aelodau y mae ar y Cynulliad eu hangen, y system y dylid ei defnyddio i'w hethol, a'r oedran pleidleisio ieuengaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad.
380. Ategodd y Panel Arbenigol ei arbenigedd ei hun drwy wahodd arbenigwyr i gyflwyno tystiolaeth benodol, a thrwy roi gwahoddiad cyffredinol i unigolion, grwpiau a chyrrff â buddiant, a'r cyhoedd, i rannu eu barn.
381. Cafodd y panel 33 o gyflwyniadau ysgrifenedig gan unigolion a chyrrff.
382. Bu hefyd yn ystyried gwybodaeth berthnasol a oedd ar gael i'r cyhoedd, gan nodi er enghraifft i Rhodri Morgan, cyn-Brif Weinidog Cymru, ddweud yn ei hunangofiant nad oedd argymhelliad Comisiwn Richard ynghylch maint wedi cael ei weithredu oherwydd y byddai'n:

*“...screw up any chances of getting the other conclusions on law-making powers through—the people of Wales were simply not ready*

<sup>103</sup> Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau deddfwriaethol i gryfhau Cymru, 2014, para 13.3.2

*to accept any argument for more AMs, however logical the reasoning over increased work on the legislative front needing more legislators to carry it out.*"<sup>104</sup>

383. Roedd y dystiolaeth a ystyriwyd gan y panel hefyd yn cynnwys dadansoddiad Cymdeithas Hansard o effaith maint y Senedd ar ymgysylltu, a ganfu:

*"the small size of the Assembly and the associated visibility of any absences from committee or Plenary meetings... made it difficult to engage with other elements of the role, including engagement with external organisations, groups or the public."*<sup>105</sup>

384. Dywedodd y panel hefyd fod Prifysgol Bangor, yn 2014, wedi cynnal ymchwil ar y rhwystrau rhag sefyll yn etholiadau'r Senedd, ac wedi canfod y canlynol:

*"...respondents at both points strongly noted the work-life imbalance as a potential barrier, with respondents discussing both the stress of the role itself as well as the impact it has on their family and social lives."*<sup>106</sup>

385. Cynhaliodd y panel drafodaethau anffurfiol ag Aelodau unigol hefyd, gyda llawer yn dweud pa mor bwysig yw defnyddio cyfnodau toriad ar gyfer busnes etholaethol, yn enwedig gan fod rhai digwyddiadau cymunedol (ee, marchnadoedd ffermwyr neu gyfarfodydd cyngorau cymuned) yn digwydd yn ystod wythnos waith y Senedd. Dywedodd un:

*"....mae'n hawdd iawn bod mewn swigen ym Mae Caerdydd a methu â deall y pwysau go iawn ar bobl, busnesau a gwasanaethau. Dyna pam mae'r toriad yn amser pwysig inni ymgysylltu â'n cymunedau lleol."*<sup>107</sup>

386. Mewn tystiolaeth i'r Panel, mynegodd Archwilydd Cyffredinol Cymru bryderon ynghylch gallu Senedd â 60 Aelod i gyflawni ei

---

<sup>104</sup> Morgan, R. (2017) Rhodri: A Political Life in Wales and Westminster, Gwasg Prifysgol Cymru, t.245

<sup>105</sup> Cymdeithas Hansard, Assembly Line? The Experiences and Development of New Assembly Members, 2013

<sup>106</sup> Prifysgol Bangor, Evaluating barriers to entering the Assembly: what prevents us from standing?, Gorffennaf 2014

<sup>107</sup> Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, yn [Senedd sy'n gweithio i Gymru](#), Tachwedd 2017, Para 6.24, Trafodaethau anffurfiol â'r Aelodau

chyfrifoldebau craffu ariannol yn effeithiol, yn enwedig yn dilyn datganoli pwerau amrywio trethi. Dywedodd fod:

*“60 o Aelodau yn nifer rhy isel i sicrhau bod yna ddigon o Aelodau sydd â'r amser a'r diddordeb i graffu'n fanwl ac yn gyson ar gynigion cyllidol Gweinidogion. Mae cynigion cyllidol yn weddol dechnegol eu natur, ac nid gwaith syml yw ystyried yr effeithiau economaidd y maent yn debyg o'u cael.”<sup>108</sup>*

387. Daeth y panel i'r casgliad bod 'angen rhagor o Aelodau cyn y gall y Cynulliad weithio'n effeithiol i ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd o ran craffu a deddfu y mae'n eu hwynebu nawr ac yn y dyfodol. Felly, mae achos cryf dros gynyddu maint y Cynulliad yn sylweddol.'

388. Nododd y panel dystiolaeth hefyd ynghylch rhannu swyddi. Er enghraifft, dywedodd Campbell a Childs (am Aelodau o Senedd y DU, ond roedd y Panel o'r farn fod y materion a godwyd yr un mor berthnasol i Aelodau o Senedd Cymru) y gallai trefniadau rhannu swyddi ei gwneud yn haws i bobl ag anabledau neu gyfrifoldebau gofalu sefyll i gael eu hethol. Roeddent hefyd yn dadlau y gallai roi cyfle i feddygon, athrawon, nyrsys (a gweithwyr proffesiynol eraill):

*“to become MPs whilst continuing to maintain their professional skills. Furthermore, there are risks and costs involved in standing in marginal seats, and allowing MPs to continue to pursue a career part time outside of politics might allow more people to consider standing for election. In an aging society, it would also permit the older MP to better balance work and retirement by enabling them to effectively work part-time in their later years. Or it might enable a sitting MP to stand for one Parliament as a job-share so they can take on a caring role for an elderly relative before returning full-time at a later election.”<sup>109</sup>*

## **Creu Senedd i Gymru: ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Gomisiwn y Senedd, 2018**

389. Yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad ym mis Rhagfyr 2017, penderfynodd Comisiwn y Senedd ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ar argymhellion y

<sup>108</sup> Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, yn [Senedd sy'n gweithio i Gymru](#), Tachwedd 2017, Para 6.24, Para 7.21, 61 EP18 Archwilydd Cyffredinol Cymru

<sup>109</sup> Cymdeithas Fawcett, Open House? Reflections on the possibility and practice of MPs job-sharing, Medi 2017

Panel, ac ar gwmpas posibl diwygiadau eraill i drefniadau etholiadol a mewnol y Cynulliad. Mae ymgynghoriad 2018 Comisiwn y Senedd<sup>110</sup> ynghylch *Creu Senedd i Gymru* yn berthnasol i Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Cafodd yr ymgynghoriad hwnnw dros 3,200 o ymatebion, ac roedd yn cynnwys cwestiynau am faint, system etholiadol, ffiniau a mesurau amrywiaeth y Senedd.

390. Roedd dogfen ymgynghori a ffurflen ymateb ddwyieithog ar gael ar ffurf copi caled ac ar-lein, a oedd yn cynnwys gwybodaeth gefndirol am y cynigion. Darparwyd fersiynau hawdd eu deall hefyd o'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb.
391. Cyhoeddwyd microwefan, a oedd yn rhoi manylion am y cynigion mewn ffordd fwy hygyrch. Gallai ymatebwyr ddewis rhwng llenwi arolwg ar-lein a oedd yn ymdrin â'r holl gynigion, neu arolygon ar wahân a oedd ond yn rhoi sylw i'r cynigion a oedd o ddiddordeb iddynt. Cafodd y dogfennau ymgynghori a'r microwefan eu hyrwyddo drwy gyfryngau cymdeithasol, eu rhannu drwy e-bost ag amrywiaeth o randdeiliaid, a'u dosbarthu gan dimau Allgymorth ac Addysg y Cynulliad.
392. Datblygwyd deunyddiau ar gyfer pobl ifanc, gan gynnwys gweithgareddau gweithdy, a'u rhannu ag ysgolion a grwpiau ieuencid ledled Cymru. Cynhaliwyd sesiynau ym mhob cwr o Gymru gan dimau Allgymorth ac Addysg y Senedd.
393. Cynhaliwyd pedwar o ddigwyddiadau ymgynghori rhanbarthol ym mhob cwr o Gymru, a'u hyrwyddo mewn gwahanol ffyrdd. Roedd pob digwyddiad yn cynnwys cyflwyniadau ar waith y Panel Arbenigol a'r diwygiadau posibl a gynigiwyd yn y ddogfen ymgynghori. Roedd y rheini a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau yn gallu gofyn cwestiynau am y cynigion, ac yn cael eu hannog i ymateb i'r ymgynghoriad.

---

<sup>110</sup> Comisiwn y Senedd, [Creu Senedd i Gymru: Adroddiad ar yr ymgynghoriad](#), Hydref 2018.

394. Fe wnaeth Comisiwn y Senedd hefyd ymgysylltu â rhanddeiliaid penodol, gan gynnwys rhanddeiliaid etholiadol, rhanddeiliaid llywodraeth leol, undebau, y sectorau preifat a gwirfoddol ac eraill.

395. Cafodd y Comisiwn dros 3,200 o ymatebion i'w ymgynghoriad. Gallai ymatebwyr ymateb ar wahân i bob un o'r chwe arolwg ar-lein a oedd yn ymwneud â mater penodol, neu gallent ymateb i'r ymgynghoriad cyfan. Am y rheswm hwn, ni ellir dweud bod y 3,200 o ymatebion yn uniongyrchol gyfystyr â 3,200 o ymatebwyr unigol.

396. Mae crynodeb i'w weld isod o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae adroddiad llawn ar yr [ymgynghoriad](#) ar gael ar wefan y Senedd.

### ***Nifer yr Aelodau o'r Senedd***

397. Yn drawiadol, roedd mwyafrif o blaid cynyddu nifer yr Aelodau o'r Senedd, fel y mae Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn darparu ar ei gyfer. O blith y 1,830 o ymatebion i gwestiynau am nifer yr Aelodau sydd eu hangen ar y Senedd:

- roedd 56 y cant (1,030) o'r ymatebion o blaid cael mwy o Aelodau;
- roedd 39 y cant (710) yn gwrthwynebu; ac
- nid oedd pump y cant (90) yn siŵr, neu nid oeddent wedi datgan barn ar hynny.

398. Y prif resymau a roddwyd dros gefnogi cynnydd yn nifer yr Aelodau oedd cynrychiolaeth fwy effeithiol; mwy o amrywiaeth ac ystod ehangach o safbwyntiau; llais cryfach i Gymru; craffu'n well ar Lywodraeth Cymru; gwell dadleuon, polisïau a deddfwriaeth; a mwy o atebolrwydd.

399. Y prif resymau a roddwyd dros wrthwynebu cynnydd yn nifer yr Aelodau oedd y gost ychwanegol ac effaith y gost ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

400. O blith y 1,030 o ymatebion a oedd o blaid cynyddu nifer yr Aelodau:

- roedd 95 y cant (980) yn cytuno ag argymhelliad y Panel Arbenigol y dylid cynyddu'r nifer i 80–90 o Aelodau;
- roedd pedwar y cant (40) yn awgrymu y dylid cael mwy na 90 o Aelodau; ac
- roedd un y cant (10) yn awgrymu y dylid cael 61–79 o Aelodau.

401. Er bod hyn yn dangos bod y cyhoedd, yn hanesyddol, yn ffafrio nifer llai o Aelodau na'r hyn y mae'r ddeddfwriaeth hon yn darparu ar ei gyfer, rhesymeg y Pwyllgor Diben Arbennig oedd bod cynyddu i 96 yn briodol yn sgil yr amrywiaeth eang o newidiadau a fu yng nghyd-destun gwleidyddol Cymru ers adroddiad y Panel Arbenigol.

### ***Y System Etholiadol***

402. Nid oedd ymgynghoriad Comisiwn y Senedd yn cynnwys cwestiynau penodol am system rhestr gyfrannol gaeedig. O blith y 1,330 o ymatebion i'r cwestiynau ar y tair system etholiadol a argymhellwyd gan y Panel Arbenigol:

- roedd 54 y cant (720) yn ffafrio System Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy;
- roedd 17 y cant (230) yn ffafrio Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Hyblyg;
- roedd 16 y cant (210) yn ffafrio System Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg;
- nid oedd 13 y cant (170) o'r ymatebion yn ffafrio unrhyw un o'r tri opsiwn hyn a gyflwynwyd gan y Panel Arbenigol.

403. O blith y 720 o ymatebion a oedd o blaid Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy, nid oedd 54 y cant (390) wedi egluro'r rheswm dros hynny. Dyma rai o resymau'r rheini a roddodd esboniad:

- Cyfranoldeb system etholiadol Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy.

- Mwy o ddewis i bleidleiswyr, yn enwedig y lefel uchel o reolaeth sydd gan bleidleiswyr dros ba ymgeiswyr sy'n cael eu hethol.
- Mwy o degwch, gyda rhai ymatebion yn awgrymu bod Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn decach oherwydd y byddai'r canlyniadau'n adlewyrchu'r holl bleidleisiau a fwriwyd.
- Aelodau'n fwy atebol i'r etholwyr, ac yn ymgysylltu mwy â'r etholwyr. Roedd rhai ymatebion yn awgrymu y gallai hyn, yn ei dro, arwain at ethol gwell Aelodau.
- Symlwydd system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy, a gallu pobl i'w deall yn haws na systemau eraill.
- Manteision system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy i bleidiau gwleidyddol llai. Roedd rhai ymatebion yn awgrymu y byddai'n haws i ymgeiswyr sy'n cynrychioli pleidiau gwleidyddol llai gael eu hethol o dan system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy nag o dan y system etholiadol bresennol.
- Potensial y system i helpu i gael mwy o amrywiaeth ymysg ymgeiswyr ac Aelodau.

404. O blith y 230 o ymatebion a oedd yn ffafrio Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Hyblyg, nid oedd 64 y cant (150) wedi egluro'r rheswm dros hynny. Dyma rai o resymau'r rheini a roddodd esboniad:

- Cyfranoldeb system Rhestr Hyblyg.
- I ba raddau y mae canlyniadau o dan y system hon yn adlewyrchu'r holl bleidleisiau a fwriwyd.
- Mwy o degwch.
- Pa mor hawdd yw deall system Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Hyblyg.
- Manteision Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Hyblyg i ymgeiswyr annibynnol a phleidiau gwleidyddol llai.

405. Nid oes modd dweud beth fyddai barn y cyhoedd wedi bod ar system rhestr gyfrannol gaedig pe bai wedi'i chynnwys yn ymgynghoriad Comisiwn y Senedd. Serch hynny, gellir nodi bod



ymgyngoriad y Comisiwn yn dangos bod mwyafrif sylweddol o blaid newid y system etholiadol i wro oddi wrth y system Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg bresennol, gyda dim ond 16 y cant o blaid parhau â'r system honno. Fel y nodwyd eisoes, o fewn yr amserlen a oedd ar gael ar gyfer datblygu Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), nid oedd modd i Lywodraeth Cymru gynnal ei hymgyngoriad cyhoeddus agored ei hun ar gysyniadau cyffredinol diwygio'r Senedd nac ar Fil drafft.

## ***Ffiniau***

406. O blith y 1,240 o ymatebion i gwestiwn am yr etholaethau yr oedd y Panel Arbenigol wedi argymhell y dylid eu defnyddio i ethol Cynulliad mwy o faint:

- os byddai'r Cynulliad yn mabwysiadu naill ai system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy neu system Cynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Hyblyg ar gyfer ethol Aelodau'r Cynulliad, roedd 40 y cant (500) yn dweud y dylai Aelodau gael eu hethol ar sail 20 etholaeth sy'n seiliedig ar barau o 40 etholaeth bresennol y Cynulliad;
- roedd 29 y cant (350) o'r ymatebion yn ffafrio model a oedd yn cynnwys 17 etholaeth a oedd yn seiliedig ar y 22 o ardaloedd awdurdod lleol presennol; a
- doedd 31 y cant (380) 'ddim yn gwybod'.

407. Nid oedd ymgynghoriad Comisiwn y Senedd yn cynnwys cwestiwn am ddefnyddio 16 o etholaethau ar sail paru etholaethau San Steffan. Nid oedd hynny'n ystyriaeth ar y pryd. O'r herwydd, nid yw'n bosibl dweud beth fyddai barn y cyhoedd wedi bod am y dull hwn, pe bai wedi'i gynnwys. Fel y nodwyd eisoes, o fewn yr amserlen a oedd ar gael ar gyfer datblygu Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), nid oedd modd i Lywodraeth Cymru gynnal ei hymgyngoriad cyhoeddus agored ei hun ar gysyniadau cyffredinol diwygio'r Senedd nac ar Fil drafft.

## *Rhannu Swyddi*

408. O blith y 1,300 o ymatebion i gwestiwn am rannu swyddi:

- roedd 34 y cant (440) yn cytuno ag argymhelliad y Panel Arbenigol y dylai pobl allu sefyll i gael eu hethol i'r Cynulliad ar sail rhannu swydd;
- roedd 52 y cant (680) o'r ymatebion yn anghytuno; a
- doedd 14 y cant (180) 'ddim yn gwybod'.

409. Soniodd ymatebwyr am nifer o fanteision rhannu swyddi, gan gynnwys:

- galluogi mwy o bobl i sefyll yn etholiadau'r Senedd – er enghraifft, y rheini sy'n methu gweithio amser llawn;
- mwy o amrywiaeth yn y Senedd; ac
- amrywiaeth ehangach o sgiliau a phrofiad.

410. Mynegodd ymatebwyr nifer o bryderon hefyd ynghylch ymarferoldeb rhannu swyddi, gan gynnwys:

- sut y byddai partneriaid yn rhannu'r broses o bleidleisio, yn enwedig pan na fyddai partneriaid o'r un farn am faterion penodol;
- sut y byddai partneriaid swydd yn gallu cyfathrebu ac ymgysylltu'n effeithiol ag eraill;
- risgiau y bydd trefniadau rhannu swyddi yn dirywio yn ystod tymor etholedig, gan arwain at ddadleuon ar sail bwriadau pleidleisio (pan ddaw gwahaniaeth annisgwyl i'r amlwg rhwng Aelodau sy'n rhannu swydd); a
- safbwyntiau na ddylai Aelodau gael ymrwymadau gwaith eraill (a gyflwynwyd fel dadl yn erbyn rhannu swydd).

411. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch y risgiau i gynrychiolaeth wrth rannu swyddi, gan gynnwys:

- bod yr etholwyr yn llai cyfarwydd â dau Aelod nag un;

- anodd gwybod at ba bartner rhannu swydd y dylid troi ar faterion penodol; ac anodd i'r etholwyr ddal partneriaid swydd i gyfrif.

412. Roedd y problemau eraill a godwyd mewn perthynas â rhannu swyddi yn cynnwys:

- costau ychwanegol sy'n deillio o rannu swydd;
- eglurder, neu ddiffyg eglurder, i bleidleiswyr ar y safbwyntiau polisi y mae partneriaid swydd yn ceisio cael eu hethol arnynt; a
- gwahanol safbwyntiau gwleidyddol yn arwain at anawsterau rhwng partneriaid swydd pan fyddant yn y swydd.

413. Cafwyd ymateb gan 26 o gyrff i gwestiynau am rannu swyddi. Yn wahanol i ymatebwyr yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o gyrff o blaid cyflwyno trefniadau rhannu swyddi, er gwaethaf yr heriau ymarferol:

*“Mae'r syniad o rannu swydd yn creu potensial gwirioneddol i wneud y Cynulliad yn fwy hygyrch i fwy o amrywiaeth o Aelodau. Byddai risgiau wrth roi'r syniad ar waith, ond credwn y byddai modd eu rheoli. Er enghraifft, byddem yn awgrymu trefniant clir a ffurfiol ar gyfer pob parti sy'n rhan o swydd a rennir ar faterion allweddol, meysydd gwaith, oriau gwaith ac ati. Byddem yn annog i'r ddau unigolyn gyfathrebu'n gyson, a byddai angen cefnogaeth y blaid dan sylw a Chomisiwn y Cynulliad. At hynny, dylai etholwyr fod yn ymwybodol o'r trefniant ar adeg yr etholiad. Dylai enw'r ddau ymgeisydd fod yn glir ar y papur pleidleisio a dylai'r egwyddor o rannu swydd fod yn glir i'r etholwyr hefyd. Os bydd un o'r cynrychiolwyr yn ymddiswyddo, dylai'r llall wneud hynny hefyd.”<sup>111</sup>*

- *Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru*

*“O ran egwyddor, rydym yn cefnogi'r syniad o rannu swyddi, yn enwedig am ei fod yn gweithio mewn sectorau eraill ac ni ddylai'r diwylliant na'r rheolau ar gyfer deddfwrfeydd fod yn wahanol i'r hyn y maent yn annog cyrff eraill i'w mabwysiadu. Fodd bynnag, mae yna bryderon a risgiau, o ran priodoldeb cyfansoddiadol a chynrychiolaeth sy'n bwysig yn y cyd-destun seneddol ond nad ydynt yn berthnasol i sectorau eraill. Bydd angen protocol ar gyfer unrhyw swydd a rennir er mwyn ymdrin â'r cyfrifoldebau a'r*

<sup>111</sup> Creu Senedd i Gymru, [Adroddiad llawn ar yr ymgynghoriad PDF 1.1MB.pdf \(senedd.cymru\)](#) Tudalen 29

*rhwymedigaethau, i ganiatáu ar gyfer rhannu'r swydd yn glir rhwng  
y ddau unigolyn neu bennu'r lefel o ran rhannu'r cyfrifoldebau.  
[...]*Nid yw'r heriau'n rhai anorchfygol ond bydd angen eu hystyried  
yn fanwl.*"*

- *Cymdeithas Hansard*

*"Pe bai'r gyfraith yn cael ei diwygio i alluogi ymgeiswyr i sefyll i  
gael eu hethol o dan drefniant rhannu swyddi, byddai angen newid  
y ddeddfwriaeth ynghylch ffurf papurau enwebu a phapurau  
pleidleisio, a byddai angen mynd i'r afael ag ystod o faterion  
technegol hefyd. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, beth a  
fyddai'n digwydd pe bai un o'r Aelodau a oedd yn rhan o'r  
bartneriaeth rhannu swydd yn penderfynu ymddiswyddo."*

- *Y Comisiwn Etholiadol*

414. Ystyriwyd y cyfraniadau hyn wrth ddatblygu darpariaethau'r Bil ynghylch rhannu swyddi, sy'n darparu mecanwaith neu lwybr i'r Senedd ystyried i ba raddau y dylai pobl allu dal swyddi ar y cyd (gan gynnwys rhannu swyddi i ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiad Senedd i gael eu hethol yn Aelod o'r Senedd sy'n rhannu swydd; a rhannu swyddi mewn rolau gweithrediaeth ac mewn rolau yn y Senedd a nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006); ac a ddylai person allu dal swydd dros dro tra nad yw person arall a benodwyd neu a etholwyd i'r swydd honno ar gael.

## **Diwygio'r Senedd: Y camau nesaf – Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd (Medi 2020)**

415. Sefydlwyd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd ar 18 Medi 2019 i ystyried argymhellion y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad.

416. Roedd adroddiad y Pwyllgor yn seiliedig ar chwe sesiwn tystiolaeth lafar a gynhaliwyd ag 20 o unigolion a chyrrff, a dau ddigwyddiad i randdeiliaid – gydag un yn canolbwyntio ar gapasiti'r Senedd a'r llall yn canolbwyntio ar amrywiaeth y Senedd. Hefyd, cyflwynodd 12 o unigolion a chyrrff dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor.

417. Gofynnodd y Pwyllgor yn benodol am awgrymiadau ar gyfer mesurau eraill y gellid eu hystyried i leddfu pwysau capasiti yn y Chwched Senedd neu yn y tymor hwy, gan gynnwys:

- Mesurau amserlennu neu weithdrefnol: megis ymestyn wythnos waith ffurfiol y Senedd; cynyddu nifer yr wythnosau eistedd; adolygu trefniadaeth busnes y Cyfarfod Llawn neu'r cydbwysedd rhwng gweithgarwch pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn; neu ddefnyddio technoleg neu bleidleisio drwy ddirprwy er mwyn gallu cymryd rhan o bell.
- Adolygu gweithrediad neu strwythur pwyllgorau: fel newid eu maint, eu cylchoedd gwaith, eu swyddogaethau neu eu ffyrdd o weithio; mynd ati i roi mwy o ystyriaeth i gymhlethdod neu faint disgwylidig deddfwriaeth wrth greu cylchoedd gwaith; gwneud mwy o waith craffu ar y cyd neu graffu cydgysylltiedig; defnyddio rapporteurs neu bwyllgorau ad hoc; blaenoriaethu mwy trylwyr; amserlenni deddfwriaethol mwy hyblyg; neu gyfarfod yn ystod y toriadau.
- Gwella'r cymorth a'r wybodaeth: er enghraifft, drwy gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer staff cymorth yr Aelodau; adolygu gwasanaethau'r Comisiwn a'i staff; ei gwneud yn bosibl i gyfethol arbenigwyr i bwyllgorau'r Senedd; neu wella cysylltiadau ag arbenigwyr, academyddion a rhanddeiliaid.
- Cynyddu neu wella ymgysylltiad â'r cyhoedd: er enghraifft, drwy ymgysylltu â grwpiau mwy amrywiol; defnyddio ymgynghorwyr sy'n codi tâl sydd â gwreiddiau dwfn mewn cymunedau neu grwpiau cynghori sy'n codi tâl; gwneud mwy o weithgarwch ledled Cymru; neu ddefnyddio dulliau ymgynghori arloesol fel cynullïadau dinasgyddion i brofi syniadau polisi neu drafod materion cymhleth.
- Mesurau eraill: fel gweithio ar y cyd â chynrychiolwyr etholedig ar lefel leol neu San Steffan; datganoli cyfrifoldebau i lefel ranbarthol neu leol; blaenoriaethu'r

broses o arfer pwerau datganoledig; neu ohirio'r broses o ddatganoli rhagor o bwerau.<sup>112</sup>

418. Ond, nododd y Pwyllgor hefyd i'r rhanddeiliaid ddweud y rhoddwyd cynnig eisoes ar lawer o'r opsiynau hyn, y gallent fod yn ddrud neu y gallent arwain at ganlyniadau anfwriadol i'r ddeddfwrfa, ei Haelodau, ei hamrywiaeth neu'r bobl y mae'n eu cynrychioli.<sup>113</sup>

419. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod cynyddu nifer yr Aelodau:

*“i ffigur sy'n fwy priodol ar gyfer cyfrifoldebau'r ddeddfwrfa'n arwain at gynnydd cyfatebol yn effeithiolrwydd ac effaith gwaith craffu a goruchwyllo'r Senedd. Mewn sefydliad mwy o faint, gallai fod yn fwy posibl ymgysylltu â phobl a rhanddeiliaid ar draws Cymru, gallai fod mwy o gyfle i'r Aelodau arbenigo a meithrin arbenigedd, gallai fod mwy o gyfleoedd ar gyfer meddwl yn greadigol ac yn strategol, gellid cael system bwyllgorau fwy cydnherth, a gellid cynnig cyfle i ddatblygu system fwy cadarnhaol a diwylliant gwleidyddol adeiladol sy'n hwyluso mwy o waith trawsbleidiol a chydweithredol. Gallai gwelliannau o'r fath gyfrannu at well deddfwriaeth, penderfyniadau polisi a gwariant mwy effeithiol, gwell gwerth am arian ac, yn bwysicaf oll, well canlyniadau i bobl a chymunedau Cymru.”<sup>114</sup>*

420. Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth hefyd ar system etholiadol y Senedd, gan ddweud:

*“dim ond UKIP a amddiffynnodd y system Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg neu Aelodau Ychwanegol bresennol. Roedd rhanddeiliaid eraill yn mynegi pryderon ynghylch y graddau y mae pleidleiswyr yn deall yn llawn y ffordd y mae'r system yn gweithredu, roeddent yn beirniadu'r anghyfranoldeb cynhenid yn elfen y Cyntaf i'r Felin o'r system, ac roeddent yn awgrymu bod y system yn rhoi gormod o reolaeth i bleidiau, yn hytrach na phleidleiswyr.”<sup>115</sup>*

421. Dywedodd y Pwyllgor mai ychydig o gyfranwyr:

*“i'n hymchwiliad a ganolbwyntiodd ar Gynrychiolaeth Gyfrannol Rhestr Hyblyg. Roedd Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru yn cydnabod y posibilrwydd i'r system Rhestr Hyblyg arwain at ganlyniadau etholiadol gyfrannol, ond roeddent yn ei beirniadu ar y*

<sup>112</sup> Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: Y camau nesaf](#) Para 31

<sup>113</sup> Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: Y camau nesaf](#), Para 32

<sup>114</sup> Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: Y camau nesaf](#) Para 43

<sup>115</sup> Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: Y camau nesaf](#) Para 67

*sail ei bod yn gwanhau'r cysylltiad etholaethol rhwng pleidleiswyr a chynrychiolwyr, ac nad oedd yn cynnig dewis i bleidleiswyr i'r un graddau â'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy.*"<sup>116</sup>

422. Dywedodd y Pwyllgor mai Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy oedd yr opsiwn a oedd yn cael ei ffafrio gan lawer a ymatebodd i'w ymgynghoriad. Dywedodd fod ymatebwyr wedi pwysleisio'n benodol

*"gyfranoldeb posibl canlyniadau etholiadol y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy, y gostyngiad posibl mewn pleidleisiau 'gwastraff' neu bleidleisio tactegol, faint o ddewis sydd ar gael i bleidleiswyr, a chynnal cysylltiad etholaethol clir rhwng pleidleiswyr a'u cynrychiolwyr (a nodir fel mantais allweddol yn aml o system etholiadol y Cyntaf i'r Felin).*"<sup>117</sup>

423. Fodd bynnag, ni wnaeth y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd ymgynghori'n benodol ar system rhestr gyfrannol ar gyfer rhestr gaeedig. Felly, nid yw'n bosibl dweud pa dystiolaeth fyddai wedi cael ei chyflwyno am y dull hwn, pe bai wedi'i gynnwys.

424. Derbyniodd y Pwyllgor amrywiaeth o dystiolaeth ynghylch ffiniau'r Senedd. Er enghraifft, roedd y Gymdeithas Gweinyddwyr Etholedig o'r farn y byddai ffiniau anghyson rhwng y Senedd a San Steffan "yn creu anawsterau gweinyddol ac yn drysu pleidleiswyr,"<sup>118</sup> a dywedodd y canlynol amdani ei hun:

*"...extremely concerned about the impact of any cross-boundary proposals following the [2023 Westminster boundary] review, and the likely increase in complexity across the UK at the next scheduled UK Parliamentary General Election".*

425. Er yn cydnabod manteision etholaethau cydffiniol ar gyfer y Senedd a San Steffan, roedd Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru yn poeni am y canlynol:

*"it might lead to a situation where the Senedd chooses boundaries just on that basis that are, perhaps, less good for itself, and then Westminster might reform their own boundaries. So it's very much*

---

<sup>116</sup> Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: y camau nesaf](#), Para 74 ac ESB07 Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru; Jess Blair, Cofnod y Trafodion [paragraffau 87-88 a 90], 16 Mawrth 2020

<sup>117</sup> Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: Y camau nesaf](#) Para 78

<sup>118</sup> Dyfyniad a briodolwyd gan y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, yn Diwygio'r Senedd: y camau nesaf, i gyflwyniad ysgrifenedig gan y Gymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol, 6 Gorffennaf 2020

*a game of balance and pragmatism, and judging what is the most likely scenario to happen.”<sup>119</sup>*

426. Roedd rhai tystion o blaid cydffinio ffiniau'r Senedd â ffiniau awdurdodau lleol. Er enghraifft, roedd yr Athro Mollison o'r farn y byddai hynny'n "lleihau gorgyffwrdd cyfrifoldebau dros gymunedau a gwasanaethau cyhoeddus,"<sup>120</sup> a fyddai'n fanteisiol. Roedd hefyd yn cydnabod y gallai maint amrywiol ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru arwain at amrywiadau yn nifer yr Aelodau sy'n cynrychioli pob ardal. Yn yr un modd, roedd yr Athro Awan–Scully yn cytuno y byddai cysoni ffiniau'r Senedd ag ardaloedd awdurdodau lleol yn cynnig symlrwydd, ond rhybuddiodd “nad yw ffiniau llywodraeth leol ychwaith, o reidrwydd, yn rhai na ellir eu newid.”<sup>121</sup>

427. Bydd Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn gwneud darpariaeth i ddechrau i sicrhau bod etholaethau'r Senedd yn gyson ag etholaethau Seneddol y DU. Ond, ni fyddant yn gydffiniol (hynny yw, yn gysylltiedig yn awtomatig) â nhw. Mae hyn yn golygu y gallai adolygiadau llawn o ffiniau'r Senedd yn y dyfodol arwain at wyro oddi wrth etholaethau'r DU (er enghraifft, pe bai Senedd y DU yn newid nifer yr etholaethau yng Nghymru).

428. Derbyniodd y Pwyllgor amrywiaeth o dystiolaeth hefyd ar rannu swyddi fel ffordd o gynyddu amrywiaeth. Roedd llawer o'r rheini a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor yn dadlau y byddai galluogi pobl i rannu swyddi yn lleihau rhwystrau a allai, fel arall, atal pobl rhag sefyll i gael eu hethol i'r Senedd. Er enghraifft, awgrymodd Leonard Cheshire Cymru y gallai rhannu swyddi “fod yn ffordd effeithiol i ailddiffinio rolau mewn bywyd cyhoeddus a'u gwneud yn fwy hygyrch i ymgeiswyr anabl.”<sup>122</sup> Ond, clywodd y Pwyllgor bryderon hefyd ynghylch sut y byddai rhannu swyddi yn gweithio'n ymarferol, fel sut

---

<sup>119</sup> Jess Blair, Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru, Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, 16 Mawrth 2020, para 138.

<sup>120</sup> Dyfyniad a briodolwyd gan y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, yn Diwygio'r Senedd: y camau nesaf, i ESB01 Yr Athro Mollison

<sup>121</sup> Dyfyniad a briodolwyd gan y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, yn Diwygio'r Senedd: y camau nesaf, i'r Athro Awan-Scully, Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [para 127], 16 Mawrth 2020

<sup>122</sup> Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, DIV06 Leonard Cheshire Cymru



gellid delio â gwahaniaethau gwleidyddol rhwng partneriaid rhannu swydd, ac effaith rhannu swyddi ar atebolrwydd democrataidd. Mynegwyd pryderon hefyd y gallai pleidiau neu eraill weld rhannu swyddi fel ffordd o gynyddu capasiti, drwy gael dau unigolyn i weithio gyda'i gilydd i gyflawni mwy na 100 y cant o'r rôl a'r llwyth gwaith. Awgrymwyd y gallai hyn fod yn risg gyda rolau gwleidyddol yn arbennig, gan eu bod weithiau'n amwys ac nad oes dealltwriaeth dda ohonynt.<sup>123</sup> Os byddai trefniadau rhannu swyddi yn cael eu rhoi ar waith, awgrymodd Comisiwn Diwygio Etholiadol Cymru y byddai angen i'r Comisiwn Etholiadol a Chomisiwn y Senedd ddarparu canllawiau cyhoeddus clir cyn etholiad ar sut y byddai rhannu swyddi yn gweithio'n ymarferol.<sup>124</sup>

## **Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, 2022**

429. Cafodd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd – a oedd yn bwyllgor trawsbleidiol o Aelodau o'r Senedd – ei sefydlu ar 6 Hydref 2021, gyda chylch gwaith i ystyried casgliadau blaenorol y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd yn y Bumed Senedd; ac i wneud argymhellion ar gyfarwyddiadau polisi ar gyfer Bil Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio'r Senedd.

430. Roedd tri cham i waith y Pwyllgor. Yng ngham un, nododd y tir cyffredin rhwng safbwyntiau polisi pleidiau gwleidyddol y Senedd, mewn perthynas â chasgliadau'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd ar y canlynol:

- maint y Senedd a'r system etholiadol gysylltiedig;
- sefydlu trefniadau parhaus i adolygu'r ffiniau a dosrannu seddi; a
- mesurau deddfwriaethol i annog amrywiaeth.

431. Yng ngham dau, ar sail yr elfennau hyn o dir cyffredin, casglodd y Pwyllgor Diben Arbennig wybodaeth bellach angenrheidiol er mwyn

---

<sup>123</sup> Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, Diwygio'r Senedd: cofnod o'r digwyddiad trafod, para 36; Y Cynghorydd Sherwood, Cofnod y Trafodion [para 61], 3 Chwefror 2020

<sup>124</sup> Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, DIV01 Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru

datblygu cynigion polisi. Roedd hyn yn cynnwys nifer o gyfarfodydd preifat.<sup>125</sup> Dywedodd y Pwyllgor fod ei drafodaethau hefyd yn seiliedig ar y sylfaen o wybodaeth a thystiolaeth a gasglwyd yn flaenorol gan ei ragflaenwyr uniongyrchol: y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad (“y Panel Arbenigol”) a’r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd. I’r perwyl hwn, cafodd rhanddeiliaid a oedd eisoes wedi darparu gwybodaeth i’w ragflaenwyr wahoddiad i ddiweddarau’r wybodaeth honno os oeddent yn dymuno.

432. Yng ngham tri, datblygodd y Pwyllgor argymhellion ar gyfarwyddiadau polisi ar gyfer Bil Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio’r Senedd. Cyhoeddodd ei adroddiad ym mis Mai 2022, gan ddod i’r casgliad y dylid cynyddu maint y Senedd i 96, ac argymhell amrywiaeth o fesurau i gynyddu amrywiaeth y Senedd; a gwneud cynigion manwl ar system etholiadol y Senedd. Mae Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) wedi cael ei ddatblygu i roi’r rhan fwyaf o argymhellion y Pwyllgor ar waith.

## **Ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Bwyllgor Busnes y Senedd, 2022**

433. Yn dilyn adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio’r Senedd, cynhaliodd Pwyllgor Busnes y Senedd ymchwiliad byr i bedwar o’i argymhellion, a oedd yn berthnasol i rôl weithdrefnol y Pwyllgor Busnes. Roedd y rhain yn cynnwys argymhellion ar faint Llywodraeth Cymru a nifer priodol y Dirprwy Lywyddion mewn Senedd fwy, ac mae’r naill fater a’r llall yn cael sylw ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

434. Cyhoeddodd y Pwyllgor Busnes alwad gyhoeddus am dystiolaeth ar y materion hyn, a daeth 14 ymateb i law.

### *Maint Llywodraeth Cymru*

435. Roedd y Pwyllgor Diben Arbennig yn rhag-weld y byddai Llywodraeth Cymru yn dymuno cyflwyno achos dros gynyddu ei

---

<sup>125</sup> A oedd heb eu cyfyngu gan Reolau Sefydlog y Senedd, er mwyn hwyluso trafodaethau rhyngweithiol gonest ac agored gydag ystod o randdeiliaid

maint i gyd-fynd â'r cynnydd yn nifer yr Aelodau o'r Senedd, ond roedd hefyd o'r farn "y byddai angen ystyried unrhyw gynnis o'r fath yn ofalus, mewn modd cymesur ac yn ddarostyngedig i waith craffu deddfwriaethol manwl."<sup>126</sup> Dywedodd, "credwn na ddylai fod yn benderfyniad i'r Llywodraeth ar ei phen ei hun, gan y bydd unrhyw gynnydd yn ei maint yn golygu gostyngiad cyfatebol yng nghapasiti'r Senedd ar gyfer gwaith craffu."<sup>127</sup> Ar y sail honno, galwodd ar Lywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Busnes i hwyluso ystyriaeth drawsbleidiol o faint priodol Llywodraeth Cymru.

436. Cafodd y Pwyllgor Busnes amrywiaeth o dystiolaeth ynghylch maint priodol Llywodraeth Cymru.

437. Awgrymodd rhai ymgynghorwyr fod angen mwy o hyblygrwydd o ran nifer Gweinidogion Cymru, er mwyn ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau a blaenoriaethau gwleidyddol a ddaw yn sgil Senedd sydd â mwy o gyfrifoldebau. Eu barn nhw oedd y dylid defnyddio'r Bil i gael gwared yn llwyr ar y cap ar nifer Gweinidogion Cymru.<sup>128</sup>

438. Roedd ymgynghorwyr eraill o'r farn y dylid parhau â therfyn deddfwriaethol, ond y dylid ei gynyddu i wneud darpariaeth ar gyfer Gweinidogion ychwanegol. Rhai o'r dadleuon a fynegwyd gan ymgynghorwyr a oedd o blaid cynyddu nifer Gweinidogion Cymru oedd bod hyn yn briodol oherwydd y cynnydd a fu mewn pwerau ers 2006, a'r tebygolrwydd y bydd pwerau ychwanegol yn cael eu datganoli yn y dyfodol.<sup>129</sup>

439. Roedd ymgynghorwyr eraill o'r farn na ddylid cynyddu'r terfyn. Rhai o'r dadleuon a fynegwyd yn erbyn cynyddu'r nifer mwyaf o Weinidogion oedd y gallai maint y Llywodraeth neu'r Comisiwn gael

---

<sup>126</sup> Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, 30 Mai 2022, para 43.

<sup>127</sup> Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, 30 Mai 2022, para 43.

<sup>128</sup> Er enghraifft, Lee Waters AS, SR2 a Jane Dodds AS, SR7

<sup>129</sup> Er enghraifft, SR8 Grŵp Llafur Cymru yn y Senedd, a SR10 Grŵp Plaid Cymru yn y Senedd.

ei ddehongli fel ffordd o droi'r dŵr i'w melin eu hunain, ac y gallai beryglu cefnogaeth y cyhoedd i ehangu a diwygio'n ehangach.<sup>130</sup>

440. Daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad y byddai'n rhesymol i gynydd yn aelodaeth y Senedd, o 60 i 96 o Aelodau, gael ei ategu gan gynydd yn y nifer mwyaf o Weinidogion Cymru y gellir eu penodi, o 12 i 17 (heb gynnwys y Prif Weinidog na'r Cwnsler Cyffredinol).

441. Roedd y Pwyllgor hefyd o'r farn y byddai'n rhesymol i'r ddeddfwriaeth gynnwys mecanwaith a fyddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i gynnig cynyddu'r terfyn hwn ymhellach i uchafswm o 19 drwy is-ddeddfwriaeth, er mwyn diogelu'r ddeddfwriaeth ar gyfer datganoli rhagor o bwerau yn y dyfodol, neu amgylchiadau eraill lle'r ystyrir bod cynnydd yn deilwng. Dylai cynnydd o'r fath fod yn destun pleidlais gadarnhaol (mwyafrif) yn y Senedd.

442. Mae Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn rhoi casgliadau'r Pwyllgor ar waith.

### ***Nifer y Dirprwy Lywyddion***

443. Roedd y Pwyllgor Diben Arbennig yn argymhell:

*“...y dylid ystyried y cwestiwn ynghylch a ddylai'r Senedd gael hyblygrwydd drwy ei Rheolau Sefydlog i ethol mwy o Ddirprwy Lywyddion pe bai am wneud hynny. Yna dylai'r ystyriaeth hon lywio'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth i ddarparu ar gyfer Senedd â 96 o Aelodau.”<sup>131</sup>*

444. Wrth gyflwyno'r argymhelliad hwn, dywedodd y Pwyllgor Diben Arbennig mai'r “Senedd ddylai benderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio'r capasiti ychwanegol rydym wedi'i argymhell”, ac y:

*“Gellid dadlau y dylai'r Senedd fod â hyblygrwydd drwy ei Rheolau Sefydlog i ethol mwy o Ddirprwy Lywyddion os yw am wneud hynny*

---

<sup>130</sup> Er enghraifft, yr Athro Laura McAllister a Syr Paul Silk, Y Pwyllgor Busnes, SR9

<sup>131</sup> Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, 30 Mai 2022, Argymhelliad 5

*(ac unrhyw feini prawf sy'n ymwneud â'r blaid y gallai ddod ohoni).*"<sup>132</sup>

445. Darparodd y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd ymateb ar y cyd i'r Pwyllgor Busnes, a oedd yn pwysleisio sut roedd cynnydd mewn pwerau deddfu a phwerau trethu wedi gwneud busnes y Senedd yn fwy cymhleth. Eu barn nhw oedd y byddai angen i Senedd fwy gwrdd yn amlach a/neu y byddai angen i'r Cyfarfodydd Llawn bara'n hirach o bosibl, a fyddai'n cynyddu'r galwadau ar amser y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd hyd yn oed ymhellach. Roeddent yn cynnig diwygiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn cael gwared ar y terfyn sy'n caniatáu dim ond un Dirprwy Lywydd. Er mwyn cynnal yr egwyddor o hyblygrwydd, roeddent yn cynnig diwygio deddfwriaeth er mwyn caniatáu "o leiaf un" Dirprwy Lywydd.<sup>133</sup>

446. Awgrymodd ymgylgoreion eraill y dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried y pwerau presennol i ethol cadeiryddion gweithredol cyfarfodydd llawn, a chadw mewn cof y berthynas rhwng nifer y Dirprwy Lywyddion a nifer y meincwyr cefn sydd ar gael i sicrhau mwy o gapasiti i graffu yn y Senedd nesaf.<sup>134</sup>

447. Roedd rhai ymgylgoreion o'r farn y byddai un Dirprwy Lywydd yn ddigon ar gyfer y Senedd nesaf,<sup>135</sup> ac un o'r dadleuon yn erbyn cynyddu nifer y Dirprwy Lywyddion oedd nad oes rhaid gwneud hynny er mwyn cyflawni amcanion dilys ac amlwg cynyddu maint y Senedd.<sup>136</sup>

448. Awgrymodd ymgylgoreion eraill y dylai'r Senedd gael yr hyblygrwydd i benderfynu ar nifer priodol y Dirprwy Lywyddion, drwy Reolau Sefydlog.<sup>137</sup>

---

<sup>132</sup> Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, 30 Mai 2022, para 46

<sup>133</sup> Y Pwyllgor Busnes, SR12

<sup>134</sup> Er enghraifft, SR8 Grŵp Llafur Cymru yn y Senedd, a SR10 Grŵp Plaid Cymru yn y Senedd.

<sup>135</sup> Er enghraifft, SR10 Grŵp Plaid Cymru yn y Senedd.

<sup>136</sup> Yr Athro Laura McAllister a Syr Paul Silk, SR9

<sup>137</sup> Er enghraifft, Lee Waters AS, SR2

449. Daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad yn y pen draw y byddai'n rhesymol i gynnydd yn aelodaeth y Senedd gael ei ategu gan gynnydd yn y nifer mwyaf a ganiateir o Ddirprwy Lywyddion, ac y dylid cynyddu'r nifer o 1 i 2. Roedd hefyd yn cynnig, pe bai newid yn cael ei wneud, y dylid diwygio Adran 25(7-9) o Ddeddf Llywodraeth Cymru i sicrhau na ddylai'r Llywydd a'r holl Ddirprwyon berthyn i'r un grŵp gwleidyddol, ac na ddylent i gyd berthyn i grwpiau gwleidyddol sydd â rôl weithredol neu anweithredol.

450. Mae Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn rhoi casgliadau'r Pwyllgor ar waith.

## Pennod 5: Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

451. Mae Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn cynnwys darpariaeth i wneud is-ddeddfwriaeth a dyroddi penderfyniadau. Mae Tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) yn nodi'r canlynol mewn perthynas â'r rhain:

- (i). y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;
- (ii). ar ba ffurf y mae'r pŵer i gael ei arfer;
- (iii). priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
- (iv). y weithdrefn a gymhwysir; hynny yw, "cadarnhaol", "negyddol", neu "dim gweithdrefn", ynghyd â rhesymau pam y bernir ei bod yn briodol

452. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth os bernir ei bod yn briodol gwneud hynny. Penderfynir beth fydd union natur yr ymgynghori ar ôl i'r cynigion gael eu ffurfioli.

**Tabl 5.1: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)**

<b>Adran</b>	<b>I bwy y rhoddir y pŵer</b>	<b>Ffurf</b>	<b>Priodoldeb y pŵer dirprwyedig</b>	<b>Gweithdrefn</b>	<b>Rheswm dros y weithdrefn</b>
5	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Darparu elfen o hyblygrwydd o ran nifer uchaf Gweinidogion Cymru yn y dyfodol, lle y bo'n briodol. Mae'r pŵer ei hun yn ddarostyngedig i gyfyngu'r cynnydd i uchafswm o 19 o Weinidogion.	Cadarnhaol, ac yn ddarostyngedig i ofyniad am uwchfwyafrif o Aelodau o'r Senedd yn pleidleisio o blaid, sef dwy ran o dair o leiaf o gyfanswm nifer y seddi yn y Senedd.	Mae hwn yn bŵer i amrywio'r terfyn uchaf ar nifer Gweinidogion Cymru a nodir mewn deddfwriaeth sylfaenol ac felly mae'n briodol bod lefel ychwanegol o graffu drwy'r weithdrefn gadarnhaol. Mae'r gofyniad am uwchfwyafrif yn cydnabod y bydd defnyddio'r pŵer yn cael effaith ar allu'r Senedd i graffu.
15	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Darparu elfen o hyblygrwydd o ran cworwm cyfarfodydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn y dyfodol, lle y bo'n briodol.	Cadarnhaol	Mae hwn yn bŵer i amrywio cworwm cyfarfodydd y Comisiwn a nodir mewn deddfwriaeth sylfaenol ac felly mae'n briodol bod lefel ychwanegol o graffu.
20(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Sicrhau na fydd angen rhagor o ddeddfwriaeth sylfaenol i wneud unrhyw ddiwygiadau priodol i ddeddfwriaeth er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth yn y Bil.	Negyddol, ond cadarnhaol os addasir deddfwriaeth sylfaenol	Mae'n briodol bod lefel ychwanegol o graffu os yw deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei diwygio, ei diddymu neu ei haddasu.
21	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Sicrhau bod modd diweddarau terfynau gwariant ymgyrchoedd etholiadol y pleidiau i adlewyrchu'r	Cadarnhaol, ac yn amodol ar gydsyniad y	Er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd uniondeb wrth weithredu'r rheolau sy'n llywodraethu sut y gall



			system etholiadol newydd ar ôl ymgynghori.	Comisiwn Etholiadol	pleidiau gwleidyddol wario arian ar ymgyrchu, mae'n briodol bod rhaid i'r Comisiwn Etholiadol annibynnol gydsynio i unrhyw ddefnydd o'r pŵer. Er mwyn darparu tryloywder a mesur diogelu cadarn ar gyfer arfer y pŵer, rhaid i unrhyw reoliadau a wneir o dan yr adran hon gael eu gwneud drwy weithdrefn gadarnhaol y Senedd.
Atodlen 1, para 9(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Sicrhau bod adroddiad terfynol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru mewn perthynas ag adolygiad ffiniau 2026 yn cael ei weithredu.	Gosod yn unig	Mae'n briodol bod adroddiadau ar ffiniau yn cael eu gweithredu heb ddylanwad gwleidyddol.
Atodlen 2 (adran 49J newydd arfaethedig Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru a Ffiniau Etholiadol etc. 2013)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Sicrhau bod modd i adroddiadau adolygiadau ffiniau terfynol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gael eu gweithredu.	Gosod yn unig	Mae'n briodol bod adroddiadau ar ffiniau yn cael eu gweithredu heb ddylanwad gwleidyddol.

*DS: Yn adran 8 o'r Bil, mewnosodir adran 7 newydd o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (ymgeiswyr mewn etholiadau cyffredinol) yn lle'r un bresennol. Mae'r adran newydd 7(6) yn diffinio swyddog canlyniadau etholaethol ('constituency returning officer') drwy gyfeirio at orchymyn gan Weinidogion Cymru o dan adran 13 o'r Ddeddf honno (pŵer sy'n bodoli). Mae hyn yn adlewyrchu'r adran 7(7) bresennol o'r Ddeddf honno, ac*

*eithrio bod yr adran 7(7) bresennol yn diffinio swyddog canlyniadau rhanbarthol ('regional returning officer'). O'r herwydd, nid ystyrir ei fod yn bŵer newydd ac felly nid yw wedi'i gynnwys yn y tabl uchod.*

## Rhan 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### Pennod 6: Crynodeb o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol

453. Mae Aseiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Bil ac mae'n dilyn isod.
454. Mae adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar briodoldeb codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru yn sgil un ddarpariaeth yn y Bil hwn, sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6(xi), wedi'i atodi yn Atodiad 4.
455. Mae'r tabl a ganlyn yn cyflwyno crynodeb o'r costau a'r manteision ar gyfer y Bil yn gyfan. Cynlluniwyd y tabl i gyflwyno'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) a (ix).

#### ***Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)***

***Yr opsiwn a ffeirir: Mae hyn yn gweithredu argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd a gyflwynodd adroddiad ym mis Mai 2022.***

<b>Cyfnod:</b> Cyflwyno	<b>Cyfnod gwerthuso:</b> 2024-25 - 2031-32	<b>Blwyddyn sail brisiau:</b> 2022-23
<b>Cyfanswm Cost</b> Cyfanswm: £100.4m i £120.3m Gwerth presennol: £84.4m i £101.1m	<b>Cyfanswm Manteision</b> Cyfanswm: £- Gwerth presennol: £-	<b>Gwerth Presennol Net (NPV):</b> £-84.4m i £-101.1m

### **Costau gweinyddu**

## Costau:

Dros y cyfnod gwerthuso wyth mlynedd, disgwylir i'r rhan fwyaf o'r costau gweinyddol gael eu hysgwyddo gan Gomisiwn y Senedd. Mae'r costau pontio o £5,787,300 i £5,986,800 yn cynnwys ehangu'r Siambr bresennol, creu swyddfeydd ychwanegol yn Nhŷ Hywel a chostau staff sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Bil. Ar ben hynny, mae costau parhaus o rhwng £82,222,000 a £100,067,800. Mae hyn yn cynnwys staff ychwanegol yng Nghomisiwn y Senedd, costau deiliaid swyddi, cyflogau Aelodau a staff cymorth a lwfansau eraill.

Bydd costau pontio o £1,968,600 i Lywodraeth Cymru ar gyfer creu swyddfeydd Gweinidogol ychwanegol yn Nhŷ Hywel a chostau staff i roi'r Bil ar waith. Disgwylir i gostau parhaus Llywodraeth Cymru fod rhwng £8,342,300 a £10,270,200. Disgwylir i lawer o hyn fod yn gostau cyfle sy'n gysylltiedig ag angen staff ychwanegol mewn swyddfa breifat ac Ysgrifenyddiaeth y Cabinet. Mae costau parhaus eraill yn ymwneud â diogelwch a TG.

Bydd cost o £2,079,600 (£42,000 o gostau pontio a £2,037,600 o gostau parhaus) i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar gyfer cynnal adolygiadau ffiniau cyn etholiadau 2026 a 2030.

Mae costau pontio o £60,000 i Awdurdodau Lleol. Fel y nodir isod, rhagwelir arbedion costau parhaus ar gyfer Awdurdodau Lleol o ganlyniad i ddarpariaethau'r Bil.

Bydd costau pontio o £22,400 i'r Comisiwn Etholiadol sy'n ymwneud â chostau staff ychwanegol. Mae costau parhaus o £620,900 i Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer yr archwiliadau a'r adroddiadau ychwanegol y bydd eu hangen.

<b>Pontio:</b> £7,880,400 i £8,079,800	<b>Rheolaidd:</b> £93,222,800 i £112,996,600	<b>Cyfanswm:</b> £101,103,200 i £121,076,400	<b>Gwerth Presennol:</b> £85,032,100 i £101,752,100
--	--	--	---

### Arbedion costau:

Mae arbedion costau parhaus o £751,000 wedi cael eu nodi ar gyfer Awdurdodau Lleol o ganlyniad i newidiadau i'r system etholiadol (lleihau nifer y papurau pleidleisio) a nifer yr etholaethau (arbed ar ffioedd Swyddogion Canlyniadau). Mae'r arbedion hyn yn cael eu rhannu rhwng etholiadau'r Senedd yn y cyfnod gwerthuso yn 2026 a 2030. Efallai y bydd arbedion pellach unwaith y bydd rhagor o wybodaeth ar gael am yr union broses o baru etholaethau, a fydd yn caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud ar faterion etholiadol ymarferol megis maint a lleoliad y lleoliadau cyfrif.

<b>Pontio:</b> £-	<b>Rheolaidd:</b> £751,000	<b>Cyfanswm:</b> £751,000	<b>Gwerth Presennol (PV):</b> £633,800
-------------------	-------------------------------	------------------------------	--

**Cost gweinyddu net: £100,352,300 i £120,325,400**

## **Costau cydymffurfio**

Ni nodwyd unrhyw gostau cydymffurfio.

Ni nodwyd unrhyw gostau cydymffurfio.			
<b>Pontio: £-</b>	<b>Rheolaidd: £-</b>	<b>Cyfanswm: £-</b>	<b>Gwerth Presennol: £-</b>

## **Costau eraill**

Ni nodwyd unrhyw gostau eraill.

Ni nodwyd unrhyw gostau eraill.			
<b>Pontio: £-</b>	<b>Rheolaidd: £-</b>	<b>Cyfanswm: £-</b>	<b>Gwerth Presennol: £-</b>

## **Costau ac anfanteision heb eu meintoli**

Mae'n anochel y bydd y cynnydd ym maint y Senedd a'r cynnydd posibl yn nifer y Gweinidogion yn arwain at oblygiadau i ffyrdd Llywodraeth Cymru ei hun o weithio, gan gynnwys ei gwaith gweinyddu a'i chyflawni mewn ymateb i fwy o graffu. Bydd goblygiadau i dimau polisi a busnes y llywodraeth yn Llywodraeth Cymru gan ddarparu cyngor a chymorth i Weinidogion, yn cynnwys ar gyfer ymatebion i fwy o gwestiynau'r Senedd, briffiau i Weinidogion, gohebiaeth ac ati. Bydd maint yr effaith a'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen yn dibynnu ar nifer o benderfyniadau y gellir eu gwneud dim ond ar ôl pasio'r ddeddfwriaeth ac wrth baratoi ar gyfer y Senedd nesaf.

## **Manteision**

Rhagwelir y bydd y newidiadau'n arwain at nifer o fanteision, fodd bynnag, ni fu'n bosibl monitro'r manteision hyn ar hyn o bryd. Bydd y Senedd mewn gwell sefyllfa i wneud y canlynol:

- dal y Weithrediaeth i gyfrif;
- craffu'n fanylach ar bolisi a deddfwriaeth; ac
- ymgysylltu â'r etholwyr.

**Cyfanswm: £-**

**Gwerth Presennol: £-**

## **Tystiolaeth, rhagdybiaethau ac ansicrwydd allweddol**

Mae'r prif feysydd ansicrwydd yn ymwneud â pharu etholaethau (i'w cynnal erbyn Haf 2025) a phenderfyniadau ynghylch nifer Gweinidogion Cymru a threfnu busnes y Senedd (ni fydd y naill na'r llall yn hysbys tan ar ôl dechrau'r Seithfed Senedd yn 2026).

Bu ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Comisiwn y Senedd, y Comisiwn Etholiadol a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn ystod y gwaith o ddatblygu'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Mae'r tybiaethau a wnaed wrth gyfrifo'r costau wedi'u nodi fel rhan o'r naratif ar gyfer pob un o'r sefydliadau.

## Pennod 7: Yr opsiynau

456. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn wedi'i strwythuro o amgylch y costau yr amcangyfrifir y byddant yn codi ar gyfer y sefydliadau allweddol y bydd y diwygiadau'n effeithio arnynt. Cyflwynir costau ar gyfer pob sefydliad, wedi'u dilyn gan y manteision cyffredinol a ragwelir.

457. Gan fod argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd wedi cael eu cymeradwyo gan y Senedd a'u dilyn gan ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i'w rhoi ar waith, mae'r asesiad o gostau wedi cael ei wneud ar sail y cynigion hynny yn hytrach na bod nifer o opsiynau lefel uchel gwahanol yn cael eu costio (er enghraifft, opsiwn i gynyddu capasiti heb gynyddu nifer yr Aelodau neu'r rhai a fyddai'n cynyddu nifer yr Aelodau ar wahanol lefelau). Gallai costio opsiynau o'r fath gael ei ystyried yn anonest, gan nad oedd y rhain yn cael eu hystyried yn weithredol. Felly, y ddau opsiwn a gyflwynir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yw:

- Opsiwn 1. Busnes fel arfer; a
- Opsiwn 2. Rhoi Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ar waith

458. Ar gyfer rhai costau o fewn Yr opsiwn a ffefrir, mae mwy nag un senario wedi cael ei gostio er mwyn adlewyrchu y bydd rhai costau'n dibynnu ar benderfyniadau sydd eto i'w gwneud. Mae'r tybiaethau sy'n sail i'r gwahanol senarios wedi'u nodi yn yr adrannau perthnasol.

## Pennod 8: Costau a manteision

459. Mae'r cyfnod gwerthuso ar gyfer yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cwmpasu 2024–25 i 2031–32. Mae'r cyfnod hwn yn cwmpasu dau gylch etholiadol y Senedd ac felly mae'n cael ei ystyried yn ddigonol er mwyn i'r amcangyfrif o'r costau gyrraedd cyflwr sefydlog.
460. Oni nodir yn wahanol, mae'r holl gostau wedi cael eu talgrynnu i'r £100 agosaf. Efallai na fydd rhai o'r cyfansymiau mewn tablau yn cyfateb oherwydd y talgrynnu hwn. Mae'r costau wedi cael eu disgowntio gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt ganolog Trysorlys EF, sef 3.5%.

### **Opsiwn 1. Busnes fel arfer**

461. Hwn yw'r opsiwn sylfaenol ac felly does dim costau a manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Mae costau a manteision ychwanegol y ddeddfwriaeth arfaethedig wedi cael eu hasesu yn erbyn y waelodlin hon.
462. Ni fu'n bosibl mesur yn ariannol y costau cyfle posibl a allai godi o ganlyniad i golli'r cyfle i fynd i'r afael â chapasiti'r Senedd. Bwriedir i gapasiti o'r fath hwyluso craffu mwy effeithiol, y gellid yn rhesymol ei rag-weld yn ei dro yn sicrhau'r gwerth am arian gorau posibl drwy wariant cyhoeddus, a thrwy hynny mewn arbedion ariannol. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, rhybuddiodd amrywiaeth o randdeiliaid fod diffyg capasiti yn swyddogaethau craffu'r Senedd wedi arwain at golli cyfleoedd craffu o ganlyniad i lwythi gwaith trwm a blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd, diffyg craffu systematig ar ôl y broses ddeddfu, a thuedd tuag at ymchwiliadau byr a chyflym yn lle gwaith manwl hirdymor<sup>138</sup>.

---

<sup>138</sup> Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: Y camau nesaf](#), Medi 2020, Para 292



463. Er enghraifft, mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, fe wnaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru dynnu sylw'n flaenorol at y ffaith y gall canlyniadau gwaeth a chostau ychwanegol ddeillio o graffu annigonol cyn y broses ddeddfu a chraffu deddfwriaethol. Gan adlewyrchu'n benodol ar Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, nododd ei farn bod goblygiadau "diffygion" y Ddeddf wedi cynnwys:

- "darpariaethau ffioedd gormodol o gymhleth a beichus" gan arwain at gostau gweinyddol ychwanegol o oddeutu 10 y cant neu oddeutu £35,000 y flwyddyn;
- amser, adnoddau ac arian ychwanegol sy'n cael eu gwario gan Gomisiwn y Senedd ac Archwilio Cymru i "ddelio â darpariaethau penodi a thaliadau cydnabyddiaeth anghydlynol y Ddeddf"; ac
- yr amser a dreuliwyd gan Bwyllgor Cyllid y Senedd yn datblygu "cynigion i wneud gwelliannau adferol" i fynd i'r afael â gwendidau a dderbynnir yn y Ddeddf."<sup>139</sup>

464. Yn yr un modd, mae'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol wedi dadlau o'r blaen:

*"Wrth gyflwyno'r ddadl ynghylch y costau ychwanegol ar gyfer diwygio, mae'n hanfodol ein bod yn cofio bod y costau hyn yn gymharol fach a bod gwella'r broses graffu (o ganlyniad i gael cynnydd yn nifer yr aelodau) yn gallu arwain at fanteision go iawn i wasanaethau cyhoeddus. Dylem edrych ar y diwygiadau hyn yn eu cyfanrwydd gan y byddant yn sicrhau Senedd mwy a chryfach, gyda lefel uwch o atebolrwydd i'r cyhoedd. Mae hynny'n fuddsoddiad gwerth chweil."*<sup>140</sup>

465. Mae Opsiwn 1 yn golygu'r costau parhaus presennol wrth gynnal etholiadau. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn talu costau Swyddogion Canlyniadau lleol wrth gynnal etholiadau datganoledig. Mae adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar etholiadau 2021 hefyd yn nodi:

*"Ar 26 Chwefror 2021, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai etholiad y Senedd yn cael ei gynnal ar 6 Mai ac roedd wedi darparu £1.5 miliwn i gefnogi Swyddogion Canlyniadau i sicrhau lleoliadau, staff a*

<sup>139</sup>Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Llythyr at y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd](#), 15 Mai 2020.

<sup>140</sup> Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru, [Ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd](#), Chwefror 2020

*chynnal etholiadau diogel gan ddilyn rheolau Covid-19. Darparodd Swyddfa'r Cabinet arian ychwanegol i gefnogi'r gwaith o redeg etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.*"<sup>141</sup>

466. Mae Opsiwn 1 hefyd yn golygu costau parhaus cefnogi democratiaeth seneddol. Mae Comisiwn y Senedd yn cael cyllideb flynyddol gan Gronfa Gyfunol Cymru, gyda'i gyllideb ddrafft ar gyfer 2023–2024<sup>142</sup> yn manylu bod hyn yn cwmpasu:

- gwariant o dan reolaeth uniongyrchol y Comisiwn, gan gynnwys Cronfa Prosiect (y gyllideb weithredol);
- gwariant sy'n ymwneud â gwaith i baratoi ar gyfer diwygio'r Senedd;
- dibrisiant (gwariant nad yw'n arian parod);
- costau llog rhwymedigaethau lesuedd fel sy'n ofynnol gan y Safonau Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 16 (gwariant nad yw'n arian parod);
- y gyllideb a nodwyd ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau;
- y gyllideb ar gyfer y costau clericio, gweinyddu a chostau eraill i ddarparu cymorth i'r Bwrdd Taliadau Annibynnol;
- y gyllideb ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Safonau; ac
- y ddarpariaeth gyfrifyddu ar gyfer Aelodau Cynllun Pensiwn y Senedd o dan bennawd Gwariant a Reolir yn Flynyddol Trysorlys EF (Cost Cyllid Pensiwn).

## **Opsiwn 2. Rhoi Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ar waith**

### ***Dull cyffredinol o asesu costau***

467. Mae Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn darparu ar gyfer:

- cynyddu maint y Senedd i 96 o Aelodau;

<sup>141</sup> Y Comisiwn Etholiadol, [Adroddiad ar etholiadau mis Mai 2021 yng Nghymru](#), Medi 2021.

<sup>142</sup> Comisiwn y Senedd, [Cyllideb Ddrafft 2022-2023](#), Medi 2022, tudalen 7.

- cynyddu'r terfyn deddfwriaethol ar Weinidogion Llywodraeth Cymru i 17 (yn ychwanegol at y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol), gyda'r pŵer i gynyddu'r terfyn hwn ymhellach i 19<sup>143</sup>;
- cynyddu'r nifer mwyaf o Ddirprwy Lywyddion y gellir eu hethol o'r tu mewn i'r Senedd i ddau;
- newid system etholiadol y Senedd fel bod yr holl Aelodau'n cael eu hethol drwy system rhestr gyfrannol gaeedig, gyda'r pleidleisiau'n cael eu trosi i seddi drwy fformiwla D'Hondt;
- addasu ac ailenwi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, gan gynnwys:
  - rhoi i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau newydd Cymru y swyddogaethau angenrheidiol er mwyn iddo allu cynnal adolygiadau parhaus o ffiniau etholaethau'r Senedd;
  - rhoi cyfarwyddiadau i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru eu dilyn wrth gynnal ei adolygiadau o'r ffiniau;
- newid y cyfnod arferol rhwng etholiadau cyffredinol cyffredin y Senedd yn ôl i 4 blynedd;
- ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr i'r Senedd, ac Aelodau ohoni, fod yn preswyllo yng Nghymru;
- pŵer i ddiweddarau terfynau gwariant ymgyrchoedd etholiadol i adlewyrchu'r newid i 16 o etholaethau'r Senedd ar sail rhestr sy'n dychwelyd 6 Aelod yr un, a mesurau diogelu cysylltiedig;
- adolygu gweithrediad y darpariaethau deddfwriaethol newydd yn dilyn etholiadau 2026 a 2030; ac
- ystyriaeth y Senedd o rannu swyddi sy'n ymwneud â'r Senedd.

468. Mae amcangyfrifon costau manwl i gyd-fynd â'r Bil wedi cael eu datblygu, gan gynnwys mewn perthynas â'i oblygiadau i Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, Awdurdodau Lleol, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a'r Comisiwn Etholiadol. Bydd gwerth am arian yn parhau i gael ei ystyried yn llawn wrth i Lywodraeth Cymru wneud cynnydd o ran diwygio a dechrau ei roi ar waith.

---

<sup>143</sup> Ni chaniateir gwneud offeryn statudol o dan y pŵer hwn oni bai bod penderfyniad wedi'i wneud yn gyntaf gan y Senedd yn cymeradwyo'r offeryn drafft, a bod nifer yr Aelodau sy'n pleidleisio o blaid y penderfyniad hwnnw'n cyfateb i o leiaf ddwy ran o dair o gyfanswm seddi'r Senedd (h.y. mewn Senedd 96 sedd, bydd angen i o leiaf 64 Aelod gymeradwyo'r penderfyniad).

469. Mae rhai costau eisoes wedi digwydd ac mae disgwyl iddynt ddigwydd yn 2023–24, ac i raddau llai yn rhan gynnar 2024–25, cyn i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol. O'r herwydd, ystyrir bod y rhain yn 'gostau suddedig' gan y byddai'n rhaid eu hadennill, ac ni fyddai modd eu hadennill, pe na bai'r ddeddfwriaeth yn cael y Cydsyniad Brenhinol. At ddibenion tryloywder, cyfeirir at y rhain yn yr adrannau ar gyfer y sefydliadau y maent yn berthnasol iddynt, ond nid ydynt wedi'u cynnwys fel costau'r Bil. Mae'r costau mesuradwy sy'n disgyn yn 2023–24 ar gyfer Comisiwn y Senedd (£515,000 sy'n ymwneud â chostau staff, gwaith cynnar sydd ei angen ar lety a rhai costau cyfalaf) a Llywodraeth Cymru (£2.2m sy'n ymwneud â pharatoi a chyflawni deddfwriaeth).
470. Etholiad y Senedd yn 2030 (blwyddyn ariannol 2030–31) fydd y cyntaf lle mae gan y Senedd 96 o Aelodau adeg diddymu'r Seithfed Senedd a hefyd ar ddechrau'r Senedd newydd. Wedi hynny, disgwylir i bob Senedd ddechrau a gorffen gyda 96 o Aelodau. Bydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth newydd Cymru hefyd wedi cwblhau ei adolygiad ar gyfer etholiad 2030 a bydd adolygiadau dilynol yn cael eu hystyried yn 'fusnes fel arfer'. O ganlyniad, rhagwelir 'cyflwr sefydlog' ar gyfer costau o 2031–32.
471. Bydd y ddarpariaeth yn y Bil i newid hyd tymhorau'r Senedd i bedair blynedd yn arwain at un etholiad ychwanegol ym mhob cyfnod o 20 mlynedd. Y pwynt cyntaf y byddai hyn yn cael ei wireddu yw 2046, ac felly mae y tu allan i'r cyfnod gwerthuso a ddefnyddir ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Bydd newid hyd tymor y Senedd i bedair blynedd yn dod â'r flwyddyn ariannol lle bydd costau sy'n gysylltiedig ag etholiadau.
472. Er bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ceisio darparu'r amcangyfrif gorau o'r costau tebygol o ganlyniad i Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), mae rhai ffactorau anhysbys a allai effeithio ar yr amcangyfrifon (naill ai o ran costau neu arbedion) pan fydd penderfyniadau dilynol wedi cael eu gwneud. Mae'r rhain yn cynnwys:

- y trefniadau paru ar gyfer etholaethau;
- penderfyniadau a wneir (ar ôl yr etholiad) gan y Senedd a Phrif Weinidog Cymru (e.e. ar nifer y Pwyllgorau, Gweinidogion Cymru ac ati); a
- phenderfyniadau cyllidebol yn y dyfodol a newidiadau i ffyrdd o weithio nad ydynt o ganlyniad uniongyrchol i'r ddeddfwriaeth.

### ***Costau a manteision i'r Comisiwn Etholiadol***

473. Y disgwyliad yw y byddai gan y Comisiwn Etholiadol rôl yn creu canllawiau gan gynnwys newidiadau i'r system bleidleisio a gofynion newydd ar gyfer ymgeiswyr a phleidiau.
474. Bydd y newidiadau disgwylidig i gyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ddiweddarau ei ganllawiau ar gyfer ymgeiswyr, pleidiau a gweinyddwyr etholiadol, yn ogystal â'u hadnoddau a'u gwybodaeth ar gyfer pleidleiswyr. Nododd y Comisiwn Etholiadol yn wreiddiol, er y byddai'r diwygiadau'n galw am rywfaint o weithgarwch ychwanegol gan y Comisiwn, y byddai llawer o hyn naill ai'n niwtral o ran cost, yn cael ei gynnwys fel rhan o'r gwaith maent eisoes yn ei wneud, neu y byddai'n arwain at gostau untro bach yn unig. Nid oeddent ychwaith yn rhag-weld unrhyw arbedion sylweddol i'r Comisiwn o ganlyniad i'r diwygiadau.
475. Er y byddai hwn yn ddarn sylweddol o waith, roeddent wedi ystyried hyn yn wreiddiol yn rhan o'u cyfrifoldebau a'u swyddogaethau presennol o ran darparu canllawiau. Cyn belled â bod yr holl ddeddfwriaeth ofynnol ar waith mewn da bryd, roeddent wedi bwriadu defnyddio'r capasiti presennol gan dimau'r Comisiwn i gyflawni'r gweithgarwch hwn.
476. Fel amcangyfrif bras, mae'r Comisiwn Etholiadol wedi dweud mai'r gost o ddatblygu a chyhoeddi'r canllawiau hyn yw £6,000. Mae hon yn gost barhaus a fydd yn digwydd ni waeth a oes deddfwriaeth diwygio'r Senedd ai peidio (h.y. nid yw'n gost ychwanegol).

477. Ers cyhoeddi'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol gwreiddiol, mae'r Comisiwn Etholiadol wedi nodi costau ychwanegol. Penderfynodd y Comisiwn yn hydref 2023 i sefydlu tîm deddfwriaeth, ar ôl i wybodaeth gael ei darparu ar gyfer yr Aseiad gwreiddiol.
478. Bydd y tîm yn canolbwyntio ar ymateb i ddeddfwriaeth a diwygio etholiadol ledled y DU. Bydd hyn yn cynnwys y rhaglenni diwygio yng Nghymru a'r Alban, diwygiadau posibl yn y dyfodol ar lefel y DU, a gweithrediad parhaus Deddf Etholiadau 2022. Bydd y tîm yn rheoli'r gwaith o gydlynu deddfwriaeth newydd i sicrhau ei bod yn ymarferol i weinyddwyr etholiadol, pleidleiswyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr. Bydd hefyd yn datblygu ac yn rheoli cynlluniau cyflawni i sicrhau y gellir gweithredu'r diwygiadau yn llwyddiannus a bydd yn cefnogi timau eraill o fewn y Comisiwn i weithio gyda llywodraethau a rhanddeiliaid eraill i nodi a monitro risgiau a materion cyflawni.
479. Mae'r costau isod yn rhai ar gyfer y tîm y gellir eu priodoli i Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) – bydd y cyfrannau sy'n ymwneud â Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) a Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) yn cael eu cynnwys yn yr Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y darnau hynny o ddeddfwriaeth.
480. Yn ogystal â'r costau yn y tabl, mae costau o £1,600 yn 2024–25 sy'n cael eu hystyried yn 'gostau suddedig' gan yr eir iddynt cyn i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol.

**Tabl: 8.1 Costau'r Comisiwn Etholiadol**

	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30	2030-31	2031-32
<b>Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)</b>	6400	8000	8000	0	0	0	0	0

## ***Costau ac Arbedion i Gomisiwn y Senedd***

481. Fel y sonnir ym Mhennod 4 o'r Memorandwm Esboniadol hwn, cafwyd nifer o adroddiadau cynharach ar ddiwygio'r Senedd, ac mae rhai ohonynt wedi cynnwys amcangyfrifon o gostau. Er enghraifft, roedd adroddiad y Panel Arbenigol yn cynnwys amcangyfrifon cost gan Gomisiwn y Cynulliad (ar y pryd), a oedd yn cynnwys costau blynyddol o "£6.6 miliwn i £9.6 miliwn y flwyddyn"<sup>144</sup> ynghyd ag amrywiaeth o gostau untro, megis costau sy'n gysylltiedig ag addasu'r Siambr a swyddfeydd yr Aelodau. Yn yr un modd, cafodd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd amcangyfrifon ariannol gan y Llywydd ar botensial Comisiwn y Senedd o ran costau sy'n deillio o ddiwygio'r Senedd, sy'n dibynnu ar nifer yr Aelodau ychwanegol a phenderfyniadau a wnaed ynghylch trefnu busnes y Senedd, "sy'n cyfateb i ystod ariannol o gostau parhaus rhwng £7.4 miliwn a £12.9 miliwn y flwyddyn."<sup>145</sup>
482. Fodd bynnag, nid oes modd cymharu'r amcangyfrifon hyn yn uniongyrchol â'r asesiad a gynhaliwyd ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn oherwydd natur wahanol y diwygiadau arfaethedig. Cynhaliwyd yr ymarfer hwn hefyd yn unol ag arferion sefydledig ar baratoi Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ac mae'n adlewyrchu cyfnod gwerthuso gwahanol.

### **Dull**

483. Gofynnwyd i Gomisiwn y Senedd ddarparu gwybodaeth graidd yn ymwneud â goblygiadau ariannol y diwygiadau i'r Senedd. Wrth baratoi eu ffigurau, mabwysiadodd Comisiwn y Senedd nifer o dybiaethau cyffredin (mae'r tybiaethau sy'n ymwneud â busnes wedi'u nodi isod gyda'r rhestr lawn yn Atodiad 5 y Memorandwm Esboniadol hwn) a gytunwyd mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Busnes a'r Bwrdd Taliadau Annibynnol.

---

<sup>144</sup> Panel Arbenigol [Senedd sy'n gweithio i Gymru](#), Tachwedd 2017, para 16.15

<sup>145</sup> Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, Diwygio'r Senedd: Y camau nesaf, Medi 2020, para 378

484. Dylid nodi y bydd nifer o'r tybiaethau hyn (er enghraifft nifer y Pwyllgorau a faint o amser mewn Cyfarfodydd Llawn) yn fater i'r Seithfed Senedd benderfynu arno ar ôl yr etholiad nesaf. Nid ydynt yn ganlyniad uniongyrchol i ddarpariaethau penodol yn y Bil, ond yn hytrach gallant ddeillio o gynnydd yn nifer yr Aelodau o'r Senedd. Y penderfyniadau eu hunain fyddai'n arwain at y costau gwirioneddol. Ni fwriedir i'r tybiaethau cyffredin ragnodi sut y dylai'r Senedd ddiwygiedig yn y dyfodol weithredu; yn syml, dyma'r hyn y mae Comisiwn y Senedd yn ei ystyried yn sail resymol ar gyfer cynhyrchu amcangyfrifon gorau, o ystyried yr hyn sy'n hysbys ar hyn o bryd a pha benderfyniadau sydd wedi'u gwneud (neu heb gael eu gwneud) ar hyn o bryd.

485. Am y rhesymau a nodir uchod, darparodd Comisiwn y Senedd ddau fodel ar gyfer busnes yn y Seithfed Senedd i ddangos y bydd amrywiaeth o opsiynau.

### **Tybiaethau cyffredin a ddefnyddir wrth gyfrifo amcangyfrifon cost Comisiwn y Senedd**

#### **Senario newid lleiaf**

486. Roedd y senario newid lleiaf yn tybio y byddai'r trefniadau ar gyfer trefnu busnes y Senedd yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol yn fras. Gellid ystyried hyn yn fuddiol o ran caniatáu i Aelodau gyflawni eu rôl o ddal Llywodraeth Cymru i gyfrif yn fwy manwl. Er enghraifft, gallai cynnydd bach yn nifer y pwyllgorau gynyddu'r amser sydd ar gael i Aelodau baratoi ar gyfer craffu ar bwyllgorau. Y tybiaethau ar gyfer y senario newid lleiaf oedd y byddai'n golygu:

- hyd at bedwar grŵp plaid;
- un pwyllgor ychwanegol;
- lefel debyg o amser mewn cyfarfod llawn; a
- nifer tebyg o wythnosau eistedd.

#### **Senario newid mwyaf**



487. Roedd y senario newid mwyaf yn cynnwys cynnydd ym musnes y Senedd. Gellid ystyried hyn yn fuddiol o ran rhoi cyfleoedd mwy ffurfiol i'r Senedd i Aelodau ddal Llywodraeth Cymru i gyfrif. Y tybiaethau ar gyfer y senario newid mwyaf oedd y byddai'n golygu:

- pum grŵp plaid;
- hyd at dri phwyllgor ychwanegol;
- diwrnod ychwanegol o amser mewn cyfarfod llawn; ac
- wythnos eistedd ychwanegol.

488. Er mwyn llunio'r amcangyfrifon, roedd pob un o dair Cyfarwyddiaeth Comisiwn y Senedd (Cyfarwyddiaeth Busnes y Senedd, y Gyfarwyddiaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu, y Gyfarwyddiaeth Adnoddau), lle mae 15 o Wasanaethau, wedi darparu goblygiadau costau cysylltiedig (pontio a pharhaus) ar draws y cyfnod gwerthuso ac yn gweithio o fewn y tybiaethau y cytunwyd arnynt. Yn dilyn hynny, cafodd y ffigurau hyn eu hystyried a'u cytuno gan Fwrdd Gweithredol Comisiwn y Senedd a Chomisiynwyr y Senedd cyn iddynt gael eu darparu i Lywodraeth Cymru.

489. Cynhaliwyd yr ymgysylltu rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd ar ôl cyflwyno'r wybodaeth gychwynnol ddiwedd mis Mawrth 2023. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod ffigurau'n cael eu deall a'u cynrychioli mewn ffordd sy'n gyson ag arferion arferol Llywodraeth Cymru, ac amcangyfrifon cost eraill yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

### **Costau staff Comisiwn y Senedd**

490. Bydd y cynnydd yn nifer yr Aelodau o 60 i 96, sy'n deillio o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), yn gofyn am staff ychwanegol yng Nghomisiwn y Senedd ar draws ystod o'r 15 Gwasanaeth er mwyn darparu swyddogaethau cefnogi i'r Aelodau ychwanegol. Mewn rhai meysydd, aseswyd nad oedd angen cynnydd cyfrannol ac wrth baratoi'r deunydd i'w gynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, y dybiaeth oedd y dylid cadw'r cynnydd yn niferoedd staff y Comisiwn mor isel â phosibl ac adlewyrchu'r 'cap' ar sefydliad staffio cyffredinol y Comisiwn y cytunwyd arno yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig Comisiwn y Senedd. Nodwyd y byddai'r dull hwn yn golygu bod angen adolygu lefelau gwasanaeth mewn Senedd ddiwygiedig maes o law, os bydd y Bil yn cael ei basio. Roedd Comisiwn y Senedd hefyd yn ceisio sicrhau bod cyfleoedd i arbed costau yn cael eu nodi a'u cymryd, lle bynnag y bo modd, a byddai'n parhau i wneud hynny wrth i'r gwaith paratoi ar gyfer diwygio'r Senedd barhau.

491. Y cynnydd amcangyfrifedig mewn staff ar gyfer gweithgareddau pontio a gweithgareddau parhaus yw 78.1 (cyfwerth ag amser llawn) yn y senario newid lleiaf a 113 (cyfwerth ag amser llawn) yn y senario newid mwyaf. Mae hyn yn gynnydd (o gyfrif pennau sefydliad 2023–24 o 522) o 14.96% (newid lleiaf) a 21.65% (newid mwyaf) o'i gymharu â chynnydd o 60% yn yr Aelodau. Y cynnydd a amcangyfrifir yn nifer y staff yn barhaus yw 50.4 (Cyfwerth ag Amser Llawn) yn y senario newid lleiaf ac 84.3 (Cyfwerth ag Amser Llawn) yn y senario newid mwyaf. Mae hyn yn gynnydd (o gyfrif pennau sefydliad 2023–24 o 522) o 9.66% (newid lleiaf) a 16.15% (newid mwyaf) o'i gymharu â chynnydd o 60% yn yr Aelodau. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod cynnydd llai na chymesur yn nifer y staff mewn rhai meysydd o'i gymharu ag Aelodau, ac mae'n tybio y bydd angen rhai newidiadau i arferion gwaith.

**Tabl 8.2: Dadansoddiad Comisiwn y Senedd o niferoedd staff yn ôl gradd (Cyfwerth ag Amser Llawn)**

	Senario Newid Lleiaf		Senario Newid Mwyaf	
	Pontio	Parhaus	Pontio	Parhaus
<b>Cymorth Tîm</b>	3.8	13.4	3.8	20
<b>Band Rheoli 3</b>	5	14	5	16.3
<b>Band Rheoli 2</b>	9.6	11	11.6	25
<b>Band Rheoli 1</b>	4	9	3	16
<b>Band Gweithredol 2</b>	3	3	3	7
<b>Band Gweithredol 1</b>	2.3	0	2.3	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>27.7</b>	<b>50.4</b>	<b>28.7</b>	<b>84.3</b>

492. Mae'r cynnydd yn y staff sydd eu hangen wedi'i rannu ar draws y 15 maes gwasanaeth. Mae'r rhain yn codi o'r angen a ragwelir i ddarparu:

- Cyfieithu ar gyfer cyfarfodydd llawn/pwyllgorau ychwanegol a thiwtoriaid i gefnogi Aelodau, eu staff cefnogi ac aelodau staff y Comisiwn i ddysgu neu wella eu sgiliau Cymraeg;
- Cefnogaeth TGCh i'r Aelodau, y Pwyllgorau a'r Cyfarfodydd Llawn ychwanegol;
- Cymorth gan y Gwasanaeth Pwyllgorau a'r Siambr ar gyfer amser estynedig mewn Cyfarfodydd Llawn ac i'r Swyddfa Gyflwyno ddelio â mwy o waith y Senedd, fel Cwestiynau Ysgrifenedig, yn ogystal â chynnydd cymesur yn nifer y buddiannau sydd i'w cofrestru'n ffurfiol, sy'n deillio o 36 Aelod ychwanegol;
- Staff diogelwch i reoli cynnydd yn nifer yr archwiliadau fetio sydd eu hangen, darparu cymorth o ddydd i ddydd a rhoi sylw i'r cynnydd mewn digwyddiadau/gweithgaredd ar ystad y Senedd;
- Adnodd Gwasanaethau Ymgysylltu ar gyfer trefnu cyfarfodydd a lleoliadau digwyddiadau ar gyfer mwy o Aelodau a chefnogi digwyddiadau ac ymgysylltu â'r gymuned;
- Adnoddau cyfathrebu ar gyfer darparu ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus ar y newidiadau sy'n deillio o ddiwygio'r Senedd;
- Gwasanaethau'r Comisiwn a Gwasanaethau'r Aelodau er mwyn darparu ar gyfer cynnydd yn y trafodion ac mewn cyngor i'r Aelodau;

- Cymorth i Bwyllgorau ar gyfer allbynnau (fel adroddiadau) a gweithgarwch cyffredinol (er enghraifft cyhoeddi papurau, a threfnu a chefnogi cyfarfodydd) yn ogystal â chymorth craffu deddfwriaethol a chefnogaeth i Filiau Aelodau.

493. Cafodd costau cyfle cysylltiedig â staff – h.y. y gost sy'n gysylltiedig â'r amser a dreulir gan staff Comisiwn y Senedd ar dasgau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r ddeddfwriaeth ddiwygio, a fyddai fel arall yn cael ei gwario ar weithgareddau eraill – eu hasesu a'u nodi fel costau 'Presennol' o fewn y ffigurau, lle bo hynny'n berthnasol. At ddibenion dichonoldeb, mae'r costau cyfle hyn wedi cael eu cofnodi dim ond yn yr achosion hynny lle byddai o leiaf 50% o amser aelod o staff yn cael ei ailddyrannu i dasgau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r ddeddfwriaeth ddiwygio.

**Tabl 8.3: Crynodeb o gostau staff Comisiwn y Senedd<sup>146</sup>**

	2024-25		2025-26		2026-27		2027-28		2028-29		2029-30		2030-31		2031-32	
	Low	High	Low	High	Low	High	Low	High	Low	High	Low	High	Low	High	Low	High
Ongoing	287,400	287,400	1,683,100	2,643,900	2,341,400	4,196,300	2,392,600	4,247,600	2,392,600	4,247,600	2,392,600	4,247,600	2,392,600	4,247,600	2,392,600	4,247,600
Transitional	1,241,900	1,293,200	981,300	1,032,500	275,500	275,500	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-

### **Costau sy'n gysylltiedig â llety**

494. Er mwyn darparu ar gyfer y cynnydd yn nifer yr Aelodau a'u staff cefnogi, bydd angen gwneud gwaith i adnewyddu Tŷ Hywel a hefyd ehangu'r Siambr bresennol.

495. Bydd costau ar draws nifer o flynyddoedd (£995,000 yn 2024–25 ac £885,000 yn 2025–26) i adlewyrchu'r gwaith paratoi a'r cyfnod rhagarweiniol sydd ei angen. Bydd costau hefyd yn 2023–24 sy'n cael eu trafod yn yr adran ddiweddarach ar gostau suddedig. Mae'r costau hyn yn cynnwys gwasanaethau pensaernïol a dylunio ar gyfer ehangu'r Siambr, yn ogystal ag ehangu'r Siambr ei hun i gynnwys 96 o Aelodau, a chreu swyddfeydd yn Nhŷ Hywel ar gyfer 96 o Aelodau. Nid oes amrywiad yn y costau hyn rhwng y ddwy senario.

<sup>146</sup> Yn seiliedig ar raddfeydd cyflog 2023-24.

496. Yn y senario newid mwyaf, byddai cynnydd mewn costau cyfleustodau ar gyfer gwresogi, oeri a goleuo ar gyfer sesiynau Pwyllgorau a Chyfarfodydd Llawn ychwanegol. Aseswyd mai effaith isel yn unig oedd cynnydd o un pwyllgor ychwanegol yn y senario newid lleiaf, ac felly ni chafodd costau ychwanegol ar gyfer y senario hwnnw eu cynnwys.

### ***Costau refeniw***

497. Rhagwelir costau refeniw uwch mewn amrywiaeth o feysydd fel gwasanaethau wedi'u contractio'n allanol ar gyfer Aelodau (er enghraifft darparu gwasanaeth cyfieithu yn yr etholaeth, sy'n ofyniad o dan y Cynllun Ieithoedd Swyddogol), trwyddedau TGCh, diogelwch a Senedd Ieuenctid Cymru. Tybir bod maint Senedd Ieuenctid Cymru'n cynyddu yn y senario newid mwyaf, sy'n gymesur â'r cynnydd ym maint y Senedd ei hun. O ganlyniad, mae amcangyfrif o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag etholiadau Senedd Ieuenctid Cymru wedi cael eu cynnwys oherwydd y rhagwelir y bydd angen ymgyrchu ychwanegol i annog mwy o enwebiadau i fod yn aelodau ac y bydd costau ychwanegol i ddarparu'r yr etholiad. Mae costau sy'n gysylltiedig â Senedd Ieuenctid Cymru yn seiliedig ar etholiad bob 3 blynedd.

498. Mae rhagdybiaeth wedi'i gwneud mai'r newid lleiaf i Senedd Ieuenctid Cymru fyddai cynnal y maint presennol a pheidio â chynyddu nifer yr aelodau sy'n cael eu hethol iddi, sef 60.

499. Mae costau o dan y pennawd hwn yn dechrau o 2024–25 ond maent yn amrywio yn ystod y blynyddoedd ariannol cyn etholiad 2026. Rhwng 2026–27, mae rhywfaint o amrywiaeth o hyd rhwng y blynyddoedd ariannol, ond mae'r costau blynyddol yn sefydlogi tua £500,000 (senario newid lleiaf) a £1,000,000 (senario newid mwyaf).

### *Costau cyfalaf eraill*

500. Mae costau cyfalaf heblaw llety yn cynnwys pecynnau dehongli symudol ac arbenigol ar gyfer cyfarfodydd grŵp a chlustffonau; caledwedd ar gyfer Aelodau, staff cefnogi a swyddfeydd; a chostau adnewyddu/newid TGCh. Mae'r cynnydd mewn costau yn cael ei ysgogi gan y cynnydd yn nifer yr Aelodau o'r Senedd ac mae'r rhan fwyaf o'r costau o dan y pennawd hwn yn gostau pontio ac wedi digwydd rhwng 2025–26 a 2026–27. Ar ben hynny, mae costau parhaus yn amrywio rhwng £10,000 a £65,500 y flwyddyn yn y senario newid lleiaf a rhwng £10,000 a £81,900 y flwyddyn yn y senario newid mwyaf.

### *Costau etholiadau*

501. Mae'r rhain wedi'u cyfyngu'n naturiol i flynyddoedd penodol o fewn y cyfnod gwerthuso. Yn bennaf, mae'r costau ychwanegol yn deillio o'r angen i baratoi ar gyfer cynnydd cymesur yn nifer yr Aelodau na ddychwelodd ar ôl yr etholiad ac sydd felly â hawl i hawlio Grant Ymaddasu. Mae costau hefyd yn codi o waith arferol a wneir cyn etholiad (er enghraifft prynu pecynnau TGCh ac adnewyddu ardaloedd Aelodau yn yr adeilad) ond mae'r nifer uwch o Aelodau yn golygu bod y costau hyn yn cynyddu'n gymesur.

502. Nid yw'r costau (£300,000 yn 2029–30 a £1,500,000 yn 2030–31) yn amrywio ar draws y ddwy senario a disgwylir y byddant yn digwydd ar gyfer pob etholiad yn y Senedd.

503. Mae'r costau ychwanegol hyn yn amrywio rhwng etholiad 2026 ac etholiad 2030, gyda'r costau uwch ar gyfer etholiad 2030 yn adlewyrchu diwedd y chweched Senedd gyda 60 o Aelodau a'r seithfed Senedd yn gorffen gyda 96.

**Tabl 8.4: Crynodeb o gostau Comisiwn y Senedd nad ydynt yn ymwneud â staff**

		2024-25		2025-26		2026-27		2027-28		2028-29		2029-30		2030-31		2031-32	
		Low	High	Low	High	Low	High	Low	High	Low	High	Low	High	Low	High	Low	High
Accommodation	Ongoing	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
	Transitional	995,000	995,000	885,000	885,000	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Other capital	Ongoing	37,000	39,000	65,500	81,900	40,800	61,400	10,000	10,000	28,500	28,500	47,000	49,000	65,500	81,900	40,800	61,400
	Transitional	-	-	762,000	819,000	600,400	600,400	-	-	7,500	7,500	-	-	-	-	-	-
Revenue	Ongoing	17,100	18,400	111,600	475,300	513,900	1,040,200	510,100	1,054,300	510,100	1,049,300	510,100	1,049,300	510,100	1,054,300	510,100	1,049,300
	Transitional	5,000	5,000	33,800	73,700	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Election	Ongoing	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	300,000	300,000	1,500,000	1,500,000	-	-
	Transitional	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-

### **Costau Aelodau o'r Senedd a Staff Cymorth**

504. Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar dâl a chymorth uniongyrchol Aelodau o'r Senedd i ddenu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol, ac i alluogi'r rheini a etholwyd yn Aelodau i wneud eu swyddi'n effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru.

505. Mae cyflog sylfaenol Aelod, cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol, a'r Lwfans Gwariant Staffio wedi'u nodi ym Mhenderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau<sup>147</sup>. Cafodd Penderfyniad 2022-23 ei ddefnyddio fel sail ar gyfer amcangyfrif holl gostau'r Penderfyniad.

506. Mae'r rhan fwyaf o'r costau a nodir o dan y pennawd hwn (wedi'u haddasu i gynnwys 'argostau') yn gyflogau ar gyfer Aelodau ychwanegol y Senedd. Mae'r costau ar gyfer cyflogau Aelodau wedi cael eu cyfrifo fel £3,250,300 y flwyddyn rhwng 2026 a 27, ar sail cyflog sylfaenol presennol Aelod o £67,900 ac argostau, wedi'u lluosu â 36.

507. Fel y nodir yn y Penderfyniad, mae gan Aelodau o'r Senedd hawl i hawlio costau gwariant staff, hyd at uchafswm o £110,600, ar gyfer personau sy'n cael eu cyflogi ganddynt pan fydd y costau hynny'n digwydd yn gyfan gwbl ac yn angenrheidiol er mwyn gallu cyflawni dyletswyddau'r Aelod. Cyfeirir at bobl o'r fath fel Staff Cymorth – cânt eu cyflogi'n uniongyrchol gan Aelodau unigol, yn wahanol i staff Comisiwn y Senedd. Petai'r holl Aelodau'n hawlio'r uchafswm, byddai hyn yn arwain at gost o £3,980,500 i Staff Cymorth, ynghyd ag argostau (gan arwain at gyfanswm o £4,889,400) a fyddai'n gynydd o 2026-27. Mae costau i

<sup>147</sup> [Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau: 2022-23 \(senedd.cymru\)](#)

gefnogi'r broses gynefino ar gyfer Aelodau newydd wedi cael eu cynnwys yn adran Costau Staff y Senedd.

**Tabl 8.5: Crynodeb o gostau cyflogau Aelodau a Staff Cymorth**

		2024-25		2025-26		2026-27		2027-28		2028-29		2029-30		2030-31		2031-32	
		Low	High	Low	High	Low	High	Low	High	Low	High	Low	High	Low	High	Low	High
Member salaries	Ongoing	-	-	-	-	3,250,400	3,250,400	3,250,400	3,250,400	3,250,400	3,250,400	3,250,400	3,250,400	3,250,400	3,250,400	3,250,400	3,250,400
	Transitional	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Member support staff salaries	Ongoing	-	-	-	-	4,889,400	4,889,400	4,889,400	4,889,400	4,889,400	4,889,400	4,889,400	4,889,400	4,889,400	4,889,400	4,889,400	4,889,400
	Transitional	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-

### ***Deiliaid swyddi***

508. Mae'r categori costau hwn hefyd yn cynnwys cyflogau ychwanegol ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau, Gweinidogion, Dirprwy Lywydd ac Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol, Aelodau'r Pwyllgor Busnes, yn ogystal â chostau teithio, lwfansau a swyddfeydd Aelodau, llety preswyl a chefnogaeth i bleidiau gwleidyddol. Byddai'r costau hyn yn digwydd yn flynyddol rhwng 2026 a 2027 (yn amodol ar benderfyniadau Seneddau a Phrif Weinidogion y dyfodol ar niferoedd deiliaid swyddi).

509. Bydd y ffigurau gwirioneddol ar gyfer nifer o'r costau hyn yn dibynnu ar y penderfyniadau a wneir ar ddechrau'r Seithfed Senedd (ac yn Seneddau'r dyfodol). Er enghraifft, bydd Pwyllgor Busnes y Senedd yn pennu nifer y pwyllgorau ac felly nifer y Cadeiryddion Pwyllgorau, a bydd y Prif Weinidog yn pennu nifer y Gweinidogion a benodir i Lywodraeth Cymru. Bydd y gost gyffredinol sy'n gysylltiedig â chyflogau ychwanegol ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau a Gweinidogion Cymru yn dibynnu ar nifer y Pwyllgorau ychwanegol a phenodiadau gan Weinidogion. Bydd nifer a chost ychwanegol Aelodau'r Pwyllgor Busnes yn dibynnu ar nifer y Grwpiau Plaid yn y Senedd ar ôl yr etholiad.

510. Mae'r amcangyfrif o'r costau a nodir yn yr asesiad hwn ar gyfer cyflogau ychwanegol yr ail Ddirprwy Lywydd, Gweinidogion, Cadeiryddion Pwyllgorau, Aelodau'r Pwyllgor Busnes ac Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol yn adlewyrchu'r tybiaethau cyffredin yn y senarios newid lleiaf a mwyaf.



511. Yn benodol, mae'r Bil yn darparu ar gyfer penodi ail Ddirprwy Lywydd. Yn y senario newid lleiaf, ni phenodir Dirprwy Lywydd ychwanegol, ac felly'r amcangyfrif o'r gost yw £0, ac yn y senario newid mwyaf penodir y Dirprwy Lywydd ychwanegol ar gost o £28,700 y flwyddyn, sy'n adlewyrchu'r cyflog ychwanegol ar gyfer Dirprwy Lywydd o £22,300 a mwy.
512. O ran Gweinidogion Cymru, mae'r Bil yn cynyddu'r terfyn ar nifer y Gweinidogion y caiff y Prif Weinidog eu penodi o 12 i 17. Yn y senario newid lleiaf, nid oes Gweinidogion ychwanegol yn cael eu penodi ac felly'r amcangyfrif o'r gost yw £0, tra bo pum Gweinidog yn cael eu penodi yn y senario newid mwyaf ar gost o £250,900 y flwyddyn. Mae hyn yn adlewyrchu cyflog ychwanegol un o Weinidogion Cymru o £38,200 y flwyddyn ynghyd ag argostau, wedi'u lluosio â 5. Dylid nodi bod hyn yn darparu uchafswm ac isafswm o'r ystod, ond gallai nifer y Gweinidogion a benodir, a'r cyfuniad o Weinidogion a Dirprwy Weinidogion a benodir amrywio a bydd yn effeithio ar y gost wirioneddol sy'n gysylltiedig â chyflogau ychwanegol.
513. Byddai senario is, a allai fod yn fwy tebygol, yn golygu cyfuniad o Weinidogion a Dirprwy Weinidogion a benodir i'r pum swydd Weinidogol ychwanegol yn gymesur â chymhareb Llywodraethau blaenorol. Gan fod saith Gweinidog ar hyn o bryd, yn ogystal â'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol a phum Dirprwy Weinidog, byddai penodi tri Gweinidog ychwanegol a dau Ddirprwy Weinidog i'r swyddi Gweinidogol posibl yn enghraifft gymesur. Cost ychwanegol gyffredinol y senario hwn fyddai £208,000 (3 x £50,200 a 2x £28,700)
514. Tybir bod nifer y Pwyllgorau (ac felly Cadeiryddion) yn cynyddu o un o dan y senario newid lleiaf ac felly amcangyfrif y gost yw £17,200 (cyflog ychwanegol o £13,800 a mwy ar gostau), tra bo'r dybiaeth yn y senario newid mwyaf yn dri Phwyllgor ychwanegol a fyddai'n arwain at gynnydd y flwyddyn o £51,700 (cyflog ychwanegol, ynghyd ag argostau, ar gyfer tri Chadeirydd).

515. Mae'r senario newid lleiaf yn rhagdybio hyd at bedwar Grŵp Plaid (un yn fwy na'r Senedd bresennol) a fyddai'n arwain at gost ychwanegol y flwyddyn o £17,200 ar gyfer Arweinydd y Grŵp hwnnw (cyflog ychwanegol o £13,800 ac argostau). Mae'r senario newid mwyaf yn tybio y byddai hyd at bum Grŵp Plaid (dau yn fwy na'r Senedd bresennol) a fyddai'n arwain at gynnydd y flwyddyn o £34,500 (cyflog ychwanegol ynghyd ag argostau wedi'u lluosu â dau).
516. Mae gan Aelodau Newydd o'r Senedd hawl i lwfans swyddfa blynyddol o £23,300, yn ogystal â lwfans ychwanegol o £5,000 yn y flwyddyn gyntaf yn unig ar gyfer archebu dodrefn wrth sefydlu swyddfa. Bydd y costau hyn yn union yr un fath yn yr isafswm a'r senario newid mwyaf ac ar gyfer y 36 aelod newydd, cyfanswm y costau fydd £1,017,400 ( $£23,260/£5,000 \times 5$ ) yn 2026–27, ac £837,400 ( $£23,260 \times 36$ ) yn y blynyddoedd dilynol.
517. Mae gan bob Aelod newydd hawl hefyd i lwfansau llety preswyl ac, yn absenoldeb manylion am leoliadau etholaethau ar gyfer Aelodau newydd, tybir ar gyfartaledd y bydd gan Aelodau newydd hawl i'r lwfans ardal ryngol o £7,400 yn unol â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau 2022–23. Yr amcangyfrifon cost y flwyddyn felly fydd £266,800 yn y senarios newid lleiaf a newid mwyaf ( $£7,400 \times 36$ ).
518. Mae rhagdybiaeth cyllideb gyfredol Comisiwn y Senedd yn dyrannu £250,000 ar gyfer treuliau teithio i 60 Aelod presennol y Senedd, sy'n cyfateb i £4,200 fesul Aelod. Tybiwyd y bydd swm teithio tebyg ar gyfartaledd yn cael ei wneud gan yr Aelodau newydd a fydd yn arwain at gostau ychwanegol o £150,000 y flwyddyn ( $£4,200 \times 36$ ) ar gyfer y sefyllfaoedd newid lleiaf a mwyaf.
519. Y gyllideb bresennol ar gyfer cymorth i bleidiau gwleidyddol yw £1,049,100 sy'n cyfateb i £17,500 fesul Aelod. Felly, bydd angen cyllideb ychwanegol o £629,500 ar gyfer y 36 aelod newydd

ar gyfer y naill senario neu'r llall (36 x £17,500). Cafodd y cyflog craidd ar gyfer arweinwyr grŵp gwleidyddol (nad yw mewn Llywodraeth) ei gynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a oedd yn cyd-fynd â'r Bil pan gafodd ei gyflwyno, ond cafodd y lwfans ychwanegol yn seiliedig ar nifer yr aelodau mewn grŵp ei hepgor. Mae'r costau hyn bellach wedi'u cynnwys. Wrth gyfrifo'r costau, cydnabuwyd y byddai rhai opsiynau yn ei gwneud yn ofynnol gwneud rhagdybiaethau ynghylch canlyniadau etholiad na fyddai'n briodol. Felly, er mwyn parhau'n ddiduedd, darparwyd amcangyfrifon yn seiliedig ar y nifer lleiaf o Aelodau sy'n ofynnol i ffurfio Grŵp.

520. Mae'r senario newid lleiaf yn rhagdybio hyd at bedwar Grŵp Plaid (un yn fwy na'r Senedd bresennol) a fyddai'n arwain at gost ychwanegol y flwyddyn o £21,400 ar gyfer Arweinydd y Grŵp hwnnw. Mae'r senario newid mwyaf yn tybio y byddai hyd at bum Grŵp Plaid (dau yn fwy na'r Senedd bresennol) a fyddai'n arwain at gynnydd y flwyddyn o £42,900.

Tabl 8.6: Crynodeb o'r costau ychwanegol ar gyfer deiliaid swyddi

		2024-25		2025-26		2026-27		2027-28		2028-29		2029-30		2030-31		2031-32	
		Isel	Uchel	Isel	Uchel	Isel	Uchel	Isel	Uchel	Isel	Uchel	Isel	Uchel	Isel	Uchel	Isel	Uchel
Cyflog Dirprwy Lywydd	Parhaus	-	-	-	-	-	28,700	-	28,700	-	28,700	-	28,700	-	28,700	-	28,700
	Pontio	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyflogau Gweinidogion	Parhaus	-	-	-	-	-	250,900	-	250,900	-	250,900	-	250,900	-	250,900	-	250,900
	Pontio	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyflogau Cadeiryddion Pwyllgorau	Parhaus	-	-	-	-	17,200	51,700	17,200	51,700	17,200	51,700	17,200	51,700	17,200	51,700	17,200	51,700
	Pontio	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyflogau Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol	Parhaus	-	-	-	-	21,400	42,900	21,400	42,900	21,400	42,900	21,400	42,900	21,400	42,900	21,400	42,900
	Pontio	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Aelodau'r Pwyllgor Busnes	Parhaus	-	-	-	-	11,000	22,100	11,000	22,100	11,000	22,100	11,000	22,100	11,000	22,100	11,000	22,100
	Pontio	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Lwfansau a chostau swyddfa Aelodau	Parhaus	-	-	-	-	1,017,400	1,017,400	837,400	837,400	837,400	837,400	837,400	837,400	837,400	837,400	837,400	837,400
	Pontio	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Gwariant Llety Preswyl	Parhaus	-	-	-	-	266,800	266,800	266,800	266,800	266,800	266,800	266,800	266,800	266,800	266,800	266,800	266,800
	Pontio	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Costau Teithio Aelodau	Parhaus	-	-	-	-	150,000	150,000	150,000	150,000	150,000	150,000	150,000	150,000	150,000	150,000	150,000	150,000
	Pontio	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Cymorth i bleidiau gwleidyddol	Parhaus	-	-	-	-	629,500	629,500	629,500	629,500	629,500	629,500	629,500	629,500	629,500	629,500	629,500	629,500
	Pontio	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-

### **Costau suddedig**

521. Nid yw costau yr amcangyfrifir y byddant yn digwydd cyn pasio Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) gan y Senedd a chael Cydsyniad Brenhinol wedi cael eu cynnwys yng nghostau cyffredinol yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn gan y byddant yn digwydd hyd yn oed pe na bai'r Bil yn cael ei phasio. Fodd bynnag, at ddibenion tryloywder, mae'r costau ar gyfer 2023–24 wedi cael eu nodi fel yr amlinellir isod.

**Tabl 8.7: Costau Comisiwn y Senedd ar gyfer 2023–24**

Math o gost	Pontio		Parhaus	
	Newid lleiaf	Newid mwyaf	Newid lleiaf	Newid mwyaf
Costau staff Comisiwn y Senedd	£360,900	£360,900	£65,700	£65,700
Costau sy'n gysylltiedig â llety gan gynnwys ehangu'r Siambr ac adnewyddu Tŷ Hywel	£65,000	£65,000	£0	£0
Costau cyfalaf eraill gan gynnwys offer TGCh a ariennir gan Gomisiwn y Senedd	£0	£0	£18,500	£18,500
Costau refeniw gan gynnwys gwasanaethau wedi'u contractio'n allanol ar gyfer Aelodau, a thrwyddedu TGCh	£0	£0	£4,900	£4,900
Costau etholiadau	£0	£0	£0	£0
Cyfanswm	£425,900	£425,900	£89,100	£89,100

### **Arbedion**

522. Ni chafodd arbedion cost cyffredinol eu nodi gan Gomisiwn y Senedd.

### **Costau cyffredinol**

523. Mae'r set lawn o amcangyfrif o'r costau i'w gweld yn y tablau isod. Mae'r ffigurau a ddarparwyd yn cynnwys cyfnod gwerthuso rhwng 2024–25 a 2031–32, sy'n dangos dadansoddiad o gostau pontio a chostau parhaus ar gyfer senario newid lleiaf a senario newid mwyaf.

524. Amcangyfrifwyd i ddechrau fod yr ystod o gostau parhaus ychwanegol mewn blynyddoedd nad ydynt yn rhai etholiad (ar ôl etholiad 2026, sef y pwynt lle mae'r diwygiadau'n digwydd) yn £12,981,700 y flwyddyn ar gyfer y senario newid lleiaf a £16,057,300 y flwyddyn ar gyfer y senario newid mwyaf.
525. Yn y blynyddoedd cyn etholiad 2026 mae'r costau ychwanegol yn sylweddol is ac yn ymwneud â staff Comisiwn y Senedd neu'n gweithio i baratoi ar gyfer y newidiadau sydd ar y gweill (fel llety) yn hytrach nag i gostau uniongyrchol sy'n gysylltiedig ag Aelodau. Mae'r set olaf o gostau'n codi o 2026–27 ymlaen ar ôl ethol Senedd fwy.
526. Cafwyd argymhellion, yng Nghyfnod 1, gan y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â:
- modelu costau staff Comisiwn y Senedd i gynnwys y graddfeydd cyflog isaf ac uchaf
  - diweddarau'r amcangyfrifon cost sy'n ymwneud ag Aelodau gan ddefnyddio'r wybodaeth o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau diweddaraf (gwnaeth Pwyllgor y Bil Diwygio argymhelliad tebyg i Gomisiwn y Senedd).
527. Fel y nododd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad yn ei ymateb i'r Pwyllgor Cyllid, cyflwynir y ffigurau ychwanegol hyn fel deunydd ar wahân yn Atodiad 6.
528. Mae cynnwys costau arweinydd plaid ychwanegol yn arwain at ystod o gostau parhaus ychwanegol i Gomisiwn y Senedd mewn blynyddoedd nad ydynt yn rhai etholiad (ar ôl etholiad 2026, sef y pwynt y mae'r diwygiadau'n digwydd) o £12,985,900 y flwyddyn ar gyfer y senario newid lleiaf a £16,065,700 y flwyddyn ar gyfer y senario newid mwyaf.

Tabl 8.8: Crynodeb o gostau Comisiwn y Senedd (£)

Math o gast	2024-25				2025-26				2026-27				2027-28				2028-29				2029-30				2030-31				2031-32			
	Ponto		Parhaus		Ponto		Parhaus		Ponto		Parhaus		Ponto		Parhaus		Ponto		Parhaus		Ponto		Parhaus		Ponto		Parhaus		Ponto		Parhaus	
	Newid Isaf	Newid uwchaf	Newid Isaf	Newid uwchaf	Newid Isaf	Newid uwchaf	Newid Isaf	Newid uwchaf	Newid Isaf	Newid uwchaf	Newid Isaf	Newid uwchaf	Newid Isaf	Newid uwchaf	Newid Isaf	Newid uwchaf	Newid Isaf	Newid uwchaf	Newid Isaf	Newid uwchaf	Newid Isaf	Newid uwchaf	Newid Isaf	Newid uwchaf	Newid Isaf	Newid uwchaf	Newid Isaf	Newid uwchaf	Newid Isaf	Newid uwchaf		
<b>Costau Comisiwn y Senedd</b>																																
Costau staff Comisiwn y Senedd	1,241,900	1,293,200	228,400	228,400	381,300	1,032,500	1,683,100	2,643,900	2275,500	2275,500	2,341,400	24,198,300	0	0	2,392,600	24,247,600	0	0	2,392,600	24,247,600	0	0	2,392,600	24,247,600	0	0	2,392,600	24,247,600	0	0		
Costau sy'n gysylltiedig â llyly gan gynnyws shtangolr Siambr ac adnewyddu Ty Hysgar	395,000	395,000	0	0	885,000	885,000	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0			
Costau cyfalaf eraill gan gynnyws offer TGCh a shtangolr gan Gomisiwn y Senedd	0	0	237,000	238,000	762,000	819,000	865,500	381,900	3300,400	3300,400	240,800	381,400	0	0	10,000	210,000	27,500	27,500	238,500	238,500	0	0	247,000	249,000	0	0	386,500	381,900	0	0		
Costau referon gan gynnyws gwrsuonathau wedi'u contractolr'n atfand ar gyfer Aelodau, a rhwyddedu TGCh	15,000	35,000	217,100	218,400	333,800	723,700	2111,600	2475,300	0	0	2513,900	21,040,200	0	0	2510,000	21,054,300	0	0	2510,100	21,049,300	0	0	2510,100	21,049,300	0	0	2510,100	21,054,300	0	0		
Costau etholodau	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0			
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>2,241,900</b>	<b>2,293,200</b>	<b>341,500</b>	<b>344,900</b>	<b>2,662,000</b>	<b>2,810,200</b>	<b>2,860,100</b>	<b>3,201,000</b>	<b>3875,900</b>	<b>3875,900</b>	<b>2,896,100</b>	<b>25,297,900</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>2,912,700</b>	<b>25,311,900</b>	<b>27,500</b>	<b>27,500</b>	<b>2,931,200</b>	<b>25,326,400</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>2,949,700</b>	<b>25,346,000</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>2,949,700</b>	<b>25,368,300</b>	<b>0</b>	<b>0</b>		
<b>Costau Aelodau o'r Senedd a Staff Cymorth Aelodau</b>																																
Cyflogau Aelodau	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	3,250,400	3,250,400	0	0	3,250,400	3,250,400	0	0	3,250,400	3,250,400	0	0	3,250,400	3,250,400	0	0	3,250,400	3,250,400	0	0		
Cyflwg Ddirwy Llywod	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	228,700	0	0	0	228,700	0	0	0	228,700	0	0	0	228,700	0	0	0	228,700	0	0		
Cyflogau Gweiridolion	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	2250,900	0	0	0	2250,900	0	0	0	2250,900	0	0	0	2250,900	0	0	0	2250,900	0	0		
Cyflogau Cadeiryddion Pwyllgorau	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	117,200	351,700	0	0	117,200	351,700	0	0	117,200	351,700	0	0	117,200	351,700	0	0	117,200	351,700	0	0		
Cyflogau Aweithwyr Grwpiau Gweiridololr Y Pwyllgor Busnes	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	211,000	222,000	0	0	211,000	222,000	0	0	211,000	222,000	0	0	211,000	222,000	0	0	211,034	222,067	0	0		
Cyflogau staff cymorth Aelodau	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	24,889,400	24,889,400	0	0	24,889,400	24,889,400	0	0	24,889,400	24,889,400	0	0	24,889,400	24,889,400	0	0	24,889,400	24,889,400	0	0		
Lwfansau a chostau arwyddia Aelodau	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	11,017,400	21,017,400	0	0	3837,400	3837,400	0	0	3837,400	3837,400	0	0	3837,400	3837,400	0	0	3837,400	3837,400	0	0		
Gwariant Llydy Presswyl	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	2266,800	2266,800	0	0	2266,800	2266,800	0	0	2266,800	2266,800	0	0	2266,800	2266,800	0	0	2266,800	2266,800	0	0		
Costau Teithio Aelodau	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	2150,000	2150,000	0	0	2150,000	2150,000	0	0	2150,000	2150,000	0	0	2150,000	2150,000	0	0	2150,000	2150,000	0	0		
Cymorth i bleidau gwleidyddol	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	3629,500	3629,500	0	0	3629,500	3629,500	0	0	3629,500	3629,500	0	0	3629,500	3629,500	0	0	3629,500	3629,500	0	0		
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>10,253,200</b>	<b>210,990,800</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>10,073,200</b>	<b>210,419,800</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>10,073,200</b>	<b>210,419,800</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>10,073,200</b>	<b>210,419,800</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>10,073,200</b>	<b>210,419,800</b>	<b>0</b>	<b>0</b>		
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,241,900</b>	<b>2,293,200</b>	<b>341,500</b>	<b>344,900</b>	<b>2,662,000</b>	<b>2,810,200</b>	<b>2,860,100</b>	<b>3,201,000</b>	<b>3875,900</b>	<b>3875,900</b>	<b>13,149,300</b>	<b>215,897,700</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>12,985,900</b>	<b>215,711,700</b>	<b>27,500</b>	<b>27,500</b>	<b>13,322,900</b>	<b>215,745,200</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>13,322,900</b>	<b>215,865,700</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>13,322,900</b>	<b>215,803,600</b>	<b>0</b>	<b>0</b>		

## ***Costau ac Arbedion i Awdurdodau Lleol***

### **Dull**

529. Gofynnwyd i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) helpu swyddogion Llywodraeth Cymru i lunio darlun cyflawn o'r effeithiau ariannol net ar Awdurdodau Lleol drwy ddarparu'r costau neu'r arbedion ychwanegol i'r sefyllfa bresennol sy'n deillio'n uniongyrchol o ddarpariaethau Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Awdurdodau Lleol i weinyddu etholiadau'r Senedd. Er mwyn bod yn dryloyw, dyma'r costau a'r arbedion a fyddai'n cael eu gweld yn y gwaith o weinyddu etholiadau gan Awdurdodau Lleol – sy'n gostau ac yn arbedion i Lywodraeth Cymru yn y pen draw. Bydd newidiadau ehangach i ddiwygio etholiadol a'r sefyllfa economaidd gyffredinol hefyd yn effeithio ar gostau sy'n ymwneud â chynnal etholiad, ond nid yw'r rhain wedi cael eu cynnwys yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol gan eu bod y tu hwnt i gwmpas diwygio'r Senedd.
530. Ffurfiwyd gweithgor bychan o gynrychiolwyr Awdurdodau Lleol, gan gynnwys unigolion sydd neu a fu'n gweithio fel Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Rheolwyr Gwasanaethau Etholiadol. Ystyrid eu bod yn cynrychioli'r wlad ehangach gan eu bod wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol a hefyd yn cwmpasu Awdurdodau Lleol trefol a gwledig. Nododd y grŵp y meysydd gweithgarwch a gwariant a fyddai'n cael eu heffeithio a chytunodd ar y newid canrannol amcangyfrifedig i gostau a fyddai'n disgyn ar Awdurdodau Lleol o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig.
531. Nododd y gweithgor fod nifer o oblygiadau anhysbys ac anfesuradwy a allai yn y pen draw effeithio ar gostau yn y dyfodol. Er enghraifft, ni fydd y gwaith o baru Etholaethau Seneddol y DU i greu Etholaethau newydd y Senedd yn dod i ben tan 2025. Byddai nifer o benderfyniadau gweithredol yn deillio o ffiniau'r etholaethau newydd, gan gynnwys lleoliadau gorsafoedd



pleidleisio amgen neu leoliadau cyfrif y gallai fod eu hangen i ddarparu ar gyfer newid mewn daearyddiaeth neu nifer y pleidleisiau. Nodwyd y gallai fod angen llai o leoliadau cyfrif, ond rhai mwy, o ystyried y newid yn etholaethau'r Senedd. Yn yr un modd, gallai newid pellter rhwng gorsafoedd pleidleisio a lleoliad y cyfrif arwain at oblygiadau o ran costau cludo ac amser ar gyfer gweinyddwyr etholiadol a symud papurau pleidleisio. Ystyriwyd hefyd, yn amodol ar yr etholaethau newydd, y gallai fod angen adnoddau ychwanegol i gefnogi Swyddogion Canlyniadau mewn perthynas â baich gwaith ychwanegol sy'n deillio o'r cynnydd ym maint yr etholaethau. Gall costau o'r fath hefyd gael eu hategu gan arbedion posibl mewn perthynas â'r amser, ac felly costau staff, sy'n ofynnol i gynnal y cyfrif o ganlyniad i'r gostyngiad o ddau i un papur pleidleisio i bob etholwr.

532. O ganlyniad, oherwydd lefel yr ansicrwydd ynghylch nifer o bamedrau, ni fu'n bosibl mesur y costau hyn yn fanwl gywir. Tybiwyd felly na fyddai newidiadau'n cael eu gwneud o ran costau cyffredinol yr orsaf pleidleisio a'r cyfrif. Mae'n debygol y byddai mwy o eglurder ynghylch y costau ar gyfer etholiadau yn y dyfodol ar ôl yr etholiad yn 2026 a byddai'r rhain yn cael eu cyhoeddi ar ôl yr etholiad yn unol â'r arferion presennol.

533. Ar ben hynny, cytunodd y grŵp hefyd y dylid tybio y byddai maint y papurau pleidleisio o fewn y paramedrau argraffu presennol. O ganlyniad, aseswyd bod y gostyngiad o ddau bapur pleidleisio i un fesul etholwr wedi arwain at arbediad ar gyfer cost argraffu papurau pleidleisio. Nid yw ychwaith wedi cael unrhyw effaith ar flychau pleidleisio.

534. Y meysydd y nodwyd gan y Gweithgor fel rhai a oedd yn destun cynnydd mewn cost neu arbediad cost oedd:

- Costau a ffioedd Swyddogion Canlyniadau (gostyngiad o 40% yn nifer y Swyddogion Canlyniadau, ond cynnydd o 35% mewn costau);

- costau argraffu papurau pleidleisio (gostyngiad o 50% yn y gost);
- enwebiadau (cynnydd o 2% yn y gost); a
- hyfforddiant (cynnydd o 0.5% yn y gost).

535. Lle'r oedd Gweithgor CLILC wedi nodi cost canran neu arbediad o ganlyniad i ddiwygio'r Senedd, defnyddiwyd y ganran ar gyfer hawliadau etholiad 2021 ar gyfer pob etholaeth ac fe'i defnyddiwyd i nodi'r costau ar gyfer y categorïau uchod. Fodd bynnag, cafodd Etholiad Senedd 2021 ei gyfuno ag etholiad (gohiriedig) y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn ogystal â'i gynnal yn ystod pandemig Covid-19, ac felly, er bod costau wedi'u dadgyfuno cymaint â phosibl, gallai'r gymhariaeth fod yn llai cywir na phe bai'r costau wedi cael eu cymryd o bleidlais tebyg. Gan fod y bleidlais flaenorol heb ei chyfuno yn 2011 ni theimlwyd ei bod yn briodol defnyddio'r costau hynny fel cymhariaeth o ystyried y newidiadau yn y cyfamser (e.e. i'r etholfraint) a'r newid mewn costau dros y cyfnod hwnnw.

536. Felly, ystyrir mai'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yw'r amcangyfrif gorau ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael ar hyn o bryd.

537. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r costau a ddaw i awdurdodau lleol yn digwydd yn ystod blwyddyn etholiad, a fydd, yng nghyd-destun cyfnod gwerthuso'r Bil hwn, yn 2026-27 ac eto yn 2030-31.

### ***Costau a ffioedd Swyddogion Canlyniadau***

538. Mae Gorchymyn Senedd Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2021 yn nodi'r uchafsymiau y gellir eu hadennill ar gyfer etholiad y Senedd 2021. Roedd pedair o lefelau taliadau ar gyfer gwasanaethau a ddarparwyd gan weinyddwyr etholiadol (£4000, £4500, £5500, £8500) a chafodd y rhain eu cymhwyso i'r 40 etholaeth yn y Senedd yn ôl set o feini prawf sy'n cynnwys ffigurau etholwyr etholaethol ac eiddo preswyl. Roedd ffigur ar wahân (£2,500 yr un) yn berthnasol i'r pum etholaeth Ranbarthol.

Felly, mae'r cyfanswm cyffredinol ar gyfer ffioedd Swyddogion Canlyniadau dan y strwythur presennol yn £244,500.

539. Yr union swm a gafodd ei hawlio ar gyfer etholiad Senedd 2021 oedd £231,900 gan fod rhai Swyddogion Canlyniadau yn hawlio llai na'r uchafswm a ganiateir.
540. At ddibenion cymharu sefyllfaoedd tebyg, bydd newid i 16 etholaeth yn golygu y bydd gofyn cael 16 o Swyddogion Canlyniadau a fyddai, petai pob un yn cael ei osod ar y terfyn uchaf i gydnabod y cynnydd mewn maint, yn arwain at derfyn cyffredinol o £136,000 a fyddai'n cynrychioli arbediad o £108,500 ar yr uchafswm presennol o £244,500 (arbediad o 45%). Fodd bynnag, byddai angen gwneud penderfyniadau polisi mewn perthynas â'r terfynau priodol ar gyfer yr etholiadau nesaf ac yn y dyfodol, a'r band priodol ar gyfer pob un o'r etholaethau newydd ac felly gallai hyn fod yn destun rhywfaint o amrywiaeth.
541. Fel y nodwyd uchod, amcangyfrifir y bydd etholaethau mwy yn arwain at fwy o gostau gweinyddol i Swyddogion Canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r cynnydd ym maint etholaethau newydd y Senedd a'r angen tybiedig am gymorth craidd ychwanegol yn lleol a thrwy dimau awdurdodau lleol eraill. Ar ben hynny, efallai y bydd angen penodi Dirprwy Swyddogion Canlyniadau sy'n cael tâl uniongyrchol i gefnogi Swyddogion Canlyniadau yng ngoleuni'r etholaethau mwy.
542. Felly, amcangyfrifwyd y gallai costau gynyddu 35% a fyddai, ar sail uchafswm cyffredinol o £136,000, yn arwain at gost ychwanegol o £47,600. Byddai hyn yn arwain at gost gyffredinol newydd o £183,600.
543. Byddai hyn yn arwain at arbediad bach mewn costau cyffredinol o tua £61,000 o'i gymharu â chostau 2021 sy'n gysylltiedig â'r system bresennol a nifer yr etholaethau a rhanbarthau.

### **Costau argraffu papurau pleidleisio**

544. Bydd y newidiadau i'r system etholiadol yn arwain at symud o ddau bapur pleidleisio ar gyfer etholiad y Senedd (etholaeth a rhanbarthol) i ddim ond un. O ganlyniad, tybiwyd y byddai costau argraffu yn gostwng 50%. Mae'r arbediad hwn o ran argraffu yn tybio y byddai'r papurau pleidleisio ar gyfer y system newydd yn dal i gadw at y paramedrau safonol – pe na bai hyn yn wir, byddai'r arbedion posibl yn debygol o leihau.

545. Ni chafodd newidiadau yng nghost eitemau eraill sy'n cael eu hargraffu eu cynnwys yn y cyfrifiadau gan nad ystyriwyd y byddai'r newidiadau a achosir gan ddiwygio'r Senedd yn effeithio arnynt (er enghraifft, nid yw'r newidiadau arfaethedig yn effeithio ar gost amlenni pleidleisiau drwy'r post ac nid yw'n newid nifer y pleidleiswyr sy'n gymwys i bleidleisio drwy'r post).

Cost argraffu papurau pleidleisio (2021)	£583,300
Cyfanswm gyda datchwyddydd cynnyrch domestig gros (1.08352)	£632,000
Arbedion o 50% mewn costau argraffu papurau pleidleisio	-£316,000

### **Costau hyfforddi**

546. Rhagwelir y bydd costau hyfforddi'n cynyddu ychydig i adlewyrchu'r angen i ymgyfarwyddo â'r system ddiwygiedig, er bod y Gweithgor yn awgrymu bod posibilrwydd y gallai'r rhain gael eu gwrthbwyso drwy'r bwriad i greu Bwrdd Rheoli Etholiadol a ariennir. Mae costau wedi cael eu cynnwys ar hyn o bryd gan y byddai'r cynigion ar gyfer Bwrdd Rheoli Etholiadol yn cael eu datblygu fel rhan o'r ddeddfwriaeth Diwygio Etholiadol

arfaethedig. Byddai'r hyfforddiant yn cael ei wneud yn bennaf ychydig cyn etholiad, gyda'r costau'n debygol o ddigwydd yn y flwyddyn ariannol y cynhelir yr etholiad. Y cynnydd disgwylidig mewn costau yw £1,300.

### ***System Rheoli Etholiadol***

547. Bydd angen i newidiadau i'r System Rheoli Etholiadol adlewyrchu goblygiadau diwygio'r Senedd, ond rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o'r rhain yn gymharol fach neu'n cael eu hystyried yn rhan o fusnes fel arfer a'r gwasanaeth dan gontract a ddarperir gan y tri chyflenwr. Awdurdodau Lleol sy'n dal y contractau gyda chyflenwyr ac felly nhw sy'n gyfrifol am y costau a nodir.
548. Ar sail profiad blaenorol o newidiadau i'r System Rheoli Etholiadol, amcangyfrifwyd y bydd angen dau berson i weithio am 10 diwrnod ar gyfradd ddyddiol o £1000, wedi'i dyblygu ar draws y tri chyflenwr. Bydd yr amcangyfrif hwn yn amodol ar negodi a chytundeb contract gyda chyflenwyr ac yn dibynnu ar y raddfa o newidiadau sydd eu hangen i'r system rheoli etholiadol.
549. Oherwydd bod angen gwneud gwaith cyn yr etholiad, mae'n debygol y byddai costau yn y maes hwn yn digwydd yn 2025–26.
550. Nododd y Gweithgor y gallai cynnydd mewn costau (2%) sy'n gysylltiedig â'r broses enwebu fod yn ganlyniad i newidiadau e.e. bydd cynnydd yn nifer Aelodau o'r Senedd o bosibl yn cynyddu nifer yr ymgeiswyr, gan gynyddu'r amser a'r costau enwebu. Roedd y cyfrifiadau ar gyfer unrhyw newidiadau a nodwyd gan y Gweithgor yn seiliedig ar hawliadau etholiad 2021 lle roedd costau enwebiadau penodol ond yn cael eu nodi mewn nifer fach o hawliadau, felly cynnydd amcangyfrifedig cymharol fach mewn costau (£100).

**Tabl 8.9: Crynodeb o Gostau Awdurdodau Lleol**

<b>Costau pontio (sy'n digwydd yn 2025-26)</b>		
System Rheoli Etholiadol	£60,000	
<b>Costau parhaus (sy'n digwydd yn 2026-27 ac yn cael eu haildrodd yn 2030-31)</b>		
Newid i'r swm adenilladwy mwyaf ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan weinyddwyr etholiadol	-£108,500	Gostyngiad yn nifer y Swyddogion Canlyniadau i 16 ond pob un yn cael ei dalu ar y band uchaf o £8500. Uchafswm o £244,500 yn 2021
Newid yng nghostau Swyddogion Canlyniadau	£47,600	Cynnydd o 35%
Gostyngiad mewn costau argraffu papurau pleidleisio	-£316,000	Gostyngiad 50%
Costau enwebu	£100	Cynnydd o 2%
Cynnydd mewn costau hyfforddi (er y gellid gosod rhain yn erbyn y Bwrdd Rheoli Etholiadol newydd)	£1,300	Cynnydd o 0.5%
<b>Cyfanswm costau parhaus</b>	<b>-£375,500</b>	

***Costau/arbedion eraill***

551. O dan ddarpariaethau'r Bil, byddai unrhyw seddi gwag yn cael eu llenwi drwy gyfeirio'n ôl at y rhestr berthnasol. Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer is-etholiadau, felly pe bai sedd yn digwydd dod yn wag a bod y rhestr ymgeiswyr ar gyfer y blaid bresennol wedi'i disbyddu, byddai'r sedd yn aros yn wag tan etholiad nesaf y Senedd. Mae newid o'r fath yn dileu'r costau sy'n gysylltiedig ag is-etholiad ar hyn o bryd ar gyfer sedd etholaethol ac felly mae'n arwain at arbediad posibl mewn costau. Ers sefydlu'r Senedd yn 1999, cafwyd pedwar is-etholiad dros bum tymor llawn y Senedd, ond nid yw'n bosibl rhag-weld yn bendant pa mor aml y cânt eu galw ac felly nid yw arbediad ariannol wedi'i gynnwys yn

y tabl costau. Fodd bynnag, mae'n werth nodi, ar sail costau blaenorol, y byddai'r arbediad yn debygol o fod oddeutu £140,000 am bob is-etholiad (gan ddefnyddio cyfartaledd o'r ddau is-etholiad diwethaf a addaswyd ar gyfer chwyddiant).

552. Penderfynodd Gweithgor CLILC y byddai'r costau mewn rhai meysydd yn niwtral. Mae hyn yn adlewyrchu bod rhai arbedion ymylol (e.e. gyda dim ond un papur pleidleisio, mae'r amser i gyfrif pleidleisiau yn debygol o fod yn fyrrach ac felly'n arwain at gost is i staff), yn debygol o fod yn gyfystyr â chynnydd mewn costau ymylol (e.e. gallai llogi lleoliad fod yn fwy oherwydd yr angen am leoliadau mwy).

553. Mae'n bosibl y gellid nodi costau ac arbedion ychwanegol ar ôl i'r trefniadau paru ar gyfer etholaethau gael eu cadarnhau a bod Awdurdodau Lleol yn gallu ystyried effaith weithredol y rhain a'r goblygiadau ar gyfer costau etholiad.

## ***Costau ac arbedion ar gyfer Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru***

### **Dull**

554. Gofynnwyd i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ddarparu'r costau neu'r arbedion ychwanegol i'r status quo sy'n deillio'n uniongyrchol o ddarpariaethau Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Mae amcangyfrifon wedi cael eu darparu ar sail costau Adolygiad Seneddol 2023 y Comisiwn Ffiniau i Gymru.

### **Costau ac arbedion**

#### ***Ailfrandio a chostau gwefan***

555. Mae'r Bil yn ailenwi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn 'Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru' a fydd yn arwain at gostau sy'n gysylltiedig ag ailfrandio, gan gynnwys

costau gwefannau fel diweddarau enwau parthau. Mae'r rhain yn gostau pontio, yr amcangyfrifir eu bod yn £42,000 yn 2024–25.

### **Costau'r Comisiynydd**

556. Mae'r Bil yn cynyddu uchafswm nifer y Comisiynwyr o 'ddim mwy na phump' i 'ddim mwy na naw' mewn ymateb i'r swyddogaethau ychwanegol a ddarparwyd i'r Comisiwn. Fel penodiadau cyhoeddus, Gweinidogion Cymru fydd yn pennu nifer y Comisiynwyr yn eu swyddi ac felly mae'r costau'n ddewisol. Fodd bynnag, at ddibenion tryloywder, mae amcangyfrifon pedwar Comisiynydd ychwanegol wedi cael eu cynnwys yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn, ar sail y gyfradd dâl bresennol (ar y cyfraddau dyddiol presennol o: Cadeirydd – £268, Dirprwy Gadeirydd – £234, Aelod – £198).

557. Bydd costau uwch yn digwydd mewn blynyddoedd adolygu i adlewyrchu'r amser paratoi ychwanegol a'r cyfarfodydd. Y rhain yw £31,400 ar gyfer yr adolygiad cyntaf a £25,100 y flwyddyn ar gyfer yr ail adolygiad (sy'n arwain at £18,800 ar gyfer trydedd flwyddyn yr ail adolygiad). Mewn blynyddoedd nad ydynt yn rhai adolygu, mae costau Comisiynwyr yn gostwng i £13,100. Mae'r costau hyn wedi'u crynhoi yn y tabl isod.

**Tabl 8.10: Costau Comisiynydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru**

Budget Item	1st Review		2nd Review			Non-Review Year		
	24/25	25/26	26/27	27/28	28/29	29/30	30/31	31/32
Commissioner Costs	£31,400	£13,100	£25,100	£25,100	£18,800	£13,100	£13,100	£13,100

### **Costau staff**

558. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gynnal adolygiad ffiniau cyn Etholiad y Senedd yn 2026. Oherwydd yr amser sydd ar gael, mae'r adolygiad hwn yn cael ei symleiddio a bydd yn golygu bod 32 etholaeth Seneddol y DU yn cael eu 'paru' i greu 16 etholaeth newydd y Senedd. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal adolygiad ffiniau 'llawn' cyn Etholiad y Senedd yn 2030. Oherwydd amseriad a natur yr adolygiad cyntaf, gellir ei gyflawni



gyda strwythurau a niferoedd staffio presennol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, ond bydd angen staff ychwanegol ar gyfer yr ail adolygiad. Y dyraniad staff ar gyfer yr adolygiad cyntaf fydd: un Gradd 6 (50%), un Gradd 7(50%), un Swyddog Gweithredol Uwch (75%), un Swyddog Gweithredol Uwch (50%) a Chymorth Tîm (100%) yn 2024–25. Bydd dyraniad staff yr ail Adolygiad yn gofyn am y dyraniad ar gyfer yr adolygiad cyntaf yn ogystal â Swyddog Gweithredol Uwch ychwanegol (100%) a Swyddog Gweithredol (100%) yn 2026–27 a 2027–28. Ar ben hynny, bydd angen adnoddau ar gyfer Swyddog Gweithredol Uwch (100%) yn ystod chwarter olaf 2025–26 a chwarter cyntaf 2026–27. Caiff hyn ei leihau ym mlwyddyn olaf yr adolygiad (2028–09) i: un Gradd 6(50%), un Gradd 7(50%), un Swyddog Gweithredol Uwch (50%) a Chymorth Tîm (50%).

559. Felly bydd costau'r adolygiad cyntaf yn 2024–25 yn £195,800 ac maent yn cael eu dosbarthu fel 'costau cyfle' gan eu bod yn gostau sy'n gysylltiedig â'r amser a dreulir gan staff presennol y Comisiwn ar dasgau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithredu'r Bil, a fyddai fel arall yn wariant ar weithgareddau eraill. Bydd yr ail adolygiad yn arwain at gost o £13,200 yn 2025–26, £302,300 yn 2026–27 a £289,100 yn 2027–28 (£195,800 ohonynt yn gostau cyfle) ac yn gostwng i £139,300 yn y flwyddyn 2028–29. Mae'r tabl isod yn amlinellu'r costau o un flwyddyn i'r llall. Ni fydd unrhyw gostau llety ychwanegol ar gyfer y staff ychwanegol gan y bydd y gofod swyddfa presennol yn ddigonol.

**Tabl 8.11: Costau Staff Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru**

Budget Item	1st Review	Non-Review Year	2nd Review			Non-Review Year		
	24/25	25/26	26/27	27/28	28/29	29/30	30/31	31/32
Staff Costs	£195,800	£13,200	£302,300	£289,100	£139,300	£0	£0	£0

### ***Costau'r Adolygiadau heblaw costau staff***

#### *Costau'r Porth Ymgynghori*

560. Bydd costau sy'n gysylltiedig â'r porth ymgynghori, gan gynnwys adeiladu'r porth, profion hacio, cymorth a chostau lletya,

yn digwydd. Bydd y porth yn cael ei ddatgomisiynu ar ôl yr ail adolygiad. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r porth yn cael eu lleihau'n sylweddol (tua £40,000) oherwydd bod llawer o'r gwaith adeiladu a dylunio wedi cael ei wneud ar gyfer y porth adolygiadau etholiadol. Bydd y costau ar gyfer y Bil sy'n gysylltiedig â'r porth yn £70,800 ar gyfer 2024–25, £7,200 yn y flwyddyn interim rhwng adolygiadau 2025–26 a £10,800 y flwyddyn ar gyfer 3 blynedd yr ail adolygiad 2026–27 – 2028–29. Amlinellir y costau o flwyddyn i flwyddyn yn y tabl isod.

**Tabl 8.12 Costau Porth Ymgynghori Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru**

Budget Item	1st Review	Non-Review Year	2nd Review			Non-Review Year		
	24/25	25/26	26/27	27/28	28/29	29/30	30/31	31/32
Consultation								
Portal costs	£70,800	£7,200	£10,800	£10,800	£10,800	£0	£0	£0

#### *Costau Gwrandawiadau Cyhoeddus*

561. Amcangyfrifir y bydd y costau sy'n gysylltiedig â chynnal gwrandawiadau cyhoeddus fel rhan o'r ail adolygiad yn £96,000 yn 2027–28 a byddant yn cynnwys costau digwyddiadau, ffioedd comisiynwyr cynorthwyol, teithio a chynhaliaeth yn ogystal â gwasanaethau ffrydio ar-lein.

#### *Costau hysbysebu*

562. Bydd costau hysbysebu yn gysylltiedig â'r ddau adolygiad, gan gynnwys datblygu pecyn o ddeunyddiau hysbysebu i'w defnyddio ar gyfer teledu, radio, cyfryngau cymdeithasol ac opsiynau argraffu; a hysbysebu ar-lein dwys yn ystod cyfnodau ymgynghori, gan gynnwys talu am hysbysebion radio ac argraffu, yn ogystal â hysbysebu ar drafnidiaeth gyhoeddus.
563. Bydd hysbysebu helaeth yn digwydd ar gyfer yr adolygiad cyntaf gan gostio £117,000 yn 2024–25, gyda chostau o £48,000 y flwyddyn dros ail gyfnod yr adolygiad, cyfanswm o £144,000 dros dair blynedd, fel yr amlinellir yn y tabl isod. Roedd yr amcangyfrifon yn seiliedig ar y costau hysbysebu a oedd yn gysylltiedig â'r Adolygiad Seneddol diweddar.

**Tabl 8.13: Costau Hysbysebu Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru**

	1st Review	Non-Review Year	2nd Review			Non-Review Year		
Budget Item	24/25	25/26	26/27	27/28	28/29	29/30	30/31	31/32
Advertising costs	£117,000	£0	£48,000	£48,000	£48,000	£0	£0	£0

**Costau TGCh a Thelegyfathrebu**

564. Bydd costau TGCh ychwanegol ar gyfer y Comisiwn, sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Bil, gan gynnwys prynu offer TGCh a meddalwedd a thrwyddedau perthnasol ar gyfer y pedwar Comisiynydd ychwanegol i'r adolygiad cyntaf (ar gost o £36,000) a diweddariadau am feddalwedd yn ystod yr ail adolygiad, yn ogystal â gwariant ychwanegol ar gyfer cynyddu staffio (ar gost o £120,000). Mae crynodeb o'r costau a'r blynyddoedd y maent yn digwydd i'w weld yn y tabl isod.

**Tabl 8.14: Costau TGCh a Thelegyfathrebu Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru**

	1st Review	Non-Review Year	2nd Review			Non-Review Year		
Budget Item	24/25	25/26	26/27	27/28	28/29	29/30	30/31	31/32
ICT and telecoms costs	£36,000	£0	£48,000	£36,000	£36,000	£0	£0	£0

**Costau cyfreithiol**

565. Drwy gydol y broses adolygu, bydd angen cyngor cyfreithiol annibynnol ar y Comisiwn i sicrhau ei fod yn gweithredu o fewn terfynau'r ddeddfwriaeth, yn ogystal ag wrth adolygu cyhoeddiadau'r Comisiwn. Amcangyfrifir y bydd y costau hyn yn £36,000 ar gyfer yr adolygiad cyntaf a chyfanswm o £42,000 dros dair blynedd ar gyfer yr ail adolygiad – mae'r costau'n seiliedig ar gostau adolygiad Seneddol 2023 Comisiwn Ffiniau i Gymru. Mae dadansoddiad fesul blwyddyn o gostau cyfreithiol ar gael yn y tabl isod.

**Tabl 8.15: Costau Cyfreithiol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru**

	1st Review	Non-Review Year	2nd Review			Non-Review Year		
Budget Item	24/25	25/26	26/27	27/28	28/29	29/30	30/31	31/32
Legal costs	£36,000	£0	£12,000	£18,000	£12,000	£0	£0	£0

**Costau cyfieithu**

566. Bydd costau cyfieithu ychwanegol o £78,000 gan y Comisiwn ar gyfer pob adolygiad. Mae hyn yn cynnwys cyfieithu

dogfennau a deunyddiau a gyhoeddir, yn ogystal â chyfieithu ar y pryd yn y digwyddiadau cyhoeddus ac unrhyw beth sy'n unol â safonau'r Gymraeg. Mae'r amcangyfrifon wedi'u seilio ar wariant ar yr adolygiad Seneddol.

567. Mae dadansoddiad fesul blwyddyn o'r costau ar gael yn y tabl isod.

**Tabl 8.16: Costau Cyfieithu Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru**

	1st Review	Non-Review Year	2nd Review			Non-Review Year		
Budget Item	24/25	25/26	26/27	27/28	28/29	29/30	30/31	31/32
Translation costs	£78,000	£0	£18,000	£36,000	£24,000	£0	£0	£0

### **Costau Adolygu Amrywiol**

568. Bydd costau amrywiol yr Adolygiadau, (gan gynnwys costau argraffu a phrawfddarllen) yn £24,000 ar gyfer yr adolygiad cyntaf a £25,200 ar gyfer yr ail adolygiad. Mae dadansoddiad fesul blwyddyn o'r costau hyn ar gael yn y tabl isod.

**Tabl 8.17: Costau Adolygu Amrywiol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru**

	1st Review	Non-Review Year	2nd Review			Non-Review Year		
Budget Item	24/25	25/26	26/27	27/28	28/29	29/30	30/31	31/32
Misc Review costs	£24,000	£0	£6,000	£9,600	£9,600	£0	£0	£0

### **Ffioedd Archwilio**

569. Mae amcangyfrifon a ddarparwyd gan Archwilio Cymru yn dangos y bydd y ffioedd archwilio blynyddol ar gyfer Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, dan ei enw newydd, yn cynyddu £4,800 yn ychwanegol y flwyddyn o ganlyniad i'r Bil.

### **Crynodeb o'r costau**

570. Amcangyfrifir mai cyfanswm cost y Bil i'r Comisiwn dros gyfnod yr adolygiad fydd £2,079,600, er bod hyn yn cynnwys £913,300 o gostau cyfle. Bydd y gwariant mwyaf arwyddocaol yn digwydd yn y blynyddoedd adolygu 2024-25 a 2026-27-2028-29, ac ar ôl hynny bydd y costau blynyddol sy'n gysylltiedig â'r Bil yn gostwng i £17,900 y flwyddyn. Mae'r costau parhaus hyn yn gysylltiedig â chost y Comisiynwyr newydd a ffioedd archwilio blynyddol.

571. Dylid nodi bod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal adolygiadau cyfnodol o ffiniau etholaethau'r Senedd bob wyth mlynedd. Byddai'r rhain yn adolygiadau llawn a byddai disgwyl i'r costau gyd-fynd â'r rhai a nodwyd ar gyfer yr ail adolygiad. Nid yw'r costau hyn wedi cael eu cofnodi yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn gan eu bod y tu allan i'r cyfnod gwerthuso, ac oherwydd bod yr aliniad â'r ail adolygiad yn cael ei ystyried yn gyfnodol. Ond, o 2030 ymlaen, bydd yn fusnes fel arfer.

572. Mae crynodeb o gostau'r Comisiwn i'w weld yn y tabl isod.

**Tabl 8.18: Crynodeb o gostau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru**

Budget Item	1st Review		2nd Review			Non-Review Year		
	24/25	25/26	26/27	27/28	28/29	29/30	30/31	31/32
Rebranding & Website Costs	£42,000	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0
Commissioner Costs	£31,400	£13,100	£25,100	£25,100	£18,800	£13,100	£13,100	£13,100
Staff Costs	£195,800	£13,200	£302,300	£289,100	£139,300	£0	£0	£0
Consultation Portal costs	£70,800	£7,200	£10,800	£10,800	£10,800	£0	£0	£0
Public Hearings costs	£0	£0	£0	£96,000	£0	£0	£0	£0
Advertising costs	£117,000	£0	£48,000	£48,000	£48,000	£0	£0	£0
ICT and telecoms costs	£36,000	£0	£48,000	£36,000	£36,000	£0	£0	£0
Legal costs	£36,000	£0	£12,000	£18,000	£12,000	£0	£0	£0
Translation costs	£78,000	£0	£18,000	£36,000	£24,000	£0	£0	£0
Misc Review costs	£24,000	£0	£6,000	£9,600	£9,600	£0	£0	£0
Audit Fees	£4,800	£4,800	£4,800	£4,800	£4,800	£4,800	£4,800	£4,800
<b>Total</b>	<b>£635,800</b>	<b>£38,300</b>	<b>£475,000</b>	<b>£573,400</b>	<b>£303,300</b>	<b>£17,900</b>	<b>£17,900</b>	<b>£17,900</b>

## ***Costau ac Arbedion i Lywodraeth Cymru***

### ***Dull***

573. Mae effeithiau ariannol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ar Lywodraeth Cymru yn ganlyniad uniongyrchol i'r cynnydd posibl mewn Gweinidogion ond hefyd yn anuniongyrchol o ganlyniad i'r cynnydd ym maint y Senedd. Mae'r amcangyfrifon ariannol ar gyfer newidiadau sy'n effeithio ar Lywodraeth Cymru wedi cael eu nodi a'u mesur, lle bo'n bosibl, drwy ymgysylltu â swyddogion o bob rhan o'r sefydliad.

574. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cynyddu'r terfyn deddfwriaethol ar nifer y Gweinidogion Cymru y gellir eu penodi gan Brif Weinidog Cymru o 12 i 17 (yn ogystal â'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol, a benodir yn uniongyrchol gan y Goron ar ôl cael eu henwebu gan y Senedd). Mae'r Bil hefyd yn darparu pŵer i gynyddu'r terfyn hwn ymhellach i 18 neu 19 drwy offeryn statudol.<sup>148</sup> Mae'r penderfyniad ynghylch faint o Weinidogion ychwanegol, os o gwbl, fydd yn cael eu penodi yn benderfyniad i'w wneud gan Brif Weinidog Cymru yn dilyn etholiad cyffredinol cyffredin nesaf y Senedd yn 2026. Felly, mae costau sy'n gysylltiedig â Gweinidogion ychwanegol yn ddarostyngedig i'r disgrisiwn hwn. Fodd bynnag, at ddibenion tryloywder, mae senarios posibl wedi cael eu cynnwys yn amcangyfrifon cost y Bil sy'n adlewyrchu costau uniongyrchol pum Gweinidog ychwanegol i Lywodraeth Cymru. Dylid nodi bod cyflogau ychwanegol ar gyfer penodiadau Gweinidogol yn cael eu cynnwys yng nghostau Comisiwn y Senedd gan eu bod yn gyfrifol am daliadau i ddeiliaid swyddi.

575. Pe na bai Prif Weinidog yn y dyfodol yn penodi mwy na nifer presennol y Gweinidogion (fel sy'n cael ei adlewyrchu yn senario newid lleiaf Comisiwn y Senedd), byddai costau uniongyrchol diwygio'r Senedd i Lywodraeth Cymru yn cael eu cyfyngu i gyfran o gostau Ysgrifenyddiaeth y Cabinet sy'n gysylltiedig â chynnydd mewn busnes a ysgogir gan Aelodau ychwanegol o'r Senedd (fel y nodir isod). Byddai hyn yn cynrychioli effaith ariannol sylfaenol, ond oherwydd y goblygiadau cyfyngedig iawn ar gostau ar gyfer senario o'r fath, nid ydynt wedi cael eu cynnwys.

576. Y costau mwyaf posibl sy'n gysylltiedig â'r Bil yn y maes hwn fyddai penodi pum Gweinidog ychwanegol (fel yr adlewyrchir yn senario newid mwyaf Comisiwn y Senedd), gan y byddai hyn yn

---

<sup>148</sup> Ni chaniateir gwneud offeryn statudol o dan y pŵer hwn oni bai bod penderfyniad wedi'i wneud yn gyntaf gan y Senedd yn cymeradwyo'r offeryn drafft, a bod nifer yr Aelodau sy'n pleidleisio o blaid y penderfyniad hwnnw'n cyfateb i o leiaf ddwy ran o dair o gyfanswm seddi'r Senedd (h.y. mewn Senedd 96 sedd, bydd angen i o leiaf 64 Aelod gymeradwyo'r penderfyniad).

arwain at lefel y cymorth a roddir i Weinidog. Mae amcangyfrifon ariannol ar gyfer y senario hwn wedi cael eu cyfrifo i gynrychioli brig yr ystod.

577. Byddai senario is, a allai fod yn fwy tebygol, yn golygu cyfuniad o Weinidogion a Dirprwy Weinidogion a benodir i'r pum swydd Weinidogol ychwanegol yn gymesur â chymhareb Llywodraethau blaenorol. Gan fod saith Gweinidog ar hyn o bryd, yn ogystal â'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol a phum dirprwy Weinidog, byddai penodi tri Gweinidog ychwanegol a dau ddirprwy Weinidog i'r swyddi Gweinidogol posibl yn enghraifft gymesur.

578. Er bod y Bil yn rhoi pŵer i gynyddu'r terfyn ar nifer Gweinidogion Cymru ymhellach i 18 neu 19, y rhesymeg dros wneud hynny yw diogelu'r ddeddfwriaeth ar gyfer datganoli rhagor o bwerau yn y dyfodol, neu amgylchiadau eraill lle ystyrir bod cynnydd yn deilwng, gan y byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy reoliadau yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd. O ganlyniad, nid yw'r amcangyfrifon ariannol hyn wedi cyfrif am newid pellach yn y terfyn ar nifer Gweinidogion Cymru y tu hwnt i'r cynnydd cychwynol i 17, a nodir ar wyneb y Bil. Byddai unrhyw oblygiadau ariannol o'r fath ar gyfer cynnydd pellach yn cael eu nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gyd-fynd â'r offeryn statudol perthnasol.

579. Bydd y cynnydd yn nifer Aelodau o'r Senedd a'u gallu i graffu ar waith Gweinidogion yn cael effaith ar waith Llywodraeth Cymru. Bydd maint cyffredinol y Senedd yn cynyddu o 60 i 96 Aelod (cynnydd o 60%), ond gan dybio bod cynnydd o bump yn nifer y Gweinidogion, bydd nifer yr Aelodau y tu allan i'r Llywodraeth yn cynyddu o 46 i 77 (cynnydd o 67.4%). Gyda chynnydd o'r fath raddau, gellir rhagdybio y bydd cynnydd (o bosibl yn arwyddocaol) ym maint y busnes sy'n gysylltiedig â'r Senedd ar gyfer Gweinidogion y byddai angen cymorth gan Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru ar eu cyfer. Gallai hyn gynnwys Cwestiynau'r Senedd a gohebiaeth Weinidogol gydag Aelodau. Yn

yr un modd, byddai cynnydd yn amser y Cyfarfod Llawn, fel y darperir ar ei gyfer yn senario newid mwyaf Comisiwn y Senedd, neu gynnydd yn nifer y Pwyllgorau lle byddai'n ofynnol i Weinidogion ddarparu tystiolaeth, fel sy'n cael ei adlewyrchu yn y senarios newid lleiaf a mwyaf, hefyd yn cael effaith. Daw busnes y Senedd ar sawl ffurf, fel Cwestiynau Ysgrifenedig, Datganiadau Llafar a dadleuon. Fodd bynnag, byddai cost pob eitem (yn rhinwedd amser Gweinidogion a staff Llywodraeth Cymru) yn amrywio yn dibynnu ar ei natur a'i gymhlethdod. Felly, nid yw'n bosibl mesur yn fanwl gywir faint o gynnydd a fydd o ran gwaith gan fod hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar nifer o ffactorau a newidynnau. Bydd union lefel y galw ychwanegol yn cael ei bennu yn y pen draw gan benderfyniadau na ellir ond eu gwneud ar ddechrau'r Senedd nesaf. Byddai penderfynu beth yw gwaith 'ychwanegol' hefyd yn gymhleth i'w benderfynu, oherwydd yn ymarferol, gallai gwaith a ysgogir yn wreiddiol gan fusnes y Senedd (e.e. Cwestiwn Ysgrifenedig) arwain at fanteision croestoriadol ar gyfer datblygu polisi neu ddeddfwriaeth. Felly, nid yw'r gost ychwanegol i Lywodraeth Cymru am y cynnydd yn y llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â'r cynnydd ym maint y Senedd yn hysbys ar hyn o bryd.

### ***Goblygiadau Ariannol Uniongyrchol***

#### *Staff Cymorth Gweinidogol*

580. Mae Gweinidogion Cymru yn cael cymorth uniongyrchol gan Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau Gweinidogol. Pe bai Gweinidogion ychwanegol yn cael eu penodi, byddai angen rhoi adnoddau ar waith i ddarparu'r cymorth hwn i'r Gweinidogion hyn. Amcangyfrifir y byddai'r cymorth hwn yn cael ei ddarparu o'r adnoddau presennol drwy adleoli staff o rolau eraill. Felly, ni fyddai angen gwariant ariannol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, bydd costau cyfle gan y byddai'r aelodau staff hyn fel arall yn cael eu cyflogi mewn mannau eraill yn y sefydliad. O'r herwydd, mae gwerth y



cyfnod hwn wedi cael ei gynnwys yng ngoblygiadau cost y Bil o ran tryloywder a chyflawnder.

581. Mae Gweinidogion Cymru yn cael cymorth gweinyddol personol uniongyrchol gan Swyddfeydd Preifat y Gweinidogion. Ar hyn o bryd, gall lefelau'r cymorth a ddarperir i Weinidogion a Dirprwy Weinidogion amrywio, ond mae cyfansoddiad safonol Swyddfa Breifat Gweinidog yn bum aelod o staff ar wahanol raddfeydd, gyda Dirprwy Weinidog yn cael cymorth dau aelod o staff, fel a ganlyn:

**Tabl 8.19 Cyfansoddiad safonol Swyddfa Breifat Gweinidog**

Teitl swydd	Gradd	Costau Gros Blynyddol Cyfartalog
Uwch-ysgrifennydd Preifat	Gradd 7	£86,731
Ysgrifennydd Preifat	HEO	£52,774
Ysgrifennydd Preifat Cynorthwyol	EO	£40,504
Ysgrifennydd Dyddiadur	EO	£40,504
Cymorth Gweinyddol	Cymorth Tîm	£33,927

**Tabl 8.20 Cyfansoddiad safonol Swyddfa Breifat Dirprwy Weinidog**

Teitl swydd	Gradd	Costau Gros Blynyddol Cyfartalog
Ysgrifennydd Preifat	HEO	£52,774
Ysgrifennydd Dyddiadur	EO	£40,504

582. Dylid nodi bod Uwch-ysgrifenyddion Preifat ac Ysgrifenyddion Preifat yn derbyn 'Lwfans Ysgrifenyddion Preifat' i gydnabod yr oriau anghymdeithasol a all fod yn angenrheidiol fel rhan o'r dyletswyddau.

583. Yn y senario uwch posibl o bum Gweinidog ychwanegol, y gost ychwanegol o ddarparu cymorth Swyddfa Breifat fyddai £1,284,700 y flwyddyn (gan gynnwys cyflogau a lwfansau ar gyfer 25 aelod o staff) ac ar gyfer senario is o dri Gweinidog a dau ddirprwy Weinidog, byddai'r costau'n £963,400 y flwyddyn (gan gynnwys cyflogau a lwfansau ar gyfer 19 aelod o staff). Byddai angen y staff cymorth Gweinidogol o 2026–27 ymlaen.

584. Mae Cyngorwyr Arbennig yn ychwanegu dimensiwn gwleidyddol at y cyngor a'r cymorth sydd ar gael i Weinidogion gan atgyfnerthu didueddrwydd gwleidyddol y Gwasanaeth Sifil parhaol drwy wahaniaethu rhwng ffynhonnell cyngor a chymorth gwleidyddol. Fe'u penodir gan Brif Weinidog Cymru i helpu Gweinidogion ar faterion lle mae gwaith y Llywodraeth a gwaith y Blaid Lafur yn gorgyffwrdd a lle byddai'n amhriodol i weision sifil parhaol gymryd rhan. Mae adran 16 o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Weinidog baratoi adroddiad blynyddol am Gyngorwyr Arbennig sy'n gwasanaethu Llywodraeth Cymru, a'i osod gerbron y Senedd. Rhaid i'r adroddiad gynnwys gwybodaeth am nifer a chost y cyngorwyr arbennig. Nid yw nifer y Cyngorwyr Arbennig yn uniongyrchol gysylltiedig nac yn ddibynnol ar nifer y Gweinidogion. Ni fydd diwygio'r Senedd yn newid hyd a lled cyfrifoldebau Gweinidogion Cymru gyda'i gilydd ac felly ni ragwelir unrhyw gostau ychwanegol, sy'n deillio o ddiwygio'r Senedd, yn y maes hwn.

#### *Costau lle*

585. Ar hyn o bryd, mae gan Weinidogion Cymru swyddfeydd yn Nhŷ Hywel a mynediad i swyddfeydd ar sail gweithfannau parod yn adeilad Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays. Mae gweithfannau parod hefyd yn cael eu darparu mewn swyddfeydd ar draws ystad Llywodraeth Cymru er mwyn i Weinidogion gael mynediad atynt. Byddai cynnydd posibl yn nifer y Gweinidogion yn golygu bod angen adnewyddu lle ar ail lawr Tŷ Hywel er mwyn darparu pum Swyddfa Weinidogol barhaol ychwanegol. Byddai gwaith adnewyddu'n cael ei wneud yn 2025–2026 i sicrhau bod lle ar gael ar ôl etholiad 2026 a, chan gynnwys dodrefnu swyddfeydd, byddai'n costio oddeutu £272,600. Os tybir bod y defnydd o'r gofod presennol ym Mharc Cathays a gweddill yr ystad yn gyson â'r dull gweithfannau parod presennol, ni fyddai angen unrhyw waith adnewyddu ychwanegol i fodloni gofynion Gweinidogion ychwanegol.

## *Costau TG*

586. Mae Gweinidogion yn cael yr offer TG angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau Gweinidogol, gan gynnwys y gallu i weithio o bell. Bydd ychydig o'r offer hwn yn gostau untro (fel ffonau, gorsafoedd docio, monitorau a pheiriannau argraffu, clustffonau a gwe-gamerâu) ac oherwydd trwyddedu bydd rhai yn gostau fesul pedair blynedd (gliniaduron a dyfeisiau tabled). Mae costau parhaus blynyddol hefyd ar gyfer ffioedd band eang, ffôn a thrwyddedu blynyddol. Fel arfer, mae offer i ganiatáu i Weinidogion weithi'n hybrid yn cael ei osod yn eu swyddfeydd, sy'n golygu costau bob 5 mlynedd. Bydd staff Llywodraeth Cymru sy'n cael eu hadleoli i rolau cymorth Gweinidogol wedi cael offer TG safonol, felly ni fydd y rhain yn gostau ychwanegol. Fodd bynnag, mae Uwch-ysgrifenyddion Preifat ac Ysgrifenyddion Preifat yn cael ffonau symudol ac felly mae'r costau hyn wedi cael eu cynnwys.

587. Byddai cost darparu lefel debyg o offer TG i bum Gweinidog ychwanegol posibl a'u staff Swyddfa Breifat yn £71,900 yn y flwyddyn 2026–27, £13,100 yn y flwyddyn 2029–30 a £37,500 yn y flwyddyn 2030–31, yn ogystal â chost flynyddol o £10,300.

## *Diogelwch*

588. Byddai cynnydd posibl yn nifer y Gweinidogion yn effeithio ar y lefelau presennol o ddiogelwch amddiffynnol a ddarperir. Byddai angen dau aelod ychwanegol o staff (sy'n costio £105,500) rhwng 2026 a 27. Mae staff diogelwch yn rolau arbenigol ac felly nid ydynt yn swyddi y gellid eu llenwi drwy adleoli staff presennol. Felly, byddent yn gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

## *Teithio a Chynhaliaeth*

589. Yn ogystal â'r gwasanaeth ceir swyddogol, mae Llywodraeth Cymru yn talu am wariant sy'n gysylltiedig â chyflawni dyletswyddau Gweinidogol, gan gynnwys costau teithio, llety a chynhaliaeth. Gall hyn gael ei drefnu gan Swyddfa Breifat y Gweinidog neu gall y Gweinidog dalu'r gost a'i hawlio'n ôl. Er bod

cynnydd yn nifer y Gweinidogion yn cynyddu'r capasiti i ymgymryd â busnes y Llywodraeth a allai fod yn galw am hawliadau teithio a chynhaliaeth, mae'r meysydd sydd wedi'u datganoli yn aros yr un fath ac felly nid yw o reidrwydd yn dilyn y bydd costau'n cynyddu'n gymesur â'r cynnydd mewn Gweinidogion. Fodd bynnag, gellir amcangyfrif y cynnydd posibl mwyaf ar sail y dybiaeth y byddai Gweinidogion ychwanegol yn arwain at gynnydd cymesur i'r costau presennol, gan arwain at uchafswm cost ychwanegol o £48,200 y flwyddyn o 2026–27.

### *Ysgrifenyddiaeth y Cabinet*

590. Bydd y cynnydd yn nifer yr Aelodau o'r Senedd y darperir ar ei gyfer gan y Bil yn cael effaith uniongyrchol ar faint o waith sy'n cael ei reoli gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Bydd maint llawn yr effaith yn dibynnu ar benderfyniadau sydd eto i'w gwneud, megis cynnydd yn amser Pwyllgorau a chyfarfodydd llawn a bydd yn cael ei bennu gan ofynion y Rheolau Sefydlog. Fodd bynnag, bydd gallu'r Senedd i graffu ar Lywodraeth Cymru yn cynyddu ac felly gellir tybio'n rhesymol y bydd cynnydd canlyniadol mewn busnes a reolir gan Lywodraeth Cymru.

591. Fel y nodwyd uchod, ni ellir mesur maint gwaith o'r fath ar gyfer y sefydliad ehangach. Fodd bynnag, bydd angen cynnydd penodol yn nifer y staff yn Is-adran y Cabinet i gydlynu a rheoli Cwestiynau'r Senedd, gohebiaeth, cysylltu â Phwyllgorau ychwanegol y Senedd a rheoli busnes y cyfarfod llawn. Gyda chynnydd posibl mewn Gweinidogion, fel yr amlinellir uchod, bydd goblygiadau hefyd ar gyfer teithio a chynhaliaeth, a fydd yn galw am adnoddau gweinyddol ychwanegol. Bydd angen cyfanswm o 7 aelod staff cyfwerth ag amser llawn ar raddfeydd amrywiol (fel isod) i gefnogi'r gwaith hwn ar gost o £262,900 rhwng 2026 a 27. Byddai'r swyddi Cymorth Tîm yn rheoli'r cynnydd a ragwelir mewn gohebiaeth ac yn cefnogi'r posibilrwydd o ehangu Pwyllgorau / Is-bwyllgorau'r Cabinet a'r posibilrwydd o ehangu gwaith sy'n gysylltiedig â swyddogaethau cyswllt â Phwyllgorau'r Senedd.

Byddai'r swyddi Swyddog Gweithredol a Swyddog Gweithredol Uwch yn rheoli'r cynnydd posibl yng Nghwestiynau'r Senedd a Busnes y Senedd. Bydd y swyddi hyn yn cael eu llenwi o fewn yr adnoddau presennol ac felly maent yn gost cyfle yn hytrach na gwariant ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

**Tabl 8.21: Costau Ysgrifenyddiaeth y Cabinet**

Grade	FTE	Average Band Cost	Cost (rounded)
HEO	1	£52,774	£52,800
EO	1	£40,504	£40,500
TS	5	£33,927	£169,600
<b>Total</b>			<b>£262,900</b>

*Rhoi diwygio'r Senedd ar waith gan Lywodraeth Cymru*

592. Mae paratoi is-ddeddfwriaeth newydd sy'n deillio'n uniongyrchol o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a gwaith gweithredu ar gyfer y diwygiadau yn gofyn am wariant yn unol â'r mandad clir a roddwyd gan y Senedd i Lywodraeth Cymru gyflawni argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig mewn pryd ar gyfer etholiad nesaf y Senedd yn 2026. Mae dyraniad o £1.2 miliwn wedi'i wneud ar gyfer 2024–2025. Mae costau sy'n digwydd wrth baratoi'r Bil yn cael eu hystyried yn 'gostau suddedig' gan na fyddai modd eu hadennill pe na bai'r Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol ac maent y tu allan i gwmpas yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Felly, ar sail rhagdybiaeth y bydd y Bil, os caiff ei gymeradwyo gan Aelodau, yn cael y Cydsyniad Brenhinol yn ystod haf 2024, y swm cymesur sy'n weddill ar gyfer y gwaith gweithredu a chyflawni ar gyfer 2024–25 fydd £900,000. Felly, y 'costau ariannol' mesuradwy ar gyfer Llywodraeth Cymru yn 2024–25 yw £300,000 ac yn 2023–24 bydd yn £2,200,000.

593. Bydd staff Llywodraeth Cymru yn parhau â'r gwaith gweithredu, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid a threfniadau llywodraethu'r rhaglen er mwyn sicrhau bod diwygiadau i'r Senedd yn cael eu cyflawni ar gyfer etholiad cyffredinol cyffredin y Senedd yn 2026. Bryd hynny, bydd y rhan fwyaf o'r newidiadau wedi'u rhoi

ar waith. Bydd angen tîm o 5.2 cyfwerth ag amser llawn ar wahanol raddau (fel isod) am gost o £336,800 y flwyddyn. Bydd gwaith sy'n gysylltiedig â diwygio'r Senedd o 2027–28 yn cael ei ystyried yn fusnes fel arfer i Lywodraeth Cymru ac nid yw costau wedi cael eu cynnwys. Bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â gweithredu'r Bil a ddarperir gan wasanaethau cyfreithiol Llywodraeth Cymru ond gan fod y rhain yn cael eu hystyried yn gostau gweithredol, nid ydynt wedi'u cynnwys.

**Tabl 8.22: Costau Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â rhoi diwygio'r Senedd ar waith**

Grade	FTE	Average Band Cost	Cost (rounded)
Deputy Director	0.2	£120,174	£24,000
Grade 7	1	£86,731	£86,700
SEO	2	£66,364	£132,700
HEO	1	£52,774	£52,800
EO	1	£40,504	£40,50
<b>Total</b>			<b>£336,800</b>

594. Bydd y costau hyn yn cael eu talu o'r adnoddau presennol ac felly maent yn cynrychioli costau cyfle yn hytrach na gwariant ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

595. Mae'r amcangyfrif costau uniongyrchol sy'n deillio o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ar Lywodraeth Cymru ar gael yn y tabl isod.

**Tabl 8.23 Costau Uniongyrchol Llywodraeth Cymru**

Range		2024/25		2025/26		2026/27		2027/28		2028/29		2029/30		2030/31		2031/32	
		Low	High	Low	High	Low	High	Low	High	Low	High	Low	High	Low	High	Low	High
<b>Opportunity costs</b>																	
Private Office staff costs	Ongoing	0	0	0	0	963,400	1,284,700	963,400	1,284,700	963,400	1,284,700	963,400	1,284,700	963,400	1,284,700	963,400	1,284,700
	Transitional	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
SR WG Delivery staff costs	Ongoing	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	Transitional	900,000	900,000	336,800	336,800	336,800	336,800	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Cabinet Secretariat staff	Ongoing	0	0	0	0	262,900	262,900	262,900	262,900	262,900	262,900	262,900	262,900	262,900	262,900	262,900	262,900
	Transitional	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>Non Opportunity costs</b>																	
Security	Ongoing	0	0	0	0	105,500	105,500	105,500	105,500	105,500	105,500	105,500	105,500	105,500	105,500	105,500	105,500
	Transitional	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
IT	Ongoing	0	0	0	0	10,300	10,300	10,300	10,300	10,300	10,300	10,300	10,300	10,300	10,300	10,300	10,300
	Transitional	0	0	0	0	71,900	71,900	0	0	0	0	13,100	13,100	37,500	37,500	0	0
Ministerial T&S	Ongoing	0	0	0	0	48,200	48,200	48,200	48,200	48,200	48,200	48,200	48,200	48,200	48,200	48,200	48,200
	Transitional	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Accommodation	Ongoing	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	Transitional	0	0	272,600	272,600	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
<b>TOTAL</b>																	
TOTAL	Ongoing	0	0	0	0	1390400	1711700	1390400	1711700	1390400	1711700	1390400	1711700	1390400	1711700	1390400	1711700
	Including opportunity costs	900,000	900,000	609,400	609,400	408,600	408,600	0	0	0	0	13,100	13,100	37,500	37,500	0	0
<b>COMBINED TOTAL</b>																	
		900,000	900,000	609,400.00	609,400.00	1,799,000	2,120,300	1,390,400	1,711,700	1,390,400	1,711,700	1,403,500	1,724,800	1,427,900	1,749,200	1,390,400	1,711,700
<b>TOTAL</b>																	
TOTAL	Ongoing	0	0	0	0	164100	164100	164100	164100	164100	164100	164100	164100	164100	164100	164100	164100
	Excluding opportunity costs	0	0	272600	272600	71900	71900	0	0	0	0	13100	13100	37500	37500	0	0
<b>COMBINED TOTAL</b>																	
		0	0	272,600.00	272,600.00	236,000	236,000	164,100	164,100	164,100	164,100	177,200	177,200	201,600	201,600	164,100	164,100

## **Goblygiadau Ariannol Anuniongyrchol**

596. Yn ogystal â'r costau uniongyrchol a amlinellir uchod, mae'n anochel y bydd y cynnydd ym maint y Senedd a'r cynnydd posibl yn nifer y Gweinidogion hefyd yn arwain at oblygiadau sylweddol i ffyrdd Llywodraeth Cymru ei hun o weithio, gan gynnwys ei gwaith gweinyddu a chyflawni mewn ymateb i fwy o graffu. Bydd goblygiadau i dimau polisi a busnes y llywodraeth yn Llywodraeth Cymru o ran darparu cyngor a chymorth i Weinidogion, gan gynnwys ar gyfer ymateb i fwy o Gwestiynau'r Senedd, briffiau ar gyfer Gweinidogion a gohebiaeth.
597. Bydd graddau'r effaith a'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen yn cael eu pennu gan benderfyniadau na ellir ond eu gwneud ar ôl pasio'r ddeddfwriaeth ac wrth baratoi ar gyfer y Senedd nesaf. Yn ogystal â hyn, mae trafodaethau gyda thimau busnes y llywodraeth yn dangos bod natur y gwaith a'r dulliau gweithredu a ddefnyddir ar draws timau polisi a busnes y llywodraeth yn amrywiol iawn ac felly nid yw'n bosibl mesur y goblygiadau gydag unrhyw raddau o gywirdeb. Felly, nid yw'r amcangyfrifon o'r costau wedi cael eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn oherwydd y byddent yn anfanwl ac o bosibl yn gamarweiniol. Nid yw'r costau'n hysbys ar hyn o bryd, felly.
598. Mae nifer o gostau ychwanegol posibl yn gysylltiedig â chynnyddu nifer y Gweinidogion nad ydynt wedi cael eu cynnwys yn yr amcangyfrifon costau cyffredinol gan eu bod yn cael eu hystyried yn gwbl ddewisol. Byddai Gweinidogion ychwanegol yn golygu bod angen cynnydd mewn cymorth uniongyrchol (fel cymorth mewn Swyddfa Breifat, y rhoddir cyfrif amdano isod), efallai y bydd cynnydd mewn Gweinidogion yn effeithio ar feysydd eraill, ond nid yw hynny'n anochel a gellir bodloni gofynion drwy newidiadau i ffyrdd o weithio. Nid yw unrhyw benderfyniad mewn perthynas â'r gwasanaethau hyn yn ddibynnol ar y darpariaethau yn y Bil hwn.



599. Mae gan Weinidogion Llywodraeth Cymru fynediad at gymorth Swyddfa'r Wasg i'w helpu i gyflawni eu dyletswyddau Gweinidogol, er bod lefel y cymorth sydd ei angen yn amrywio yn dibynnu ar natur cyfrifoldebau portffolio Gweinidog. Ni fydd cyfrifoldebau polisi cyffredinol Gweinidogion Cymru yn newid o ganlyniad i'r Bil hwn, felly nid yw cynnydd mewn penodiadau gan Weinidogion o reidrwydd yn golygu bod angen cynyddu capasiti Swyddfa'r Wasg. Byddai unrhyw benderfyniadau ynghylch maint a strwythur Swyddfa'r Wasg yn fater i'r Prif Weinidog yn dilyn etholiad y Senedd yn 2026. Felly, nid yw'r costau'n hysbys ar hyn o bryd.
600. Mae gan Weinidogion Cymru hefyd fynediad at gerbydau swyddogol sy'n cael eu staffio gan yrwyr cyflogedig i'w defnyddio wrth ymgymryd â busnes Gweinidogol. Mae'r Gwasanaeth Ceir Swyddogol yn cael ei reoli mewn modd sy'n darparu gwasanaeth effeithiol i Weinidogion tra'n sicrhau'r gwerth gorau am arian. Nid yw nifer y cerbydau a'r gyrwyr yn cyfateb i nifer y Gweinidogion gan nad oes gan bob Gweinidog hawl i'w car a'u gyrrwr eu hunain. Byddai unrhyw benderfyniadau ynghylch capasiti'r fflyd geir swyddogol a'r tîm o yrwyr yn fater i'r Prif Weinidog yn dilyn etholiad y Senedd, a byddai'n ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynaliadwyedd amgylcheddol, ac felly ni fyddai'n cael ei bennu gan nifer y Gweinidogion. Felly, nid yw'r costau'n hysbys ar hyn o bryd.
601. Ni fydd cynnydd cyffredinol yn adnoddau Llywodraeth Cymru i reoli goblygiadau'r cynnydd posibl yng ngwaith y Senedd a'r Llywodraeth. Efallai y bydd angen newid y ffyrdd presennol o weithio, symleiddio prosesau, ailstrwythuro swyddogaethau a/neu adrannau ac adleoli timau. Fodd bynnag, y tu hwnt i gwrs arferol y gwaith i gynyddu effeithlonrwydd, bydd y rhain yn benderfyniadau i'w gwneud yn y dyfodol. Ni fydd y newidiadau hyn yn cael eu gweithredu ar eu pen eu hunain a byddant yn cyd-fynd â

chynlluniau sefydliadol ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer newid a gwella.

### Arbedion

602. Ni chafodd unrhyw arbedion cyffredinol eu nodi gan Lywodraeth Cymru.

### Costau cyffredinol

603. Dangosir crynodeb o'r costau amcangyfrifedig yn y tabl isod. Bydd y costau parhaus i Lywodraeth Cymru o 2027–2028 ymlaen, y flwyddyn gyntaf ar ôl gweithredu newidiadau etholiad cyffredinol cyffredin y Senedd yn 2026, rhwng £1,390,400 y flwyddyn ar gyfer y senario newid lleiaf a £1,711,700 y flwyddyn ar gyfer y senario newid mwyaf. Fodd bynnag, ni fydd cyfran ychwanegol o gostau Llywodraeth Cymru yn wariant ychwanegol, ond bydd costau cyfle fel y maent yn ymwneud â chostau staff a fydd yn cael eu talu drwy adleoli staff sydd eisoes yn cael eu cyflogi gan Lywodraeth Cymru. Y costau parhaus i Lywodraeth Cymru heb gynnwys costau cyfle fydd £164,100 y flwyddyn.

604. Bydd cyfanswm y gost i Lywodraeth Cymru ar draws y cyfnod gwerthuso rhwng £10,310,900 a £12,238,800 gan gynnwys costau cyfle ar gyfer y senario lleiaf a mwyaf, a £1,379,600 heb gynnwys costau cyfle.

**Tabl 8.24: Crynodeb o gostau Llywodraeth Cymru**

Range		2024/25		2025/26		2026/27		2027/28		2028/29		2029/30		2030/31		2031/32	
		Low	High	Low	High	Low	High	Low	High	Low	High	Low	High	Low	High	Low	High
<b>TOTAL</b>	Ongoing	£0	£0	£0	£0	£1,390,400	£1,711,700	£1,390,400	£1,711,700	£1,390,400	£1,711,700	£1,390,400	£1,711,700	£1,390,400	£1,711,700	£1,390,400	£1,711,700
Including opportunity costs	Transitional	£900,000	£900,000	£609,400	£609,400	£408,600	£408,600	£0	£0	£0	£0	£13,100	£13,100	£37,500	£37,500	£0	£0
<b>COMBINED TOTAL</b>		£900,000	£900,000	£609,400	£609,400	£1,799,000	£2,120,300	£1,390,400	£1,711,700	£1,390,400	£1,711,700	£1,403,500	£1,724,800	£1,427,900	£1,749,200	£1,390,400	£1,711,700
<b>TOTAL</b>	Ongoing	£0	£0	£0	£0	£164,100	£164,100	£164,100	£164,100	£164,100	£164,100	£164,100	£164,100	£164,100	£164,100	£164,100	£164,100
Excluding opportunity costs	Transitional	£0	£0	£272,600	£272,600	£71,900	£71,900	£0	£0	£0	£0	£13,100	£13,100	£37,500	£37,500	£0	£0
<b>COMBINED TOTAL</b>		£0	£0	£272,600	£272,600	£236,000	£236,000	£164,100	£164,100	£164,100	£164,100	£177,200	£177,200	£201,600	£201,600	£164,100	£164,100
<b>OPPORTUNITY COSTS</b>		£900,000	£900,000	£336,800	£336,800	£1,563,100	£1,884,400	£1,226,300	£1,547,600	£1,226,300	£1,547,600	£1,226,300	£1,547,600	£1,226,300	£1,547,600	£1,226,300	£1,547,600

### Argymhellion y Pwyllgorau

605. Argymhellodd Pwyllgor y Bil Diwygio a'r Pwyllgor Cyllid, yng Nghyfnod 1, y dylid darparu eglurder ynghylch costau i Lywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

## **Amcanion Llesiant**

606. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod amcanion llesiant chwe mis ar ôl etholiad y Senedd. O ran gosod yr amcanion hyn, caiff yr adnodd a ddefnyddir yn flynyddol o fewn Llywodraeth Cymru i ddatblygu a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol ei ddefnyddio yn lle hynny mewn blwyddyn etholiad i gyflwyno Rhaglen Lywodraethu a Datganiad Llesiant. Gall amserlenni'r gweithgareddau hyn newid, ond byddai bob amser yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ddarparu un neu'r llall mewn blwyddyn ac nid y ddau. Felly, ni nodwyd unrhyw gostau ychwanegol.

## **Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol**

607. O dan adran 11 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi "Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol" yn ystod y 12 mis ar ôl etholiad cyffredin y Senedd, fel y'i diffinnir yn adrannau 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â pharatoi a chyhoeddi Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol yn codi o amser staff, comisiynu gwaith, a datblygu cynhyrchion cyfathrebu.

608. Os bydd y cynigion yn y Bil yn cael eu deddfu, bydd angen cyhoeddi Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol bob 4 blynedd. Byddai hyn yn golygu y byddai angen adroddiad ychwanegol ym mhob cyfnod o 20 mlynedd. Felly, byddai'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad ychwanegol yn disgyn y tu hwnt i'r cyfnod gwerthuso ar gyfer y Bil hwn ond, er tryloywder, amcangyfrifir bod Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol yn costio £102,518 (yn seiliedig ar brisiau 2022–23) mewn cylch etholiadol. Byddai'r costau ychwanegol hyn yn cael eu talu o'r adnoddau presennol ac felly'n cynrychioli costau cyfle yn hytrach na gwariant ariannol ychwanegol.

## **Y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**

609. Mae gan y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gyfrifoldeb am nifer o weithgareddau sy'n cael eu cynnal ym mhob cylch etholiadol ac felly byddai newid amllder etholiadau'r Senedd o bob pum mlynedd i bob pedair blynedd yn cael effaith ar amllder y gweithgareddau hyn. O fewn y cyfnod gwerthuso

ar gyfer y Bil (2024–25 i 2031–32), byddai'r flwyddyn y byddai rhai o'r gweithgareddau hyn yn cael eu cynnal yn newid, ac felly mae'n bosibl y byddai angen gwneud rhywfaint o ail-broffilio, ond o fewn y cyfnod hwnnw ni fyddai cynnydd yn y nifer o weithiau y cynhelir y rhain. Felly nid oes costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i newid amllder etholiadau'r Senedd o fewn y cyfnod gwerthuso.

610. Fodd bynnag, dros y tymor hwy, byddai newid o gylch pum mlynedd i gylch pedair blynedd ar gyfer etholiadau'r Senedd yn arwain at un etholiad ychwanegol bob 20 mlynedd. Disgwylir y byddai hyn yn arwain at gost ychwanegol o £94,352 yn y flwyddyn honno o ganlyniad i waith ar y canlynol:

- Amcanion Llesiant Llywodraeth Cymru (£2,871)
- Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol (£2,559)
- Archwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol (£2,885)
- Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol (£86,037)

611. Mae'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhag-weld cynnydd mewn ceisiadau am gyngor gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus i helpu i lywio'r amserlenni newydd, y ffaith na fydd cydamseru rhwng amserlenni a chanlyniadau hyn ar gyfer eu gwaith a gwaith y cyrff cyhoeddus.

### **Archwilio Cymru**

612. Mae cylch etholiadol pedair blynedd yn cael effeithiau canlyniadol ar ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal archwiliadau datblygu cynaliadwy a nodir yn adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf 2015"). Ar hyn o bryd, mae 48 o gyrff wedi'u dynodi'n gyrff cyhoeddus o dan Ddeddf 2015 ac wedi'u cwmpasu gan y dyletswyddau archwilio hynny.

613. Mae'r costau ychwanegol a gyflwynir yn Nhabl 8.25 yn cwmpasu tri maes gweithgarwch ac yn ymwneud ag Archwilio Cymru yn unig.

- Archwiliadau mewn 48 o gyrff unigol. Yn ymarferol, mae hyn yn gofyn am ddau archwiliad ym mhob corff ar gyfer yr asesiad ariannol hwn a gynhelir o leiaf unwaith mewn cylch adrodd ac sy'n cwmpasu: a) gosod amcanion llesiant; a b) camau i gyflawni amcanion llesiant.
- Gwaith cysylltiedig angenrheidiol mewn 6 chorff, gan ganiatáu ar gyfer costau ychwanegol mewn 6 o gyrff llywodraeth ganolog (Chwaraeon Cymru, Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, CCAUC (a fydd yn Gomisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil cyn bo hir), a Chyfoeth Naturiol Cymru) lle nad oes gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ddyletswydd i ddarparu casgliad ar y trefniadau priodol ac nad yw felly'n cynnal rhaglenni o waith archwilio perfformiad lleol (ac eithrio Llywodraeth Cymru). Mae'r amcangyfrifon o waith cysylltiedig angenrheidiol yn cyfrif am gost uwch cysylltu a gwneud gwaith ychwanegol i bennu cwmpas a chyflwyno archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy mewn cyrff lle na fyddai Archwilydd Cyffredinol Cymru fel arall yn ymgymryd â gwaith archwilio perfformiad lleol.
- Adrodd ar ganlyniadau cyffredinol archwiliadau corff unigol (cydgysylltu a chynhyrchu).

614. Mae'r dull a fabwysiadwyd wedi bod yn seiliedig ar gost flynyddol gyfartalog ar draws cylch adrodd oherwydd nad oes unrhyw ofynion sy'n pennu pryd yn union y gwneir y gwaith archwilio o fewn cylch adrodd. Mae'r amcangyfrifon cost cyffredinol ar gyfer archwiliadau a gwaith cysylltiedig angenrheidiol yn seiliedig ar amcangyfrifon sy'n cymhwyso tybiaethau cyfartalog ynghylch yr amser staff archwilio dan sylw, ar draws gwahanol raddau, ar gyfer pob corff. Mae'r tybiaethau cyfartalog hynny'n berthnasol i bedwar senario sy'n ymwneud â maint a chymhlethdod cyrff a natur/graddau'r ddarpariaeth archwilio bresennol.

615. Yn gyson â'r costau a godir am waith archwilio arall, mae'r cyfraddau ffioedd yn ystyried costau uniongyrchol ac argostau cyflogi staff yn ogystal â chyfraniadau at orbenion cyffredinol Archwilio Cymru. Nid yw'r amcangyfrifon cost ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ceisio mesur

unrhyw orbenion penodol sy'n gysylltiedig ag archwiliadau datblygu cynaliadwy. Mae Archwilio Cymru yn cyhoeddi rhagor o fanylion am gyfraddau ffioedd bob blwyddyn yn ei Gynllun Ffioedd, sy'n cael ei gymeradwyo gan y Senedd. Gweler er enghraifft [Cynllun Ffioedd 2022-23](#).

616. Byddai'r costau uwch sy'n gysylltiedig â chylch etholiadol pedair blynedd yn dechrau o 2025-26 ymlaen (yn hytrach na 2026-27) gan y byddai newid hyd tymor y Senedd o fis Mai 2026 ymlaen yn golygu mai dim ond y cyfnod rhwng mis Mai 2025 a mis Mai 2029 y byddai gan yr Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau archwilio datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf 2015.
617. Nid yw'r costau a gyflwynir yn ystyried newidiadau a allai ddigwydd o ganlyniad i benderfyniadau y tu hwnt i gwmpas y Bil - er enghraifft newid yn nifer y cyrff sy'n cael eu cwmpasu gan ddyletswyddau archwilio Archwilydd Cenedlaethol Cymru, nac unrhyw werthusiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf 2015. Byddai unrhyw gostau o'r fath yn cael eu nodi ar wahân fel rhan o'r gwaith o fwrw ymlaen â'r rhain.
618. Byddai unrhyw gynnydd yn amllder adroddiadau gorfodol heb gynnydd cymesur mewn adnoddau yn rhoi pwysau ychwanegol ar raglen waith gyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru, a allai arwain at lai o ddisgresiwn wrth ddylunio'r rhaglen ehangach honno, y mae llawer ohoni yn cefnogi gwaith y Senedd ei hun. Heb gynnydd cyfatebol mewn adnoddau, mae cynnydd mewn gofynion adrodd gorfodol yn lleihau cwmpas Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal archwiliadau dewisol o faterion a allai beri mwy o risgiau i werth am arian. Gallai ystyried sut y caiff unrhyw ofynion ychwanegol sy'n deillio o'r cynigion i Ddiwygio'r Senedd eu cyllido arwain at geisiadau pellach am adnoddau fel rhan o Amcangyfrif blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru a/neu gynnydd mewn ffioedd archwilio.

**Tabl 8.25: Amcangyfrif o'r costau ychwanegol i'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer cynnal archwiliadau ac adroddiadau egwyddor datblygu cynaliadwy, 2024-25 i 2031-32 (gan dybio newid o gylch etholiadol pum mlynedd i gylch etholiadol pedair blynedd)**

Gweithgaredd	Cost y gweithgaredd ar gyfer pob blwyddyn ariannol								Cyfanswm (£oedd)
	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30	2030-31	2031-32	
Archwiliadau mewn 48 o gyrff unigol	0	83,000	83,000	83,000	83,000	83,000	83,000	83,000	<b>581,000</b>
Gwaith cysylltiedig angenrheidiol mewn 6 o gyrff	0	2,500	2,500	2,500	2,500	2,500	2,500	2,500	<b>17,500</b>
Adroddiad statudol ar ganlyniadau archwiliadau corff unigol	0	3,200	3,200	3,200	3,200	3,200	3,200	3,200	<b>22,400</b>
<b>Cyfansymiau blynyddol</b>	<b>0</b>	<b>88,700</b>	<b>88,700</b>	<b>88,700</b>	<b>88,700</b>	<b>88,700</b>	<b>88,700</b>	<b>88,700</b>	<b>620,900</b>

## ***Costau ac arbedion i Bleidiau Gwleidyddol***

619. Gall newidiadau i system etholiadol y Senedd, fel nifer yr etholaethau a chyflwyno rhestrau cyfrannol caeedig, arwain at gostau ychwanegol yn ogystal ag arbedion i bleidiau gwleidyddol sy'n ymwneud â'r broses etholiadol yng Nghymru. Er enghraifft, efallai y bydd angen i bleidiau gwleidyddol addasu'r ffordd y maent yn cael eu trefnu, megis eu prosesau dewis ymgeiswyr, er mwyn cymryd rhan yn y system etholiadol newydd, ond bydd llai o etholaethau ac un system unffurf i'w rheoli, gan arwain at un bleidlais i bob etholwr. Fodd bynnag, ni fyddai modd mesur y costau a'r arbedion hyn gan y byddai maint y newidiadau sy'n ofynnol yn amrywio'n helaeth rhwng pob plaid gwleidyddol. Mae'r pleidiau unigol yn amrywio o ran maint, yn cael eu trefnu'n wahanol, ac mae ganddynt eu prosesau dethol eu hunain. Felly, gallai'r man cychwyn ar gyfer pob plaid, a maint y newidiadau sydd eu hangen i addasu eu proses ethol eu hunain a allai arwain at gostau neu arbedion, fod yn wahanol iawn. Yn ogystal â hyn, mae disgrisiwn o ran i ba raddau y mae pleidiau gwleidyddol yn dewis cymryd rhan mewn etholiadau mewn perthynas â nifer yr etholaethau a nifer yr ymgeiswyr a gyflwynir ganddynt, a fyddai'n cael effaith sylweddol ar unrhyw gostau ac arbedion posibl. Gan nad yw'r penderfyniadau hyn yn ganlyniad uniongyrchol i'r Bil ac nad ydynt eto i'w cymryd gan bleidiau gwleidyddol, nid yw'n bosibl eu mesur ac nid yw'r costau a'r arbedion yn hysbys ar hyn o bryd.

### **Manteision**

620. Ni ragwelir y bydd newidiadau sy'n deillio o ddiwygio'r Senedd yn arwain at arbedion cost cyffredinol. Bydd rhai sefydliadau a meysydd gweithgarwch yn y sector cyhoeddus yn gweld arbedion ariannol (er enghraifft oherwydd gostyngiad yn nifer yr etholaethau neu oherwydd symud i un system pleidleisio yn hytrach na dwy, ac felly dim ond un papur pleidleisio fydd ei



angen) ond bydd y rhain yn cael eu gwrthbwysu gan gostau sy'n cynyddu mewn sefydliadau a meysydd gweithgarwch eraill (er enghraifft costau cyflogau ar gyfer 36 Aelod ychwanegol o'r Senedd).

621. Fodd bynnag, fel y cydnabyddir mewn nifer o adroddiadau cynharach ac y cyfeirir atynt yn rhannau 1 a 3 y Memorandwm Esboniadol hwn, rhagwelir y bydd y newidiadau'n arwain at nifer o fanteision heb werth ariannol, a rhoddir rhai enghreifftiau ohonynt isod.

622. Gyda mwy o Aelodau, bydd y Senedd mewn gwell sefyllfa i ddal y Weithrediaeth i gyfrif drwy graffu ar bolisiau a deddfwriaeth yn fanylach, gan gynnwys Cyllidebau a Biliau'r llywodraeth, y gellir disgwyl iddynt arwain at well deddfwriaeth a chynlluniau gwario a fyddai, yn eu tro, yn arwain at ganlyniadau gwell i bobl Cymru. Mae cynnydd cyffredinol yn nifer yr Aelodau yn debygol o ddod ag ystod ehangach o arbenigedd ond bydd hefyd yn golygu bod Aelodau'n llai tebygol o orfod eistedd ar sawl pwyllgor. Dylai hyn roi mwy o gapasiti iddynt arbenigo yn y meysydd sydd o ddiddordeb i'w pwyllgor a pharatoi ar gyfer craffu, gan arwain at graffu manylach a mwy effeithiol. Mae'r Senedd yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar fywyd pob person yng Nghymru. Bydd y camau hyn i wella'r broses o graffu a llywodraethu penderfyniadau o'r fath yn arwain at well penderfyniadau a chanlyniadau i'r etholwyr.

623. Rhagwelir y bydd dechrau defnyddio system rhestr gyfrannol gaeedig yn arwain at nifer o fanteision. Bydd symud oddi wrth y system aelodau cymysg yn cael gwared ar y dryswch y mae cael dwy system i ethol Aelodau yn ei achosi i etholwyr, drwy sefydlu un system ar gyfer ethol i holl seddi'r Senedd. Bydd y system rhestr gyfrannol gaeedig y mae'r deddfwriaeth hon yn darparu ar ei chyfer yn hwyluso mwy o gyfranoldeb na'r system Cynrychiolaeth Gyfrannol Aelodau Cymysg bresennol. Mae etholaethau amlaelod yn debygol o sicrhau bod cyfansoddiad y

Senedd yn adlewyrchu cydbwysedd y pleidleisiau a gafodd eu bwrw yn etholiadau'r Senedd yn well, gan ganiatáu i bleidiau ysgogi mwy o amrywiaeth o ymgeiswyr, gan helpu i wneud y Senedd yn fwy cynrychioliadol o'r bobl y mae'n eu gwasanaethu.

624. Byddai cynnydd yn nifer cyffredinol yr Aelodau, yn ogystal ag o fewn pob etholaeth, hefyd yn cynyddu'r gallu i ymgysylltu â'r etholwyr, cymunedau a grwpiau rhanddeiliaid, gan wneud Aelodau'n fwy hygyrch i'r rhai y maent yn eu cynrychioli. Felly, dylai hyn, ynghyd â'r eglurder gwell ynghylch cynrychiolaeth sy'n deillio o ddileu ail fath o Aelod, ddarparu profiad gwell i'r etholwyr.

625. Rhai o fanteision posibl eraill y darpariaethau a nodir yn y Bil yw'r ffaith fod Aelodau'n ddarostyngedig i gyfreithiau'r Senedd y maent yn rhan ohoni, o ganlyniad i'r gofyniad preswyllo i Aelodau; ac adnewyddu democrataidd yn amlach yn sgil y ffaith fod etholiadau i'r Senedd yn cael eu cynnal bob pedair blynedd yn hytrach na phob pum mlynedd.

626. Yn 2020, darparodd yr Athro Laura McAllister dystiolaeth i'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd yn nodi y gallai'r manteision lleiaf o ran effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus, prosesau gwneud penderfyniadau gwell, neu unioni diffygion posibl mewn polisi neu ddeddfwriaeth yn gynnar o ganlyniad i waith craffu gwell a wneir gan Senedd sy'n fwy o ran maint arwain at fanteision ariannol ac anariannol:

*“Ond rwy'n teimlo y byddai Cynulliad mwy neu Gynulliad o faint priodol—i'w roi mewn ffordd arall—mewn gwirionedd yn arwain at arbedion i bwrs y wlad drwy graffu effeithiol. Credaf y byddai'n cyflawni'n well o ran polisi a deddfwriaeth ar lefel sylfaenol iawn i'r boblogaeth, ac ni all fod y tu hwnt i ni, fel poblogaeth, [...] i allu cyflwyno'r achos hwnnw'n effeithiol i bobl.”<sup>149</sup>*

627. Ar ben hynny, roedd tystiolaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd yn 2020 yn ceisio mesur graddfa'r enillion y byddai eu hangen i wrthbwysu'r

---

<sup>149</sup> Yr Athro McAllister, Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru, Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, 20 Ionawr 2020, paragraff 91.

costau ychwanegol posibl. Dywedodd y byddai gwelliant mewn gwerth neu arbedion ariannol o ddim ond 0.17 y cant mewn perthynas â gwariant blynyddol Llywodraeth Cymru o £17.5 biliwn yn gwrthbwysu'r gost flynyddol ychwanegol o 30 Aelod ychwanegol a amcangyfrifwyd yn adroddiad y Panel Arbenigol (£10 miliwn y flwyddyn i gyd, gan gynnwys costau cymorth).<sup>150</sup>

628. Gan ddefnyddio dull tebyg gyda ffigurau o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn (gan gymryd y ffigurau lleiaf a mwyaf ar gyfer cyfanswm costau 2031–32 gan mai dyma lle disgwylir 'cyflwr sefydlog' newydd) a Chronfa Gyfunol Cymru ar gyfer 2023–24:

- Cronfa Gyfunol Cymru £24,138,851,000
- Lleiaf: £14,513,698 = 0.06013%
- Mwyaf: £17,596,381 = 0.07290%

629. Felly, rhagwelir y byddai gwelliant mewn gwerth neu arbedion ariannol o lai na 0.1% o Gronfa Gyfunol Cymru yn gwrthbwysu'r costau ychwanegol.

630. Barn y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd ei hun oedd:

*“Ni ddylai cost yn unig fod yn esgus dros fethu â buddsoddi yn ein democratiaeth drwy sicrhau bod trefniadau etholiadol y Senedd yn briodol, a bod ei ffiniau a'i dosraniadau seddi yn sicrhau bod gan bobl ledled Cymru gynrychiolaeth gyfartal a lleisiau cyfartal wrth ddewis eu cynrychiolwyr.”<sup>151</sup>*

631. Roedd y farn hon yn ategu sylwadau cynharach gan Gomisiwn Silk yn ei adroddiad cyntaf yn 2012<sup>152</sup> (*‘Mae craffu da yn golygu deddfwriaeth dda, ac mae deddfwriaeth dda yn talu amdani’i hun.*) a'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol (yn 2014) ‘Dylai strwythur democrataidd mwy effeithiol fod yn rhan hanfodol o ddiwallu'r angen am ddemocratiaeth fwy aeddfed sy'n gwasanaethu pobl Cymru yn well. Mae system ddemocrataidd sy'n

<sup>150</sup> Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Llythyr at y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd](#), 15 Mai 2020.

<sup>151</sup> Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, Diwygio'r Senedd: Y Camau Nesaf, Medi 2020, paragraff 371

<sup>152</sup> Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru, Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, Mawrth 2014, [nationalarchives.gov.uk](http://nationalarchives.gov.uk)

cael ei rheoli mewn dull eilradd yn tanseilio llywodraethu effeithiol ac effeithlon, ac yn y pen draw mae hefyd yn arwain at gostau uwch oherwydd prosesau craffu annigonol.<sup>153</sup>

632. Yn gyffredinol, felly, er ei bod yn debygol mai cyfyngedig fydd manteision ariannol y newidiadau a gynigir yn y ddeddfwriaeth, disgwylir i ystod o fanteision ddeillio ohonynt a cheir cydnabyddiaeth o amryw o ffynonellau y byddai diwygio'r Senedd yn arwain at fanteision.

---

<sup>153</sup> [Mae Maint yn Cyfrif: Gwneud y Cynulliad yn fwy effeithiol - Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol - ERS \(electoral-reform.org.uk\)](http://Mae Maint yn Cyfrif: Gwneud y Cynulliad yn fwy effeithiol - Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol - ERS (electoral-reform.org.uk))

## Rhan 3 – ASESIAU EFFAITH

### Pennod 9: Aseiad Effaith Integredig

633. Ochr yn ochr â'r aseiad o gostau, mae aseiad effaith integredig wedi'i gynnal ar bob elfen o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Diben yr aseiad oedd ystyried effaith darpariaethau'r Bil ar grwpiau penodol o bobl a meysydd polisi penodol ac ystyried unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud i'r Bil er mwyn lliniaru effeithiau negyddol neu sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol.

634. Crynhoir yr aseiad effaith integredig isod. Caiff ei gyhoeddi'n llawn ar wefan Llywodraeth Cymru a gellir darparu copi os gwneir cais drwy [DiwygiorSenedd@llyw.cymru](mailto:DiwygiorSenedd@llyw.cymru).

635. Lle mae'r Aseiad Effaith Integredig wedi nodi y gallai'r Bil gael effeithiau penodol, neu lle mae gofyniad deddfwriaethol i gynhyrchu aseuadau effaith unigol manylach o'r fath, mae'r aseuadau canlynol hefyd wedi cael eu cynnal:

- Cydraddoldeb;
- Hawliau Plant;
- Preifatrwydd;
- Y Gymraeg;
- Bioamrywiaeth;
- Cyfiawnder.

636. Crynhoir y rhain isod, yn yr is-benodau dilynol. Mae'r Aseiad o'r Effaith ar Gyfiawnder wedi'i nodi'n llawn.

637. Fel y nodwyd eisoes ym Mhennod 4, mae amrywiaeth o ymgynghoriadau cyhoeddus wedi'u cynnal o'r blaen ar faterion sy'n ymwneud â diwygio'r Senedd. Mae ymatebion i'r ymgynghoriadau hyn wedi helpu i lywio'r gwaith o baratoi'r aseuadau effaith integredig ac unigol. Mae aseuadau effaith unigol hefyd wedi cael eu llywio gan drafodaethau â rhanddeiliaid mewnol a deialog

benodol gyda rhanddeiliaid arbenigol allanol, gan gynnwys Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

638. Gellir nodi nad yw'r asesiad effaith integredig, na'r asesiadau effaith unigol, yn ceisio gwerthuso materion nad ydynt yn cael sylw yn y Bil hwn. Er enghraifft, ni chyfeirir at oblygiadau cwotâu rhywedd deddfwriaethol ar gyfer rhestrau sefydlog pleidiau o ymgeiswyr ar gyfer etholiad i'r Senedd, nac at oblygiadau cyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth yr ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiad, gan y bydd hyn yn cael sylw drwy ddeddfwriaeth ddilynol. Yn yr un modd, ni chyfeirir at y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynhyrchu canllawiau i helpu pleidiau gwleidyddol i ddatblygu strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant, oherwydd nid yw hyn yn codi'n benodol o'r Bil hwn.

639. Mae rhai o'r asesiadau effaith yn nodi effeithiau negyddol posibl ar grwpiau neu feysydd penodol. Fel y nodwyd yn yr asesiadau, cytunwyd ar fesurau lliniaru i osgoi neu i leihau effeithiau negyddol. Mae'r asesiadau effaith hefyd yn nodi y gallai rhai o ddarpariaethau'r Bil gael effeithiau cadarnhaol ar grwpiau neu feysydd penodol. Ni nodwyd unrhyw effeithiau a oedd yn golygu bod angen ailystyried neu oedi cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon.

## **Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig**

### ***Effaith ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol***

640. Mae'r asesiad effaith integredig yn ystyried goblygiadau'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r pum ffordd o weithio a nodir yn [Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#).

641. Yn y cyd-destun hwn, ystyrir bod y ddeddfwriaeth yn cael amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol, gan gynnwys o ran gallu **hirdymor** y Senedd i ddal Llywodraeth Cymru i gyfrif, gwneud deddfau, ystyried amrywiadau treth, a chynrychioli pobl Cymru. Mae hefyd yn cael gwared ar gyfyngiadau ar benderfyniadau yn y

dyfodol ynghylch datganoli pwerau, y dylid eu cymryd ar sail pa ddull sy'n diwallu anghenion pobl Cymru orau. Ystyrir bod gwell craffu'n arwain at bolisiau a deddfu gwell, a allai **atal** ystod eang o broblemau rhag codi yn y dyfodol. Bydd y mesurau yn y Bil sy'n ymwneud â rhannu swyddi yn helpu i osod y sylfeini ar gyfer deddfwrfa amrywiol a chynhwysol sy'n gallu adlewyrchu amrywiaeth ehangach o safbwyntiau a barnau yn well. Un o'r egwyddorion arweiniol yn fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio etholiadol yng Nghymru fu tegwch, lle mae'n rhaid galluogi pawb sy'n dymuno cymryd rhan mewn democratiaeth i wneud hynny, a gwneud hynny mewn amgylchedd diogel a pharchus, fel bod sefydliadau Cymru yn amrywiol ac yn gynrychioliadol o'r bobl y maent yn eu gwasanaethu.

642. Wrth ddatblygu newidiadau etholiadol, rhoddwyd ystyriaeth **integredig** i'r newidiadau ehangach sy'n effeithio ar gapasiti timau etholiadau awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys gweithredu Deddf Etholiadau Llywodraeth y DU 2022, a diwygiadau sy'n cael eu cyflawni ar wahân drwy Fil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) Llywodraeth Cymru.

643. Mae **cydweithio** ac **ymgysylltu** â phartneriaid a rhanddeiliaid wedi bod yn hanfodol i ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon, gan gynnwys partneriaid cyflawni allanol yn y gymuned etholiadol, a rhagwelir y bydd y dull hwn yn cael ei gynnal wrth weithredu'r ddeddfwriaeth hon.

### ***Effaith ar lesiant cymdeithasol***

644. Rhoddwyd ystyriaeth yn yr asesiad effaith integredig i sut, ac i ba raddau, y gall y ddeddfwriaeth effeithio ar bobl a chymunedau. Roedd hyn yn cynnwys effeithiau ar unigolion, grwpiau o bobl neu gymunedau penodol, pobl sy'n byw, yn gweithio, neu'n gysylltiedig â lleoedd penodol, defnyddwyr cynnyrch neu wasanaethau penodol, gweithwyr, yn gyffredinol ac mewn sectorau penodol, a'r nod o hyrwyddo gwaith teilwng a theg

(yn unol ag adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).

645. Er enghraifft, canfu'r asesiad y bydd mesurau i gynyddu maint y Senedd yn gyffredinol yn gwella ei allu i graffu ar fuddiannau amrywiaeth ehangach o gymunedau a phobl ledled Cymru a'u cynrychioli.
646. Fodd bynnag, canfu'r asesiad hefyd amrywiaeth o effeithiau posibl sy'n deillio o bobl yn byw mewn etholaethau Senedd mwy o faint. Efallai y bydd rhai'n ystyried hyn yn gadarnhaol, o ystyried y bydd eu hetholaeth nawr yn cael ei chynrychioli gan chwe Aelod, ac efallai y byddant yn ei hystyried yn fwy priodol i bob etholaeth gael ei chynrychioli gan yr un nifer o Aelodau. Efallai y bydd eraill yn gweld hyn yn fwy negyddol, gan deimlo o bosibl bod eu hardal leol wedi colli ei llais neu ei hunaniaeth. Bydd trigolion etholaeth Seneddol y DU yn Ynys Môn yn rhan o etholaeth fwy yn y Senedd o'i gymharu, ac yn un a fydd yn ymestyn i'r tir mawr. Ystyriwyd a fyddai trigolion Ynys Môn yn ystyried hyn yn effaith negyddol, o ystyried daearyddiaeth unigryw Ynys Môn fel ynys.
647. Mae'r asesiad hefyd yn nodi y bydd y ddeddfwriaeth yn anghymhwysu person nad yw wedi'i gofrestru ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol mewn etholaeth yn y Senedd rhag sefyll i gael ei ethol i'r Senedd (a bod yn Aelod o'r Senedd). Gall hyn olygu y bydd angen i unigolion sy'n byw y tu allan i Gymru ar hyn o bryd, ond sy'n bwriadu cael eu hethol i'r Senedd mewn etholiad yn y dyfodol, adleoli er mwyn bod yn breswlydd. Gellir nodi bod Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 eisoes yn darparu y caiff person nad oes ganddo gyfeiriad sefydlog neu barhaol gofrestru yn y man lle y mae'n treulio'r rhan fwyaf o'i amser, neu y mae ganddo gysylltiad lleol ag ef, drwy wneud datganiad o gysylltiad lleol.

### ***Prawfesur Gwledig***

648. Mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi dod i'r casgliad nad oedd angen asesiad effaith prawfesur gwledig llawn.



649. Wrth ddod i'r casgliad hwn, nododd yr Asesiad y bydd mesurau i gynyddu maint y Senedd yn gyffredinol yn gwella ei gallu i graffu ar bolisi a deddfwriaeth, gan gynnwys mewn perthynas ag unigolion a chymunedau gwledig ledled Cymru.
650. Roedd yr Asesiad hefyd yn ystyried goblygiadau cael etholaethau Senedd mwy yn ddaearyddol, gan gynnwys a allai pobl sy'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd gwledig ystyried bod hunaniaeth ac anghenion eu cymunedau yn cael eu cynnwys mewn ardal fwy. Roedd hefyd yn ystyried y risg y gallai pobl mewn cymunedau gwledig fod â phryderon y bydd aelodau etholedig y Senedd yn ddaearyddol ymhellach i ffwrdd o'u cymunedau. Fodd bynnag, mae'r Asesiad hefyd yn nodi y bydd system etholiadol newydd y Senedd yn golygu y bydd pobl mewn cymunedau gwledig yn cael eu cynrychioli gan chwe Aelod, a allai liniaru risgiau o'r fath. Ar ben hynny, fel rhan o'r adolygiad 'paru' o ffiniau (cyn etholiad y Senedd yn 2026) gall Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ystyried "unrhyw glymau lleol" a fyddai'n cael eu torri gan y parau arfaethedig. Hefyd, wrth ystyried a ddylid gwneud newidiadau i ffiniau etholaethau'r Senedd fel rhan o'r adolygiad sydd i'w gynnal cyn etholiad 2030 (a hefyd mewn adolygiadau dilynol), gall Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru hefyd ystyried "unrhyw glymau lleol" a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau o'r fath. Ystyrir y bydd hyn yn lleddfu unrhyw effeithiau o'r fath ar hunaniaeth cymunedau gwledig.
651. Yn ogystal â hyn, mae'r Asesiad hefyd yn nodi bod y Bil yn darparu i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru, fel rhan o'i adolygiadau o ffiniau, ystyried yr ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys maint, siâp a hygyrchedd etholaethau newydd neu rai sy'n bodoli eisoes yn y Senedd. Mae hyn yn golygu y bydd y Comisiwn yn ystyried effeithiau posibl maint etholaethau fel rhan o'i waith. Ar ben hynny, ni fydd newidiadau i ffiniau etholaethau'r Senedd yn effeithio ar fynediad at wasanaethau sydd

ar gael i bobl mewn cymunedau gwledig, gan nad yw'r rhain yn cael eu darparu ar sail etholaethau'r Senedd.

652. Y tu hwnt i'r materion hyn, ni ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn cael effeithiau penodol ar bobl mewn cymunedau gwledig. O'r herwydd, nid oes Asesiad llawn ar Effaith Prawfesur Gwledig wedi'i gynnal.

### ***Iechyd***

653. Mae'r Asesiad yn nodi, yn gyffredinol, y bydd mesurau i gynyddu maint y Senedd yn gwella ei gallu i graffu ar bolisïau a deddfwriaeth, gan gynnwys mewn perthynas ag iechyd cymunedau a phobl ledled Cymru. Fodd bynnag, y tu hwnt i hyn, ni ystyrir bod y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil yn effeithio (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol) ar iechyd. O'r herwydd, nid oes Asesiad llawn o'r Effaith ar Iechyd wedi'i gynnal.

### ***Effeithiau Economaidd***

654. Yn gyffredinol, bydd mesurau i gynyddu maint y Senedd yn gwella ei allu i graffu ar bolisi a deddfwriaeth sy'n ymwneud â llesiant economaidd. Fodd bynnag, y tu hwnt i hyn, ni ystyrir bod y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil yn effeithio (naill ai'n fuddiol neu'n negyddol) ar lesiant economaidd.

655. Mae goblygiadau costau cyffredinol y deddfwriaeth hefyd yn cael eu hystyried yn briodol, gan y disgwylir i waith craffu gwell ar gynlluniau gwario helpu i sicrhau'r gwerth gorau am arian o gyllideb flynyddol Cymru o oddeutu £24 biliwn.

656. O'r herwydd, nid oes Asesiad llawn o'r Effaith Economaidd wedi'i gynnal.

### ***Effaith ar y Sector Cyhoeddus***

657. Ni chynhaliwyd asesiad llawn o effaith y Bil ar y Sector Cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi ystyried goblygiadau posibl y Bil i'r sector cyhoeddus yn fanwl.
658. Bydd cynyddu nifer yr Aelodau o'r Senedd, uchafswm nifer Gweinidogion Cymru ac uchafswm nifer y Dirprwy Lywyddion yn arwain at oblygiadau amrywiol i lwyth gwaith cyrff cyhoeddus fel Comisiwn y Senedd (wrth roi cymorth i Aelodau) a Llywodraeth Cymru (wrth ddarparu cymorth i Weinidogion ac ymateb i graffu seneddol). Mae'r rhain yn cael eu hystyried yn fanwl yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil.
659. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru, dan ei enw newydd, gael ei addasu er mwyn cynnal adolygiadau o ffiniau etholaethau'r Senedd. Yn ogystal â'r cyfrifoldebau hyn, bydd y Comisiwn yn parhau i gyhoeddi rhaglen waith sy'n cadw golwg ar drefniadau etholiadol y 22 prif gyngor yng Nghymru. Mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer cynnydd yn nifer uchaf y Comisiynwyr a ganiateir ar gyfer y Comisiwn, er mwyn ystyried y cyfrifoldebau ychwanegol a'r cynnydd disgwylidig yn llwyth gwaith y Comisiynwyr.
660. Rhagwelir y bydd Bil arfaethedig Llywodraeth Cymru, sef Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), yn darparu y bydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn ysgwyddo swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Mae'r cynnydd yn nifer uchaf y Comisiynwyr yn rhagweld y newid hwn. Yn y cyd-destun hwn, gellir ystyried bod cynyddu'r nifer uchaf o bump i naw yn cynrychioli gostyngiad o 25% yn y terfyn cyfunol uchaf o 12 o fewn y ddau gorff presennol (pum comisiynydd ffiniau a saith aelod panel).
661. Mae'r Asesiad hefyd yn ystyried goblygiadau'r cyfrifoldebau ychwanegol sy'n cael eu rhoi i ysgrifenyddiaeth Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Mae costau ychwanegol sy'n

deillio o'r llwyth gwaith hwn wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.

662. Mae'r Asesiad hefyd yn ystyried goblygiadau newidiadau i'r system bleidleisio sy'n gysylltiedig ag Etholiadau'r Senedd i gyrff cyhoeddus, fel awdurdodau lleol yn diwygio ac yn addasu arferion presennol, a'r Comisiwn Etholiadol yn cynhyrchu canllawiau wedi'u diweddarau i egluro'r newidiadau i bawb sy'n ymwneud ag etholiadau, gan gynnwys ymgeiswyr a phleidleiswyr. Mae goblygiadau ariannol newidiadau o'r fath wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.

663. Mae'r Asesiad hefyd yn nodi y bydd cynyddu amllder etholiadau cyffredinol y Senedd yn arwain at y costau cynyddol lleiaf posibl sy'n gysylltiedig â gweinyddu etholiadau'r Senedd ar gyfer gweinyddwyr etholiadol a chyrrff fel y Comisiwn Etholiadol. Mae hefyd yn golygu bod angen cynnal adolygiadau o ffiniau'n amlach nag y byddai angen fel arall (h.y. unwaith bob wyth mlynedd, yn hytrach nag unwaith bob deng mlynedd). I'r gwrthwyneb, bydd dileu'r angen am is-etholiadau yn arwain at arbedion ariannol i gyrff sy'n ymwneud â'u trefnu. Mae goblygiadau ariannol newidiadau o'r fath wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.

### ***Effaith ar y Trydydd Sector***

664. Canfu'r Asesiad y gallai'r ddeddfwriaeth gael effeithiau ymylol ar gyrff y trydydd sector sydd â diddordeb penodol mewn systemau pleidleisio etholiadol.

665. Fodd bynnag, ni ystyrir bod y goblygiadau hyn yn ddigon sylweddol i fynnu asesiad llawn o effaith y Bil ar y Trydydd Sector.

### ***Effaith ar Lesiant Amgylcheddol***

666. Yn gyffredinol, bydd mesurau i gynyddu maint y Senedd yn gwella ei gallu i graffu ar bolisiau a deddfwriaeth sy'n ymwneud â llesiant amgylcheddol.

667. Y tu hwnt i hyn, ni ystyrir bod y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil yn effeithio (naill ai'n fuddiol neu'n negyddol) ar lesiant amgylcheddol.

668. Fodd bynnag, er mwyn cydymffurfio ag Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth wedi cael ei gynnal.

### ***Effaith ar Anfantais Economaidd-gymdeithasol***

669. Yn gyffredinol, bydd mesurau i gynyddu maint y Senedd yn gwella ei gallu i graffu ar effaith polisiau a deddfwriaeth sy'n ymwneud ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

670. Y tu hwnt i hyn, ni ystyrir bod y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil yn effeithio (naill ai'n fuddiol neu'n negyddol) ar lesiant economaidd.

### ***Asesiad Cystadleuaeth***

Ni ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn creu risg o effaith sylweddol neu niweidiol ar gystadleuaeth. Ni ystyrir bod gan y Bil oblygiadau uniongyrchol i fusnesau preifat, nac i farchnadoedd daearyddol, cynnyrch, amserol na pharhaol.

## **Crynodeb o'r Aseiad Effaith ar Gydraddoldeb**

671. Cynhaliwyd yr Aseiad Effaith ar Gydraddoldeb i ystyried effeithiau posibl y ddeddfwriaeth ar bobl â nodweddion gwarchoddedig fel y disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.
672. Mae'r Aseiad Effaith Llawn yn nodi, mewn termau cyffredinol, y disgwylir i'r Bil gael effeithiau cadarnhaol ar y cyfan ar amrywiaeth o bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig. Bydd mesurau i gynyddu maint y Senedd o bosibl yn gwella ei gallu i graffu ar fuddiannau amrywiaeth ehangach o gymunedau a phobl ledled Cymru, a'u cynrychioli, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig fel y disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

## **Crynodeb o'r Aseiad Effaith ar Hawliau Plant**

673. Rhaid i Weinidogion roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wrth arfer unrhyw swyddogaeth.
674. Mae'r Aseiad Effaith ar Hawliau Plant yn ystyried effaith Bil Senedd Cymru (Aelodaeth ac Etholiadau) ar blant yng Nghymru a'u hawliau o dan CCUHP.
675. Mae CCUHP yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sy'n berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 18 oed. Fe'i cadarnhawyd gan y DU ym mis Rhagfyr 1991 a daeth i rym yn y DU ym mis Ionawr 1992.
676. Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru y Confensiwn fel sail ar gyfer llunio polisiau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru yn 2004. Mae hawliau plant yng Nghymru yn cael eu diogelu ymhellach gan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau sylweddol yn CCUHP a'i brotocolau dewisol.

677. Mae Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant yn fecanwaith allweddol ar gyfer gweithredu CCUHP. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w cynnal fel ffordd o sicrhau bod sylw dyladwy yn cael ei roi i hawliau plant wrth gyflwyno deddfwriaeth neu arfer swyddogaethau Gweinidogol.
678. Wrth baratoi'r Bil, ystyriwyd a allai hyn effeithio ar blant a grwpiau penodol o blant. Mae hyn wedi cyfrannu at y dadansoddiad o'r modd y mae'r Bil yn effeithio ar Erthyglau'r Confensiwn.
679. Mae'r Asesiad yn nodi nad yw'r effaith gyffredinol ar Hawliau Plant yn sylweddol, a'i bod yn gadarnhaol ar y cyfan.
680. Wrth ddod i'r casgliad hwn, nododd yr Asesiad fod ymgynghoriad 2018 Comisiwn y Senedd, *Creu Senedd i Gymru*, wedi gofyn am safbwyntiau ar argymhellion y Panel Arbenigol (gan gynnwys newidiadau i drefniadau gweithredol, etholiadol a maint y Senedd). Ni chodwyd unrhyw bryderon yn benodol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc.<sup>154</sup> Cafodd yr ymgynghoriad hwn ei lywio gan amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys cyhoeddi dogfen ymgynghori a ffurflen ymateb Hawdd eu Darllen, yn ogystal â gweithdai a grwpiau ffocws gyda dros 400 o bobl ifanc (er bod gweithdai o'r fath yn canolbwyntio'n bennaf ar ostwng yr oedran pleidleisio yn etholiadau'r Senedd, a gafodd ei argymhell hefyd gan y panel arbenigol, ac sydd wedi cael ei roi ar waith ers hynny).
681. Yn gyffredinol, mae'r Asesiad o'r farn y bydd newidiadau i faint y Senedd yn cael effaith gadarnhaol ar bob plentyn, o ran eu cynrychiolaeth gan Aelodau o'r Senedd, a'u cyfle i gyfrannu'n uniongyrchol at waith y Senedd, drwy ddeisebau cyhoeddus, ymgysylltu ag ymchwiliadau pwyllgor, ac ati.
682. Mae'r Bil yn berthnasol i nifer o erthyglau yn CCUHP. Yr erthyglau mwyaf perthnasol a nodwyd yw erthyglau 2, 12 a 13 a

---

<sup>154</sup> Comisiwn y Senedd, [Creu Senedd i Gymru: Adroddiad yr ymgynghoriad](#), Hydref 2018.

17, sy'n cyfeirio at barchu barn y plentyn, rhyddid mynegiant a mynediad at wybodaeth. Mae hefyd yn codi rhai materion mewn perthynas ag erthygl 14, sy'n cyfeirio at ryddid meddwl, cred a chrefydd, ac erthygl 30, sy'n ymwneud â phlant o grwpiau lleiafrifol neu frodorol.

683. Mae **erthyglau 1, 3, 4 a 5** yn cynnwys egwyddorion cyffredinol y Confensiwn mewn perthynas â phwy sy'n cael ei amddiffyn, cadarnhad y dylai pob sefydliad perthnasol weithio tuag at fuddiannau pennaf plant, a rhyddid rhieni. Mae Erthyglau 1, 3, 4 a 5 yn cael eu parchu gan y Bil.

684. Mae **erthygl 2** yn ymdrin â hawl plant i fod yn rhydd rhag gwahaniaethu. Mae'r Asesiad yn nodi y bydd newidiadau i system etholiadol y Senedd yn cael effaith ar bobl ifanc 16 a 17 oed sy'n gallu pleidleisio, ond nid yw o'r farn fod hyn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol o'i gymharu â'i effaith ar bleidleiswyr sydd dros 18 oed. Nid yw'r Bil yn effeithio ar hawliau pobl ifanc 16 a 17 oed (gan gynnwys plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a phlant a phobl ifanc anabl) i bleidleisio – dim ond y ffordd y mae'r pleidleisiau o'r fath yn digwydd.

685. Ar hyn o bryd, nid oes pŵer statudol i adolygu ffiniau etholaethau'r Senedd – maent wedi'u hatal rhag addasu i adlewyrchu newidiadau yn nemograffeg y boblogaeth.

686. I ddechrau, rhoddir sylw i hyn at ddiben etholiad 2026 drwy baru etholaethau Senedd y DU (a sefydlwyd yn 2023) ac yn yr hirdymor drwy adolygiadau 'llawn' o'r ffiniau.

687. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi nodi nad yw'r rheolau ar gyfer cynnal yr adolygiad 'paru' ffiniau cyn etholiad y Senedd yn 2026 yn cynnwys gofyniad i fodloni cwota etholiadol. Gan fod etholaethau Seneddol y DU a fydd yn cael eu paru wedi cael eu ffurfio ar sail etholfraint Seneddol y DU, mae hyn yn golygu na fyddant yn ystyried dosbarthiad daearyddol pobl ifanc 16 a 17



oed (oherwydd nad oes ganddynt yr hawl i bleidleisio yn etholiadau Senedd y DU).

688. Fodd bynnag, ni ystyrir y bydd hyn yn cael effaith wahaniaethol ar bobl ifanc 16–17 oed eu hunain. Mae'n cyflwyno'r potensial i rai etholaethau gael nifer mwy neu lai o etholwyr nag y gellid ei ddisgwyl ar sail cwota etholiadol y DU, ond ni ystyrir bod hyn yn gyfystyr ag effaith wahaniaethol ar bobl ifanc 16 a 17 oed eu hunain.

689. Mae effaith pobl ifanc 16 a 17 oed ar amrywiadau ym maint pleidleiswyr etholaethau hefyd yn debygol o gael ei gwrthbwysu gan y canlynol:

- yr amrywiadau poblogaeth presennol ym maint etholaethau'r Senedd – gan nad oes mecanwaith o gwbl ar hyn o bryd i ffiniau etholaethau ystyried demograffeg y boblogaeth;
- mae gan Ynys Môn statws gwarchoddedig o fewn yr adolygiad o ffiniau etholaethau Seneddol y DU, sy'n golygu y bydd yr etholaeth sy'n cynnwys Ynys Môn ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026 yn llai o lawer o ran nifer yr etholwyr na'r etholaethau eraill.
- newidiadau yn nemograffeg y boblogaeth ers cofrestrau Senedd y DU ar 2 Mawrth 2020, yr oedd etholaethau Seneddol y DU yn seiliedig arnynt yn 2023.

690. Ar ben hynny, mae'r adolygiad 'llawn' dilynol sydd i'w gynnal cyn etholiad 2030 yn cynnwys gofyniad i fodloni cwota etholiadol (a fydd yn cynnwys pobl ifanc 16 a 17 oed fel rhan o'r etholfraint), ac felly bydd etholfraint etholiadol y Senedd yn cael ei hystyried fel rhan o hynny ac unrhyw adolygiadau dilynol.

691. Ni fydd newidiadau i'r gyfraith ar anghymhwysu rhag bod yn Aelod o'r Senedd yn effeithio'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc. Yn hytrach, bydd angen i ddarpar Aelodau fod yn 18 oed ar y diwrnod y cânt eu henwebu er mwyn sefyll mewn etholiad. Gellid dadlau'n ddamcaniaethol bod hyn yn gwahaniaethu yn erbyn plant

a phobl ifanc ar sail oedran, ac y dylid gostwng oedran ymgeisyddiaeth. Fodd bynnag, ni chafodd y mater hwn ei godi fel pryder yn ymgynghoriad 2018 Comisiwn y Senedd, *Creu Senedd i Gymru*.

692. Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymgynghori'n ynghylch a ddylai pobl ifanc 16 a 17 oed allu sefyll i gael eu hethol i Senedd yr Alban. Fodd bynnag, nododd yr ymgynghoriad amrywiaeth o gymhlethdodau sy'n gysylltiedig â hynny, gan gynnwys y canlynol:

*“Enabling 16- and 17-year-olds to stand for election could be argued to raise potential wellbeing concerns, such as the potential exposure of young people to intimidation (e.g. in the form of hate speech or on the campaign trail). Working hours at the Scottish Parliament and in local councils could also be a potential concern for 16 and 17-year-old representatives. The Scottish Parliament's normal Parliamentary week is between the hours of 14:30 and 17:30 on Monday, 09:15 and 17:30 on Tuesday, Wednesday and Thursday and 09:30 and 12:30 on Friday a meeting of the Parliament may continue to 19:00 on Wednesday if the Parliament so decides. An MSP may also have to live in Edinburgh during the week, if their home is too far away to travel to the Parliament each day, which could be an additional concern for 16 and 17 year olds. It could also be argued that holding office at the age of 16 or 17 could impact on a young person's education (e.g. in the taking of exams) and there are also data protection issues that arise in relation to the handling of personal data of persons aged under 18.”<sup>155</sup>*

693. Yn ogystal â hyn, mae pob person ifanc rhwng 11 a 17 oed sy'n byw, neu sy'n derbyn addysg, yng Nghymru yn gymwys i sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad etholaethol i Senedd Ieuenctid Cymru. Mae cyfleoedd hefyd i sefyll fel ymgeisydd mewn cynghorau ysgol ac ieuenctid.

694. O ganlyniad i hyn, ni ystyrir bod y penderfyniad i beidio â lleihau oedran ymgeisyddiaeth etholiadau'r Senedd yn tresmasu ar hawliau plant i fod yn rhydd rhag gwahaniaethu.

695. Gellir nodi hefyd nad yw'r cynnydd ym maint y Senedd yn golygu newidiadau deddfwriaethol i Senedd Ieuenctid Cymru. Fodd

---

<sup>155</sup> Llywodraeth yr Alban, Ymgynghoriad ar Ddiwygio Etholiadol, cyhoeddwyd 14 Rhagfyr 2022, [Electoral reform consultation - gov.scot \(www.gov.scot\)](https://www.gov.scot/consultation-electoral-reform).

bynnag, mae'r ystod uchaf o gostau a ddarperir gan Gomisiwn y Senedd yn cynnwys cynnydd posibl ym maint Senedd leuenctid Cymru i 96. Nid yw hwn yn benderfyniad i Lywodraeth Cymru ei wneud, ond gellir nodi y byddai ehangu Senedd leuenctid Cymru yn arwain at fanteision o ran galluogi mwy o blant a phobl ifanc i gymryd rhan ynddi.

696. Gellir nodi hefyd na fyddai newidiadau i'r system etholiadol y mae Aelodau o'r Senedd yn pleidleisio ynddi yn golygu bod angen newidiadau deddfwriaethol yn system etholiadol Senedd leuenctid Cymru. Ni fyddai newid ym maint Senedd leuenctid Cymru ychwaith. Ar hyn o bryd, mae traean o Aelodau Senedd leuenctid Cymru yn cael eu hethol drwy sefydliadau partner, sydd wedi'u dewis ar sail eu gallu i ddychwelyd a chefnogi pobl ifanc o gefndiroedd amrywiol, gyda'r ddwy ran o dair sy'n weddill yn cael eu hethol drwy etholiadau cyntaf i'r felin yn yr etholaeth. Gallai'r cydbwysedd hwn gael ei gynnal mewn Senedd leuenctid 96 Aelod (h.y. gallai 32 Aelod o Senedd leuenctid Cymru gael eu hethol drwy sefydliadau partner a gallai 64 Aelod gael eu hethol drwy etholiad cyntaf i'r felin ac ar-lein, gyda phob un o'r 16 etholaeth yn ethol pedwar Aelod). Unwaith eto, ni fydd penderfyniadau ynghylch trefniadau a systemau etholiadol Senedd leuenctid Cymru yn fater i Lywodraeth Cymru benderfynu arnynt.

697. Mae **Erthygl 12** CCUHP yn datgan bod gan bob plentyn yr hawl i fynegi ei farn, ei deimladau a'i ddymuniadau ym mhob mater sy'n effeithio arno, ac i'w safbwyntiau gael eu hystyried a'u cymryd o ddifrif. Ystyrir y bydd gwella maint y Senedd o bosibl yn gwella ei gallu i ystyried o ddifrif safbwyntiau, teimladau a dymuniadau plant a phobl ifanc ledled Cymru. Ystyrir bod erthygl 12 yn cael ei roi ar waith drwy'r Bil.

698. Mae **Erthygl 13** yn datgan bod rhaid i bob plentyn fod yn rhydd i gael a rhannu gwybodaeth, cyn belled nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddynt hwy nac i eraill. Unwaith eto, ystyrir y bydd gwella capasiti y Senedd o bosibl yn gwella ei gallu i ddarparu

gwybodaeth i blant a phobl ifanc ledled Cymru. Ystyrir bod erthygl 13 yn cael ei roi ar waith drwy'r Bil.

699. Mae **Erthygl 14** yn darparu y bydd rhaid i Wladwriaethau sy'n Bartion barchu hawl y plentyn i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd. Unwaith eto, ystyrir y bydd gwella capasiti y Senedd o bosibl yn gwella ei gallu i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ledled Cymru, gan roi budd i blant a phobl ifanc wrth roi llais i'w credoau. Ystyrir bod erthygl 14 yn cael ei pharchu gan y Bil.

700. Mae **Erthygl 17** yn darparu bod gan bob plentyn yr hawl i gael gwybodaeth ddibynadwy o amrywiaeth o ffynonellau ac y dylai'r llywodraeth annog y cyfryngau i ddarparu gwybodaeth y gall plant ei deall. Bydd deunyddiau addysg sy'n cael eu paratoi i hybu ymwybyddiaeth o'r newidiadau i system etholiadol y Senedd yn cael eu datblygu gan ystyried anghenion plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rheini sydd ag anableddau. Mae hyn yn rhoi erthygl 17 ac **erthygl 23** ar waith, sy'n darparu bod gan blentyn anabl yr hawl i fyw bywyd llawn a pharchus gydag urddas a, chyn belled ag y bo modd, gydag annibyniaeth, ac i chwarae rhan weithredol yn y gymuned.

701. Gellir nodi hefyd na fydd y Bil yn newid hawliau presennol pleidleiswyr anabl 16 a 17 oed. O dan y system etholiadol newydd, bydd pleidleiswyr yn parhau i allu gofyn am gymorth i farcio'r papur pleidleisio, defnyddio dyfais bleidleisio gyffyrddol (i helpu pobl ag amhariad ar eu golwg neu'r rheini sydd â deheurwydd cyfyngedig i farcio eu papur pleidleisio yn gyfrinachol), gan gyfeirio at fersiwn print bras o'r papur pleidleisio, a deall pan fydd manau pleidleisio wedi'u dynodi, bod rhaid ystyried hygyrchedd ar gyfer pleidleiswyr anabl.

702. Mae **erthygl 28** yn datgan bod gan bob plentyn yr hawl i addysg, tra bo **erthygl 29** yn nodi nodau addysg o'r fath. Er nad yw'r Bil ei hun yn deddfu'n uniongyrchol ar ei gyfer, rhagwelir y bydd ysgolion a sefydliadau addysg eraill yn darparu fframwaith

cefnogol ar gyfer pleidleiswyr 16 a 17 oed sy'n ceisio dysgu am y system etholiadol newydd. Fel y cyfryw, ystyrir bod erthyglau 28 a 29 yn cael eu parchu o dan y Bil.

### **Crynodeb o'r Asesiad Effaith ar Breifatrwydd**

703. Ni ystyrir bod y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil yn arwain at faterion sy'n ymwneud â phrosesu gwybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unigolion, neu'n ymwneud ag unigolion o'r fath yn unig. Er enghraifft, bydd cynnydd yn nifer yr Aelodau o'r Senedd yn golygu y bydd cyrff sydd eisoes yn prosesu gwybodaeth sy'n ymwneud ag Aelodau (er enghraifft, Comisiwn y Senedd) yn gyfrifol am fwy o wybodaeth. Fodd bynnag, mae gan gyrff o'r fath brosesau ar waith eisoes ar gyfer prosesu gwybodaeth am Aelodau, ac ni ystyrir bod y Bil yn effeithio ar brosesau o'r fath. Yn yr un modd, mae'r Bil yn darparu ar gyfer cynnydd yn nifer uchaf Gweinidogion a Dirprwy Lywyddion Llywodraeth Cymru, ond ni ystyrir ei fod yn effeithio ar y prosesau presennol ar gyfer ymdrin â gwybodaeth am Weinidogion neu Ddirprwy Lywyddion Llywodraeth Cymru.

### **Crynodeb o'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg**

704. Cynhaliwyd Asesiad llawn o'r Effaith ar y Gymraeg.
705. Yn gyffredinol, bydd mesurau i gynyddu maint y Senedd yn gwella ei allu i graffu ar bolisi a deddfwriaeth, gan gynnwys mewn perthynas â lles diwylliannol a'r Gymraeg.
706. Roedd yr Asesiad yn ystyried yn benodol y goblygiadau o ran y Gymraeg sy'n gysylltiedig ag enwi etholaethau'r Senedd. Bydd hyn yn elfen ganolog o adolygiadau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o ffiniau etholaethau'r Senedd. Mae'r Bil yn gosod gofyniad ar y Comisiwn i ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff (y ffordd gydnabyddedig o sillafu ac ysgrifennu geiriau) yr enwau Cymraeg arfaethedig ar gyfer etholaethau newydd y Senedd.

707. Efallai y bydd egwyddorion gwerthfawr o ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymru y gellir eu cymhwyso i enwau etholaethau newydd y Senedd. Bydd hyn yn golygu bod yr enwau Cymraeg ar gyfer etholaethau'r Senedd yn gywir ac yn adlewyrchu rhai confensiynau (er enghraifft, pryd y dylid defnyddio cysylltnodau, a ddylid ysgrifennu enwau fel un gair neu fwy ac ati).
708. Yn dilyn gwelliannau a wnaed i'r Bil yng Nghyfnod 2, mae'r gofyniad i ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg wedi cael ei ehangu i gwmpasu orgraff unrhyw enwau etholaethau arfaethedig.
709. Mewn adolygiadau blaenorol o ffiniau llywodraeth leol, mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wedi ystyried y Gymraeg fel agwedd ar glymau lleol y dylid ei hystyried. Disgwylir y bydd hyn hefyd yn wir ar gyfer adolygiadau o ffiniau'r Senedd, fel bod cynigion yn cael eu cyflwyno nad ydynt yn taseilio'r defnydd o'r Gymraeg.
710. Bydd y rheoliadau a fydd yn rhoi effaith gyfreithiol i etholaethau newydd y Senedd ar ôl i'r adolygiadau ffiniau gael eu cwblhau yn cael eu gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r Gorchymyn sy'n nodi etholaethau presennol y Senedd, *Gorchymyn Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad (Cymru) 2006 (fel y'i diwygiwyd)* – yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd. O ganlyniad, bydd enwau Cymraeg etholaethau'r Senedd yn bodoli yn y gyfraith am y tro cyntaf. Bydd hyn yn ymestyn i'r gyfraith yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn ymarferol (h.y. defnyddiwyd yr enwau Cymraeg a Saesneg wrth gyfeirio at etholaethau presennol y Senedd).
711. Fel y nodwyd yn y Bil fel y'i cyflwynwyd, fel rhan o'i adolygiadau, byddai'n ofynnol i'r Comisiwn gynnig enwau etholaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg, neu gynnig un enw pe bai hynny'n cael ei ystyried yn dderbyniol yn y ddwy iaith. Mewn sefyllfa lle byddai enwau gwahanol yn y Gymraeg a'r Saesneg, byddai'r ddau enw yn cael eu cynnwys yn fersiynau Cymraeg a

Saesneg yr adroddiadau y byddai'n eu cyhoeddi fel rhan o'r adolygiad. Roedd hyn er mwyn galluogi etholwyr i ystyried yn haws y dull a ddefnyddiwyd i nodi'r enwau etholaethau a argymhellir yn y ddwy iaith.

712. Yn dilyn gwelliannau i'r Bil yng Nghyfnod 2, mae'r rhagdybiaeth bellach wedi newid fel y bydd y Comisiwn yn ceisio rhoi un enw i etholaeth yn y Senedd, ac ni fydd ond yn cynnig enwau gwahanol ar gyfer cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg pe bai'r Comisiwn yn ystyried bod un enw yn annerbyniol. Effaith hyn yn ymarferol yw bod rhaid i'r enwau unigol a gynnigir ar gyfer etholaethau fod yn dderbyniol i'w defnyddio yn y Gymraeg. Mewn sefyllfa lle byddai enwau gwahanol yn cael eu cynnig yn y Gymraeg a'r Saesneg, mae'r gofyniad i gynnwys y ddau enw yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg o adroddiadau yn parhau.

## **Crynodeb o'r Asesiad Effaith ar Fioamrywiaeth**

713. Cynhaliwyd Asesiad llawn o'r Effaith ar Fioamrywiaeth.

714. Yn gyffredinol, bydd mesurau i gynyddu maint ac amrywiaeth y Senedd yn gwella ei gallu i graffu ar bolisiau a deddfwriaeth, gan gynnwys archwilio'r canlynol:

- i ba raddau y mae bioamrywiaeth wedi'i integreiddio i'r broses o wneud penderfyniadau;
- dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth Llywodraeth Cymru o bwysigrwydd bioamrywiaeth; a
- chapasiti Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu dros fioamrywiaeth.

715. Fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, disgwylir i'r newidiadau yn seilwaith ffisegol y Senedd sy'n darparu ar gyfer nifer cynyddol o Aelodau fod yn rhai mewnol. Ni ragwelir y bydd hyn yn cael effaith negyddol ar gynefinoedd na rhywogaethau drwy newidiadau mewn defnydd tir nac yn cael effaith negyddol ar

Strategaeth Garbon Comisiwn y Senedd, a oedd yn ymrwmo y byddai'r Senedd yn dyblu maint y gofod gwyrdd ar yr ystad.

716. Mae adroddiad blynyddol Comisiwn y Senedd ar gyfer 2021–2022 yn nodi bod y Comisiwn wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran bioamrywiaeth, gan gynnwys:

*“cynnydd sylweddol yn ardal gardd Tŷ Hywel, gan ddefnyddio ardal a oedd yn arfer cael ei gorchuddio â cherrig i ychwanegu planhigion newydd sy'n denu pryfed peillio ac ail bwll dŵr bach i gynnal rhywogaethau infertebrata. Rydym hefyd yn ymchwilio i allu'r safle i gefnogi draenogod, er mwyn helpu i leihau dirywiad yr anifeiliaid hyfryd hyn. Mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a chyda chefnogaeth Janet Finch-Saunders AS, y Comisiynydd Datblygu Cynaliadwy, yn ddiweddar rydym wedi cyflwyno ardal Gwesty Pryfed newydd i ardd Tŷ Hywel. Mae hyn yn cynnwys bocsys pryfed ar gyfer creaduriaid fel gwenyn unig a phryfed cop i nythu a gaeafu ynddynt, yn ogystal â bod yn ardal lle gellir gadael boncyff coeden Nadolig y Senedd i fod yn gynefin i bryfed. Mae prosiect Gwenyn y Pierhead wedi parhau drwy gydol y pandemig, ac nid yw'r gwenyn yn cymryd llawer o sylw o batrymau gwaith y staff a bywyd cyhoeddus yn gyffredinol yn eu hamgylchedd prysur ym Mae Caerdydd. Ar y cyfan, fe wnaethon nhw gynyddu eu cynhyrchiant mêl eto eleni. Heb dynnu unrhyw beth o'r trydydd cwch newydd, cynyddodd y ddau arall eu cynhyrchiant mêl bron i 30% eleni.”<sup>156</sup>*

717. Ni ragwelir y bydd newidiadau sy'n deillio o Fil Senedd Cymru yn cael effaith negyddol ar y cynnydd cadarnhaol hwn.

## **Asesiad Effaith ar Gyfiawnder**

718. Mae'r Asesiad Effaith ar Gyfiawnder wedi'i nodi'n llawn isod, ac eithrio enw'r Bil a manylion cyswllt personol swyddogion unigol Llywodraeth Cymru.

### ***Trosolwg***

719. Mae asesiad Llywodraeth Cymru o effeithiau'r ddeddfwriaeth hon yn nodi nad oes ganddi unrhyw effaith, neu effaith fach iawn, ar y system gyfiawnder.

720. Daethpwyd i'r casgliad hwn oherwydd nad yw'r ddeddfwriaeth yn creu nac yn ehangu unrhyw droseddau

---

<sup>156</sup> Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol 2021-2022, Mehefin 2022, Tudalen 23



presennol. Fel rhan o ddiwygiadau i'r Senedd a'i hetholiadau, cynigir ei bod yn ofynnol i unrhyw ymgeisydd ar gyfer bod yn Aelod o'r Senedd, unrhyw unigolyn sy'n cael ei ethol yn Aelod o'r Senedd, ac unrhyw unigolyn sy'n eistedd fel Aelod o'r Senedd, fod yn breswylwyr yng Nghymru (a fesurir drwy ystyried a yw wedi cofrestru fel etholwr ar gyfer etholiadau datganoledig). Cynigir y bydd peidio â chydymffurfio â'r diffiniad preswyllo yn faen prawf ar gyfer anghymhwysio unigolyn. Felly, mae'n bosib y gallai'r amgylchiadau lle gallai unigolyn gyflwyno deiseb etholiad, ac y gallai unigolyn (o dan Adran 19 o Ddeddf Llywodraeth Cymru) wneud cais i'r Uchel Lys gael eu hehangu. Nid oes unrhyw gynlluniau i greu na diwygio'r weithdrefn ar gyfer codi materion o'r fath.

721. Er bod y ddeddfwriaeth yn arwain at gynnydd posibl yn nifer y ceisiadau i'r llysoedd, ystyrir mai bach iawn yw'r tebygolrwydd y bydd cynnydd yn digwydd. Ar ben hynny, ni fydd yr effaith gyfyngedig iawn a ragwelir ar y system gyfiawnder (mewn perthynas â chreu gwaharddiad newydd ar gyfer sefyll i gael ei ethol i'r Senedd ar sail preswyllo) yn dod i rym tan etholiad cyffredinol y Senedd yn 2026, gan roi rhybudd i'r rheini y gallai hyn effeithio arnynt. Hefyd, dim ond dau achos posibl a fu o wneud datganiad ffug mewn perthynas ag anghymhwysio mewn etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru/Senedd Cymru ers 1999. Amcangyfrifir felly na fyddai unrhyw achosion yn y rhan fwyaf o etholiadau'r Senedd yn y dyfodol, fel yn y gorffennol.

### ***Natur y cynnig***

722. Mae'r cynigion isod yn ymwneud â'r ffordd y mae Senedd Cymru yn gweithredu, natur yr etholiadau, a materion cysylltiedig i gynyddu amrywiaeth ei haelodaeth.

723. Bydd Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru a bydd yn darparu ar gyfer nifer o fesurau, gan gynnwys y canlynol:

- cynyddu maint y Senedd i 96 o Aelodau a gwneud newid i system etholiadol y Senedd;
- cynyddu'r terfyn deddfwriaethol ar Weinidogion Cymru i 17 (yn ychwanegol at y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol) a chynyddu uchafswm nifer y Dirprwy Lywyddion y caniateir eu hethol o blith yr Aelodau'r o'r Senedd i ddau;
- ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr i'r Senedd, ac Aelodau ohoni, fod yn preswyllo yng Nghymru; ac
- adolygu gweithrediad y darpariaethau deddfwriaethol newydd yn dilyn etholiad 2026;

724. Ni ellir cyflawni'r un o'r rhain heb ddeddfwriaeth. Ni fydd unrhyw droseddau newydd yn cael eu creu.

### **Manylion Preswyllo**

725. Fel y nodir uchod, cynigir ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd, unrhyw unigolyn sy'n cael ei ethol yn Aelod o'r Senedd, ac unrhyw unigolyn sy'n eistedd fel Aelod o'r Senedd, fod yn breswylwyr yng Nghymru (a fesurir drwy ystyried a yw wedi cofrestru fel etholwr ar gyfer etholiadau datganoledig). Cynigir y bydd methu â chydymffurfio â'r diffiniad preswyllo yn faen prawf ar gyfer anghymhwysu unigolyn.

726. Bydd y ddarpariaeth anghymhwysu newydd (yn seiliedig ar breswyllo) yn dod i rym pan fydd y Senedd bresennol yn cael ei diddymu ar gyfer etholiad cyffredinol y Senedd yn 2026. Ystyrir ei bod yn bwysig sicrhau bod ymgeiswyr ac Aelodau yn byw yng Nghymru am ddau reswm allweddol:

727. Yn gyntaf, byddai'n cysoni'r gofyniad preswyllo i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd (o dan adran 12 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) â'r gofyniad preswyllo i sefyll mewn etholiadau.

728. Yn ail, byddai'n sicrhau bod llunwyr deddfau Cymru yn byw yn yr ardal y byddai'r cyfreithiau y maent yn eu pasio yn cael effaith ynddi.

729. Fodd bynnag, mae eisoes nifer sylweddol o seiliau ar gyfer anghymhwysio lle gallai unigolyn wneud cyflwyniad neu gais o'r fath (gweler adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac Atodlen 1A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Nid oes unrhyw ddeisebau etholiad wedi'u cyflwyno mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd, ac nid oes unrhyw gais wedi'i wneud i'r Uchel Lys ar y sail bod Aelod, ar unrhyw adeg ers ei ethol, wedi'i anghymhwysio. Felly, er bod ehangu'r sail ar gyfer anghymhwysio yn arwain at risg o gynnydd mewn ceisiadau posibl i'r llysoedd, ystyrir mai bach iawn yw'r risg honno.

730. Ar ben hynny, yn ystod y cyfnod ar gyfer enwebiadau, mae gan Swyddog Canlyniadau hawl i farnu bod papur enwebu yn annilys. Os dyna yw eu penderfyniad, mae'n derfynol ac ni ellir ei gwestiynu mewn unrhyw achos o gwbl. Mae hyn yn gweithredu fel gwiriad ar unrhyw ddatganiadau a gwaharddiadau cyn i unigolyn ddod yn ymgeisydd.

### **Adolygu ar ôl gweithredu**

731. Y bwriad yw y bydd y ddeddfwriaeth yn cael y Cydsyniad Brenhinol yn ystod haf 2024, ac y bydd y system etholiadol newydd y mae'n darparu ar ei chyfer yn cael ei rhoi ar waith mewn pryd ar gyfer Etholiad Cyffredinol y Senedd sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Mai 2026, ac yna ym mhob etholiad cyffredinol dilynol.

732. Cynigir bod y ddeddfwriaeth yn cynnwys ffordd i'r Senedd gynnal adolygiad o weithrediad ac effaith y ddeddfwriaeth ar ôl yr etholiad a drefnwyd ar gyfer mis Mai 2026, a'r Etholiad Cyffredinol wedi hynny. Er na chynigir bod gweithredu'r gofyniad preswyllo yn eitem benodol y dylai'r Senedd ei hystyried, cynigir bod y Senedd yn cynnwys yn ei hasesiad unrhyw faterion yn ymwneud â diwygio'r Senedd y mae o'r farn eu bod yn berthnasol.

### **Tebygrwydd i ddeddfwriaeth a gyflwynir yn Lloegr**

733. Amherthnasol.

## Pennod 10: Asesiad Fforddiadwyedd

### **Dull**

734. Er bod Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn asesu gwerth cymdeithasol ac felly'n cynnwys effeithiau diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol ochr yn ochr â chostau a manteision economaidd, mae asesiad fforddiadwyedd yn asesiad cwbl ariannol. O'r herwydd, dim ond costau arian parod a manteision sy'n rhyddhau arian sy'n cael eu cynnwys. Byddai unrhyw gostau a manteision amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ehangach a nodwyd mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael eu dileu o asesiad fforddiadwyedd.
735. Mae'r asesiad fforddiadwyedd yn ystyried yr un cyfnod â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, 2024–25 i 2031–32, ac yn cyfrif am ddiwygiadau a wnaed i'r Asesiad ar ôl Cyfnod 2.
736. Canfu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol nifer o gostau cyfle sy'n gysylltiedig â'r amser a dreulir gan aelodau presennol o staff ar weithgareddau sy'n ymwneud â gweithredu'r Bil. Gan nad yw'r costau cyfle hyn yn cynrychioli gwariant ariannol ychwanegol i'r sefydliadau dan sylw, maent wedi cael eu tynnu o'r asesiad fforddiadwyedd hwn.
737. Yn olaf, mae'r costau arian parod a'r manteision sy'n rhyddhau arian parod yn yr asesiad hwn wedi cael eu haddasu i adlewyrchu chwyddiant disgwylidig yn ystod y cyfnod gwerthuso. Mae'r addasiad hwn wedi cael ei wneud ar sail yr amcanestyniadau datchwyddydd cynnyrch domestig gros sydd wedi'u cynnwys yn Rhagolygon Economaidd a Chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR)<sup>157</sup> a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024. Pan gafodd y Bil ei gyflwyno, defnyddiwyd Rhagolygon Economaidd a Chyllidol yr OBR a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023. Nid oedd

---

<sup>157</sup> Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, [Economic and fiscal outlook, March 2024](#).

amcanestyniadau'r OBR ond yn ymestyn i 2028–29, fodd bynnag, roedd yr amcanestyniad yn weddol sefydlog ar gyfer dwy flynedd olaf y cyfnod a ragwelwyd (sef 1.9%) ac felly mae'r un gyfradd wedi cael ei defnyddio ar gyfer gweddill y cyfnod gwerthuso. Er bod chwyddiant yn gostwng erbyn hyn, mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch ei lwybr yn y dyfodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro effaith chwyddiant ar gostau ariannol y Bil.

738. Oni nodir yn wahanol, mae'r holl gostau wedi cael eu talgrynnu i'r £100 agosaf. Efallai na fydd rhai o'r cyfansymiau mewn tablau yn cyfateb oherwydd y talgrynnu hwn.

## **Cyrff**

### ***Comisiwn y Senedd***

739. Amcangyfrifon Comisiwn y Senedd sy'n cynrychioli'r gyfran fwyaf o oblygiadau o ran costau o ganlyniad i Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), y mae crynodeb ohono i'w weld yn y tabl isod. Mae'n werth nodi bod nifer o'r costau hyn yn seiliedig ar dybiaethau sy'n ymwneud â phenderfyniadau sydd eto i'w gwneud. Mae costau o'r fath yn ddewisol a gallent newid o ganlyniad i benderfyniadau cysylltiedig ar y pryd.

**Tabl 10.1: Asesiad fforddiadwyedd Comisiwn y Senedd**

Blwyddyn	2024/25		2025/26		2026/27	
	Newid Lleiaf	Newid Mwyaf	Newid Lleiaf	Newid Mwyaf	Newid Lleiaf	Newid Mwyaf
Costau cyfalaf	£1,032,000	£1,034,500	£1,712,500	£1,785,900	£682,300	£661,800
Costau referniw	£860,600	£912,600	£2,118,800	£3,534,500	£13,225,900	£15,994,800
<b>Cyfanswm</b>	<b>£1,892,600</b>	<b>£1,947,200</b>	<b>£3,831,300</b>	<b>£5,320,400</b>	<b>£13,908,300</b>	<b>£16,656,600</b>
<b>Cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant</b>	<b>£2,031,700</b>	<b>£2,090,300</b>	<b>£4,116,500</b>	<b>£5,785,900</b>	<b>£15,382,500</b>	<b>£18,422,200</b>

Blwyddyn	2027/28		2028/29		2029/30	
	Newid Lleiaf	Newid Mwyaf	Newid Lleiaf	Newid Mwyaf	Newid Lleiaf	Newid Mwyaf
Costau cyfalaf	£10,000	£10,000	£36,000	£36,000	£47,000	£49,000
Costau referniw	£12,858,900	£15,604,800	£12,858,900	£15,599,800	£13,158,900	£15,899,800
<b>Cyfanswm</b>	<b>£12,868,900</b>	<b>£15,614,800</b>	<b>£12,894,900</b>	<b>£15,635,700</b>	<b>£13,205,900</b>	<b>£15,948,800</b>
<b>Cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant</b>	<b>£14,503,300</b>	<b>£17,597,800</b>	<b>£14,808,500</b>	<b>£17,956,100</b>	<b>£15,453,600</b>	<b>£18,663,300</b>

Blwyddyn	2030/31		2031/32	
	Newid Lleiaf	Newid Mwyaf	Newid Lleiaf	Newid Mwyaf
Costau cyfalaf	£65,500	£81,900	£40,800	£61,400
Costau referniw	£14,358,900	£17,104,800	£12,858,900	£15,599,800
<b>Cyfanswm</b>	<b>£14,424,400</b>	<b>£17,186,700</b>	<b>£12,899,800</b>	<b>£15,661,100</b>
<b>Cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant</b>	<b>£17,199,700</b>	<b>£20,493,400</b>	<b>£15,674,900</b>	<b>£19,029,800</b>

740. Mae unrhyw gynnydd yng nghyllideb Comisiwn y Senedd yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd. Byddai cynnydd i adlewyrchu'r amcangyfrifon hyn yn cael ei gymryd yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru ac mae'n cynrychioli llai na 0.1% o'r gronfa gyffredinol (ar sail y gost 'cyflwr sefydlog' flynyddol ar ôl ei gweithredu fel cyfran o Gronfa Gyfunol Cymru 2023–24). Fodd bynnag, bydd hyn yn lleihau'r gyfran gyffredinol sy'n weddill yn y gronfa y byddai Llywodraeth Cymru yn gosod ei chynlluniau gwario ohoni.

741. Mae'r rhan fwyaf o'r costau'n ymwneud â staffio'n uniongyrchol o ganlyniad i'r cynnydd ym maint y Senedd, y darperir ar ei gyfer yn y Bil. Fel y disgrifir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn Rhan 2, pennod 8, amcangyfrifir bod y costau hyn yn cael eu gwrthbwysu gan raddfa'r enillion o ganlyniad i well craffu ar gyllidebau a deddfwriaeth, sy'n deillio o gapasiti cynyddol y Senedd. Asesiad Llywodraeth Cymru yw bod y costau cyffredinol felly'n fforddiadwy.

### ***Awdurdodau Lleol***

742. Ar hyn o bryd, mae cryn dipyn o ansicrwydd ynghylch y costau i'r Awdurdodau Lleol ac mae'n bosibl y gellid nodi costau ac arbedion ychwanegol ar ôl i'r trefniadau paru ar gyfer etholaethau gael eu cadarnhau a bod Awdurdodau Lleol yn gallu ystyried effaith weithredol y rhain a'r goblygiadau ar gyfer costau etholiad.

743. Fodd bynnag, bydd yr amcangyfrifon presennol ar oblygiadau'r Bil i Awdurdodau Lleol yn arbediad cyffredinol ac felly maent yn fforddiadwy. Bydd costau pontio cychwynnol o £60,000 yn 2025–26, ac ar ôl hynny amcangyfrifir y bydd arbediad o £375,500 fesul blwyddyn etholiad.

### ***Llywodraeth Cymru***

744. Costau cyfle yw'r rhan fwyaf o gostau Llywodraeth Cymru ac felly nid ydynt wedi cael eu cynnwys yn yr asesiad fforddiadwyedd. Dylid cydnabod bod rhaid gwneud penderfyniadau anodd ynghylch gwariant cyhoeddus yn y sefyllfa economaidd bresennol, ac felly disgwylir i'r rhan fwyaf o gostau Llywodraeth Cymru gael eu talu o'r adnoddau presennol gydag ail-flaenoriaethu mewn mannau eraill. Mae'r costau sy'n weddill (ac eithrio llai na £300,000 sy'n gysylltiedig â rheoli mwy o fusnes y Senedd) i gyd yn ddewisol a byddant yn cael eu pennu gan benderfyniadau a wneir gan y Prif Weinidog ar ôl etholiad 2026, yn bennaf nifer y penodiadau Gweinidogol.



**Tabl 10.2: Aseiad fforddiadwyedd Llywodraeth Cymru**

	2024/25		2025/26		2026/27		2027/28	
<i>Ystod</i>	Isel	Uchel	Isel	Uchel	Isel	Uchel	Isel	Uchel
Costau cyfalaf	£0	£0	£272,600	£272,600	£82,200	£82,200	£10,300	£10,300
Costau refeniw	£0	£0	£0	£0	£153,800	£153,800	£153,800	£153,800
Cyfanswm costau	£0	£0	£272,600	£272,600	£236,000	£236,000	£164,100	£164,100
<b>Cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant</b>	£0	£0	£296,500	£296,500	£261,200	£261,200	£185,000	£185,000

  

	2028/29		2029/30		2030/31		2031/32	
<i>Ystod</i>	Isel	Uchel	Isel	Uchel	Isel	Uchel	Isel	Uchel
Costau cyfalaf	£10,300	£10,300	£23,500	£23,500	£47,800	£47,800	£10,300	£10,300
Costau refeniw	£153,800	£153,800	£153,800	£153,800	£153,800	£153,800	£153,800	£153,800
Cyfanswm costau	£164,000	£164,000	£177,200	£177,200	£201,600	£201,600	£164,100	£164,100
<b>Cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant</b>	£188,500	£188,500	£207,400	£207,400	£240,400	£240,400	£199,400	£199,400

745. Mae hyn yn cynrychioli 0.0012% o gyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru (£24,055,592,000<sup>158</sup>) a dynnir o Gronfa Gyfunol Cymru. Yn ôl asesiad Llywodraeth Cymru, o ystyried y manteision a ragwelir o gael mwy o graffu, mae'r costau hyn yn fforddiadwy.

### ***Y Comisiwn Etholiadol***

746. Mae'r costau i'r Comisiwn Etholiadol ar gael yn y tabl isod. Cyllideb gyffredinol y Comisiwn Etholiadol yn 2023–24 yw £1,467,900 (£1,414,000 i ddechrau gyda Phwyllgor y Llywydd yn cymeradwyo swm ychwanegol o £53,900 gan y Senedd drwy broses y Gyllideb Atodol). Felly, byddai'r costau gweithredu blyneddol uchaf i'r Comisiwn Etholiadol yn cynrychioli 0.6% o gyllideb blwyddyn.

**Tabl 10.3: Asesiad fforddiadwyedd y Comisiwn Etholiadol**

<i>Ystod</i>		2024-25		2025-26		2026-27		2027-28	
		Isel	Uchel	Isel	Uchel	Isel	Uchel	Isel	Uchel
<b>Y Comisiwn Etholiadol</b>	Cyfalaf	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0
	Refeniw	£6,400	£6,400	£8,000	£8,000	£8,000	£8,000	£0	£0
<b>Cyfanswm</b>		£6,400	£6,400	£8,000	£8,000	£8,000	£8,000	£0	£0
<b>Cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant</b>		£6,900	£6,900	£8,700	£8,700	£8,900	£8,900	£0	£0

<i>Ystod</i>		2028-29		2029-30		2030-31		2031-32	
		Isel	Uchel	Isel	Uchel	Isel	Uchel	Isel	Uchel
<b>Y Comisiwn Etholiadol</b>	Cyfalaf	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0
	Refeniw	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0
<b>Cyfanswm</b>		£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0
<b>Cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant</b>		£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0

## ***Archwilio Cymru***

<sup>158</sup> [Cynnig y gyllideb derfynol 2023 i 2024 \(llyw.cymru\)](#)

747. Mae tua dwy ran o dair o gostau rhedeg Archwilio Cymru yn cael eu talu o ffioedd y maent yn eu codi ar gyrff archwiliedig am eu gwaith. Mae'r traean arall, ynghyd â'r holl wariant cyfalaf, yn cael ei dalu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru. Ar gyfer 2023–24, mae Archwilio Cymru yn cael £8,452,000 gan y Gronfa Gyfunol. Byddai angen cynnydd o hyd at 1.3% i dalu'r costau amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â'r Bil.

**Tabl 10.4: Asesiad fforddiadwyedd Archwilio Cymru**

		2024-25		2025-26		2026-27		2027-28	
<i>Ystod</i>		Isel	Uchel	Isel	High	Isel	Uchel	Isel	Uchel
Archwilio Cymru	Cyfalaf	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0
	Refeniw	£0	£0	£88,700	£88,700	£88,700	£88,700	£88,700	£88,700
Cyfanswm		£0	£0	£88,700	£88,700	£88,700	£88,700	£88,700	£88,700
Cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant		£0	£0	£96,500	£96,500	£98,100	£98,100	£100,000	£100,000

		2028-29		2029-30		2030-31		2031-32	
<i>Ystod</i>		Isel	Uchel	Isel	Uchel	Isel	Uchel	Isel	Uchel
Archwilio Cymru	Cyfalaf	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0
	Refeniw	£88,700	£88,700	£88,700	£88,700	£88,700	£88,700	£88,700	£88,700
Cyfanswm		£88,700	£88,700	£88,700	£88,700	£88,700	£88,700	£88,700	£88,700
Cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant		£101,900	£101,900	£103,800	£103,800	£105,800	£105,800	£107,800	£107,800

### ***Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru***

748. Mae cost y Bil i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru isod.

749. Nid yw'r rhain yn cynnwys costau cyfle, a fydd yn cael eu talu o adnoddau presennol y Comisiwn. Mae'r Comisiwn yn cael cyllideb flynyddol o £750,000 gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â chymorth grant. Byddai costau diwygio'r Senedd yn cynrychioli cynnydd o 62.97% yn ei gyllideb flynyddol yn y flwyddyn adolygu gyntaf. Nid yw hyn yn fforddiadwy i'r Comisiwn a bydd angen cynyddu ei gymorth grant gan Lywodraeth Cymru i dalu'r costau ychwanegol hyn yn 2024–25. Fodd bynnag, mae hyn

yn cynrychioli cyfran fach o gyfanswm cyllideb Llywodraeth Cymru ac felly ystyrir ei bod yn fforddiadwy o ystyried manteision disgwylidig trefniadau etholiadol mwy cyfredol a chynrychioladol y Senedd i bleidleiswyr.

Tabl 10.5: Aseiad fforddiadwyedd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

	Adolygiad cyntaf	Blwyddyn heb adolygiad	Ail adolygiad			Blwyddyn heb adolygiad		
	24/25	25/26	26/27	27/28	28/29	29/30	30/31	31/32
Costau cyfalaf	£36,000	£0	£48,000	£36,000	£36,000	£0	£0	£0
Costau refeniw	£404,000	£38,300	£231,200	£341,600	£267,300	£17,900	£17,900	£17,900
<b>Cyfanswm</b>	<b>£440,000</b>	<b>£38,300</b>	<b>£279,200</b>	<b>£377,600</b>	<b>£303,300</b>	<b>£17,900</b>	<b>£17,900</b>	<b>£17,900</b>
<b>Cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant</b>	<b>£472,300</b>	<b>£41,700</b>	<b>£308,800</b>	<b>£427,600</b>	<b>£348,300</b>	<b>£20,100</b>	<b>£21,400</b>	<b>£21,800</b>

## **Crynodeb Cyffredinol**

750. Mae cyfanswm costau'r Bil wedi'u cynnwys yn y tabl isod. Ar sail yr wybodaeth a amlinellir uchod, asesiad Llywodraeth Cymru yw y bydd y Bil yn fforddiadwy dros y cyfnod gwerthuso.

**Tabl 10.6: Crynodeb o'r Aseiad Fforddiadwyedd**

<i>Ystod</i>		2024-25		2025-26		2026-27		2027-28	
		Isel	Uchel	Isel	Uchel	Isel	Uchel	Isel	Uchel
<b>Comisiwn y Senedd</b>	Cyfalaf	£1,032,000	£1,034,500	£1,712,500	£1,785,900	£682,300	£661,800	£10,000	£10,000
	Refeniw	£860,600	£912,600	£2,118,800	£3,534,500	£13,225,900	£15,994,800	£12,858,900	£15,604,800
<b>Llyw. Cymru</b>	Cyfalaf	£0	£0	£272,600	£272,600	£82,200	£82,200	£10,300	£10,300
	Refeniw	£0	£0	£0	£0	£153,800	£153,800	£153,800	£153,800
<b>Comisiwn Ffiniau a Dem. Leol Cymru</b>	Cyfalaf	£36,000	£36,000	£0	£0	£48,000	£48,000	£36,000	£36,000
	Refeniw	£404,000	£404,000	£25,100	£25,100	£279,200	£279,200	£377,600	£377,000
<b>Allau</b>	Cyfalaf	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0
	Refeniw	£0	£0	£0	£0	-£375,500	-£375,500	£0	£0
<b>Archwilio Cymru</b>	Cyfalaf	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0
	Refeniw	£0	£0	£88,700	£88,700	£88,700	£88,700	£88,700	£88,700
<b>Y Comisiwn Etholiadol</b>	Cyfalaf	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0
	Refeniw	£6,400	£6,400	£8,000	£8,000	£8,000	£8,000	£0	£0
<b>Cyfanswm</b>		£2,338,600	£2,393,600	£4,238,900	£5,728,000	£14,192,600	£16,941,000	£13,535,300	£16,281,100
<b>Cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant</b>		£2,510,900	£2,569,500	£4,609,800	£6,229,200	£15,697,000	£18,736,700	£15,254,300	£18,348,800

<i>Ystod</i>		2028-29		2029-30		2030-31		2031-32	
		Isel	Uchel	Isel	Uchel	Isel	Uchel	Isel	Uchel
	Cyfalaf	£36,000	£36,000	£47,000	£49,000	£65,500	£81,900	£40,800	£61,400

<b>Comisiwn y Senedd</b>	Refeniw	£12,858,900	£15,599,800	£13,154,900	£15,899,800	£14,358,900	£17,104,800	£12,858,900	£15,599,800
<b>Llyw. Cymru</b>	Cyfalaf	£10,300	£10,300	£23,500	£23,500	£47,800	£47,800	£10,300	£10,300
	Refeniw	£153,800	£153,800	£153,800	£153,800	£153,800	£153,800	£153,800	£153,800
<b>Comisiwn Ffiniau a Dem. Leol Cymru</b>	Cyfalaf	£36,000	£36,000	£0	£0	£0	£0	£0	£0
	Refeniw	£303,300	£128,000	£17,900	£17,900	£17,900	£17,900	£17,900	£17,900
<b>ALLau</b>	Cyfalaf	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0
	Refeniw	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0
<b>Archwilio Cymru</b>	Cyfalaf	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0
	Refeniw	£88,700	£88,700	£88,700	£88,700	£88,700	£88,700	£88,700	£88,700
<b>Y Comisiwn Etholiadol</b>	Cyfalaf	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0
	Refeniw	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0	£0
<b>Cyfanswm</b>		£13,487,000	£16,227,800	£13,489,800	£16,232,600	£14,732,600	£17,494,900	£13,170,500	£15,931,800
<b>Cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant</b>		£15,488,500	£18,636,000	£15,785,700	£18,995,400	£17,567,200	£20,860,900	£16,003,400	£19,358,800



## Pennod 11: Adolygu ar ôl Gweithredu

751. Mae'r Bil yn darparu bod rhaid i'r Llywydd gyflwyno cynnig cyn gynted ag y bo'n ymarferol, a sut bynnag o fewn chwe mis ar ôl cyfarfod cyntaf y Senedd yn dilyn etholiad Mai 2026, a fyddai (os câi ei gymeradwyo gan y Senedd) yn sefydlu Pwyllgor i gynnal adolygiad o weithrediad ac effaith rhannau o'r Bil hwn.
752. Rhaid i'r adolygiad hwnnw gynnwys Rhannau 1 a 2 o'r Bil, sef y darpariaethau mewn perthynas â'r Senedd a'i Haelodau, nifer Gweinidogion Cymru, a'r system bleidleisio yn etholiadau cyffredinol y Senedd. Yn ogystal, rhaid i'r cynnig gynnig bod yr adolygiad hefyd yn ymdrin ag i ba raddau y mae elfennau democratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru, gan ganiatáu disgresiwn sylweddol i'r Pwyllgor benderfynu ar gwmpas yr adolygiad. Mae'r Bil yn darparu bod rhaid i'r Pwyllgor adrodd o fewn 12 mis i gyfarfod cyntaf y Senedd yn dilyn etholiad 2026.
753. Nid yw'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer adolygiad ôl-weithredu o'r darpariaethau sy'n ymwneud ag addasu'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol, na'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r cyfarwyddiadau y mae'n rhaid iddo eu dilyn wrth gynnal adolygiadau o ffiniau'r Senedd. Mae hyn yn cydnabod annibyniaeth gwaith y Comisiwn, a adlewyrchir yn awtomatiaeth gweithredu argymhellion y Comisiwn.

## Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol

# SENEDD CYMRU (MEMBERS AND ELECTIONS) BILL

---

### NODIADAU ESBONIADOL

#### CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 18 Medi 2023. Fe'u lluniwyd gan Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil ond nid ydynt yn rhan ohono.
2. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynyddu nifer yr Aelodau o'r Senedd, drwy ddiwygio nifer yr etholaethau a nifer y seddi ar gyfer pob etholaeth a dileu cyfeiriadau at y pum rhanbarth etholiadol. Mae hefyd yn gwneud newidiadau cysylltiedig sy'n deillio o'r newid hwn mewn maint. Mae'r rhain yn cynnwys cynyddu'r terfyn deddfwriaethol ar y nifer o Weinidogion Cymru a darparu ar gyfer Dirprwy Lywydd ychwanegol y caniateir ei ethol o'r Senedd.
3. Mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer newid system etholiadol aelodau cymysg y Senedd fel bod yr holl Aelodau yn cael eu hethol drwy system rhestr gyfrannol gaeedig, gyda phleidleisiau'n cael eu trosi i seddi drwy fformiwla D'Hondt. Ar y cyd, mae'n darparu ar gyfer addasu Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, ac ailenwi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Mae'r Bil yn darparu'r swyddogaethau sydd eu hangen ar y Comisiwn i gynnal adolygiadau parhaus o ffiniau etholaethau'r Senedd. Mae hefyd yn darparu cyfarwyddiadau i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru eu dilyn wrth gynnal eu hadolygiadau ffiniau, gan gynnwys mewn perthynas â'r adolygiad symlach i baru 32 etholaeth newydd Senedd y DU cyn etholiad 2026 y Senedd sydd wedi ei drefnu (i ffurfio 16 etholaeth Senedd newydd), adolygiad llawn cyn yr etholiad yn 2030 sydd wedi ei drefnu, ac adolygiadau cyfnodol parhaus.

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 18 09 2023*

4. Bydd y Bil hefyd yn dychwelyd y cyfnod arferol rhwng etholiadau cyffredinol cyffredin y Senedd i 4 blynedd; yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau o'r Senedd, ac ymgeiswyr i fod yn Aelodau ohoni, gael eu cofrestru ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol mewn cyfeiriad yng Nghymru; yn darparu gofyniad i'r Llywydd i gyflwyno cynnig i'r Senedd ystyried adolygiad o weithrediad y darpariaethau deddfwriaethol newydd yn dilyn etholiad 2026 a darparu gofyniad i'r Llywydd i gyflwyno cynnig i'r Senedd ymgymryd â gwaith i archwilio ystyriaethau ymarferol a deddfwriaethol sy'n ymwneud â rhannu rhai swyddi sy'n ymwneud â'r Senedd a Llywodraeth Cymru.

## RHAN 1

### Y SENEDD A GWEINIDOGION CYMRU

5. Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth i newid nifer yr Aelodau o'r Senedd, drwy ddiwygio nifer yr etholaethau a nifer y seddi ar gyfer pob etholaeth ac (ar y cyd â'r newidiadau i'r system etholiadol a wneir gan Ran 2), dileu cyfeiriadau at y pum rhanbarth etholiadol. Mae hefyd yn gwneud newidiadau cysylltiedig, megis darparu ar gyfer pennu etholaethau'r Senedd drwy gyfeirio at reoliadau a wneir i weithredu'r adolygiadau ffiniau y darperir ar eu cyfer yn Rhan 4, a diwygio amllder etholiadau cyffredinol cyffredin i'r Senedd. Ar y cyd â'r newid yn nifer yr Aelodau o'r Senedd, mae'n rhoi pŵer i benodi ail Ddirprwy Lywydd, yn ogystal â'r Dirprwy Lywydd y mae rhaid ei benodi yng nghyfarfod cyntaf y Senedd o dan adran 25(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn yr un modd, mae'n darparu ar gyfer cynyddu'r nifer uchaf o Weinidogion Cymru a gaiff ddal swydd ar yr un pryd. Mae hefyd yn anghymhwysu person nad yw wedi ei gofrestru ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol mewn cyfeiriad o fewn etholaeth Senedd, rhag sefyll etholiad i'r Senedd, neu rhag aros fel Aelod o'r Senedd. Mae'n darparu gofyniad i'r Llywydd i gyflwyno cynnig i'r Senedd i ymgymryd â gwaith i sefydlu pwyllgor i archwilio ystyriaethau ymarferol a deddfwriaethol sy'n ymwneud â rhannu rhai swyddi.
6. Mae adran 1 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") i ddarparu i'r Senedd gael 16 etholaeth, â chwe sedd ym mhob un. Mae hyn yn golygu y bydd gan y Senedd 96 Aelod (16 wedi ei luosi â chwech) ac eithrio mewn amgylchiadau pan fo un neu ragor o seddi yn y Senedd yn wag.
7. Mae adran 2 yn diwygio Deddf 2006 i ddarparu ar gyfer etholaethau'r Senedd o dan y system etholiadol newydd. Ar gyfer yr etholiad cyntaf a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026 bydd yr etholaethau yn cael eu pennu mewn rheoliadau a wneir o dan baragraff 9 o Atodlen 1 i'r Ddeddf. Yn

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 18 09 2023*

dilyn hynny, byddant yn cael eu pennu mewn rheoliadau o dan adran 49J o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 (enw byr y Ddeddf honno ar hyn o bryd yw Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, ond yng ngoleuni'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r Ddeddf honno gan y Bil hwn, fel a drafodir isod, mae adran 17 o'r Bil yn gwneud darpariaeth i newid ei enw). Mae hyn yn golygu y bydd Aelodau o'r Senedd yn cael eu hethol o'r 16 etholaeth Senedd yn unig (ni fydd Aelodau rhanbarthol).

8. Mae adran 3 yn diwygio amllder etholiadau cyffredinol cyffredin er mwyn eu cynnal bob pedair blynedd, yn hytrach na phob pum mlynedd.
9. Mae adran 4 yn darparu y bydd y Senedd yn gallu ethol ail Ddirprwy Lywydd, yn ogystal â'r Dirprwy Lywydd y mae rhaid ei benodi yng nghyfarfod cyntaf y Senedd o dan adran 25(1)(b) o Ddeddf 2006. Caiff Rheolau Sefydlog y Senedd ddarparu i'r Dirprwy Lywydd ychwanegol ddal swydd am gyfnod byrrach o amser na'r sefyllfa ddiodyn a ddarperir ar ei chyfer yn Neddf 2006 (sef, aros yn y swydd tan ddiddymiad y Senedd y cafodd y Dirprwy Lywydd ei ethol yn ei hystod).
10. Mae adran 4 hefyd yn darparu cyfyngiadau penodol ar ddewis y Senedd o ail Ddirprwy Lywydd (ni chaniateir iddo fod o'r un grŵp gwleidyddol â'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd arall, ac ni chaniateir iddo fod yn Aelod o grŵp nad yw'n grŵp gweithrediaeth os yw'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn Aelodau o grwpiau nad ydynt yn grwpiau gweithrediaeth). Fodd bynnag, mae hefyd yn darparu y gellir trechu'r cyfyngiadau hyn gan bleidlais fwyafrifol o ddwy ran o dair yn y Senedd.
11. Oni nodir yn wahanol uchod, effaith adran 4 yw y byddai'r swyddogaethau, y dyletswyddau, y pwerau a'r gofynion eraill deddfwriaethol sy'n gymwys i'r Dirprwy Lywydd y mae rhaid ei benodi yng nghyfarfod cyntaf y Senedd o dan adran 25(1)(b) o Ddeddf 2006 hefyd yn gymwys i unrhyw Ddirprwy Lywydd ychwanegol. Mae'r adran hon hefyd yn gwneud diwygiadau cysylltiedig i Ddeddf 2006 a deddfwriaeth arall.
12. Mae adran 5 yn darparu ar gyfer cynyddu'r nifer uchaf o Weinidogion Cymru a gaiff ddal swydd ar yr un pryd, o 12 i 17. Mae'r terfyn hwn yn cynnwys Dirprwy Weinidogion ond nid yw'n cynnwys y Prif Weinidog na'r Cwnsler Cyffredinol. Mae adran 5 hefyd yn darparu pŵer i wneud rheoliadau er mwyn cynyddu'r terfyn deddfwriaethol hwn yn y dyfodol, i nifer uchaf o 19. Ni ellir ond defnyddio'r pŵer i

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 18 09 2023*

gynyddu'r nifer, ni ellir ei ddefnyddio i leihau'r nifer. Yn ymarferol, fodd bynnag, caiff Prif Weinidog ddewis cael llai o Weinidogion Cymru ar unrhyw adeg gan fod y pŵer yn nodi terfyn nifer uchaf o Weinidogion Cymru ac nid y nifer gofynnol. Ni chaniateir gwneud offeryn statudol i gynyddu'r terfyn deddfwriaethol o dan y pŵer hwn oni fo penderfyniad wedi ei wneud gan y Senedd i gymeradwyo'r offeryn drafft yn gyntaf, ac yr oedd nifer yr Aelodau a bleidleisiodd o blaid y penderfyniad hwnnw yn hafal fan lleiaf i ddwy ran o dair o gyfanswm nifer seddi'r Senedd (hynny yw, mewn Senedd â 96 sedd, byddai angen 64 Aelod i gymeradwyo'r penderfyniad).

13. Mae adran 6 yn anghymhwys person nad yw wedi ei gofrestru ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol mewn cyfeiriad o fewn etholaeth Senedd, rhag sefyll ar gyfer etholiad i'r Senedd, neu rhag bod yn Aelod o'r Senedd.
14. Mae adran 7 yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Lywydd y Senedd gyntaf a etholir ar ôl 7 Tachwedd 2025 (a fyddai'n cynnwys cynnal etholiad cyffredinol eithriadol yn ystod y chwe mis cyn yr etholiad cyffredinol nesaf sydd wedi ei drefnu) gyflwyno, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyfarfod cyntaf y Senedd honno, ond mewn unrhyw achos o fewn chwe mis i'r cyfarfod hwnnw, gynnig bod y Senedd yn sefydlu pwyllgor i adolygu'r graddau y dylai personau allu dal swydd berthnasol ar y cyd (h.y. 'rhannu swydd') neu ddal swydd berthnasol dros dro tra nad yw'r person sy'n dal y swydd honno ar gael. Mae "swydd berthnasol" yn cyfeirio at y rolau a restrir yn adran 7(3). Pe bai'r Senedd yn cytuno y dylid cynnal adolygiad o'r fath, rhagwelir y byddai'r pwyllgor yn ystyried y goblygiadau ymarferol a deddfwriaethol. Rhaid i'r cynnig a gyflwynir gan y Llywydd hefyd gynnig bod y pwyllgor yn llunio adroddiad ar ei adolygiad, gydag argymhellion. Os yw pwyllgor a sefydlir o dan y cynnig hwn yn gosod adroddiad ar ei adolygiad gerbron y Senedd, rhaid i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron y Senedd sy'n nodi eu hymateb i'r adroddiad ac unrhyw gamau y maent yn bwriadu eu cymryd, a all gynnwys camau deddfwriaethol.

## **RHAN 2 – Y SYSTEM BLEIDLEISIO MEWN ETHOLIADAU CYFFREDINOL Y SENEDD A DYRANNU SEDDI**

15. Mae'r Rhan hon yn darparu ar gyfer newid system etholiadol y Senedd fel bod yr holl Aelodau yn cael eu hethol drwy system rhestr gyfrannol gaeedig, gyda phleidleisiau'n cael eu trosi i seddi drwy fformiwla D'Hondt. Mae'r Rhan hon hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch swyddi gwag yn y Senedd sy'n codi rhwng etholiadau.

16. Mae adran 8 yn disodli adrannau 6 i 9 o Ddeddf 2006 i roi effaith i'r system etholiadol newydd. Mae'r cyfeiriadau isod at yr adrannau arfaethedig newydd o Ddeddf 2006 ("adran newydd").
17. Mae'r adran 6 newydd yn darparu y caiff personau sy'n pleidleisio mewn etholiadau cyffredinol y Senedd fwrw un bleidlais – naill ai ar gyfer plaid wleidyddol gofrestredig sydd wedi cyflwyno rhestr o ymgeiswyr ar gyfer yr etholaeth honno, neu ar gyfer ymgeisydd annibynnol sy'n sefyll yn yr etholaeth honno. O ganlyniad i'r newid o'r system aelodau cymysg gyfrannol y darparwyd ar ei chyfer yn wreiddiol yn Neddf 2006 i system rhestr gyfrannol gaeedig y darperir ar ei chyfer yn y darpariaethau hyn, caiff pob Aelod ei ethol yn yr un modd a dim ond un bleidlais yr un fydd gan unrhyw bleidleisiwr (yn hytrach na dwy). Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i orchymyn a wneir o dan adran 13 o Ddeddf 2006 ynghylch cynnal etholiadau Aelodau o'r Senedd, gynnwys enwau pob ymgeisydd a enwebir mewn modd dilys ar gyfer yr etholaeth ar y papur pleidleisio.
18. Mae'r adran 7 newydd yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiad cyffredinol i'r Senedd. Rhaid i restr a gyflwynir gan blaid wleidyddol gofrestredig gynnwys rhwng 1 ac 8 ymgeisydd. Ni ddylai'r rhestr gynnwys person sydd wedi ei gynnwys ar unrhyw restr arall (pa un ai yn yr un etholaeth neu mewn etholaeth arall), neu sy'n sefyll fel ymgeisydd unigol (eto, pa un ai yn yr un etholaeth neu mewn etholaeth arall). Yn yr un modd, ni chaiff person fod yn ymgeisydd unigol os yw hefyd yn ymddangos ar restr unrhyw blaid, neu fel ymgeisydd unigol mewn unrhyw etholaeth arall. Y canlyniad yw na chaiff person ond sefyll fel ymgeisydd unwaith mewn etholiad cyffredinol. Mae'r adran hefyd yn diffinio "constituency returning officer" ("*swyddog canlyniadau etholaethol*").
19. Mae'r adrannau 8 a 9 newydd yn nodi'r dull ar gyfer dyrannu seddi a chymhwyso dull d'Hondt.
20. Mae'r adran 8 newydd yn darparu ar gyfer y "seat allocation figure" ("*ffigur dyrannu seddi*"). Mae seddi i'w dyrannu yn eu tro i'r blaid neu'r ymgeisydd unigol sydd â'r ffigur dyrannu seddi uchaf (adran newydd 9(1) a (2)).
21. Ar gyfer ymgeisydd unigol, y ffigur dyrannu seddi yw cyfanswm y pleidleisiau a gafwyd gan yr ymgeisydd hwnnw. Ar gyfer plaid sy'n sefyll mewn etholaeth, dyma gyfanswm y pleidleisiau a gafwyd gan y blaid yn yr etholaeth honno, wedi ei rhannu gan y "seat allocation divisor" ("*rhannydd dyrannu seddi*"). I ddechrau mae'r rhannydd dyrannu seddi yn un, sy'n golygu mai'r ffigur dyrannu seddi cyntaf ar

gyfer plaid yw cyfanswm y pleidleisiau y mae wedi eu cael yn yr etholaeth.

22. Felly, dyrennir y cyntaf o'r 6 sedd ar gyfer yr etholaeth i'r blaid neu'r ymgeisydd unigol a gafodd y nifer uchaf o bleidleisiau.
23. Mae'r adran 9 newydd yn darparu ar gyfer ail-gyfrifo ffigur dyrannu seddi plaid gyda rhannydd mwy wrth ddyrannu'r ail i'r chweched sedd pe bai'r sedd flaenorol wedi ei dyrannu i'r blaid. Felly, i ddyrannu'r ail sedd, os dyrannwyd y sedd gyntaf i blaid, rhaid ail-gyfrifo ei ffigur dyrannu seddi drwy ychwanegu un at ei rhannydd dyrannu seddi blaenorol (h.y. mae'r rhannydd yn troi'n 2). Yna, caiff yr ail sedd ei dyrannu i'r blaid neu'r ymgeisydd unigol gyda'r ffigur dyrannu seddi uchaf. Er enghraifft, pe bai Plaid A wedi ennill 50,000 o bleidleisiau mewn etholaeth, ac roedd hyn yn ddigon i'r sedd gyntaf gael ei dyrannu i Blaid A, yna wrth ddyrannu'r ail sedd, byddai'r 50,000 yn cael ei rannu â  $1+1=2$ , gan roi ffigur dyrannu seddi o 25,000 ar gyfer Plaid A.
24. Yna, cynhelir y broses hon eto ar gyfer y seddi sy'n weddill, gydag ailgyfrifiad yn digwydd bob tro y dyrannwyd sedd flaenorol i blaid. Felly, gan gymryd yr enghraifft uchod, os 25,000 oedd y ffigur dyrannu seddi uchaf wrth ddyrannu'r drydedd sedd, byddai'n cael ei ddyrannu i Blaid A a byddai ei ffigur dyrannu seddi, wrth ddyrannu'r bedwaredd sedd, yn 50,000 wedi ei rannu â 3 (rhannydd dyrannu seddi blaenorol o  $2+1$ ), gan roi ffigur dyrannu seddi o 16,666.666 (cylchol). Dyrennir y bedwaredd sedd i Blaid A os oes gan y pleidiau eraill ac unrhyw ymgeiswyr unigol ffigurau dyrannu seddi is (nid yw'r ffigurau wedi eu talgrynnu) neu os ydynt i'w hanwybyddu yn y rownd honno (gweler y paragraff nesaf).
25. Caiff unrhyw ymgeisydd unigol y dyrannwyd sedd iddo ei ddiystyru mewn rowndiau dilynol. Yn yr un modd, os yw seddi'n cael eu dyrannu i blaid ar gyfer yr holl ymgeiswyr ar ei rhestr, mae'r blaid honno'n cael ei diystyru mewn rowndiau dilynol.
26. Rhaid i blaid lenwi'r seddi y dyrannwyd hwy iddi gyda'r ymgeiswyr sy'n ymddangos ar ei rhestr yn y drefn y maent yn ymddangos ar y rhestr honno.
27. Mewn achos o ffigur dyrannu seddi cyfartal mewn unrhyw rownd ar gyfer dwy neu ragor o bleidiau neu ymgeiswyr unigol, mae sedd i'w dyrannu i bob un o'r pleidiau neu'r ymgeiswyr hynny ar yr amod bod digon o seddi yn weddill. Os nad oes digon o seddi yn weddill, yna mae'r nifer seddi cyfartal i'w dorri fel a ganlyn:

- mae'r ffigur dyrannu seddi ar gyfer y pleidiau neu'r ymgeiswyr unigol cyfartal yn cael ei ailgyfrifo drwy ychwanegu un at gyfanswm nifer y pleidleisiau a gafwyd. O ran ymgeisydd unigol, mae hyn yn syml yn golygu ychwanegu un at nifer y pleidleisiau a gafodd yr ymgeisydd. O ran plaid, mae hyn yn golygu ychwanegu un at gyfanswm nifer y pleidleisiau a gafwyd gan y blaid yn yr etholaeth ac yna rhannu'r rhif hwnnw â rhannydd dyrannu seddi'r blaid. Er enghraifft, os cafodd plaid 50,000 o bleidleisiau yn yr etholaeth a bod dwy sedd wedi eu dyrannu iddi hyd yma, byddai 50,001 yn cael ei rannu â rhannydd dyrannu seddi'r blaid o 3 i gael 16,667.
  - os yw'r ffigur dyrannu seddi diwygiedig yn torri'r nifer seddi cyfartal, yna dyrennir y sedd (neu'r seddi) sy'n weddill yn y dull arferol, sef i'r blaid neu'r ymgeisydd unigol sydd â'r ffigur dyrannu seddi uchaf.
28. Os bydd ffigur dyrannu seddi cyfartal yn parhau, yna rhaid i'r swyddog canlyniadau etholaethol ei ddatrys drwy lotiau.
29. Mae adran 9 yn diwygio Deddf 2006 er mwyn nodi'r sefyllfa ynghylch swyddi gwag sy'n codi rhwng etholiadau (er enghraifft, o ganlyniad i ymddiswyddiad Aelod o'r Senedd) yn y system etholiadol rhestr gyfrannol gaeedig newydd. Mae'n diddymu adran 10 o Ddeddf 2006 (sy'n darparu ar gyfer cynnal is-etholiadau mewn perthynas â seddi gwag mewn etholaethau) ac yn rhoi adran 11 newydd yn lle'r un bresennol.
30. Mae'r adran 11 newydd o Ddeddf 2006 yn darparu, os bydd sedd a ddelir gan ymgeisydd a ddychwelwyd o restr plaid yn dod yn wag, y caiff y swydd wag ei llenwi gan y person uchaf ar y rhestr honno (nad yw wedi ei dychwelyd eisoes, hyd yn oed pan fo'r canlyniad hwnnw'n ddi-rym, er enghraifft oherwydd anghymhwysiad) sy'n bodloni'r amodau canlynol. Yr amodau yw bod y person yn fodlon gwasanaethu ac yn achos person nad yw'n aelod o'r blaid, nad yw'r blaid wedi rhoi rhybudd i'r swyddog canlyniadau etholaethol nad yw'n dymuno i'r person hwnnw lenwi'r swydd wag. Mater i'r swyddog canlyniadau etholaethol yw rhoi gwybod i'r Llywydd am enw'r person (os oes un) sydd i lenwi'r swydd wag.
31. Os nad oes ymgeiswyr yn weddill ar restr y blaid sy'n gymwys ar yr adeg honno i lenwi'r swydd wag neu os yw'r Aelod o'r Senedd y mae ei sedd wedi dod yn wag wedi ei ddychwelyd fel ymgeisydd unigol, yna bydd y sedd yn aros yn wag hyd nes yr etholiad cyffredinol nesaf.



*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 18 09 2023*

32. Mae adran 10 yn gwneud diwygiadau i Ddeddf 2006 a deddfwriaeth arall, sy'n codi o'r trefniadau newydd o dan y Bil ar gyfer dychwelyd y Senedd a'i chynnal.

### RHAN 3 – COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU

33. Mae'r rhan hon yn gwneud darpariaeth i addasu ac ailenwi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru o ganlyniad i drosglwyddo'r swyddogaethau o adolygu ffiniau etholaethau'r Senedd. Mae'r rhan hon yn cynnwys diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.
34. Mae adran 11 yn gwneud darpariaeth i newid enw byr Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 i Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 i adlewyrchu'r diwygiadau a wneir iddi gan y Bil hwn.
35. Mae adran 12 yn newid enw Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i adlewyrchu'r cyfrifoldebau ychwanegol a roddir iddo gan Ran 3 o'r Bil.
36. Mae adran 13 yn cynyddu nifer Aelodau'r Comisiwn o uchafswm o bump i uchafswm o naw. Mae hyn yn cydnabod y cynnydd yn llwyth gwaith disgwylidig Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn") o ganlyniad i'w swyddogaethau newydd.
37. Mae adran 14 yn gwneud newidiadau i'r rhestrau o bersonau na chaniateir eu penodi yn Aelodau o'r Comisiwn neu'n brif weithredwr arno gyda'r bwriad o sicrhau didueddrwydd wrth arfer ei swyddogaethau newydd o adolygu ffiniau etholaethau'r Senedd.
38. Mae adran 15 yn gwneud darpariaeth ar gyfer pŵer i wneud rheoliadau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i newid y cworwm ar gyfer cyfarfodydd y Comisiwn o'r gofyniad statudol presennol o dri. Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn caniatáu cynnydd neu ostyngiad yn y nifer cworwm, ar yr amod nad yw unrhyw ostyngiad yn newid y cworwm i nifer sy'n llai na thri. Byddai rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.
39. Mae adran 16 yn darparu y caiff y Comisiwn benodi un neu ragor o Gomisiynwyr Cynorthwyol y caiff ddirprwyo ei swyddogaethau iddo neu iddynt yn unol ag adran 13 o Ddeddf 2013. Mae'r adran hon hefyd yn gwneud newidiadau i'r rhestr o'r personau na chaniateir eu penodi yn Gomisiynwyr Cynorthwyol, i gyd-fynd â'r diwygiadau a wneir gan

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 18 09 2023*

adran 14 i'r rhai na chaniateir eu penodi yn Aelodau o'r Comisiwn o dan y Ddeddf. Mae'r adran hon hefyd yn rhestru bod Aelodau, Comisiynwyr Cynorthwyol a Phrif Weithredwr y Comisiwn wedi eu anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd neu'n ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd.

#### **RHAN 4 – ADOLYGU FFINIAU ETHOLAETHAU'R SENEDD**

40. Mae adran 17 yn cyflwyno Atodlen 2 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch etholaethau'r Senedd yr etholir Aelodau o'r Senedd drostynt mewn etholiad cyffredinol a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026 a chyn i'r set gyntaf o reoliadau a wneir o dan adran 49J o Ddeddf 2013 gymryd effaith.
41. Mae adran 18 yn cyflwyno Atodlen 3 sy'n mewnosod Rhan 3A newydd yn Neddf 2013 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch etholaethau'r Senedd yr etholir Aelodau o'r Senedd drostynt mewn etholiadau cyffredinol a gynhelir ar ôl i'r set gyntaf o reoliadau o dan adran 49J o Ddeddf 2013 gymryd effaith.

#### **RHAN 5 – ADOLYGIAD O WEITHREDIAD Y DDEDDF ETC. A DARPARIAETHAU CYFFREDINOL**

42. Mae'r rhan hon yn darparu gofyniad i'r Llywydd i gyflwyno cynnig i'r Senedd ystyried adolygiad o weithrediad darpariaethau Deddf 2006, fel y'u diwygir gan y Bil, yn dilyn etholiad 2026. Mae'r rhan hon hefyd yn cynnwys: pŵer i wneud darpariaethau canlyniadol a darpariaethau trosiannol, darpariaethau ynghylch gweithdrefn y Senedd sydd i fod yn gymwys i reoliadau y darperir ar eu cyfer yn y Bil, adran ddehongli, darpariaethau trosiannol mewn perthynas â Rhan 1 a 2, a darpariaethau ynghylch cychwyn ac Enw Byr y Bil.
43. Mae adran 19 yn gosod dyletswydd ar y Llywydd i gyflwyno cynnig bod y Senedd yn sefydlu Pwyllgor i adolygu gweithrediad ac effaith Rhannau 1 a 2 o'r Ddeddf hon ("Y Senedd a Gweinidogion Cymru", a "Y System Bleidleisio mewn Etholiadau Cyffredinol y Senedd a Dyrannu Seddi"), yn ogystal ag adolygu'r graddau y mae elfennau democratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru.
44. Os yw'r Senedd yn dewis sefydlu Pwyllgor i gynnal adolygiad o'r fath, mae'n bosibl y bydd yr adolygiad yn ystyried materion megis:  
(v). Effeithiau'r system bleidleisio newydd ar gyfranoldeb;

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 18 09 2023*

- (vi). Cyflwyno etholaethau aml-aelod;
  - (vii). Profiad o restrau caeedig.
45. Mae'n bosibl y bydd Pwyllgor a sefydlir gan y Senedd hefyd yn dymuno cynnal asesiad o unrhyw faterion eraill Diwygio'r Senedd y mae'n ystyried eu bod yn berthnasol, megis:
- (i). Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o etholiadau a llywodraeth ddatganoledig Cymru;
  - (ii). Asesiad o'r lefelau pleidleisio ac archwiliad o gynigion ar sut y gellir eu cynyddu;
  - (iii). Cymorth ar gyfer aelodau a phleidiau i ymgymryd â'u rolau yn y Senedd;
  - (iv). Y seilwaith sydd ar waith i gefnogi democratiaeth gref yng Nghymru; ond bydd hyn fater i'r Pwyllgor ei hun, yn ddarostyngedig i delerau'r cynnig a'i sefydlodd (ac unrhyw gynnis perthnasol arall).
46. Rhaid i'r cynnig gael ei gyflwyno cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyfarfod cyntaf y Senedd a ddychwelir yn yr etholiad cyffredinol cyntaf a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026, ond mewn unrhyw achos, o fewn chwe mis i'r cyfarfod hwnnw, a rhaid iddo gynnis bod rhaid i'r Pwyllgor gwblhau ei adroddiad o fewn deuddeg mis i'r cyfarfod hwnnw.
47. Pe byddai'r Senedd yn penderfynu sefydlu Pwyllgor o'r fath, a chynnal adolygiad o'r fath, yn unol â'r adran hon, ac os yw'r Pwyllgor hwnnw wedyn yn gosod adroddiad gerbron y Senedd, yna mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron y Senedd sy'n amlinellu eu hymateb i'r adroddiad hwnnw.
48. Mae adran 20 yn darparu pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer dibenion penodol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Bil. Mae hyn yn cynnwys pŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth arall. Pan ddefnyddir y pŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, mae'r O.S. canlyniadol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd (gweler adran 22); fel arall, mae'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.
49. Mae adran 21 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio paragraff 6 o Atodlen 9 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (terfynau ar wariant

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 18 09 2023*

ymgyrch) er mwyn gosod y terfynau ar wariant ymgyrch yr eir iddo gan neu ar ran plaid gofrestrdig sy'n ymladd am seddi mewn etholiad cyffredinol i'r Senedd.

50. Caniateir i derfynau o'r fath gael eu gosod unai drwy gyfeirio at nifer yr etholaethau y mae'r blaid yn eu hymladd mewn etholiad cyffredinol, neu nifer yr ymgeiswyr ar restr neu restrau ymgeiswyr plaid, neu'r ddau ohonynt.
51. Ni chaniateir gwneud rheoliadau o dan adran 21 ond â chydysyniad y Comisiwn Etholiadol.
52. Mae adran 22 yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch rheoliadau a wneir o dan y Bil (ac eithrio'r rhai a wneir o dan baragraff 9 o Atodlen 1; gellir gweld y ddarpariaeth sy'n ymwneud â gwneud y diwygiadau hynny yn Atodlen 1 ei hun), gan gynnwys gweithdrefnau Senedd Cymru sy'n gymwys i'r rheoliadau hynny.
53. Mae adran 23 yn diffinio ymadroddion penodol a ddefnyddir yn y Bil, neu'n nodi ymhle y mae modd gweld diffiniad yn y Bil.
54. Mae adran 24 yn gwneud darpariaeth drosiannol sy'n ymwneud â Rhannau 1 a 2. Nid yw adrannau 1, 2 a 6, na Rhan 2 yn cael effaith mewn perthynas ag etholiad cyffredinol y cynhelir y bleidlais ar ei gyfer ar 6 Ebrill 2026 neu cyn hynny, Senedd a ddychwelir mewn etholiad o'r fath nac Aelod a ddychwelir i Senedd o'r fath. Mae adran 24(2) hefyd yn darparu nad yw dod i rym y ddarpariaeth a wneir yn adran 6 (anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd neu'n ymgeisydd) yn cael effaith mewn perthynas ag ymgeisydd ar gyfer unrhyw etholiad a gynhelir o dan adran 10 o Ddeddf 2006 (is-etholiadau i lenwi etholaeth wag), neu ymgeisydd sydd wedi ei gynnwys ar restr a gyflwynwyd o dan adran 7 o Ddeddf 2006 i'w ddychwelyd fel aelod rhanbarthol o'r Senedd pan gynhelir y bleidlais ar 6 Ebrill 2026 neu cyn hynny. Mae adrannau 24(3) a (4) yn darparu, os cynhelir etholiad cyffredinol eithriadol o fewn y chwe mis cyn y cynhelir yr etholiad cyffredinol nesaf sydd wedi ei drefnu ym mis Mai 2026 a bod adran 3 (sy'n lleihau'r amser rhwng etholiadau cyffredinol cyffredin i bedair blynedd) yn dod i rym ar y diwrnod ar ôl y bleidlais honno, y cynhelir yr etholiad cyffredinol cyffredin nesaf yn 2030.

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 18 09 2023*

55. Mae adran 25 yn gwneud darpariaeth ar gyfer pan ddaw'r Ddeddf o ganlyniad i'r Bil i rym:
- (i). Daw Rhan 3, adran 17, Rhan 5 (ac eithrio adran 20), ac Atodlen 2 i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol.
  - (ii). Daw adrannau 1, 2, 6, 7, 18, 19 a 21, Rhan 2, ac Atodlen 3 i rym ddau fis ar ôl y diwrnod y caiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol.
  - (iii). Daw adran 3 i rym drannoeth diwrnod y bleidlais ar gyfer yr etholiad cyffredinol cyntaf a gynhelir ar ôl 7 Tachwedd 2025.
  - (iv). Daw adrannau 4 a 5 i rym drannoeth diwrnod y bleidlais ar gyfer yr etholiad cyffredinol cyntaf a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026.
56. Mae adran 26 yn darparu mai enw byr y Ddeddf o ganlyniad i'r Bil fydd Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024.

#### **ATODLEN 1: MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL SY'N YMWNEUD Â RHAN 3**

57. Mae'r Atodlen hon yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â'r newid i enw byr Deddf 2013 a newid enw Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

#### **ATODLEN 2: ETHOLAETHAU'R SENEDD AR GYFER YR ETHOLIAD CYFFREDINOL CYNTAF AR ÔL 6 EBRILL 2026**

(Adolygiad Ffiniau 2026)

58. Mae'r Atodlen hon yn gwneud darpariaeth i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn") sydd wedi ei ailenwi i gynnal adolygiad i sefydlu etholaethau Senedd newydd y bydd Aelodau o'r Senedd i'w hethol iddynt mewn etholiad cyffredinol sydd i'w gynnal ar ôl 6 Ebrill 2026 a chyn i'r set gyntaf o reoliadau a wneir o dan adran 49J o Ddeddf 2013 gymryd effaith, oherwydd newidiadau i system etholiadol y Senedd. Mae'n nodi'r rheolau a'r broses y mae rhaid i'r Comisiwn eu dilyn wrth benderfynu ar yr etholaethau hynny.
59. Mae paragraff 1 yn nodi bod yr Atodlen hon yn gwneud darpariaeth ynghylch yr etholaethau yr etholir Aelodau o'r Senedd drostynt mewn etholiad cyffredinol a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026. Golyga hyn y bydd yr Atodlen yn gymwys mewn perthynas ag etholiad cyffredinol y Senedd a gynhelir hyd at un mis calendr yn gynt na dyddiad yr etholiad cyffredinol cyffredin a amserlennir ar 7 Mai 2026. Mae'r

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 18 09 2023*

paragraff hwn hefyd yn nodi y bydd etholaethau'r Senedd y darperir ar eu cyfer o dan yr Atodlen hon yn parhau ar waith hyd nes y bydd rheoliadau o dan adran 49J o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 (sy'n adran yn y Rhan 3A newydd o'r Ddeddf honno, i'w mewnosod gan Atodlen [3] o'r Bil hwn) yn cymryd effaith, neu os caiff yr etholaethau eu newid fel arall o dan unrhyw ddeddfiad.

60. Mae paragraff 2 yn darparu bod rhaid i bob etholaeth Senedd gynnwys dwy o etholaethau seneddol y DU yng Nghymru sy'n gyffiniol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal adolygiad yn unol â'r Atodlen ac mae'n rhestru'r penderfyniadau y mae rhaid i'r Comisiwn eu gwneud yn yr adolygiad ffiniau hwn. Y rhain yw: pa etholaethau seneddol y DU yng Nghymru a gyfunir i greu ardaloedd yr 16 o etholaethau'r Senedd, enwau'r etholaethau hynny (gweler mwy ym pharagraff 5 o Atodlen 2) a pha un a yw pob etholaeth yn etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol.
61. Mae paragraff 3 yn darparu bod rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi hysbysiad unwaith y mae'r adolygiad wedi cychwyn a bod rhaid i'r hysbysiad hwnnw bennu'r dyddiad y cychwynnodd yr adolygiad arno.
62. Mae paragraff 4 yn rhestru'r ffactorau y caiff y Comisiwn eu hystyried wrth wneud penderfyniadau fel rhan o'r adolygiad ffiniau hwn. Y rhain yw: ffiniau llywodraeth leol sy'n bodoli; ystyriaethau daearyddol arbennig; ac unrhyw glymau lleol a fyddai'n cael eu torri.
63. Mae paragraff 5 yn nodi sut y dylid penderfynu ar enwau etholaethau'r Senedd, a'r camau y mae rhaid i'r Comisiwn eu cymryd wrth benderfynu ar yr enwau hynny, gan gynnwys ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg. Rhaid i'r etholaethau gael enw unigol i'w ddefnyddio yn Gymraeg ac yn Saesneg, oni bai yr ystyrir hyn yn annerbyniol gan y Comisiwn. Os felly, caniateir rhoi enwau gwahanol ar etholaethau i'w defnyddio wrth gyfathrebu'n Gymraeg ac yn Saesneg. Os bydd enwau gwahanol, mae'n ofynnol cynnwys y ddau enw yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg o adroddiadau'r Comisiwn.
64. Mae paragraff 6 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi adroddiad cychwynnol ac mae'n manylu ynghylch beth y dylai'r adroddiad hwnnw ei gynnwys. Mae'r paragraff hwn hefyd yn darparu mai'r cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau yw cyfnod o bedair wythnos, ac mae'r cyfnod hwnnw yn dechrau ar y dyddiad y cyhoeddir yr

adroddiad cychwynnol. Rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn.

65. Mae paragraff 7 yn nodi'r camau y mae rhaid i'r Comisiwn eu cymryd ar ôl y cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau, sef gofyniad i gyhoeddi'r sylwadau a gafwyd (yn unol â pharagraff 14, sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw beth a gyhoeddir o dan yr Atodlen gael ei gyhoeddi ar wefan y Comisiwn), ystyried ei gynigion gan roi sylw i'r sylwadau hynny ac ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg os cynigir unrhyw newidiadau i enwau'r etholaethau. Ar ôl cymryd y camau sydd eu hangen a amlinellir ym mharagraff 7(1), mae paragraff 7(2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn wneud ail adroddiad ac mae'n manylu ynghylch yr hyn y dylai'r adroddiad ei gynnwys. Mae paragraff 7(3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn (ymysg pethau eraill) gyhoeddi'r ail adroddiad a gwahodd sylwadau arno. Mae paragraff 7(4) yn darparu mai'r ail gyfnod ar gyfer sylwadau yw cyfnod o bedair wythnos ac mae'n dechrau ar y dyddiad y cyhoeddir yr ail adroddiad. Rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn. Mae paragraff 7(5) yn nodi'r camau y mae rhaid i'r Comisiwn eu cymryd ar ôl yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau, sy'n adlewyrchu'r camau y mae rhaid eu cymryd ar ôl y cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau.
66. Mae paragraff 8 yn darparu bod rhaid i'r Comisiwn, cyn 1 Ebrill 2025, wneud adroddiad terfynol ar adolygiad ffiniau 2026, a'i gyhoeddi, ac anfon yr adroddiad hwn at Weinidogion Cymru. Rhaid i'r adroddiad gadarnhau pa etholaethau seneddol y DU a gyfunwyd i greu'r 16 o etholaethau newydd y Senedd yng Nghymru, enw pob etholaeth (yn unol â pharagraff 5), a pha un a yw pob etholaeth yn etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol. Rhaid i'r adroddiad bennu manylion unrhyw newidiadau i'r cynigion a wnaed yn yr ail adroddiad ac esbonio pam y gwnaed y newidiadau hynny. Mae'r paragraff hwn yn darparu nad yw methu â chyflwyno adroddiad terfynol i Weinidogion Cymru erbyn 1 Ebrill 2025 yn ei hun yn gwneud yr adroddiad yn annilys. Mae'r paragraff hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod yr adroddiad terfynol gerbron y Senedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddynt gael yr adroddiad.
67. Mae paragraff 9 yn nodi'r manylion o sut y dylid gweithredu'r adroddiad terfynol. Rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn rhoi effaith i'r penderfyniadau yn adroddiad terfynol y Comisiwn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a sut bynnag o fewn 14 o

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 18 09 2023*

wythnosau i'r dyddiad y gosodir yr adroddiad terfynol gerbron y Senedd, oni bai bod amgylchiadau eithriadol. Pan fo amgylchiadau eithriadol, rhaid i Weinidogion Cymru, o fewn 14 o wythnosau i'r dyddiad y gosodir yr adroddiad terfynol, osod datganiad yn nodi'r amgylchiadau eithriadol. Rhaid i Weinidogion Cymru barhau i osod datganiadau o'r fath bob pedair wythnos hyd nes bod y rheoliadau wedi eu gwneud. Nid yw rheoliadau o dan y paragraff hwn yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn yn y Senedd, ond rhaid gosod yr O.S. sy'n cynnwys y rheoliadau gerbron y Senedd.

68. Mae paragraff 10 yn nodi'r camau y mae rhaid i'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru eu cymryd os, ar ôl i'r adroddiad gael ei osod gerbron y Senedd, yw'r Comisiwn yn ystyried bod angen addasu'r adroddiad; mae hyn yn cynnwys cyhoeddi datganiad gan y Comisiwn yn pennu'r addasiadau a'r rhesymau dros eu gwneud, y mae rhaid i Weinidogion Cymru eu gosod gerbron y Senedd. Mae paragraff 10(5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi effaith i'r adroddiad terfynol a'r addasiadau a nodir yn y datganiad o dan baragraff 10(2) wrth wneud rheoliadau o dan baragraff 9.
69. Mae paragraff 11 yn darparu y caiff y swyddogaethau adolygu ffiniau'r Senedd yn yr Atodlen hon gael eu dirprwyo gan y Comisiwn yn unol ag adran 13(1) o Ddeddf 2013.
70. Mae paragraff 12 yn darparu na chaniateir i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn o dan adran 14 o Ddeddf 2013 sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau adolygu ffiniau'r Senedd (fel y darperir ar eu cyfer gan yr Atodlen hon).
71. Mae paragraff 13 yn diffinio termau a ddefnyddir yn yr Atodlen hon.
72. Mae paragraff 14 yn darparu bod rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi unrhyw adroddiadau neu ddogfennau eraill yn unol â gofynion y paragraff hwn.

#### ATODLEN 3: RHAN NEWYDD 3A O DDEDDF 2013

73. Mae'r Atodlen hon yn gwneud darpariaeth i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn") i gynnal adolygiadau rheolaidd o ffiniau etholaethau'r Senedd y bydd Aelodau o'r Senedd yn cael eu hethol drostynt mewn etholiadau cyffredinol i'w cynnal ar ôl i'r set gyntaf o reoliadau a wneir o dan adran 49J o Ddeddf 2013 gymryd effaith. Mae'n nodi'r rheolau a'r broses y mae rhaid i'r Comisiwn eu



*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 18 09 2023*

dilyn wrth adolygu'r ffiniau ac wrth benderfynu ar ba newidiadau i'w gwneud.

74. Mae paragraff 1 o Atodlen 2 yn mewnosod Rhan 3A newydd yn Neddf 2013, fel a nodir yn y paragraffau isod:
75. Mae adran 49A yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal adolygiad ffiniau unwaith ym mhob cyfnod adolygu, gydag is-adran (5) yn diffinio hyd y cyfnod adolygu fel cyfnod sy'n dechrau ag 1 Ebrill 2025 ac sy'n dod i ben ar 30 Tachwedd 2028, cyfnod o wyth mlynedd sy'n dechrau ag 1 Rhagfyr 2028 a phob cyfnod dilynol o wyth mlynedd. Mae adran 49A yn nodi'r materion y mae rhaid i'r Comisiwn benderfynu arnynt os yw'n ystyried y dylid newid ffiniau etholaeth Senedd. Mae'r adran hon hefyd yn darparu, hyd yn oes os na fydd ffiniau etholaeth Senedd yn newid, y caniateir i'r Comisiwn barhau i newid ei enw, neu ei statws fel etholaeth sirol neu fwrdeistrefol.
76. Mae adran 49B yn darparu bod rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi hysbysiad unwaith y bydd yr adolygiad wedi cychwyn, a rhaid i hysbysiad o'r fath bennu'r dyddiad y cychwynnodd yr adolygiad. Mae'r adran hon hefyd yn diffinio "dyddiad yr adolygiad" at ddibenion Rhan 3A o Ddeddf 2013 drwy gyfeirio at y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad cychwyn.
77. Mae adran 49C yn nodi'r rheolau y mae rhaid i'r Comisiwn eu dilyn wrth gynnal ei adolygiadau.
- Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i bob etholaeth Senedd fod o fewn amrywiad cwota etholiadol o ddim llai na 90% a dim mwy na 110% o'r cwota etholiadol. Diffinnir y cwota etholiadol yn is-adran (3)(b) o'r adran hon.
  - Mae is-adran (2) yn darparu ar gyfer rhestr o ffactorau y caiff y Comisiwn roi sylw iddynt wrth benderfynu pa un a ddylid newid ffiniau etholaethau'r Senedd a beth y dylai'r newidiadau hynny fod. Mae is-adran (2)(b) yn datgan bod rhaid i'r Comisiwn, mewn unrhyw achos, geisio sicrhau y gwneir cyn lleied o newidiadau â phosibl i ffiniau etholaethau'r Senedd a rhoi sylw i'r anghyfleustra a achosir drwy wneud unrhyw newidiadau. Bwriad adran 49C(2)(b) yw gorfodi'r Comisiwn i ystyried y ffaith bod canlyniadau gweinyddol ac ymarferol i wneud newidiadau i etholaethau, ac i anelu i achosi'r newid lleiaf posibl i etholaethau'r Senedd. Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys ym mhob achos, gan gynnwys yng nghyd-destun

pwerau'r Comisiwn i ystyried unrhyw un neu ragor o'r materion a restrir yn adran 49C(2)(a). Felly caiff y Comisiwn ystyried, er enghraifft, ffiniau wardiau etholaethol presennol; ond wrth ystyried y wardiau hynny (ac, er enghraifft, ddod i'r casgliad na ddylai ffiniau etholaeth Senedd dorri ar draws ffiniau ward) dylai'r Comisiwn barhau i sicrhau'r newid lleiaf posibl i etholaethau'r Senedd. Nid bwriad y ddarpariaeth hon yw gorfodi'r Comisiwn i gyfyngu ei hun i'r newidiadau hynny'n unig sy'n hanfodol i etholyddiaeth etholaeth fod o fewn yr ystod cwota etholiadol yn adran 49C(1).

- Mae is-adran (3) yn diffinio'r etholyddiaeth a'r cwota etholiadol.
- Mae is-adran (4) yn pennu pa fersiwn o'r gofrestr o etholwyr llywodraeth leol y dylid ei defnyddio i benderfynu'r cwota etholiadol ar gyfer pob adolygiad.
- Mae is-adran (5), a ddarllenir gydag is-adran (2)(a)(i), yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ystyried darpar ffiniau ar ddyddiad yr adolygiad.
- Mae is-adran (6) yn diffinio "darpar ffin" at ddibenion yr adran hon.

78. Mae adran 49D yn nodi sut y dylid penderfynu ar enwau etholaethau'r Senedd, a pha gamau y mae rhaid i'r Comisiwn eu cymryd wrth benderfynu ar yr enwau hynny, gan gynnwys ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg. Rhaid i etholaethau gael enw unigol i'w ddefnyddio yn Gymraeg ac yn Saesneg, oni bai yr ystyrir hyn yn annerbyniol gan y Comisiwn. Os felly, caniateir rhoi enwau gwahanol ar etholaethau i'w defnyddio wrth gyfathrebu'n Gymraeg ac yn Saesneg. Os bydd enwau gwahanol, mae'n ofynnol cynnwys y ddau enw yn y fersiynau Gymraeg a Saesneg o adroddiadau'r Comisiwn.

79. Mae adran 49E yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn wneud adroddiad cychwynnol, a'i gyhoeddi, ac mae'n darparu manylion ynghylch yr hyn y dylai'r adroddiad hwnnw ei gynnwys. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn wahodd sylwadau ac mae'n darparu mai'r cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau yw cyfnod o wyth wythnos, gan ddechrau â'r dyddiad y cyhoeddir yr adroddiad cychwynnol. Rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn.

80. Mae adran 49F yn nodi'r camau y mae rhaid i'r Comisiwn eu cymryd ar ôl y cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau, gan gynnwys y gofyniad yn is-adran (1) i gyhoeddi unrhyw sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod

hwynnw (mae adran 49L(2) yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch sut y dylid cyhoeddi hysbysiadau, adroddiadau a dogfennau eraill o dan y Rhan hon). Unwaith y cyhoeddir y sylwadau (ar ôl y cyfnod cyntaf), bydd yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau yn cychwyn ac yn para am chwe wythnos, gan ddechrau â'r dyddiad y caiff y ddogfen sy'n amlinellu'r sylwadau a gafwyd, fel y crybwyllir yn is-adran (1), ei chyhoeddi. Rhaid i'r Comisiwn hysbysu unrhyw berson y mae'n ystyried ei fod yn briodol am sut i gael mynediad at y ddogfen a gwahodd sylwadau pellach ar y sylwadau a wnaed yn y ddogfen. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn hefyd gyhoeddi gwybodaeth ynghylch gwrandawiadau cyhoeddus, gan gynnwys ymhle a phryd y'u cynhelir (mae adran 49G yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch gwrandawiadau cyhoeddus). Mae is-adran (4) yn diffinio "cyfleusterau o bell" yng nghyd-destun gwrandawiadau cyhoeddus.

81. Mae adran 49G yn nodi'r manylion am faint o wrandawiadau cyhoeddus sydd i'w cynnal yn ystod yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau ac mae'n disgrifio sut y dylid cynnal y gwrandawiadau hynny.
82. Mae adran 49H yn nodi'r camau y mae rhaid i'r Comisiwn eu cymryd ar ddiwedd yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau. Rhaid i'r Comisiwn ystyried ei gynigion yn gyntaf gan roi sylw i'r sylwadau a wnaed yn ystod y cyfnod cyntaf a'r ail gyfnod ar gyfer sylwadau ac ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enwau mewn unrhyw achos os cynigir newidiadau i enwau'r etholaethau. Rhaid i'r Comisiwn yna gyhoeddi ail adroddiad, y mae rhaid iddo nodi: cynigion y Comisiwn ar gyfer newid neu ddatganiad nad ydynt yn ystyried unrhyw newid yn briodol; a manylion unrhyw newidiadau a wnaed i'r cynigion yn yr adroddiad cychwynnol ac eglurhad dros wneud y newidiadau hynny. Rhaid i'r Comisiwn hefyd gyhoeddi dogfen sy'n cynnwys unrhyw sylwadau a gafwyd yn ystod yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau a chofnodion unrhyw wrandawiadau cyhoeddus a gynhaliwyd. Mae adran 49H hefyd yn darparu ar gyfer trydydd cyfnod a chyfnod terfynol ar gyfer sylwadau sy'n para am bedair wythnos (gan ddechrau ar y dyddiad y cyhoeddir yr ail adroddiad). Rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn. Mae adran 49H hefyd yn amlinellu'r camau y dylai'r Comisiwn eu cymryd ar ddiwedd y cyfnod terfynol hwynnw ar gyfer sylwadau. Mae'r rhain yn golygu cyhoeddi unrhyw sylwadau a gafwyd ac ystyried ei gynigion gan roi sylw i'r sylwadau hynny. Mae hyn yn cynnwys gofyniad pellach i ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 18 09 2023*

ar orgraff yr enw pan fo newidiadau i enwau etholaethau'r Senedd yn cael eu cynnig.

83. Mae adran 49I yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi adroddiad terfynol cyn 1 Rhagfyr 2028, a chyn 1 Rhagfyr bob wyth mlynedd ar ôl hynny, ac anfon yr adroddiad hwnnw at Weinidogion Cymru. Mae'r adran hon yn nodi yr hyn y mae rhaid ei gynnwys mewn adroddiad terfynol, gan gynnwys naill ai manylion unrhyw newidiadau sy'n ofynnol i'w gwneud i etholaethau'r Senedd neu ddatganiad nad yw'n ofynnol gwneud unrhyw newidiadau, yn ogystal ag amlinellu unrhyw newidiadau i'r cynigion a nodir yn yr ail adroddiad ynghyd â'r rheswm am y newidiadau hynny. Mae adran 49I(3) a (4) yn rhestru yr hyn y mae rhaid i'r adroddiad ei nodi yn benodol pan fo'n ofynnol gwneud newidiadau. Mae'r adran hon yn darparu nad yw methu â chyflwyno adroddiad terfynol i Weinidogion Cymru cyn y terfyn amser yn ei hun yn golygu bod yr adroddiad yn annilys. Mae'r adran hon hefyd yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru osod yr adroddiad terfynol gerbron y Senedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddynt ei gael.
84. Mae adran 49J yn manylu ynghylch sut y mae rhaid i Weinidogion Cymru weithredu adroddiad terfynol. Pan fo'n ofynnol gwneud newidiadau i etholaethau'r Senedd, rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn rhoi effaith i'r penderfyniadau yn adroddiad terfynol y Comisiwn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl gosod yr adroddiad gerbron y Senedd ac mewn unrhyw achos, oni bai bod amgylchiadau eithriadol, o fewn cyfnod o 4 mis. Mae'r adran hon hefyd yn nodi'r camau y mae rhaid i Weinidogion Cymru eu cymryd pan fo amgylchiadau eithriadol o'r fath sy'n union yr un fath â'r camau sy'n ofynnol o dan Atodlen 1 i'r Bil. Dylid gwneud rheoliadau o dan yr adran hon drwy offeryn statudol, ac er nad ydynt yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn yn y Senedd, rhaid gosod yr O.S. sy'n cynnwys y rheoliadau gerbron y Senedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r rheoliadau gael eu gwneud. Mae is-adran (8) yn darparu nad yw dod i rym y rheoliadau yn effeithio ar ddychwelyd Aelod o'r Senedd na chyfansoddiad y Senedd hyd nes y diddymir y Senedd mewn cysylltiad â'r etholiad cyffredinol cyffredin nesaf, neu etholiad cyffredinol eithriadol a gynhelir ar y diwrnod y byddai'r etholiad cyffredinol cyffredin nesaf wedi ei gynnal arno, neu etholiad cyffredinol eithriadol a gynhelir yn ystod y mis cyn hynny.

85. Mae adran 49K yn disgrifio sut y caniateir addasu adroddiad terfynol mewn unrhyw achos pan nodir gwallau gan y Comisiwn, ar ôl iddo gael ei osod gerbron y Senedd ond cyn i reoliadau gael eu gwneud o dan adran 49J. Mae'r adran hon yn darparu manylion y camau y mae rhaid i'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru eu cymryd yn yr achos hwnnw, gan gynnwys cyhoeddi a gosod datganiad sy'n pennu unrhyw addasiadau a'r rhesymau dros yr addasiadau hynny. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 49J adlewyrchu'r adroddiad terfynol ac unrhyw addasiadau a bennir yn y datganiad.
86. Mae adran 49L yn diffinio termau a ddefnyddir yn Rhan 3A o Ddeddf 2013. Mae'r adran hon hefyd yn nodi sut y dylai'r Comisiwn gyhoeddi unrhyw hysbysiadau, adroddiadau a dogfennau eraill sy'n ofynnol o dan y Rhan hon.
87. Mae paragraff 2 o Atodlen 3 yn nodi diwygiadau cysylltiedig i Ddeddf 2013. Mae paragraff 2(2) yn diwygio'r trosolwg yn adran 1 o Ddeddf 2013 i gynnwys cyfeiriad at Ran 3A newydd o'r Ddeddf. Mae paragraff 2(3) yn diwygio adran 13 i ganiatáu dirprwyo swyddogaethau adolygu ffiniau'r Senedd (fel y darperir ar eu cyfer yn Rhan 3A newydd o'r Ddeddf) i Gomisiynwyr Cynorthwyol. Mae paragraff 2(4) yn diwygio adran 14 o Ddeddf 2013 fel na chaiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddydau i'r Comisiwn sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau mewn cysylltiad ag adolygiadau ffiniau etholaethau'r Senedd (fel y darperir ar eu cyfer gan Ran 3A newydd o'r Ddeddf). Mae paragraff 2(5) yn diwygio Deddf 2013 fel nad yw adran 71 (gorchmynion a rheoliadau) yn gymwys i reoliadau a wneir o dan adran 49J yn Rhan 3A newydd o'r Ddeddf. Mae paragraff 2(6) yn mewnosod ymadroddion newydd wedi eu diffinio yn Atodlen 3 i Ddeddf 2013; y rhain yw "Cyfleusterau o bell", "Etholaeth Senedd", "Etholiad cyffredinol" a "Ffiniau Llywodraeth Leol". Mae paragraff 2(6) hefyd yn diwygio Atodlen 3 i gynnwys cyfeiriad at adran 49C(3) yn niffiniad yr ymadrodd "etholwr llywodraeth leol".
88. Mae paragraff 3 yn gwneud addasiad trosiannol i Ddeddf 2013 fel y'i diwygir gan y Bil i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth wneud y set gyntaf o reoliadau o dan adran 49J, nodi ffiniau ac enwau pob un o 16 o etholaethau'r Senedd, a nodi pa un a ydynt yn etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol. Mae hyn yn ofyniad ar Weinidogion Cymru pa un a yw'r adroddiad terfynol ar yr adolygiad cyntaf o ffiniau a gynhaliwyd o dan Ran 3A o Ddeddf 2013 yn pennu

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a gyflwynwyd  
i Senedd Cymru ar 18 09 2023*

bod newidiadau yn ofynnol i etholaethau'r Senedd ai peidio. Mae paragraff 3 hefyd yn gwneud addasiad trosiannol i'r effaith fod y diffiniad o'r term "etholaeth Senedd" yn adran 49L(1) i'w ddarllen fel cyfeiriad at reoliadau a wneir o dan baragraff 9 o Atodlen 2 i'r Bil (ar ôl yr adolygiad a gynhelir o dan yr Atodlen honno) hyd nes y bydd y set gyntaf o reoliadau o dan adran 49J yn cymryd effaith.

## Atodiad 2: Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

Tabl A2.1: Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

<p><b>25 Presiding Officer etc</b></p> <p>(1) The [Senedd] must, at its first meeting following a general election, elect from among the [Members of the Senedd]—</p> <p>(a) a presiding officer (referred to in this Act as “the Presiding Officer”), and</p> <p>(b) a deputy presiding officer (<del>referred to in this Act as “the Deputy Presiding Officer”</del>—(see subsection (1B)(a)).</p> <p><u>(1A) The Senedd may at any time elect one additional deputy presiding officer from among the Members of the Senedd (but there may be no more than one additional deputy presiding officer at any time).</u></p> <p><u>(1B) In this Act, “Deputy Presiding Officer” means, unless the context requires otherwise—</u></p> <p><u>(a) the person elected under paragraph (b) of subsection (1);</u></p> <p><u>(b) a person elected under subsection (1A),</u>  <u>but in section 23(4)(b) “Deputy Presiding Officer” means only the person elected under paragraph (b) of subsection (1).</u></p> <p>(2) The person elected under paragraph (a) of subsection (1) is to be known as the Presiding Officer or by such other title as the standing orders may provide; and the person elected under paragraph (b) of that subsection <del>is to be known as the Deputy Presiding Officer</del> <u>and a person elected under subsection (1A) are each to be known as Deputy Presiding Officer</u> or by such other title as the standing orders may provide.</p> <p>(3) The Presiding Officer holds office until the conclusion of the next election of a Presiding Officer under subsection (1).</p> <p><del>(4) The Deputy Presiding Officer holds office until the [Senedd] is dissolved.</del><u>(4) A Deputy Presiding Officer holds office until the Senedd is dissolved; but the standing orders may make provision for a Deputy Presiding Officer elected under subsection (1A) to hold office for a shorter time.</u></p> <p>(5) But the Presiding Officer or <del>Deputy Presiding Officer</del> <u>a Deputy Presiding Officer—</u></p> <p>(a) may at any time resign,</p> <p>(b) ceases to hold office on ceasing to be [a Member of the Senedd] otherwise than by reason of a dissolution, and</p> <p>(c) may be removed from office by the [Senedd].</p> <p>(6) If the Presiding Officer or the Deputy Presiding Officer <u>elected under paragraph (b) of subsection (1) ceases to hold office under subsection (5) (or dies), the [Senedd] must elect a replacement from among the [Members of the Senedd] (and references in this section to a person elected under paragraph (a) or (b) of subsection (1) include a reference to a person elected under this subsection).</u></p> <p>(7) Subject to subsection (9), the Presiding Officer and the Deputy Presiding Officer <u>elected under paragraph (b) of subsection (1) must not belong to—</u></p> <p>(a) the same political group, or</p> <p>(b) different political groups both of which are political groups with an executive role.</p> <p><u>(7A) Subject to subsection (9), a Deputy Presiding Officer elected under subsection (1A) must not belong to—</u></p> <p><u>(a) the same political group as either the Presiding Officer or Deputy Presiding Officer elected under paragraph (b) of subsection (1), or</u></p> <p><u>(b) where the Presiding Officer and the Deputy Presiding Officer elected under paragraph (b) of subsection (1) both belong to political groups without an executive role, a political group without an executive role.</u></p> <p>(8) For the purposes of this Act a political group is a political group with an executive role if the First Minister or one or more of the Welsh Ministers appointed under section 48 belong to it.</p>	<p>Rhan 1 Adran 4(1)</p>
---	------------------------------



Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall

<p>(9) The [Senedd] may resolve that <del>subsection (7) is not to apply one or both of subsections (7) and (7A) are not to apply</del> for so long as the resolution so provides; but if the motion for the resolution is passed on a vote it is of no effect unless at least two-thirds of the [Members of the Senedd] voting support it.</p> <p>(10) The Presiding Officer's functions may be exercised by <del>the Deputy Presiding Officer</del> <u>a Deputy Presiding Officer</u> if—</p> <p>(a) the office of Presiding Officer is vacant, or</p> <p>(b) the Presiding Officer is for any reason unable to act.</p> <p>(11) The Presiding Officer may (subject to the standing orders) authorise <del>the Deputy Presiding Officer</del> <u>a Deputy Presiding Officer</u> to exercise functions of the Presiding Officer.</p> <p>(12) The standing orders may include provision for the Presiding Officer's functions to be exercisable by any person specified in, or determined in accordance with, the standing orders if—</p> <p>(a) the office of Presiding Officer is vacant or the Presiding Officer is for any reason unable to act, and</p> <p><del>(b) the office of Deputy Presiding Officer is vacant or the Deputy Presiding Officer is for any reason unable to act.</del> <u>(b) the office of Deputy Presiding Officer is vacant or, for any reason, no Deputy Presiding Officer is able to act.</u></p> <p>(13) The standing orders may include provision as to the participation (including voting) in [Senedd] proceedings of the Presiding Officer and <del>Deputy Presiding Officer</del> <u>a Deputy Presiding Officer</u> and any person acting by virtue of subsection (12).</p> <p>(14) The validity of any act of a person as Presiding Officer or Deputy Presiding Officer, or of any person acting by virtue of subsection (12), is not affected by any defect in the person's appointment by the [Senedd].</p> <p>(15) Subsections (10) to (12) are subject to paragraph 11 of Schedule 2.</p>	
---	--

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall

<p><b>36 Integrity</b></p> <p>(1) The standing orders must include provision—</p> <p>(a) for a register of interests of Members of the Senedd, and</p> <p>(b) for the register to be published and made available for public inspection.</p> <p>(2) The standing orders must require Members of the Senedd to register in the register of interests registrable interests, as defined for the purposes of this subsection.</p> <p>(3) The standing orders must require any Member of the Senedd who has—</p> <p>(a) a financial interest, as defined for the purposes of this subsection, or</p> <p>(b) any other interest, or an interest of any other kind, as so defined, in any matter to declare that interest before taking part in Senedd proceedings relating to that matter.</p> <p>(4) The standing orders may include provision for preventing or restricting the participation in any Senedd proceedings of a Member of the Senedd who has an interest within subsection (2) or (3) in any matter to which the proceedings relate.</p> <p>(5) The standing orders must include provision prohibiting a Member of the Senedd from—</p> <p>(a) advocating or initiating any cause or matter on behalf of any person, by any means specified in the standing orders, in consideration of any payment or benefit in kind of a description so specified, or</p> <p>(b) urging, in consideration of any such payment or benefit in kind, any other Member of the Senedd to advocate or initiate any cause or matter on behalf of any person by any such means.</p> <p><del>(6) The standing orders must include provision about (or for the making of a code or protocol about) the different roles and responsibilities of Senedd constituency members and Senedd regional members; and—</del></p> <p><del>(a) Senedd constituency members must not describe themselves in a manner which suggests that they are Senedd regional members, and</del></p> <p><del>(b) Senedd regional members must not describe themselves in a manner which suggests that they are Senedd constituency members.</del></p> <p>(7) a Member of the Senedd who—</p> <p>(a) takes part in Senedd proceedings without having complied with, or in contravention of, any provision included in the standing orders in pursuance of subsections (2) to (4), or</p> <p>(b) contravenes any provision included in the standing orders in pursuance of subsection (5), commits an offence.</p> <p>(8) A person guilty of an offence under subsection (7) is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale.</p> <p>(9) A prosecution for an offence under subsection (7) cannot be instituted except by or with the consent of the Director of Public Prosecutions.</p> <p>(10) The validity of any Senedd proceedings is not affected by any contravention or failure to comply with any provision included in the standing orders in pursuance of this section.</p> <p>(11) In this section—</p> <p>(a) references to a Member of the Senedd <del>(apart from those in subsection (6))</del> include the Counsel General, if not a Member of the Senedd, and</p> <p>(b) “financial interest” includes a benefit in kind.</p>	<p>Rhan 2 Adran 10(6)</p>
--	-------------------------------

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall

<p><b>41 Proceedings by or against [Senedd] etc</b></p> <p>(1) Proceedings by or against the [Senedd] are to be instituted by or against the [Senedd] Commission on behalf of the [Senedd].</p> <p>(2) Proceedings by or against—</p> <p>(a) the Presiding Officer or <del>Deputy Presiding Officer</del> <u>a Deputy Presiding Officer</u>, or</p> <p>(b) a member of the staff of the [Senedd],</p> <p>are (unless instituted against or by the [Senedd] Commission) to be instituted by or against the [Senedd] Commission on behalf of the Presiding Officer, Deputy Presiding Officer or member of staff.</p> <p>(3) In any proceedings against the [Senedd] the court must not grant a mandatory, prohibiting or quashing order or an injunction, make an order for specific performance or stay the proceedings but may instead make a declaration.</p> <p>(4) In any proceedings against—</p> <p>(a) any [Member of the Senedd],</p> <p>(b) the Presiding Officer or <del>Deputy Presiding Officer</del> <u>a Deputy Presiding Officer</u>,</p> <p>(c) any member of the staff of the [Senedd], or</p> <p>(d) the [Senedd] Commission,</p> <p>the court must not grant a mandatory, prohibiting or quashing order or an injunction, make an order for specific performance or stay the proceedings if the effect of doing so would be to give any relief against the [Senedd] which could not have been given in proceedings against the [Senedd].</p> <p>(5) References in this section to an order include an order which is not final.</p>	<p>Rhan 1 Adran 4(3)</p>
<p><b>51 Limit on number of Ministers</b></p> <p>(1) No more than <del>twelve</del> <u>17</u> persons are to hold a relevant Welsh Ministerial office at any time.</p> <p>(2) A relevant Welsh Ministerial office means the office of Welsh Minister appointed under section 48 or the office of Deputy Welsh Minister.</p> <p><u>(3) The Welsh Ministers may by regulations amend subsection (1) to increase the maximum number of holders of a relevant Welsh Ministerial office—</u></p> <p><u>(a) from 17 to 18 or 19;</u></p> <p><u>(b) from 18 to 19.</u></p> <p><u>(4) The power in subsection (3) may not be used to lower the maximum number (including by revoking regulations made under that subsection).</u></p> <p><u>(5) A statutory instrument containing regulations under subsection (3) may not be made unless –</u></p> <p><u>(a) a draft of the instrument has been laid before the Senedd, and</u></p> <p><u>(b) the number of Members of the Senedd voting in favour of a resolution of the Senedd approving the draft is at least two-thirds of the total number of Senedd seats.</u></p>	<p>Rhan 1 Adran 5</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall

<p><b>148 Meaning of “Welsh public records”</b>  (2) The bodies and establishments referred to in subsection (1)(e) are—  (a) the Care Council for Wales,  (aa) the Citizen Voice Body for Health and Social Care, Wales,  (aa) the Commission for Tertiary Education and Research,  (c) the Curriculum and Assessment Authority for Wales,  <del>(ca) the Democracy and Boundary Commission Cymru,</del>  (d) Family Practitioner Committees for localities in Wales,  (e) the Further Education Funding Council for Wales,  (f) the General Teaching Council for Wales,  (g) health service hospitals, within the meaning of the National Health Service (Wales) Act 2006, in Wales,  (h) the Higher Education Funding Council for Wales,  <del>(i) the Local Government Boundary Commission for Wales,</del>  (j) the National Council for Education and Training for Wales,  (k) National Health Service Authorities for districts or localities in Wales, or for areas in or consisting of Wales, including National Health Service trusts all of whose hospitals, establishments and facilities are situated in Wales,  (ka) the Natural Resources Body for Wales,  (l) the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales,  (la) Qualifications Wales,  (m) the Wales Centre for Health, and  (n) the Welsh Board of Health.</p>	<p>Atodlen 1  Paragraff 40</p>
<p><b>159 Index of defined expressions</b>  In this Act the following expressions are defined or otherwise explained by the provisions indicated—  ...  constituency vote ————— section 6(2)  ...  the Deputy Presiding Officer ————— section 25(1)(b)  ...  electoral region figure ————— section 8(5)  electoral region vote ————— section 6(3)  ...  regional returning officer ————— section 7(7)  ...  Senedd constituency member ————— section 1(2)(a)  Senedd electoral region ————— section 2(2) and (3)  ...  Senedd regional member ————— section 1(2)(b)</p>	<p>Rhan 1  Adran 4(4)    a    Rhan 2  Adran 10(7)</p>
<p><b>SCHEDULE 1A Disqualification from being a Member of the Senedd or a Candidate in an Election to be a Member of the Senedd</b>    <b>PART 1 Categories of Persons Disqualified</b>  ...  <i>Persons not registered in electoral register at an address in Wales</i>  <u>8 A person who is not registered in the register of local government electors at an address within a Senedd constituency.</u></p>	<p>Rhan 1  Adran 6</p>
<p><b>SCHEDULE 1A Disqualification from being a Member of the Senedd or a Candidate in an Election to be a Member of the Senedd</b>  ...  ...</p>	<p>Rhan 2  Adran 10(8)</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall

<p><b>PART 2 Offices that disqualify the holder</b> <i>TABLE</i></p> <p><i>Offices and bodies in respect of which there are disqualifying offices</i></p> <p>Comptroller and Auditor General or Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol</p> <p><u>Democracy and Boundary Commission Cymru or Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru</u></p> <p>...</p> <p><del>Local Democracy and Boundary Commission for Wales or Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru</del></p> <p>...</p> <p>Returning officers for Senedd elections</p> <p>...</p>	<p>Rhan 3 Adran 16(3)</p> <p>Rhan 1 Paragraff 41</p>
<p><b>SCHEDULE 11 Transitional provisions</b></p> <p><b>35(3) Functions conferred or imposed by pre-commencement enactment: Parliamentary and Assembly procedure</b> <i>TABLE 1</i></p> <p><i>Function</i></p> <p>...</p> <p>Section 68(3) of that Act, if exercised to amend or repeal any enactment contained in an Act.</p> <p><del>Section 20(1) of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000.</del></p> <p>...</p>	<p>Atodlen 1 Paragraff 42</p>
<p><i>Description</i></p> <p>...</p> <p>Power to make provision relating to Ombudsman's functions and expenses.</p> <p><del>Power to transfer functions of the Local Government Boundary Commission for Wales.</del></p>	

## Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

Adran	Diwygir gan
<p><b>Enw byr</b>  <del>Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013</del>  <del>Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013</del></p>	<p>Rhan 3                      Adran 11 (1)</p>
<p><b>1 Trosolwg</b>                      (1) Mae'r Rhan hon yn rhoi trosolwg o ddarpariaethau'r Ddeddf hon.                      (2) <del>Mae Rhan 2 yn ailenwi'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ac yn diwygio ei gyfansoddiad a'i swyddogaethau.</del>  <u>(2) Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfansoddiad a swyddogaethau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.</u>                      (3) Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch—                      (a) dyletswyddau'r Comisiwn i fonitro'r trefniadau ar gyfer llywodraeth leol a, lle y bo'n briodol, i gynnal adolygiadau, a dyletswyddau prif gynghorau i fonitro'r trefniadau ar gyfer y cymunedau yn eu hardal a, lle y bo'n briodol, i gynnal adolygiadau (gweler adrannau 21 a 22),                      (b) y mathau o adolygiadau y gellir eu cynnal, yr ystyriaethau i'r corff adolygu eu hystyried a'r newidiadau y gellir eu hargymell mewn perthynas â phob math o adolygiad (gweler adrannau 23 i 33),                      (c) y weithdrefn ar gyfer cynnal adolygiadau (gweler adrannau 34 i 36),                      (d) gweithredu argymhellion yn dilyn adolygiad a materion cysylltiedig (megis trosglwyddo staff neu eiddo rhwng prif gynghorau a chyrff cyhoeddus eraill) (gweler adrannau 37 i 44).  <u>(3A) Mae Rhan 3A yn gwneud darpariaeth ynghylch adolygiadau o ffiniau etholaethau'r Senedd a gynhelir gan y Comisiwn.</u>                      (4) Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch adolygu aelodaeth cyrff cyhoeddus penodol.                      (5) Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth—                      (a) ynghylch penodi aelod llywyddol prif gyngor;                      (b) sy'n ailddatgan ac yn ymestyn pwerau awdurdodau lleol mewn perthynas â hyrwyddo a gwrthwynebu Biliau preifat;                      (c) sy'n ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth cynghorau cymuned fod ar gael ar ffurf electronig;                      (d) ynghylch cyhoeddi cofrestrau o fuddiannau aelodau cyrff cyhoeddus penodol (gan gynnwys awdurdodau lleol) yn electronig;                      (e) yn ymwneud â mynychu cyfarfodydd prif gynghorau o bell;                      (f) yn ymwneud â rôl pwyllgorau gwasanaethau democrataidd;                      (g) sy'n cymhwyso gofynion o ran cydbwysedd gwleidyddol i bwyllgorau archwilio prif bwyllgorau;                      (h) yn ymwneud â swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a sut y mae'n paratoi adroddiadau;                      (i) ynghylch sefydlu cyd-bwyllgorau safonau;                      (j) sy'n galluogi'r pwyllgor safonau neu swyddog monitro awdurdod perthnasol i gyfeirio achosion sy'n ymwneud ag ymddygiad at bwyllgor safonau neu swyddog monitro awdurdod perthnasol arall.                      (6) Mae Rhan 6 yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch y Ddeddf hon.</p>	<p>Atodlen 1                      Paragraff 44(2)                       Atodlen 3                      Paragraff 2(2)</p>
<p><b><u>2 Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru</u></b>                      (1) Mae'r corff corfforaethol a enwir yn Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (a sefydlwyd o dan adran 53 o Ddeddf 1972) i barhau mewn bodolaeth.</p>	<p>Rhan 3                      Adran 12(1)                       Atodlen 1                      Paragraff 44 (3)</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall

<p><del>(2) Ond mae wedi ei ailenwi, ac mae i'w alw'n Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y cyfeirir ato yn y Ddeddf hon fel "y Comisiwn")</del>  (3) <u>Mae'r corff corfforedig hwnnw (a ailenwyd gyntaf gan is-adran (2)) wedi ei ailenwi yn Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (y cyfeirir ato yn y Ddeddf hon fel "y Comisiwn")</u></p>	
<p><b>4 Aelodaeth</b>  (1) Yr aelodau a ganlyn fydd aelodau'r Comisiwn—  (a) aelod i gadeirio'r Comisiwn (yr "aelod cadeirio"),  (b) aelod i weithredu fel dirprwy i'r aelod cadeirio, ac  <del>(c) dim mwy na 3 aelod arall.</del> <u>(c) o leiaf 1 aelod arall ond dim mwy na 7 o aelodau eraill</u>  (2) Mae'r aelodau i'w penodi gan Weinidogion Cymru ar delerau ac amodau a benderfynir gan Weinidogion Cymru (gan gynnwys amodau o ran tâl, lwfansau a threuliau).  (3) Ni chaiff Gweinidogion Cymru benodi person sydd yn—  (a) aelod Seneddol;  <del>(b) aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru;</del> <u>(b) Aelod o'r Senedd</u>  <u>(ba) person a gymerir ymlaen gan Aelod o'r Senedd, o dan gontract gwasanaeth neu gontract am wasanaethau, mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau'r Aelod;</u>  <u>(bb) person</u>  <u>(bc) cyngorydd arbennig a benodir i gynorthwyo Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban neu un o Weinidogion y Goron;</u>  (c) aelod o awdurdod lleol yng Nghymru;  (d) swyddog i awdurdod lleol yng Nghymru;  (e) aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;  (f) comisiynydd heddlu a throstedd ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru; neu  (g) aelod o staff y Comisiwn.</p>	<p>Rhan 3 Adran 13</p> <p>Rhan 3 Adran 14(1)</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall

<p><b>6 Trafodion</b></p> <p>(1) 3 yw'r cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r Comisiwn.  <b>(1A) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio is-adran (1) i newid y cworwm, ond ni chânt newid y cworwm i rif sy'n is na 3.</b>  (2) Fel arall, caiff y Comisiwn reoleiddio ei weithdrefn ei hun.  (3) Nid yw unrhyw ddiffyg ym mhenodiad aelod yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir gan y Comisiwn.</p>	<p>Rhan 3 Adran 15</p>
<p><b>8 Prif weithredwr</b></p> <p>(1) Rhaid i'r Comisiwn gyflogi prif weithredwr.  (2) Mae'r prif weithredwr i'w benodi gan y Comisiwn ar delerau ac amodau a benderfynir ganddo (gan gynnwys amodau o ran tâl, pensiwn, lwfansau a threuliau).  (2A) Ond os yw swydd prif weithredwr wedi bod yn wag am dros chwe mis, caiff Gweinidogion Cymru benodi prif weithredwr o dan unrhyw delerau ac amodau a bennir ganddynt (gan gynnwys amodau o ran cydnabyddiaeth ariannol, pensiwn, lwfansau a threuliau).]  (3) Cyn penodi prif weithredwr o dan is-adran (2A), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn.  (4) Ni chaiff y prif weithredwr fod—  (a) yn aelod Seneddol;  (b) yn Aelod o'r Senedd;  <b>(ba) person a gymerir ymlaen gan Aelod o'r Senedd, o dan gontract gwasanaeth neu gontract am wasanaethau, mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau'r Aelod;</b>  <b>(bb) person a gymerir ymlaen gan blaid wleidyddol gofrestrdig o dan gontract gwasanaeth neu gontract am wasanaethau;</b>  <b>(bc) cyngorydd arbennig a benodir i gynorthwyo Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban neu un o Weinidogion y Goron;”</b>  (c) yn aelod o awdurdod lleol;  (d) yn swyddog awdurdod lleol;  (e) yn aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;  (f) yn gomisiynydd heddlu a throstedd ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru.]  (5) Rhaid i'r Comisiwn, wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon, roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.</p>	<p>Rhan 3 Adran 14(2)</p>



Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall

<p><b>11 Comisiynwyr cynorthwyol</b></p> <p>(1) <del>Caiff y Comisiwn benodi person (“comisiynydd cynorthwyol”) y caiff, at ddibenion adran 13, ddirprwyo swyddogaethau iddo. (1) Caiff y Comisiwn benodi un neu ragor o bersonau (a elwir yn “comisiynydd cynorthwyol”) y caiff y Comisiwn ddirprwyo swyddogaethau iddo yn unol ag adran 13(1).</del></p> <p>(2) Ond ni chaiff y Comisiwn benodi person sydd yn—</p> <p>(a) aelod Seneddol;</p> <p><del>(b) aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru;</del> <b>(b) Aelod o'r Senedd;</b></p> <p><b>(ba) person a gymerir ymlaen gan Aelod o'r Senedd, o dan gontract gwasanaeth neu gontract am wasanaethau mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau'r Aelod;</b></p> <p><b>(bb) person a gymerir ymlaen gan blaid wleidyddol gofrestredig o</b></p> <p><b>(bc) dan gontract gwasanaeth neu gontract am wasanaethau; cynghorydd arbennig a benodir i gynorthwyo Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban neu un o Weinidogion y Goron;”.</b></p> <p>(c) aelod o awdurdod lleol ...;</p> <p>(d) swyddog i awdurdod lleol ...;</p> <p>(e) aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;</p> <p>(f) comisiynydd heddlu a throstedd ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru; neu</p> <p>(g) aelod o staff y Comisiwn.</p> <p>(3) Cyn penodi comisiynydd cynorthwyol rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru.</p> <p>(4) Caiff y Comisiwn dalu unrhyw dâl, lwfansau neu dreuliau a benderfynir ganddo i gomisiynydd cynorthwyol.</p> <p>(5) Rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn penderfynu ar y tâl neu'r lwfansau sy'n daladwy i gomisiynydd cynorthwyol.</p>	<p>Rhan 3 Adran 16(1)</p>
<p><b>13 Dirprwyo</b></p> <p>(1) <del>Caiff y Comisiwn ddirprwyo i un neu fwy o'i aelodau neu gomisiynydd cynorthwyol un neu fwy o'i gomisiynwyr cynorthwyol y swyddogaethau hynny o dan</del></p> <p><b>(a) Penodau 2 i 4, 6 neu 7 o Ran 3 (swyddogaethau sy'n ymwneud â chynnal adolygiadau o lywodraeth leol neu ymchwiliadau lleol);</b></p> <p><b>(b) Rhan 3A (swyddogaethau sy'n ymwneud ag adolygiadau o ffiniau etholaethau'r Senedd);</b></p> <p><b>(c) Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (swyddogaethau sy'n ymwneud ag adolygiadau cychwynnol), fel a benderfynir ganddo i'r graddau y mae wedi eu dirprwyo felly.</b></p> <p><del>Benodau 2 i 4, 6 neu 7 o Ran 3 o'r Ddeddf hon (swyddogaethau ynghylceynnal adolygiadau o lywodraeth leol neu ymchwiliadau lleol), Rhan 3A o'r Ddeddf hon (swyddogaethau sy'n ymwneud ag adolygiadau o ffiniau etholaethau'r Senedd)” neu Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (swyddogaethau sy'n ymwneud ag adolygiadau eychwynnol), a benderfynir ganddo i'r graddau y mae wedi eu dirprwyo felly.</del></p> <p>(2) Nid yw is-adran (1) yn effeithio ar—</p> <p>(a) cyfrifoldeb y Comisiwn dros arfer swyddogaethau dirprwyedig, na</p> <p>(b) gallu'r Comisiwn i arfer swyddogaethau dirprwyedig.</p>	<p>Rhan 3 Adran 16(2)</p> <p>Atodlen 3 Paragraff 2(3)</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall

<p><b>14 Cyfarwyddiadau</b></p> <p>(1) Rhaid i'r Comisiwn gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd (boed yn gyffredinol neu'n benodol) a roddir iddo gan Weinidogion Cymru.</p> <p>(2) Caniateir i gyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf hon gael ei amrywio neu ei ddirymu drwy gyfarwyddyd dilynol.</p> <p><u>(3) Nid yw'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn yn ymwneud ag arfer ei swyddogaethau o dan Ran 3A (swyddogaethau sy'n ymwneud ag adolygiadau o ffiniau etholaethau'r Senedd).</u></p>	<p>Atodlen 3 Paragraff 2(4)</p>
<p>43 Amrywio a dirymu gorchymynion</p> <p>(1) Ac eithrio fel y mae'r adran hon yn darparu ar ei gyfer, ni chaniateir amrywio na dirymu gorchymynion a wneir o dan yr adran hon neu adran 37, 38 neu 39 <u>gan Weinidogion Cymru, y Comisiwn na, yn ôl y digwydd, y prif gyngor.</u></p> <p>(2) Caiff Gweinidogion Cymru, y Comisiwn neu, yn ôl y digwydd, brif gyngor drwy orchymyn amrywio neu ddirymu—</p> <p>(a) unrhyw ddarpariaeth mewn gorchymyn a wneir o dan yr adran hon neu adran 37, 38 neu 39 y disgrifir ei math yn adran 40(2);</p> <p>(b) unrhyw ddarpariaeth debyg mewn gorchymyn a wneir o dan adran 67 (trefniadau canlyniadol a throsiannol) neu a wneir yn rhinwedd adran 255 (trosglwyddo swyddogion) yn Neddf 1972.</p> <p>(3) Ac eithrio fel y darperir yn is-adrannau (4) a (5), dim ond y personau neu'r corff a wnaeth y gorchymyn sy'n cynnwys y ddarpariaeth sydd i'w hamrywio neu i'w dirymu ("y gorchymyn gwreiddiol") a gaiff wneud gorchymyn i amrywio neu ddirymu darpariaeth o'r math a ddisgrifir yn is-adran (2).</p> <p>(4) Caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn o dan yr adran hon pan fo'r gorchymyn gwreiddiol—</p> <p>(a) wedi ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac y bo'n ymwneud â Chymru, neu</p> <p>(b) wedi ei wneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y'i cyfansoddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998).</p> <p>(5) Caiff prif gyngor wneud gorchymyn o dan yr adran hon pan fo'r gorchymyn gwreiddiol wedi ei wneud gan gyngor a'i rhagflaenodd ac nad yw'n bodoli mwyach.</p> <p>(6) Ond dim ond i'r graddau y mae'n ymwneud ag ardal y prif gyngor y caiff gorchymyn a wneir yn unol ag is-adran (5) amrywio neu ddirymu darpariaeth yn y gorchymyn gwreiddiol.</p> <p>(7) Cyn gwneud gorchymyn o dan is-adran (2), rhaid i Weinidogion Cymru, y Comisiwn neu, yn ôl y digwydd, y prif gyngor gydymffurfio ag is-adrannau (8) a (9).</p> <p>(8) Rhaid i Weinidogion Cymru, y Comisiwn neu, yn ôl y digwydd, y prif gyngor—</p> <p>(a) anfon copi o'r drafft o'r gorchymyn i unrhyw awdurdod lleol neu gorff cyhoeddus y mae'r gorchymyn yn debygol o effeithio arno yn eu barn hwy neu yn ei farn ef,</p> <p>(b) cyhoeddi'r gorchymyn drafft mewn modd sy'n debygol, yn eu barn hwy neu yn ei farn ef, o'i ddwyn i sylw personau a chanddynt fuddiant yn y gorchymyn o bosibl,</p> <p>(c) sicrhau bod copi o'r gorchymyn drafft ar gael i bersonau a chanddynt fuddiant edrych arno yn y manau hynny sy'n briodol yn eu barn hwy neu yn ei farn ef, a</p>	<p>Atodlen 1 Paragraff 5(2)</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall

<p>(d) gwahodd sylwadau mewn perthynas â'r gorchymyn drafft o fewn y cyfnod o 2 fis sy'n dechrau ar y dyddiad cyhoeddi o dan baragraff (b).</p> <p>(9) Rhaid i Weinidogion Cymru, y Comisiwn neu, yn ôl y digwydd, y prif gyngor ystyried unrhyw sylwadau sy'n dod i law o fewn y cyfnod o 2 fis a chânt addasu'r gorchymyn yng ngoleuni'r sylwadau hynny.</p> <p>(10) Pan fo Gweinidogion Cymru, y Comisiwn neu, yn ôl y digwydd, brif gyngor yn fodlon bod camgymeriad wedi digwydd wrth lunio gorchymyn o dan yr adran hon neu adran 37, 38 neu 39 caiff Gweinidogion Cymru, y Comisiwn neu'r prif gyngor, drwy orchymyn, wneud unrhyw ddarpariaeth y maent hwy neu y mae ef o'r farn ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus er mwyn cywiro'r camgymeriad hwnnw.</p> <p>(11) Yn is-adran (10) mae "camgymeriad", mewn perthynas â gorchymyn, yn cynnwys darpariaeth a gynhwysir yn y gorchymyn neu a hepgorir ohono gan ddibynnu ar wybodaeth anghywir neu anghyflawn a roddir gan unrhyw gorff cyhoeddus.</p> <p>(12) Ni chaiff Gweinidogion Cymru, y Comisiwn neu, yn ôl y digwydd, brif gyngor arfer y pŵer yn is-adran (10) mewn perthynas â gorchymyn a wneir gan rywun arall.</p> <p>(12A) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, amrywio neu ddirymu gorchymyn o dan yr adran hon neu adran 37, 38 neu 39 (ni waeth pa un a wnaethant hwy y gorchymyn ai peidio) o ganlyniad i reoliadau o dan baragraff 9 neu 10 o Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.</p> <p>(13) Yn yr adran hon, mae i "corff cyhoeddus" yr un ystyr ag yn adran 40(6).</p>	
<p><b><u>RHAN 3A</u></b>  <b><u>ADOLYGIADAU O FFINIAU ETHOLAETHAU'R SENEDD</u></b>  <b><u>49A Adolygiadau o ffiniau etholaethau'r Senedd</u></b>  <u>(1) Rhaid i'r Comisiwn gynnal adolygiad o ffiniau etholaethau'r Senedd unwaith ym mhob cyfnod adolygu.</u>  <u>(2) Adolygiad o ffiniau etholaethau'r Senedd yw adolygiad o etholaethau'r Senedd at ddiben penderfynu a ddylai'r ffiniau hynny newid er mwyn rhoi effaith i'r rheolau a nodir yn adran 49C.</u>  <u>(3) Os yw'r Comisiwn yn penderfynu yn ystod adolygiad y dylai ffiniau etholaeth Senedd newid, rhaid i'r Comisiwn hefyd benderfynu—</u>  <u>(a) yr hyn ddylai fod yr enwau ar yr etholaethau yr effeithir arnynt;</u>  <u>(b) pa un a yw pob etholaeth yr effeithir arni yn etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol.</u>  <u>(4) Ond os yw'r Comisiwn yn penderfynu yn ystod adolygiad, er na ddylai ffiniau etholaeth Senedd newid, y dylai enw'r etholaeth newid neu y dylai ei dynodiad yn etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol newid, caiff y Comisiwn benderfynu—</u>  <u>(a) yr hyn ddylai fod yr enw ar yr etholaeth;</u>  <u>(b) pa un a ddylai fod yn etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol.</u>  <u>(5) At ddiben is-adran (1), ystyr "cyfnod adolygu" yw—</u>  <u>(a) y cyfnod sy'n dechrau ag 1 Ebrill 2025 ac sy'n dod i ben â 30 Tachwedd 2028,</u>  <u>(b) y cyfnod o 8 mlynedd sy'n dechrau ag 1 Rhagfyr 2028, ac</u>  <u>(c) pob cyfnod dilynol o 8 mlynedd.</u></p> <p><b><u>49B Hysbysiad cychwyn adolygiad ffiniau etholaethau'r Senedd</u></b>  <u>(1) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cychwyn adolygiad o ffiniau etholaethau'r Senedd, rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi hysbysiad—</u></p>	<p>Atodlen 3 Paragraff 1</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall

- (a) yn datgan bod y Comisiwn wedi cychwyn adolygiad, a  
(b) yn pennu'r dyddiad y cychwynnodd yr adolygiad arno.  
(2) Yn y Rhan hon, ystyr "dyddiad yr adolygiad" yw'r dyddiad a bennir yn yr hysbysiad o dan is-adran (1)(b).

#### **49C Rheolau ynghylch etholaethau**

- (1) Rhaid i'r etholyddiaeth ar gyfer pob etholaeth Senedd fod yn—  
(a) dim llai na 90% o'r cwota etholiadol, a  
(b) dim mwy na 110% o'r cwota etholiadol.  
(2) Wrth ystyried, yn ystod adolygiad o ffiniau etholaethau'r Senedd, pa un a ddylid gwneud newidiadau i etholaethau'r Senedd, a pha newidiadau y dylid eu gwneud—  
(a) caiff y Comisiwn roi sylw i—  
(i) ffiniau llywodraeth leol sy'n bodoli neu sy'n ddarpar ffiniau ar ddyddiad yr adolygiad;  
(ii) ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol faint, siâp a hygyrchedd etholaeth Senedd arfaethedig neu etholaeth Senedd bresennol;  
(iii) unrhyw gwllwm lleol a fydd yn cael ei dorri gan y newidiadau hynny; ond  
(b) sut bynnag, rhaid i'r Comisiwn—  
(i) ceisio sicrhau y gwneir cyn lleied o newidiadau â phosibl i etholaethau'r Senedd sy'n bodoli ar ddyddiad yr adolygiad, a  
(ii) rhoi sylw i'r anghyfleustra a achosir drwy wneud newidiadau i etholaethau'r Senedd.  
(3) At ddibenion is-adran (1)—  
(a) yr etholyddiaeth yw cyfanswm nifer yr etholwyr llywodraeth leol, a  
(b) y cwota etholiadol yw etholyddiaeth Cymru wedi ei rannu ag 16 (sef nifer etholaethau'r Senedd), ac  
at ddibenion paragraff (a), etholwr llywodraeth leol yw person sydd wedi ei gofrestru yn y fersiwn berthnasol o'r gofrestr o etholwyr llywodraeth leol mewn cyfeiriad o fewn etholaeth Senedd.  
(4) Y fersiwn berthnasol o'r gofrestr o etholwyr llywodraeth leol, ar ddyddiad yr adolygiad, yw'r fersiwn ddiweddaraf a gyhoeddwyd o dan adran 13(1)(a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p. 2).  
(5) Yn achos ffin llywodraeth leol sy'n ddarpar ffin ar ddyddiad yr adolygiad, y ffin honno (yn hytrach nag unrhyw ffin sy'n bodoli eisoes a ddisodlir ganddi) yw'r ffin y mae rhaid ei hystyried o dan is-adran (2)(a)(i).  
(6) Mae ffin llywodraeth leol yn "ddarpar ffin" ar ddyddiad yr adolygiad—  
(a) os yw'r ffin, ar y dyddiad hwnnw, wedi ei phennu mewn darpariaeth mewn—  
(i) deddfwriaeth sylfaenol, neu  
(ii) offeryn a wneir o dan ddeddfwriaeth sylfaenol, a  
(b) os nad yw'r ddarpariaeth sy'n pennu'r ffin mewn grym hyd hynny at bob diben ar y dyddiad hwnnw.  
(7) Yn is-adran (6), ystyr "deddfwriaeth sylfaenol" yw—  
(a) Deddf a ddeddfir o dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32);  
(b) Mesur a ddeddfwyd o dan Ran 3 o'r Ddeddf honno;  
(c) Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig.

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall

#### **49D Penderfynu ar enwau etholaethau'r Senedd**

(1) Rhaid i bob etholaeth Senedd gael enw unigol at ddibenion adnabod yr etholaeth mewn cyfathrebiad drwy'r Gymraeg a'r Saesneg, oni bai bod y Comisiwn yn ystyried y byddai hyn yn annerbyniol (os felly caniateir i'r etholaeth gael enwau gwahanol at ddibenion ei hadnabod mewn cyfathrebiad drwy'r Gymraeg a'r Saesneg).

(2) Cyn gwneud ei adroddiad cychwynnol (gweler adran 49E) rhaid i'r Comisiwn, os yw'n bwriadu gwneud cynnig yn ymwneud ag enw etholaeth Senedd—

(a) ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enw arfaethedig, a

(b) ystyried ei gynnig gan roi sylw i unrhyw sylwadau gan y Comisiynydd ar orgraff yr enw arfaethedig.

(3) Mae gofyniad o dan y Rhan hon i nodi enw neu enw arfaethedig etholaeth Senedd mewn adroddiad, pan fo'r Comisiwn yn ystyried y dylai'r etholaeth gael enwau gwahanol at ddibenion ei hadnabod mewn cyfathrebiad drwy'r Gymraeg a'r Saesneg, yn ofyniad i nodi'r ddau enw—

(a) yn fersiwn Gymraeg yr adroddiad, a

(b) yn fersiwn Saesneg yr adroddiad.

#### **49E Adroddiad cychwynnol ar yr adolygiad ffiniau a'r cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau**

(1) Ar ôl cymryd y camau yn adrannau 49B(1) a 49D(2), rhaid i'r Comisiwn wneud adroddiad cychwynnol yn nodi—

(a) cynigion y Comisiwn ar gyfer newid i—

(i) ffiniau etholaethau'r Senedd;

(ii) enwau etholaethau'r Senedd, neu

(b) os nad yw'n ystyried bod unrhyw newid yn briodol, datganiad i'r perwyl hwnnw.

(2) Rhaid i'r Comisiwn—

(a) cyhoeddi'r adroddiad cychwynnol,

(b) hysbysu unrhyw berson y mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn briodol ynghylch sut i gyrchu'r adroddiad,

(c) gwahodd sylwadau ar yr adroddiad, a

(d) hysbysu unrhyw berson y mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn briodol ynghylch y cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau.

(3) Yn ystod y cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg.

(4) Mae'r cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau yn gyfnod o wyth wythnos, gan ddechrau â'r dyddiad y cyhoeddir yr adroddiad cychwynnol.

#### **49F Cyhoeddi sylwadau ac ymgynghori arnynt**

(1) Ar ddiwedd y cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau, rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi dogfen yn nodi unrhyw sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod hwnnw (gan gynnwys unrhyw sylwadau ar yr adroddiad cychwynnol a wnaed gan Gomisiynydd y Gymraeg pan ymgynghorwyd â'r Comisiynydd o dan adran 49E(3)).

(2) Rhaid i'r Comisiwn hefyd—

(a) hysbysu unrhyw berson y mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn briodol ynghylch sut i gyrchu'r ddogfen a gyhoeddir o dan isadran (1),

(b) gwahodd sylwadau mewn cysylltiad â'r sylwadau a nodir yn y ddogfen a gyhoeddir o dan is-adran (1),

(c) hysbysu unrhyw berson y mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn briodol ynghylch yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau, a

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall

(d) cyhoeddi gwybodaeth ynghylch yr amseroedd a'r lleoedd y cynhelir gwrandawiadau cyhoeddus o dan adran 49G a, phan fo gwrandawiadau i'w cynnal yn rhannol wyneb yn wyneb ac yn rhannol drwy ddefnyddio cyfleusterau o bell, bennu cyfarwyddiadau ynghylch sut i wneud sylwadau drwy ddefnyddio cyfleusterau o bell.

(3) Mae'r ail gyfnod ar gyfer sylwadau yn gyfnod o chwe wythnos, gan ddechrau â'r dyddiad y cyhoeddir y ddogfen o dan is-adran (1).

(4) Yn is-adran (2)(d), ystyr "cyfleusterau o bell" yw unrhyw gyfarpar neu gyfleuster arall sy'n galluogi pobl nad ydynt yn y man lle y cynhelir y gwrandawriad i wneud sylwadau yn y gwrandawriad.

#### **49G Gwrandawiadau cyhoeddus**

(1) Yn ystod yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau, rhaid i'r Comisiwn gynnal o leiaf ddau o wrandawiadau cyhoeddus, ond nid mwy na phump o'r gwrandawiadau cyhoeddus hynny, i alluogi gwneud sylwadau ynghylch ei gynigion.

(2) Rhaid i'r gwrandawiadau cyhoeddus rhyngddynt gwmpasu Cymru gyfan.

(3) Rhaid i wrandawriad cyhoeddus gael ei gwblhau o fewn dau ddiwrnod.

(4) Os yw gwrandawriad i'w gynnal yn rhannol drwy ddefnyddio cyfleusterau o bell (o fewn yr ystyr a roddir yn adran 49F(4)), rhaid i'r cyfleusterau o bell alluogi'r bobl sy'n gwneud sylwadau yn y gwrandawriad ond nad ydynt yn y man lle y cynhelir y gwrandawriad i siarad ac i gael eu clywed gan (pa un a yw'n galluogi'r bobl hynny i weld ac i gael eu gweld ai peidio gan)—

(a) ei gilydd, a

(b) pobl yn y man lle y cynhelir y gwrandawriad.

(5) Rhaid i'r Comisiwn benodi person i fod yn gadeirydd ar bob gwrandawriad ("y cadeirydd").

(6) Rhaid i'r cadeirydd bennu'r weithdrefn sydd i lywodraethu'r gwrandawriad hwnnw.

(7) Rhaid i'r cadeirydd wneud trefniadau i wrandawriad cyhoeddus ddechrau gydag esboniad o—

(a) y cynigion y mae'r gwrandawriad yn ymwneud â hwy;

(b) sut y caniateir gwneud sylwadau ynghylch y cynigion.

(8) Rhaid i'r cadeirydd ganiatáu i sylwadau gael eu gwneud—

(a) gan bob plaid wleidyddol sydd wedi ei chofrestru o dan Ran 2 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p. 41) ac sydd naill ai—

(i) ag o leiaf un Aelod o'r Senedd, neu

(ii) wedi cael o leiaf 10% o'r pleidleisiau a fwriwyd yn yr etholiad cyffredinol mwyaf diweddar;

(b) gan unrhyw berson arall y mae'r cadeirydd yn ystyried bod ganddo fuddiant yn unrhyw un neu ragor o'r cynigion y mae'r gwrandawriad yn ymwneud â hwy (yn ddarostyngedig i is adran (9)(c)).

(9) Caiff y cadeirydd—

(a) pennu ym mha drefn y gwneir sylwadau;

(b) cyfyngu ar faint o amser a ganiateir ar gyfer sylwadau, ac nid oes angen iddo ganiatáu'r un faint o amser i bob person;

(c) os yw'n angenrheidiol oherwydd prinder amser, benderfynu pa rai o'r personau a grybwyllir yn is-adran (8)(b) nas caniateir iddynt wneud sylwadau.

(10) Caiff y cadeirydd holi cwestiynau i berson sy'n gwneud sylwadau yn y gwrandawriad, neu ganiatáu i gwestiynau cael eu holi i'r person

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall

hwnnw.

(11) Os caniateir holi cwestiynau, caiff y cadeirydd reoleiddio modd y cwestiynu neu gyfyngu ar nifer y cwestiynau y caiff person eu gofyn.

**49H Ail adroddiad ar yr adolygiad ffiniau a'r cyfnod terfynol ar gyfer sylwadau**

(1) Ar ddiwedd yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau—

(a) rhaid i'r Comisiwn ystyried ei gynigion gan roi sylw i'r sylwadau a wnaed yn ystod y cyfnod cyntaf ar gyfer sylwadau a'r ail gyfnod ar gyfer sylwadau, a

(b) os yw'r Comisiwn, ar ôl ystyried ei gynigion, yn bwriadu gwneud cynnig nas nodwyd yn yr adroddiad cychwynnol yn ymwneud ag enw etholaeth Senedd, rhaid iddo—

(i) ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enw arfaethedig, a

(ii) rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wnaed gan y Comisiynydd ar orgraff yr enw arfaethedig.

(2) Ar ôl cymryd y camau yn is-adran (1), rhaid i'r Comisiwn wneud ail adroddiad—

(a) yn nodi—

(i) cynigion y Comisiwn ar gyfer newid ffiniau ac enwau etholaethau'r Senedd, neu

(ii) os nad yw'r Comisiwn yn ystyried bod unrhyw newid yn briodol, ddatganiad i'r perwyl hwnnw;

(b) yn pennu manylion unrhyw newidiadau y mae'r Comisiwn wedi eu gwneud i'r cynigion a nodwyd yn yr adroddiad cychwynnol, ac esboniad ynghylch pam y gwnaed y newidiadau hynny.

(3) Rhaid i'r Comisiwn—

(a) cyhoeddi'r ail adroddiad,

(b) cyhoeddi dogfen—

(i) yn cynnwys cofnodion o'r gwrandawiadau cyhoeddus a gynhaliwyd o dan adran 49G, a

(ii) yn nodi unrhyw sylwadau (o'r math a ddisgrifir yn adran 49F(2)(b)) a gafwyd yn ystod yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau,

(c) hysbysu unrhyw berson y mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn briodol ynghylch sut i gyrchu'r adroddiad a'r ddogfen a gyhoeddwyd o dan baragraff (b),

(d) gwahodd sylwadau—

(i) ar yr adroddiad,

(ii) mewn cysylltiad ag unrhyw sylwadau a wnaed yn ystod y gwrandawiadau cyhoeddus, a

(iii) ar unrhyw sylwadau (o'r math a ddisgrifir yn adran 49F(2)(b)) a gafwyd yn ystod yr ail gyfnod ar gyfer sylwadau, a

(e) hysbysu unrhyw berson y mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn briodol ynghylch y cyfnod terfynol ar gyfer sylwadau.

(4) Yn ystod y cyfnod terfynol ar gyfer sylwadau rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg.

(5) Mae'r cyfnod terfynol ar gyfer sylwadau yn gyfnod o bedair wythnos, gan ddechrau â'r dyddiad y cyhoeddir yr ail adroddiad.

(6) Ar ddiwedd y cyfnod terfynol ar gyfer sylwadau rhaid i'r Comisiwn—

(a) cyhoeddi unrhyw sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod

hwnnw (gan gynnwys unrhyw sylwadau wnaed gan

Gomisiynydd y Gymraeg, pan ymgynghorwyd â'r

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall

Comisiynydd o dan is-adran (4), ar yr ail adroddiad ac ar y sylwadau a grybwyllir yn is-adran (3)(d)(ii) a (iii).

(b) ystyried ei gynigion gan roi sylw i'r sylwadau hynny, ac (c) os yw'r Comisiwn, ar ôl ystyried ei gynigion, yn bwriadu gwneud cynnig nas nodwyd yn yr ail adroddiad yn ymwneud ag enw etholaeth Senedd, rhaid iddo—

(i) ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar orgraff yr enw arfaethedig, a

(ii) rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wnaed gan y Comisiynydd ar orgraff yr enw arfaethedig.

#### **49I Adroddiad terfynol ar adolygiad ffiniau**

(1) Cyn 1 Rhagfyr 2028, a chyn 1 Rhagfyr bob wythfed flynedd ar ôl hynny, rhaid i'r Comisiwn—

(a) wneud adroddiad terfynol a'i gyhoeddi, a

(b) anfon yr adroddiad at Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid i'r adroddiad terfynol—

(a) naill ai—

(i) nodi manylion unrhyw newidiadau y mae'n ofynnol i'w gwneud i etholaethau'r Senedd, neu

(ii) datgan nad yw'n ofynnol gwneud unrhyw newid i etholaethau'r Senedd, a

(b) pennu manylion unrhyw newidiadau y mae'r Comisiwn wedi eu gwneud i'r cynigion a nodir yn yr ail adroddiad, ac esbonio pam y gwnaed y newidiadau hynny.

(3) Os yw'n ofynnol gwneud newidiadau i ffiniau etholaethau'r Senedd, rhaid i'r adroddiad terfynol nodi—

(a) ffiniau yr holl etholaethau y dychwelir Aelodau o'r Senedd ar eu cyfer,

(b) enwau'r holl etholaethau hynny, ac

(c) a yw pob etholaeth yn etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol.

(4) Os nad oes newid i'w wneud i ffiniau un o etholaethau'r Senedd ond bod angen newid y naill neu'r llall neu'r ddau o'r pethau a ganlyn—

(a) enw'r etholaeth;

(b) ei dynodiad yn etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol, rhaid i'r adroddiad terfynol nodi'r newid.

(5) Nid yw methiant gan y Comisiwn i gydymffurfio â therfyn amser yn is-adran (1) yn annilysu adroddiad terfynol.

(6) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i Weinidogion Cymru gael adroddiad terfynol, rhaid iddynt ei osod gerbron Senedd Cymru.

#### **49J Gweithredu adroddiad terfynol gan Weinidogion Cymru**

(1) Pan fo adroddiad terfynol yn nodi newidiadau y mae'n ofynnol i'w gwneud i etholaethau'r Senedd, rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn rhoi effaith i'r penderfyniadau yn adroddiad terfynol y Comisiwn—

(a) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl gosod yr adroddiad gerbron Senedd Cymru, a

(b) sut bynnag, oni bai bod amgylchiadau eithriadol, cyn diwedd y cyfnod o bedwar mis sy'n dechrau â'r dyddiad y gosodir yr adroddiad gerbron y Senedd.

(2) Pan na fo rheoliadau wedi eu gwneud cyn diwedd y cyfnod a grybwyllir yn is-adran (1)(b), rhaid i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron Senedd Cymru yn nodi'r amgylchiadau eithriadol.



Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall

(3) Rhaid i ddatganiad o dan is-adran (2) gael ei osod cyn diwedd y cyfnod o bedwar mis sy'n dechrau â'r dyddiad y gosodir yr adroddiad terfynol gerbron Senedd Cymru.

(4) Rhaid i ddatganiadau pellach sy'n nodi'r amgylchiadau eithriadol gael eu gosod gerbron Senedd Cymru cyn diwedd pob cyfnod dilynol o bedair wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod y gosodwyd y datganiad blaenorol, hyd nes bo'r rheoliadau wedi eu gwneud.

(5) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon wneud darpariaeth ar gyfer unrhyw faterion y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn ddeilliadol i'r penderfyniadau yn yr adroddiad terfynol, neu'n ganlyniadol arnynt.

(6) Rhaid i reoliadau o dan yr adran hon gael eu gwneud drwy offeryn statudol.

(7) Rhaid i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan yr adran hon gael ei osod gerbron Senedd Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r rheoliadau gael eu gwneud.

(8) Nid yw dod i rym y rheoliadau hyn yn effeithio ar ddychwelyd Aelod o'r Senedd i Senedd Cymru, na chyfansoddiad Senedd Cymru, hyd nes y diddymir y Senedd mewn cysylltiad â'r etholiad cyffredinol cyffredin nesaf.

(a) yr etholiad cyffredinol cyffredin nesaf, neu

(b) etholiad cyffredinol eithriadol, y cynhelir y bleidlais ar ei gyfer—

(i) yn ystod y cyfnod o fis sy'n gorffen â'r diwrnod cyn y diwrnod y byddai'r bleidlais ar gyfer yr etholiad cyffredinol cyffredin nesaf wedi ei chynnal o dan adran 3(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), gan

ddiystyru paragraffau (a) a (b) o'r is-adran honno, neu

(ii) ar y diwrnod y byddai'r bleidlais ar gyfer yr etholiad cyffredinol cyffredin nesaf wedi ei chynnal o dan adran 3(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan ddiystyru paragraffau (a) a (b) o'r is-adran honno.

#### **49K Addasu adroddiad terfynol gan y Comisiwn**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) pan fo Gweinidogion Cymru wedi gosod adroddiad terfynol gerbron Senedd Cymru o dan adran 49I(6),

(b) pan fo'r adroddiad yn nodi newidiadau y mae'n ofynnol i'w gwneud i etholaethau'r Senedd,

(c) pan fo'r Comisiwn yn ystyried bod angen addasu'r adroddiad i gywiro gwall neu wallau mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r materion a grybwyllir yn adran 49I(3) neu (4), a

(d) pan na fo'r rheoliadau wedi eu gwneud hyd hynny o dan adran 49J.

(2) Caiff y Comisiwn anfon datganiad at Weinidogion Cymru yn pennu—
